

# Cofnod y Trafodion

## The Record of Proceedings

### 01/10/2014

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol](#)  
[Questions to the Minister for Health and Social Services](#)

[Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad](#)  
[Questions to the Assembly Commission](#)

[Cynnig i Ddiwygio Rheol Sefydlog 26 mewn perthynas â Deddfau'r Cynulliad](#)  
[Motion to Amend Standing Order 26 in relation to Acts of the Assembly](#)

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Ardaloedd Menter](#)  
[Welsh Conservatives Debate: Enterprise Zones](#)

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Newid yn yr Hinsawdd](#)  
[Welsh Conservatives Debate: Climate Change](#)

[Dadl Plaid Cymru: Yr M4 o amgylch Casnewydd](#)  
[Plaid Cymru Debate: The M4 around Newport](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)  
[Voting Time](#)

[Dadl Fer: Cyfranogiad Etholwyr a Sut y Gallwn Gael Pethau'n lawn mewn perthynas â Democratiaeth](#)  
[Short Debate: A Participating Electorate, and How We Can Get It Right with Democracy](#)

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Questions to the Minister for Health and Social Services

### Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda

### Hywel Dda Local Health Board

13:30 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

*1. Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a rhanddeiliaid eraill ar y berthynas rhwng gofal sylfaenol a gofal brys yn ardal Llanelli? OAQ(4)0496(HSS)*

*1. What recent discussions has the Minister had with Hywel Dda University Health Board and other stakeholders on the relationship between primary and emergency care in the Llanelli area? OAQ(4)0496(HSS)*

13:31 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Thank you, Keith Davies, for the question. I visited Prince Philip Hospital earlier this year, when I met with a wide range of clinicians and other stakeholders involved in both primary and emergency care in the Llanelli area. I continue to discuss these matters at meetings with the health board, most recently on 9 September.

Diolch i chi, Keith Davies, am y cwestiwn. Ymwelais ag Ysbyty Tywysog Philip yn gynharach eleni, pan gyfarfûm ag ystod eang o glinigwyr a rhanddeiliaid eraill sy'n ymwneud â gofal sylfaenol a gofal brys yn ardal Llanelli. Rwy'n parhau i drafod y materion hyn mewn cyfarfodydd gyda'r bwrdd iechyd, y diweddaraf ohonynt ar 9 Medi.

13:31

**Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have always been clear about the need for doctors on site 24 hours a day, seven days a week at Prince Philip Hospital, and last week I met with the SOSPPAN group—Save Our Services Prince Philip Action Network—in Llanelli to discuss the plans for the Hospital, which Hywel Dda has now shared publicly. On Monday, I discussed the plans at a meeting with the chair and vice-chair of the health board. Having already seen the plans, I welcome the determination of Llanelli-based consultants to develop a new way of working based on patient flow and patient need. Minister, I trust that you are aware of this work and will do all that you can to support the university local health board in delivering this new model for the benefit of Llanelli residents.

Rwyf bob amser wedi dweud yn glir bod angen i feddygon fod ar y safle 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos yn Ysbyty Tywysog Philip, a'r wythnos diwethaf cyfarfûm â'r grŵp SOSPPAN— Rhwydwaith Gweithredu i Arbed Ein Gwasanaethau yn Ysbyty Tywysog Philip—yn Llanelli i drafod y cynlluniau ar gyfer yr Ysbyty y mae Hywel Dda bellach wedi eu rhannu yn gyhoeddus. Ddydd Llun, trafodais y cynlluniau mewn cyfarfod â chadeirydd ac is-gadeirydd y bwrdd iechyd. Gan i mi eisoes weld y cynlluniau, croesawaf benderfyniad ymgynghorwyr ardal Llanelli i ddatblygu ffordd newydd o weithio sy'n seiliedig ar lif cleifion ac anghenion cleifion. Weinidog, hyderaf eich bod yn ymwybodol o'r gwaith hwn ac y byddwch yn gwneud popeth a allwch chi i gefnogi bwrdd iechyd lleol y brifysgol i gyflwyno'r model newydd hwn er budd trigolion Llanelli.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:32

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to thank Keith Davies for that. I am indeed very well aware of the model of care that has been developed by clinicians at Prince Philip Hospital in Llanelli. When I visited the hospital earlier this year, it was one of the most encouraging meetings that I have had during the time that I have been Minister for health: to see the absolute determination of GPs, consultants and others involved in emergency care, and that they had the confidence to know that the model that they were developing was one that would serve the people of Llanelli well and would be sustainable into the future. I was very glad to see the health board publishing further details of the proposed model at the end of last week. I know that the SOSPPAN group, which has had its doubts in the past about the proposals that the health board has made, is making a constructive contribution now to making sure that the people of Llanelli get the care that they need.

Hoffwn ddiolch i Keith Davies am hynny. Yn wir, rwy'n gwbl ymwybodol o'r model gofal a ddatblygwyd gan glinigwyr yn Ysbyty'r Tywysog Philip yn Llanelli. Pan ymwelais â'r ysbyty yn gynharach eleni, dyma oedd un o'r cyfarfodydd mwyaf calonogol i mi ei gael ers i mi fod yn Weinidog Iechyd: gweld dygnwch ymroddedig meddygon teulu, ymgynghorwyr ac eraill sy'n ymwneud â gofal brys, a'r hyder oedd ganddynt i wybod bod y model roeddent yn ei ddatblygu yn un a fyddai'n gwasanaethu pobl Llanelli yn dda ac y byddai'n gynaliadwy yn y dyfodol. Roeddwn yn falch iawn o weld y bwrdd iechyd yn cyhoeddi rhagor o fanylion am y model arfaethedig ddiwedd wythnos diwethaf. Gwn fod grŵp SOSPPAN, a oedd ag amheuan am y cynigion a wnaeth y bwrdd iechyd yn y gorffennol, bellach yn gwneud cyfraniad adeiladol i sicrhau bod pobl Llanelli yn cael y gofal sydd ei angen arnynt.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:33

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, do you regret being part of a party that made promises before the last Assembly elections that no hospital would be downgraded but which then subsequently downgraded the accident and emergency department at Prince Philip Hospital?

Weinidog, a ydych yn difaru bod yn rhan o blaid a wnaeth addewidion cyn etholiadau diwethaf y Cynulliad na châi unrhyw ysbyty ei israddio, ond a aeth ymlaen wedyn i israddio'r adran damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty'r Tywysog Philip?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:33

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that the Member really ought to know better and to do better than that. He will, I imagine, have read the report of the expert scrutiny panel into services at Llanelli. [Interruption.] They are absolutely clear that the services there are not downgraded. He is absolutely wrong to say that. It is misleading, and he misleads people time after time. It is not downgraded. I repeat that again. [Interruption.] For him simply to keep on parroting in the background makes no difference to the facts on the ground. [Interruption.]

Credaf mewn gwirionedd y dylai'r Aelod wybod yn well a gwneud yn well na hynny. Bydd ef, rwy'n tybio, wedi darllen adroddiad y panel arbenigol a graffodd ar wasanaethau yn Llanelli. [Torri ar draws.] Maent yn gwbl glir nad yw'r gwasanaethau yno wedi eu hisraddio. Mae dweud hynny yn rhywbeth cwbl anghywir. Mae'n gamarweiniol, ac mae'n camarwain pobl dro ar ôl tro. Nid yw wedi ei israddio. Rwy'n ailadrodd hynny eto. [Torri ar draws.] Nid yw ei baldaruo parhaus ef yn y cefndir yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'r ffeithiau go iawn. [Torri ar draws.]

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:33

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. Darren Millar, are you expecting to be called later?

Trefn. Darren Millar, ydych chi'n disgwyl cael eich galw maes o law?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:33

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes.

Ydw.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:33 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)  
 You are expecting to be called later. Just think on that. Minister? Rydych chi'n disgwyl cael eich galw maes o law. Cofiwch hynny. Weinidog?
- 13:33 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)  
 It makes absolutely no difference to the views that the expert panel laid down. He would make a greater service to healthcare in Wales if he were prepared to read more, think more and cast slurs on what goes on a little less. Ni wna unrhyw wahaniaeth i'r farn a sefydlodd y panel arbenigol. Byddai ei wasanaeth i ofal iechyd yng Nghymru yn llawer mwy pe bai'n barod i ddarllen mwy, meddwl mwy a thafflu llai o sen ar yr hyn sy'n digwydd.
- 13:34 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)  
 Weinidog, wrth feddwl am strategaeth ar gyfer y gwasanaeth iechyd ac wrth feddwl am wasanaeth sy'n gynaliadwy i'r dyfodol, onid oes rhaid inni weld rhai ysbytai yn arbenigo mewn llawdriniaeth 'oer' nad ydynt yn faterion brys er mwyn sicrhau bod pob claf yng Nghymru sydd angen gwasanaeth yn cael gwasanaeth o'r ansawdd uchaf? Minister, when thinking about a strategy for the health service and when thinking about a service that is sustainable for the future, surely we should see some hospitals specialising in 'cold' surgery, namely non-urgent matters, to ensure that all patients in Wales who need services get a service of the highest quality?
- 13:34 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)  
 Wrth gwrs, rwy'n cytuno â'r hyn y mae'r Aelod yn ei ddweud. Rydym yn newid pethau ym maes gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd yng Nghymru, a rhaid inni wneud hynny. O ran dyfodol Ysbyty'r Tywysog Philip, y nod yw rhoi gofal i bobl lle gallwn gynllunio'r gofal o flaen llaw, ac mae pobl yn mynd i mewn i'r ysbyty hwnnw ac yn cael triniaeth arbennig o dda gan y clinigwyr sy'n rhoi gofal yn y sefyllfa honno. Ar yr un adeg, rydym yn bwrw ymlaen â chael gofal i bobl sydd eisiau cael gofal brys yn yr un ysbyty, ac rydym yn gallu gwneud y ddau beth gyda'i gilydd pan ydym yn aildrefnu'r gwasanaethau i fod yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Of course, I agree with what the Member says. We are making changes in terms of social services and health services in Wales, and we have to do that. In terms of the future for Prince Philip Hospital, the aim is to provide care to people where we can plan the care in advance, and people go into that hospital and get excellent treatment by the clinicians who provide treatment in that setting. At the same time, we are pressing ahead with providing care to those people who need emergency care in the same hospital, and we can do both things simultaneously when we reconfigure services to be sustainable for the future.

## Cynllun Gwên

## Designed to Smile

- 13:35 **Ann Jones** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)  
 2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y Cynllun Gwên? OAQ(4)0488(HSS) 2. Will the Minister make a statement on the Designed to Smile programme? OAQ(4)0488(HSS)
- 13:35 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)  
 I thank Ann Jones for that. Good progress is being made to build on Designed to Smile, the child oral health programme, to help to tackle oral health inequalities in our most disadvantaged communities. There are currently 87,318 children in 1,394 schools and nurseries across Wales participating in the programme. Diolch i Ann Jones am hynny. Mae cynnydd da ar y gweill i adeiladu ar Gynllun Gwên, rhaglen iechyd y geg ar gyfer plant, er mwyn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd y geg yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae 87,318 o blant mewn 1,394 o ysgolion a meithrinfeydd ar draws Cymru yn cymryd rhan yn y rhaglen ar hyn o bryd.

13:35

**Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for that, Minister. I was encouraged to read the new report by Public Health Wales, which shows that there has been a significant rise in the number of children who have no tooth decay. That has risen from 54% of children in 2012 up to 64%, which I think is significant, and should receive congratulation. I think that we have turned the corner with child oral health, and, if you will excuse the pun, we have stopped the rot. In light of this, what assessment can you now make, Minister, of how we encourage these young people to continue to go to their dentist, so that we make NHS dentistry available to these young people? Furthermore, how will you make sure that the Designed to Smile scheme continues to produce excellent results?

Diolch yn fawr iawn am hynny, Weinidog. Cefais fy nghalonogi wrth ddarllen adroddiad newydd Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n dangos y bu cynnydd sylweddol yn nifer y plant sydd heb unrhyw bydredd dannedd. Mae hynny wedi codi o 54% o blant yn 2012 i 64%, sydd, rwy'n credu, yn sylweddol, a dylid eu llongyfarch. Credaf ein bod wedi newid er gwell o ran iechyd y geg i blant, ac, os maddeuwch y gair mwys, rydym wedi cael gwared â'r pydredd. Yng ngoleuni hyn, pa asesiad a allwch chi ei wneud yn awr, Weinidog, o'r modd rydym yn annog y bobl ifanc hyn i barhau i fynd at eu deintydd, fel ein bod yn darparu deintyddiaeth y GIG ar gyfer y bobl ifanc hyn? Ar ben hynny, sut y byddwch yn sicrhau bod y Cynllun Gwên yn parhau i gynhyrchu canlyniadau rhagorol?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:36

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Ann Jones for that supplementary question. I agree with her completely. The Public Health Wales report, which was published in August, looked at the prevalence of dental decay in 12-year-olds, and showed that it has fallen from 63% to 36% in an eight-year period. That is very encouraging.

Diolch i Ann Jones am y cwestiwn atodol hwnnw. Rwy'n cytuno â hi yn llwyr. Mae adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Awst, yn edrych ar yr achosion o bydredd dannedd ymhlith plant 12 oed, ac yn dangos ei fod wedi gostwng o 63% i 36% mewn cyfnod o wyth mlynedd. Mae hynny'n galonogol iawn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The really important thing about the Designed to Smile programme is the way that it lays down habits very early in life, so that children who never see a toothbrush at home or never have an opportunity to practise good dental health learn it in school and take those habits home with them. There is good emerging evidence of the way in which that is making real inroads into dental inequality. If we are able to prevent harm—and this is eminently preventable—from happening, then we will have more opportunities within NHS dentistry to attend to those people who really need that help.

Y peth sy'n wirioneddol bwysig am y rhaglen Cynllun Gwên yw'r ffordd y mae'n sefydlu arferion yn gynnar iawn mewn bywyd, fel bod plant sydd byth yn gweld brws dannedd gartref neu byth yn cael cyfle i ymarfer iechyd deintyddol da yn dysgu hyn yn yr ysgol ac yn mynd â'r arferion gartref gyda nhw. Gwelwyd tystiolaeth dda o'r ffordd y mae hynny'n sicrhau gwelliant gwirioneddol o ran anghydraddoldeb deintyddol. Os gallwn atal y niwed cyn iddo ddigwydd—ac mae'n amlwg y gallwn—yna cawn ragor o gyfleoedd trwy ddeintyddiaeth y GIG i roi sylw i'r bobl hynny sydd wir angen y cymorth hwnnw.

13:37

**Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I admire the work that Designed to Smile has undertaken to tackle dental health issues in children. However, figures published in May showed that only half of Welsh adults had seen a dentist in the previous two years. There remain problems with obtaining an NHS dentist in certain parts of Wales, and that must contribute to these figures. So, what action is your Government taking to ensure that all the hard work in educating children on the value of good oral hygiene, through the Designed to Smile scheme, does not fall by the wayside when they become adults?

Weinidog, edmygaf y gwaith a wnaed gan Cynllun Gwên i fynd i'r afael â materion iechyd deintyddol mewn plant. Fodd bynnag, mae ffigurau a gyhoeddwyd ym mis Mai yn dangos mai dim ond hanner oedolion Cymru a welodd ddeintydd yn ystod y ddwy flynedd flaenorol. Erys problemau o ran dod o hyd i ddeintydd y GIG mewn rhai ardaloedd o Gymru, ac mae'n rhaid bod hyn yn cyfrannu at y ffigurau hyn. Felly, pa gamau y mae eich Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau nad yw'r holl waith caled a wneir yn addysgu plant am bwysigrwydd cynnal hylendid y geg trwy'r Cynllun Gwên, yn syrthio ar fin y ffordd wrth iddynt droi'n oedolion?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for what she says about Designed to Smile. It is true that access to NHS dentistry for adults has improved over recent years, but that there are parts of Wales where there is more that we want to do. I do not think that there is quite the connection that she makes between the availability of dentistry in adult life and the Designed to Smile programme, because the purpose of the programme is to concentrate our resources in the most disadvantaged communities, and to make sure that those children whose dental health would otherwise be disadvantaged get that extra help that they need, so that they go on to enjoy the best possible oral health in adulthood.

Diolch i'r Aelod am yr hyn a ddywed am y Cynllun Gwên. Mae'n wir fod mynediad at ddeintyddiaeth y GIG i oedolion wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae rhannau o Gymru lle mae mwy y dymunem ei wneud. Ni chredaf fod y cysylltiad a wna rhwng argaeledd deintyddiaeth i oedolion a'r rhaglen Cynllun Gwên mor gryf, oherwydd pwrpas y rhaglen yw canolbwyntio'n hadnoddau yn y cymunedau mwyaf difreintiedig, a gwneud yn siŵr bod y plant hynny y mae eu hiechyd deintyddol dan anfartais fel arall yn cael y cymorth ychwanegol hwnnw sydd ei angen arnynt, fel eu bod yn mynd ymlaen i fanteisio ar yr iechyd ceg gorau posibl pan fyddant yn oedolion.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:39

**Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Tra ydym yn ymfalchïo yn y Cynllun Gwên, mae problemau o ran darpariaeth yn y gogledd, lle mae pedair canolfan orthodonteg. Rwyf wedi cael gwbyodaeth sy'n awgrymu bod y rhestr aros yn Wrecsam yn wyth mis cyn ichi dderbyn triniaeth, ac yn ddwy flynedd yng Nghei Conna. Beth allwch chi fel Llywodraeth ei wneud i sicrhau nad yw'r plant a'r bobl ifanc hyn yn aros yn hir dros ben am driniaeth, os nad ydynt yn un o lwyddiannau y Cynllun Gwên?

While we take great pride in Designed to Smile, there are still problems regarding provision in north Wales, where there are four orthodontic centres. I have been given information suggesting that the waiting list in Wrexham is eight months before receiving treatment, and it is two years in Connah's Quay. What can you as a Government do to ensure that these children and young people are not waiting too long for treatment if they are not one of the successes of Designed to Smile?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

13:39

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Health and Social Care Committee recently held an inquiry into orthodontics in Wales, and we have an opportunity to debate its report here on the floor of the Assembly next week. What that will reveal, I believe, is that the reasons why we have waiting times for orthodontics in Wales is complex, that there is more than one reason that contributes to it, and that part of the solution is to make sure that we remodel the workforce, so that dentists themselves are doing more of the work that is currently passed up the line to consultants in hospitals. In addition, dentists themselves should be relieved of some of the work that they do by greater deployment of dental technicians and dental therapists, who are well able, clinically, to carry out work that, today, expensive dentists are employed to do.

Yn ddiweddar, cynhaliodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ymchwiliad i orthodonteg yng Nghymru, ac mae gennym gyfle i drafod ei adroddiad yma ar lawr y Cynulliad yr wythnos nesaf. Yr hyn y bydd yn ei ddatgelu, yn fy marn i, yw bod y rhesymau dros amserau aros orthodonteg yng Nghymru yn gymhleth, bod mwy nag un rheswm yn cyfrannu atynt, ac mai rhan o'r ateb yw sicrhau ein bod yn ailfodelu'r gweithlu, gyda'r deintyddion eu hunain yn gwneud mwy o'r gwaith a drosglwyddir ar hyn o bryd i ymgynghorwyr mewn ysbytai. Dylai'r deintyddion eu hunain, hefyd, gael eu rhyddhau o rai o'r tasgau a wnânt gan wneud mwy o ddefnydd o dechnegwyr deintyddol a therapyddion deintyddol, sy'n ddigon abl, yn glinigol, i wneud y gwaith hwnnw y cyflogir deintyddion drud i'w wneud ar hyn o bryd.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

**Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau**

**Questions Without Notice from Party Spokespeople**

13:40

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As this is the first time that we have had these questions to the Minister for health, I remind people that this is an opportunity to question, and I do not expect long preambles or speeches. We will start then with the Plaid Cymru spokesperson, Elin Jones.

Gan mai dyma'r tro cyntaf inni roi'r cwestiynau hyn i'r Gweinidog Iechyd, carwn atgoffa pobl mai cyfle i holi yw hwn, ac nid wyf yn disgwyl rhagymadroddion neu areithiau hir. Byddwn felly'n dechrau gyda llefarydd Plaid Cymru, Elin Jones.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

13:41

**Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Dyweddodd y Prif Weinidog ym Mehefin 2013 y byddai'r targed i drin 95% o gleifion canser brys o fewn 62 diwrnod yn cael ei gwrdd erbyn mis Hydref 2013. Mae yn awr yn fis Hydref 2014, ac nid yn unig nad yw'r targed wedi'i gwrdd erbyn hyn, ond mae'r perfformiad wedi gwaethygu dros y 15 mis diwethaf ers cyhoeddiad y Prif Weinidog. Pam?

The First Minister said, in June 2013, that the target to treat 95% of emergency cancer patients within 62 days would be met by October 2013. It is now October 2014, and not only has the target not been met, but performance has deteriorated over the last 15 months since the First Minister's announcement. Why?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

13:41

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that the reason is very simple, Llywydd, and it is that we are treating far more people within the 62-day target than ever before. We have this debate repeatedly on the floor of the Assembly, but it is not a particularly productive one. Nearly 1,000 more people have been seen within 62 days in the Welsh NHS over the last 12 months than in the 12 months before. The number of people we are having referred into the 62-day pathway is growing all the time, and that is very good news, because we know that the single biggest problem that we face in cancer treatment in Wales is the late identification of people who then present for treatment beyond the point at which effective interventions could have been offered. That is particularly true in our most disadvantaged communities. So, we have worked very hard with our GP communities—and we have discussed it here in the past—so that they identify people earlier in the pathway and refer them in quickly. That means that we have had 1,000 more people come into the 62-day pathway and who have been seen within 62 days than was the case the year before. That has the effect of driving the percentage seen within 62 days down a little. I wish that we could see everybody as quickly as we would like, but more people than ever before in Wales are being seen quickly.

Credaf fod y rheswm yn syml iawn, Llywydd, sef ein bod yn trin llawer mwy o bobl o fewn y targed 62-diwrnod nag erioed o'r blaen. Cawn y ddadl hon dro ar ôl tro ar lawr y Cynulliad, ond nid yw'n un arbennig o gynhyrchiol. Mae bron 1,000 yn fwy o bobl wedi cael eu gweld o fewn 62 diwrnod yn y GIG yng Nghymru dros y 12 mis diwethaf nag yn y 12 mis cynt. Mae nifer y bobl a gaiff eu hatgyfeirio i'r llwybr 62 diwrnod yn parhau i dyfu'n ddi-baid, ac mae hynny'n newyddion da iawn, gan y gwyddom mai'r broblem unigol fwyaf a wynebwn mewn triniaeth canser yng Nghymru yw darganfod y clefyd yn hwyr â'r cleifion wedyn yn cychwyn triniaeth y tu hwnt i'r pwynt lle gellid fod wedi cynnig ymyriadau effeithiol. Mae hynny'n arbennig o wir yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Felly, rydym wedi gweithio'n galed iawn gyda'n meddygon teulu cymunedol—a drafodwyd yma yn y gorffennol—fel eu bod yn canfod pobl yn gynharach ar y llwybr ac yn eu hatgyfeirio'n gyflym. Mae hynny'n golygu y daeth 1,000 yn fwy o bobl i mewn i'r llwybr 62 diwrnod a chael eu gweld o fewn 62 diwrnod nag a gafwyd y flwyddyn flaenorol. Mae hynny'n golygu bod y ganran a welwyd o fewn 62 diwrnod ychydig yn is. Byddai'n dda gennyf pe gallem weld pawb mor gyflym ag yr hoffem, ond mae mwy o bobl nag erioed o'r blaen yng Nghymru yn cael eu gweld yn gyflym.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:42

**Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A gaf eich atgoffa, Weinidog, mai eich targed chi yw hwn, nid targed y Cynulliad, nac yn sicr, ein targed ni fel plaid wleidyddol, a dyna pam yr ydym yn sgrwtineiddio eich perfformiad chi ar gwrdd â'r targed hwn. Mae rhai byrddau iechyd yng Nghymru yn weddol agos i gwrdd â'r targed hwnnw, ac eraill, fel Abertawe Bro Morgannwg, ymhellach ohoni. Felly, sut ydych chi wedyn yn esbonio'r gwahaniaeth perfformiad mewn gwahanol ardaloedd, a chan wahanol fyrddau iechyd, yn sgil eich ateb i'r cwestiwn cyntaf?

May I remind you, Minister, that this is your target, not the Assembly's target, and certainly not our target as a political party, and that is why we are scrutinising you on your performance in meeting this target? Some health boards in Wales are relatively close to meeting that target, while others, such as Abertawe Bro Morgannwg, are further away from meeting it. So, how then do you explain the difference in performance levels in different areas and by the various health boards, given your response to the previous question?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Very often, the difference in performance between one health board and another is a factor of very small numbers moving between different columns in that report. It takes only two or three people not to be seen within a 62-day target for a percentage difference to emerge. It is true, and the Member makes an important point, that there are some parts of our cancer system where the pathways that lead you as quickly as possible to a 62-day target are not as in place as firmly as they are in others. The national cancer board that is responsible for this has this as one of its main areas for consideration over the next 12 months.

Yn aml iawn, mae'r gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng un bwrdd iechyd ac un arall yn ffactor o niferoedd bach iawn yn symud rhwng gwahanol golofnau yn yr adroddiad hwnnw. Dim ond i ddau neu dri o bobl beidio â chael eu gweld o fewn targed 62 diwrnod, mae hyn yn creu gwahaniaeth canrannol amlwg. Mae'n wir, ac mae'r Aelod yn gwneud pwynt pwysig, fod rhai rhannau o'n gweithdrefn ganser lle nad yw'r llwybrau sy'n eich arwain cyn gynted â phosibl i darged 62 diwrnod mor gadarn eu strwythur ag eraill. Y bwrdd canser cenedlaethol sy'n gyfrifol am hyn a dyma a fydd un o'r prif feysydd i'w hystyried ganddo yn ystod y 12 mis nesaf.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

**Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Ddoe, gwnaeth eich Llywodraeth gyhoeddi £225 miliwn o arian ychwanegol i'r NHS ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, ac rwy'n croesawu hynny, wrth gwrs. Gofynnaf i chi felly pa flaenoriaethau y byddwch yn eu gosod i'r byrddau iechyd o ran gwario'r arian hwnnw, ac a fydd cwrdd â rhai o'ch targedau cenedlaethol chi fel Llywodraeth yn rhan o'r blaenoriaethau hynny—neu a fydd yr arian hwn yn diflannu i ryw dwll di-waelod yn y byrddau iechyd heb unrhyw flaenoriaeth wrthoch chi?

Yesterday, your Government announced £225 million of additional funding for the NHS for the next financial year, and I welcome that, of course. I ask you, therefore, which priorities you will set for the health boards in spending those funds, and will meeting some of your own national targets as a Government be part of those priorities—or will this funding disappear into some bottomless pit in the health boards without any priority from you?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



13:44

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Na, wrth gwrs, rydym yn siarad gyda'r byrddau iechyd am ein blaenoriaethau, ac mae cwrdd â'r targedau yn rhywbeth pwysig dros ben i'r NHS yng Nghymru. Rwyf wedi siarad yn barod y bore yma gyda chadeiryddion y byrddau iechyd a'r 'chief execs' hefyd am y pwynt hwnnw. Felly, byddwn yn canolbwyntio ar bethau sylfaenol yn y gwasanaeth iechyd. Hefyd, y flwyddyn nesaf, rwy'n gobeithio y byddwn yn gallu cael rhyw fath o arian i ganolbwyntio hefyd ar ofal sylfaenol yn y gymuned er mwyn gwneud yr hyn yr ydym ni yma yn y Cynulliad yn sôn amdano drwy'r amser, sef tynnu pobl mäs o ysbytai a chael mwy o driniaeth yn agosach i le mae pobl yn byw.

No, of course, we discuss our priorities with the health boards, and meeting those targets is extremely important for the NHS in Wales. I have spoken already this morning with the chairs of the health boards and the chief execs on that particular point. Therefore, we will focus on the fundamentals in the health service. Also, next year, I hope that we will be able to secure some funding in order to focus on primary care in the community to do what we here in the Assembly talk about endlessly, which is the need to take people out of hospitals and to provide treatment closer to their homes.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, may I say, 'Hallelujah'? You saw the light in terms of the need for extra resources for the national health service and, of course, it will be receiving some extra resources over the next few years. However, it is too little, too late for those communities that have seen services downgraded and seen hospitals close in recent years. It took the British Medical Association telling you that the national health service in Wales was facing imminent meltdown as a result of your mismanagement of the NHS. May I ask you, Minister, given that a number of health boards have already prepared three-year financial plans based on the previous financial settlements that they were anticipating, do you accept that some of those boards will now be feeling cheated that there will be more resource to go around for those that have extra resources allocated to them under the new proposals?

Weinidog, a gaf fi ddweud, 'Haleliwia'? Gwelsoch y golau o ran yr angen am adnoddau ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth iechyd gwladol ac, wrth gwrs, bydd yn derbyn rhai adnoddau ychwanegol dros y blynnyddoedd nesaf. Fodd bynnag, mae'n rhy ychydig ac yn rhy hwyr i'r cymunedau hynny sydd wedi gweld gwasanaethau'n cael eu hisraddio a gweld ysbytai yn cau yn y blynnyddoedd diwethaf. Bu'n rhaid i'r Gymdeithas Feddygol Brydeinig ddweud wrthyfch fod y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru ar y dibyn oherwydd eich bod yn camreoli'r GIG. A gaf fi ofyn i chi, Weinidog, o gofio bod nifer o fyrdau iechyd eisoes wedi paratoi cynlluniau ariannol tair blynedd yn seiliedig ar y setliadau ariannol blaenorol yr oeddent yn eu rhagweld, a ydych yn derbyn y bydd rhai o'r byrddau hynny'n awr yn teimlo iddynt gael eu twyllo gan fod mwy o adnoddau ar gael i'w rhannu ar gyfer y rhai sydd wedi cael adnoddau ychwanegol wedi'u dyrannu iddynt o dan y cynigion newydd?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that the Conservative Party's churlish response to yesterday's budget has been well noted around Wales. It absolutely will not do for them to pretend to welcome something on the one hand and to attack it on the other. I think that Darren Millar understands very well, because he was part of a very constructive scrutiny of the Bill that we took through the Assembly last year, that every three-year plan is renewed every year, so all boards that have had three-year plans approved, starting in the financial year in April just gone, will have a new three-year period beginning in April of next year. The planning for that has already begun. Boards will be submitting their revised and renewed three-year plans. They will be able to do so against the backdrop of the announcements that my colleague, the Minister for finance, made yesterday and there is absolutely no sense of disappointment among those organisations, I can assure him of that.

Credaf fod ymateb sarrug y Blaid Geidwadol i'r gyllideb ddoe wedi ei nodi yn dda ledled Cymru. Nid yw'n gwneud y tro o gwbl iddynt esgus eu bod yn croesawu rhywbeth ar y naill law ac ymosod arno ar y llaw arall. Credaf fod Darren Millar yn deall yn dda iawn, oherwydd roedd yn rhan o'r broses graffu adeiladol iawn ar y Mesur a gymerwyd drwy'r Cynulliad y llynedd, sef bod pob cynllun tair blynedd yn cael ei adnewyddu bob blwyddyn, felly bydd yr holl fyrdau sydd wedi cael cynlluniau tair blynedd wedi'u cymeradwyo, a ddechreuodd ym mlwyddyn ariannol mis Ebrill sydd newydd fynd heibio, yn cael cyfnod tair blynedd newydd gan ddechrau ym mis Ebrill y flwyddyn nesaf. Mae'r cynllunio ar gyfer hynny eisoes wedi dechrau. Bydd byrddau yn cyflwyno eu cynlluniau tair blynedd diwygiedig ar eu newydd wedd. Byddant yn gallu gwneud hynny yn wyneb y cyhoeddiadau y mae fy nghydweithiwr, y Gweinidog Cyllid, wedi'i wneud ddoe ac nid oes unrhyw ymdeimlad o siom ymhlith y sefydliadau hynny, gall fod yn sicr o hynny.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:47 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- One of the problems identified by the Nuffield report into NHS finances in Wales was that we do have a huge black hole that is developing as a result of increasing patient demand, demographic pressures and, indeed, the financial pressures facing the NHS, particularly in terms of its rising staff costs. May I ask you this question: will you give a commitment to increase on an annual basis, above inflation, the resources available to the NHS in Wales to ensure that it can meet those challenges going forward, just as a commitment has been given by the UK Government should it be returned after the general election next year?
- Un o'r problemau a nodwyd gan yr adroddiad Nuffield ar gyllid y GIG yng Nghymru oedd bod gennym dwll du enfawr yn datblygu o ganlyniad i alw cynyddol cleifion, pwysau demograffig ac, yn wir, mae'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r GIG, yn enwedig o ran costau staff cynyddol. A gaf fi ofyn y cwestiwn hwn i chi: a fyddwch yn rhoi ymrwymiad i gynyddu bob blwyddyn, yn uwch na chwyddiant, yr adnoddau sydd ar gael i'r GIG yng Nghymru er mwyn sicrhau y gall wynebu'r heriau hynny wrth symud ymlaen, yn union fel yr ymrwymiad a roddodd Llywodraeth y DU os caiff ei dychwelyd ar ôl yr etholiad cyffredinol y flwyddyn nesaf?
- 13:48 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I am glad that Darren Millar has drawn attention to the Nuffield report, because that is the basis of all the discussions that we have had inside Government over the summer, as the Minister for finance and I gave a commitment that we would carry out. Nuffield does not say that there is a huge black hole lying in front of the health service. What the report says is that, provided that the health service goes on making the efficiency gains that are there to be made, and provided that Government is to respond to meeting the gap that will still be there because of demography and rising demand, as he says, the national health service will go on being sustainable well into the future. It takes an amazing sense of gall to come here and ask me to give a year-on-year commitment when his Chancellor of the Exchequer stood up only two days ago and promised £26 billion-worth of cuts in public expenditure, as a very likely contingency, if his Government is re-elected. How could anyone provide the sort of assurance that he is asking for against that sort of background? He knows that perfectly well.
- Rwy'n falch bod Darren Millar wedi tynnu sylw at adroddiad Nuffield, oherwydd dyna yw sail yr holl drafodaethau yr ydym wedi'u cael yn y Llywodraeth yn ystod yr haf, fel y bu i'r Gweinidog Cyllid a minnau ymrwymo y byddem yn ei wneud. Nid yw Nuffield yn dweud bod twll du enfawr yn gorwedd o flaen y gwasanaeth iechyd. Yr hyn y mae'r adroddiad yn ei ddweud yw, ar yr amod bod y gwasanaeth iechyd yn parhau i wneud yr arbedion effeithlonrwydd sydd yno i gael eu gwneud, ac ar yr amod bod y Llywodraeth yn ymateb i lenwi'r bwlch a fydd yn dal i fod yno oherwydd demograffeg a galw cynyddol, fel y dywed, y bydd y gwasanaeth iechyd gwladol yn parhau i fod yn gynaliadwy ymhell i'r dyfodol. Haerlugarwydd o'r mwyaf yw dod yma a gofyn imi roi ymrwymiad blwyddyn ar ôl blwyddyn pan safodd Canghellor y Trysorlys ei blaid ar ei draed dim ond dau ddiwrnod yn ôl gan ddarogan gwerth £26 biliwn o doriadau posibl mewn gwariant cyhoeddus, os caiff ei Lywodraeth ei hail-ethol. Sut y mae modd i unrhyw un roi'r sicrwydd y mae'n gofyn amdano yn erbyn cefndir o'r math hwnnw? Mae'n gwybod hynny'n iawn.
- 13:49 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- The people of Wales are still suffering as a result of the legacy of financial mismanagement that was propagated by the previous UK Labour Government, but one thing— [Interruption.]
- Mae pobl Cymru yn dal i ddiodef o ganlyniad i waddol y camreoli ariannol a gyflawnwyd gan Lywodraeth Lafur flaenorol y DU, ond mae un peth— [Torri ar draws.]
- 13:49 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Order. Trefn.
- 13:49 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- One thing that, of course, has happened elsewhere in the UK is that national health service budgets have been prioritised, unlike your Government here in Wales has done. May I ask you one final question in relation to NHS finances?
- Un peth sydd, wrth gwrs, wedi digwydd mewn manau eraill yn y Deyrnas Unedig sef bod cyllidebau'r gwasanaeth iechyd gwladol wedi cael eu blaenoriaethu, yn wahanol i'r hyn y mae eich Llywodraeth chi yma yng Nghymru wedi ei wneud. A gaf fi ofyn un cwestiwn olaf i chi mewn perthynas â chyllid y GIG?
- 13:49 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, one final question. Cewch, un cwestiwn olaf.



13:49	<b>Darren Millar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> In the current financial year, it is estimated that there is going to be a significant financial gap, that is, before this current financial year ends. What plans do you have to ensure that the national health service is properly resourced to be able to meet the black hole in its finances for the current financial year?	Yn y flwyddyn ariannol gyfredol, amcangyfrifir y bydd bwlch ariannol sylweddol, hynny yw, cyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Pa gynlluniau sydd gennych i sicrhau bod y gwasanaeth iechyd gwladol yn cael adnoddau priodol i allu cwrdd â'r twll du yn ei gyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:50	<b>Mark Drakeford</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> The Minister for finance announced yesterday, as part of her budget announcement, an extra £200 million for the NHS in the current financial year. I am surprised that the health spokesman appears to have missed that. That is a very significant sum of money indeed, and it will help us to do exactly what we want to do, which is to make sure that the NHS this year, the NHS next year and the NHS the year after that, goes on providing the services that the people in Wales so very much value and appreciate.	Cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid ddoe, fel rhan o gyhoeddiad y gyllideb, fod £200 miliwn ychwanegol ar gyfer y GIG yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Rwy'n synnu ei bod yn ymddangos i'r llefarydd iechyd golli hynny. Dyma swm sylweddol iawn o arian yn wir, a bydd yn ein helpu i wneud yn union yr hyn yr ydym eisiau ei wneud, sef sicrhau bod y GIG yn y flwyddyn hon, y GIG y flwyddyn nesaf a'r GIG y flwyddyn wedyn, yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau y mae pobl yng Nghymru yn eu mawr werthfawrogi.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:50	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> We now move to the Welsh Liberal Democrats' spokesperson, Kirsty Williams.	Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:50	<b>Kirsty Williams</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats</i> Thank you, Presiding Officer. Minister, in June, following the publication of disappointing Welsh ambulance response time targets, you said,	Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, ym mis Mehefin, yn dilyn cyhoeddi targedau siomedig amseroedd ymateb y gwasanaeth ambiwlans yng Nghymru, dywedasoch,	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	'I expect an urgent improvement over the next three months.'	'Rwy'n disgwyl gwelliant ar frys dros y tri mis nesaf.'	
	Minister, are you satisfied that there has indeed been urgent improvement, given the publication of disappointing figures last week?	Weinidog, a ydych yn fodlon y cafwyd gwelliant ar frys, o ystyried y ffigurau siomedig a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf?	
13:51	<b>Mark Drakeford</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I am glad to see that there has been improvement in ambulance response times since those very disappointing figures that we discussed in June. What I want to see the ambulance service do is demonstrate to us that it has a recovery programme that, month-on-month, means that it is getting back to the levels of performance that we would want to have seen. I would like to say that, in this area, just as in the one that Elin Jones highlighted, we find ourselves in that same position. In September 2010, the ambulance service conveyed 68% of those people who called it to hospital within eight minutes. It is not going to do that in September this year, but it will convey 7,000 more people within eight minutes than it did four years ago, in 2010. Therefore, there is more than one measure of the performance of an organisation. In some measures, the ambulance service continues to provide a very valuable and necessary service. In other ways, we are looking for improvement to continue.	Rwy'n falch o weld y bu gwelliant mewn amseroedd ymateb y gwasanaeth ambiwlans ers y ffigurau siomedig iawn a drafodwyd gennym ym mis Mehefin. Yr hyn yr wyf am weld y gwasanaeth ambiwlans yn ei wneud yw dangos i ni fod ganddo raglen adfer, sy'n dangos o fis i fis ei fod yn ymgyrraedd at y lefelau perfformiad y byddem yn awyddus i'w gweld. Hoffwn ddweud, yn yr ardal hon, yn union fel yr un a nododd Elin Jones, cawn ein hunain yn yr un sefyllfa. Ym mis Medi 2010, bu i'r gwasanaeth ambiwlans fynd â 68% o'r bobl a alwodd y gwasanaeth i'r ysbyty o fewn wyth munud. Nid yw'n mynd i wneud hynny ym mis Medi eleni, ond bydd yn mynd â 7,000 yn fwy o bobl o fewn wyth munud nag yr oedd bedair blynedd yn ôl, yn 2010. Felly, mae mwy nag un mesur o berfformiad sefydliad. Mewn rhai mesurau, mae'r gwasanaeth ambiwlans yn parhau i ddarparu gwasanaeth gwerthfawr ac angenrheidiol iawn. Mewn ffyrdd eraill, rydym yn disgwyl i'r gwelliant barhau.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:52	<b>Kirsty Williams</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Thank you, Minister. What would the improvement that you are looking for look like for this month's figures?	Diolch i chi, Weinidog. Beth fyddai'r gwelliant y disgwylwch amdano ar gyfer ffigurau'r mis hwn?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

13:52 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I am not going to anticipate figures on the first day of a month. I want October to be better than September, and I want the trajectory of performance in the ambulance service to be the one that I described when I answered questions here before the summer recess.

Nid wyf am ddarogan ffigurau ar ddiwrnod cyntaf y mis. Rwyf am i fis Hydref fod yn well na Medi, a hoffwn i lwybr perfformiad y gwasanaeth ambiwlans fod yr un fath ag a ddisgrifiais pan atebais gwestiynau yn y man hwn cyn toriad yr haf.

13:52 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Of course, without significant improvements, some communities in Wales will still have response times that nobody in this Chamber could say were good enough. Part of the problem within the ambulance trust, it seems to me, is that some parts are performing well. Therefore, if you live in Wrexham or Bridgend, 70% of calls are reached within eight minutes. However, if you happen to live in Caerphilly or Rhondda Cynon Taf, less than half of the calls are reached within eight minutes. What analysis have you carried out of the fact that a supposed all-Wales ambulance trust is delivering results that are so varied in different parts of Wales?

Wrth gwrs, heb welliannau sylweddol, mae gan rai cymunedau yng Nghymru amseroedd ymateb na all neb yn y Siambr hon ddweud eu bod yn ddigon da. Rhan o'r broblem o fewn yr ymddiriedolaeth ambiwlans, mae'n ymddangos i mi, yw bod rhai rhannau yn perfformio'n dda. Felly, os ydych yn byw yn Wrecsam neu Ben-y-bont ar Ogwr, llwyddir i gyrraedd 70% o alwadau o fewn wyth munud. Fodd bynnag, os ydych yn digwydd byw yng Nghaerffili neu Rhondda Cynon Taf, llai na hanner y galwadau a gyrhaeddir o fewn wyth munud. Pa ddadansoddiad a wnaethoch o'r ffaith bod yr ymddiriedolaeth ambiwlans Cymru gyfan dybiedig yn cyflawni canlyniadau sydd mor amrywiol mewn gwahanol rannau o Gymru?

13:53 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

That is a very proper question for the Member to ask. It is something that concerns me, and I know that it concerns those who manage and run the ambulance service—that we do have this very differential performance between one part of Wales and another. It is not necessarily linked to things that you might think of, like rurality. Some of our best figures are in some of our more rural areas. The problems are concentrated in the south-east of Wales. There are issues, still, there to do with working practices, the way that services are organised and the way in which rosters can be filled. Those all contribute to some of the figures that she has pointed to. I answered a question in the Assembly very recently on the use of private ambulance capacity in the Welsh ambulance trust, and I made it clear that, in those parts of Wales where we are unable to fill rosters from WAST staff and others that we would like to be able to deploy, we will look elsewhere for the assistance that we need. That has only been in the south-east of Wales.

Mae hwnnw'n gwestiwn priodol iawn i'r Aelod ofyn. Mae'n rhywbeth sy'n peri pryder imi, a gwn ei fod yn ymwneud â'r rhai sy'n rheoli ac yn rhedeg y gwasanaeth ambiwlans—sef bod gennym y perfformiad gwahaniaethol iawn rhwng un rhan o Gymru a'r llall. Nid yw o reidrwydd yn gysylltiedig â'r pethau disgwylidig, fel natur wledig. Mae rhai o'r ffigurau gorau sydd gennym yn rhai o'n hardaloedd mwyaf gwledig. Mae'r problemau ar eu gwaethaf yn ne-ddwyrain Cymru. Mae yna problemau yn dal yno sy'n ymwneud ag arferion gwaith, y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu trefnu a'r ffordd y gellir llanw rhestrau dyletswyddau. Maent i gyd yn cyfrannu at rai o'r ffigurau y mae hi wedi tynnu sylw atynt. Atebais gwestiwn yn y Cynulliad yn ddiweddar iawn ar ddefnyddio gwasanaeth ambiwlans preifat ymddiriedolaeth ambiwlans Cymru, a dywedais yn glir, yn y rhannau hynny o Gymru lle na allwn lenwi rhestrau dyletswyddau gan staff WAST ac eraill yr hoffem allu eu defnyddio, byddwn yn edrych mewn mannau eraill am y cymorth sydd ei angen arnom. Dim ond yn ne-ddwyrain Cymru oedd hynny.

13:54 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

We now move back to questions on the paper, and question 3 is from William Graham.

Rydym bellach yn symud yn ôl i'r cwestiynau ar y papur, ac mae cwestiwn 3 oddi wrth William Graham.

### Amseroedd Ymateb Ambiwllans

### Ambulance Response Times

13:54 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar amseroedd ymateb ambiwlans yn Nwyrain De Cymru? OAQ(4)0486(HSS)

3. Will the Minister make a statement on ambulance response times for South Wales East? OAQ(4)0486

13:54 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health*

Response time performance in the south-east has not been where local health boards, the ambulance service or I would like it to be. I expect local health boards and the ambulance service to build on the recent recruitment of paramedics in the south-east and deliver immediate improvements.

Nid yw perfformiad amseroedd ymateb yn y de-ddwyrain, o ran byrddau iechyd lleol nac o'm rhan i, wedi bod yn foddhaol. Rwy'n disgwyl i fyrdau iechyd lleol a'r gwasanaeth ambiwlans ddatblygu ymhellach eu gwaith diweddar yn recriwtio parafeddygon yn y de-ddwyrain gan sicrhau gwelliannau ar unwaith.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:55 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very grateful to the Deputy Minister for his reply. I had asked him particularly about the availability of ambulance staff. Looking at the last statistics that the Aneurin Bevan health board received in September, in August, broadly 18,000 hours were expected, but 4,500 hours were lost. That means that there were no emergency ambulances and no rapid response vehicles available for 25% of the available time. They were not stacked up outside hospitals; they were not available for use. Clearly, Deputy Minister, you will know that this is a serious matter in south-east Wales. I have been asking these questions and others of various successive Ministers for the past 15 years. Now, we do not doubt your sincerity, but we are beginning to doubt how you are going to demonstrate some effectiveness.

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Dirprwy Weinidog am ei ateb. Roeddwn yn gofyn iddo yn benodol am argaeledd staff ambiwlans. O edrych ar yr ystadegau diwethaf a gafodd bwrdd iechyd Aneurin Bevan ym mis Medi, ym mis Awst, 18,000 awr oedd y disgwyliad bras, ond collwyd 4,500 awr. Mae hynny'n golygu nad oedd unrhyw ambiwlansys brys na dim cerbydau ymateb cyflym ar gael am 25% o'r amser sydd ar gael. Nid oeddent yn sefyll mewn rhesi y tu allan i ysbytaï; nid oeddent ar gael i'w defnyddio. Yn amlwg, Ddirprwy Weinidog, gwyddoch fod hyn yn fater difrifol yn ne-ddwyrain Cymru. Rwyf wedi bod yn gofyn y cwestiynau hyn ac eraill i'r naill Weinidog ar ôl y llall am y 15 mlynedd diwethaf. Nawr, nid ydym yn amau eich didwylledd, ond rydym yn dechrau amau sut yr ydych yn mynd i ddangos rhywfaint o effeithiolrwydd.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:55 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is a significant challenge for the ambulance service to deliver the type of performance that we would wish to see and which the service itself wishes to deliver for patients in Wales. On the point about working practices, you correctly identified rostering and making sure that we have the right staff available at the right time and in the right place. I met the chair of the ambulance trust today, together with the interim chief executive, and I was able to make clear the continuing expectation that the kind of improvement trajectory that we wish to see, as the Minister for health has described, is maintained, not simply for the figures that come out, but for October, November and through into the future. There is a point about immediate, short-term improvement, but sustained improvement does require a review and more reform of the way in which the ambulance service works now and in the future. It is a conversation that we will continue to have in this Chamber, and I have made it clear that it will be an issue that I will pay particular attention to, with the ambulance trust and health boards, during my time in office.

Mae'n her sylweddol i'r gwasanaeth ambiwlans ddarparu'r math o berfformiad y byddem yn dymuno ei weld ac y byddai'r gwasanaeth ei hun yn dymuno'i ddarparu i gleifion yng Nghymru. O ran arferion gwaith, roeddech yn gywir i nodi rhestrau dyletswyddau a sicrhau bod gennym y staff iawn ar gael ar yr adeg iawn ac yn y lle iawn. Cyfarfwm â chadeirydd yr ymddiriedolaeth ambiwlans heddiw, ynghyd â'r prif weithredwr dros dro, a gellais egluro'r disgwyliad parhaus bod y math o lwybr gwella yr hoffem ei weld, fel y disgrifiodd y Gweinidog iechyd, yn cael ei gynnal, nid yn unig o ran y ffigurau a gyflawnir, ond o ran mis Hydref, mis Tachwedd ac ymlaen i'r dyfodol. Y mae pwynt ynghylch gweliant sydyn tymor byr, ond mae gweliant parhaus yn galw am adolygiad a diwygiad pellach o'r ffordd y mae'r gwasanaeth ambiwlans yn gweithio yn awr ac yn y dyfodol. Mae'n sgwrs y byddwn yn parhau i'w chael yn y Siambr hon, ac rwyf wedi dweud yn glir y bydd yn fater y byddaf yn rhoi sylw arbennig iddo, gyda'r ymddiriedolaeth ambiwlans a'r byrddau iechyd, yn ystod fy nghyfnod yn y swydd.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:56 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, as has just been alluded to, the recruitment and training of front-line staff is clearly critical to ensuring that the Welsh ambulance service operates effectively. So, in light of this, will you explain, with an update, what the Welsh Government is doing to promote and support the recruitment of new paramedics?

Ddirprwy Weinidog, fel y nodwyd eisoes, mae recriwtio a hyfforddi staff rheng flaen yn amlwg yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gwasanaeth ambiwlans Cymru yn gweithredu'n effeithiol. Felly, yng ngoleuni hyn, a wnewch chi egluro, gan roi diweddariad, beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo a chefnogi'r gwaith o recriwtio parafeddygon newydd?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:57 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for the question. Again, you make an important point about the availability of enough staff as well. In April 2014—so, this year—the emergency ambulance services committee invested over £7.5 million of recurrent funding to recruit and retain 119 additional staff. They have recruited 67 since then, and I can confirm that, within the last week, 12 new paramedics have come on board into the service, with nine of those in the south-east. So, the south-east area, with the greatest volume of population to serve, is an area that will see a continued increase in paramedic numbers and availability, and not just in the number of staff, but in the skills they have and how those skills are used.

Diolch am y cwestiwn. Unwaith eto, rydych chi'n gwneud pwynt pwysig am argaeledd staff digonol hefyd. Ym mis Ebrill 2014—eleni, felly—bu i'r pwyllgor gwasanaethau ambiwlans brys fuddsoddi dros £7.5 miliwn o gyllid rheolaidd i recriwtio a chadw 119 o staff ychwanegol. Maent wedi recriwtio 67 ers hynny, a gallaf gadarnhau yr wythnos diwethaf, fod 12 o barafeddygon newydd wedi ymuno â'r gwasanaeth, gyda naw o'r rheiny yn y de-ddwyrain. Felly, mae ardal y de-ddwyrain, gyda'r boblogaeth fwyaf i'w gwasanaethu, yn faes a fydd yn gweld cynnydd parhaus yn nifer y parafeddygon ac argaeledd, ac nid dim ond yn nifer y staff, ond yn y sgiliau sydd ganddynt, a sut y defnyddir y sgiliau hynny.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:58 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, do you know what effect the performance of ambulance services is having on the hard-working, dedicated staff—drivers and paramedics—who deliver to the best of their ability? If you do know, do tell.

Ddirprwy Weinidog, a ydych yn gwybod pa effaith y mae perfformiad gwasanaethau ambiwlans yn ei chael ar y staff hynod ddiwyd ac ymroddedig hyn—yn yrwyr a pharafeddygon—sy'n cyflawni hyd eithaf eu gallu? Os gwddoch chi, a fydddech cystal â dweud.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:58 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The focus of attention on ambulance service performance is wholly understandable, and it is entirely understandable that people are looking for a sustained increase in performance. However, there is no getting away from the fact that the criticism that the ambulance service receives is an issue for staff morale. Unless we are able to reform the way in which staff resources are deployed, to deal with the recruitment issues, where money has been invested, then we are unlikely to see a sustained improvement in performance. After all, it is patient outcomes that we are talking about. It is also an issue not just for what the ambulance service does, but for its relationship with local health boards in ensuring that the handovers that we see take place in a more effective turnaround as well. So, there are a number of issues to deal with, and, as I said, in my meeting today with the chair of the trust and the interim chief executive, I made it very clear what my expectations are.

Mae'n gwbl ddealladwy bod ffocws y sylw ar berfformiad y gwasanaeth ambiwlans, ac mae'n gwbl ddealladwy bod pobl yn chwilio am gynnydd cyson mewn perfformiad. Fodd bynnag, nid oes dianc rhag y ffaith bod y feirniadaeth y mae'r gwasanaeth ambiwlans yn ei wynebu yn effeithio ar forâl y staff. Oni bai ein bod yn gallu diwygio'r ffordd y mae adnoddau staff yn cael eu defnyddio, er mwyn ymdrin â'r materion recriwtio, lle mae arian wedi cael ei fuddsoddi, na rydym yn annhebygol o weld gwelliant parhaus mewn perfformiad. Wedi'r cyfan, rydym yn sôn am ganlyniadau i gleifion. Mae hefyd yn fater nid yn unig ar gyfer yr hyn y mae'r gwasanaeth ambiwlans yn ei wneud, ond am ei berthynas â byrddau iechyd lleol o ran sicrhau ein bod yn gweld bod y broses o drosglwyddo cleifion yn fwy effeithiol hefyd. Felly, mae nifer o faterion angen sylw ac, fel y dywedais, yn fy nghyfarfod heddiw gyda chadeirydd yr ymddiriedolaeth a'r prif weithredwr dros dro, eglurais yn ddi-flewyn ar dafod beth yw fy nisgwyliaidau.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Arweinyddiaeth)

## The National Health Service (Leadership)

13:59 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar arweinyddiaeth o fewn y GIG yng Nghymru? OAQ(4)0478(HSS)

4. Will the Minister make a statement on leadership within the Welsh NHS? OAQ(4)0478(HSS)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:59 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Darren Millar for that question. Academi Wales continues to develop leadership capacity across NHS Wales. At Welsh Government level, we now have nationally appointed clinical leaders in five different clinical priority areas. On Friday last, I addressed a conference of Welsh clinical leaders at the first ever regional meeting of the UK Faculty of Medical Leadership and Management here in Cardiff.

Diolch i Darren Millar am y cwestiwn hwnnw. Mae Academi Wales yn parhau i ddatblygu gallu arweinyddiaeth ar draws GIG Cymru. Ar lefel Llywodraeth Cymru, rydym bellach wedi penodi arweinwyr clinigol cenedlaethol mewn pum maes blaenoriaeth glinigol gwahanol. Ddydd Gwener diwethaf, bu i mi annerch cynhadledd o arweinwyr clinigol Cymreig yng nghyfarfod rhanbarthol cyntaf erioed y DU o Gyfadran Arweinyddiaeth a Rheolaeth Feddygol yma yng Nghaerdydd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:59 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that response, Minister. I actually agree that clinical leads in particular are a very useful in addition to leadership in the Welsh national health service. However, one area where I am concerned with regard to leadership is the way in which Ministers appoint members to local health boards in Wales. There is not an independent process for the appointment of chairs, vice-chairs et cetera. Will you consider making changes to the appointments process to ensure that it is completely independent and that people are appointed on a merits-based system rather than sometimes what is perceived to be political party affiliation?
- Diolch i chi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mewn gwirionedd cytunaf fod arweinwyr clinigol, yn arbennig, yn ddefnyddiol iawn yn ogystal ag arweinyddiaeth yn y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru. Fodd bynnag, un maes lle rwy'n bryderus am arweinyddiaeth yw'r ffordd y mae Gweinidogion yn penodi aelodau i fyrdau iechyd lleol yng Nghymru. Nid oes proses annibynnol ar gyfer penodi cadeiryddion, is-gadeiryddion ac ati. A wnewch chi ystyried newid y broses benodi er mwyn sicrhau ei bod yn gwbl annibynnol a bod pobl yn cael eu penodi ar system sy'n seiliedig ar deilyngdod yn hytrach na'r hyn a ystyrir weithiau'n gysylltiadau â phlaid wleidyddol?
- 14:00 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- I entirely do not understand that question, because the process by which public appointments are made in Wales is scrupulously carried out according to the national system laid down. I see nothing as the Minister until I am made a recommendation by the panel that has carried out the shortlisting and the interviewing. Unless there are candidates who have scored identically through that system, the rules mean that I simply appoint the person who is recommended to me. I have done that every time that I have been involved in a public appointment in this job. There is absolutely no substance at all to what Darren Millar has just suggested.
- Ni allaf ddeall y cwestiwn hwnnw o gwbl, oherwydd mae'r broses ar gyfer gwneud penodiadau cyhoeddus yng Nghymru yn cael ei dilyn ymhob ffordd yn ôl y system genedlaethol a bennwyd. Nid wyf yn gweld dim fel Gweinidog nes bydd y panel sydd wedi gwneud y rhestr fer a chyfweld yn gwneud yr argymhelliad. Oni bai bod ymgeiswyr wedi sgorio'r un fath yn union drwy'r system honno, mae'r rheolau yn golygu fy mod yn syml yn penodi'r person sy'n cael ei argymhell i mi. Rwyf wedi gwneud hynny bob tro rwyf wedi bod yn ymwneud â swydd gyhoeddus ers i mi fod yn y swydd hon. Nid oes unrhyw sylwedd o gwbl i'r hyn y mae Darren Millar newydd ei awgrymu o gwbl.
- 14:01 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- As you said, Minister, you recently announced the appointment of senior doctors to act as clinical leads to improve both unscheduled and planned care in the NHS in Wales. Will there be further national clinical leadership appointments in the NHS? If so, in what areas will they be working?
- Fel y dywedaso, Weinidog, yn ddiweddar, bu i chi gyhoeddi penodi uwch feddygon i weithredu fel arweinwyr clinigol i wella gofal heb ei drefnu ac wedi'i gynllunio yn y GIG yng Nghymru. A oes bwriad i benodi arweinwyr clinigol cenedlaethol pellach yn y GIG? Os felly, ym mha feysydd y byddant yn gweithio?
- 14:01 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- I thank Sandy Mewies for that question. We have three other national clinical leads. We have Baroness Illora Finley, who is a long-standing national clinical lead in the field of palliative care, but I have recently made two further appointments: Dr Julia Platts has been appointed as the national diabetes lead for Wales, and Dr Paul Davies from Bronlais General Hospital has been appointed as the national stroke clinical lead for Wales. I am considering preliminary advice from officials at the moment as to whether or not a national clinical lead for primary care ought to be added to that roster.
- Hoffwn ddiolch i Sandy Mewies am y cwestiwn hwnnw. Mae gennyf dri arweinydd clinigol cenedlaethol eraill. Mae'r Farwnes Illora Finley, sy'n arweinydd clinigol cenedlaethol hir sefydlog ym maes gofal lliniarol, ond rwyf wedi gwneud dau apwyntiad pellach yn ddiweddar: Dr Julia Platts a benodwyd yn arweinydd diabetes cenedlaethol ar gyfer Cymru, a Dr Paul Davies o Ysbyty Cyffredinol Bronlais a benodwyd fel arweinydd clinigol strôc cenedlaethol i Gymru. Rwy'n ystyried cyngor rhagarweiniol gan swyddogion ar hyn o bryd o ran a ddylid ychwanegu arweinydd clinigol cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol at y rhestr ddyletswyddau.

14:02

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, one of the issues raised in the Andrews report on Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board was the failure of leadership in terms of tackling some of the issues and abuses that were taking place in the Princess of Wales Hospital and Neath Port Talbot Hospital, yet the people who are being penalised for it are the nurses; it appears that the leadership is effectively being allowed to carry on as before. I know that new management has been put in at the Princess of Wales Hospital, but what work are you doing to monitor the way in which that health board is now being led and how it is now managing patients' treatment so that further abuses do not occur?

Weinidog, un o'r materion a godwyd yn adroddiad Andrews ar Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg oedd methiant yr arweinyddiaeth o ran mynd i'r afael â rhai o'r problemau a'r achosion o gam-drin a oedd yn digwydd yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, ac eto, y bobl sy'n cael eu cosbi amdano yw'r nyrsys; ymddengys fod yr arweinyddiaeth i bob diben yn cael parhau fel cynt. Gwn fod rheolwyr newydd wedi eu penodi yn Ysbyty Tywysoges Cymru, ond pa waith ydych chi'n ei wneud i fonitro arweinyddiaeth y bwrdd iechyd yn awr a'r ffordd y mae yn awr yn rheoli triniaeth cleifion fel nad oes cam-drin pellach yn digwydd?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:02

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Peter Black for that question. He will recall that Professor June Andrews very directly in her report addressed the question as to whether or not the existing leadership of the ABMU health board was capable of discharging the responsibilities and the recommendations that she set out in her report over the subsequent 12 months. She concludes very directly that she believed that it was and that it should be held to account for that responsibility. The Member will know that, of the 18 recommendations that the Andrews report laid down, two were for completion within the first three months. My officials monitor that very closely and I receive reports on it. The health board believes that it has completed those first two recommendations, working very closely with its clinical and its patient communities. I intend to ask Professor Andrews to take a view on the extent to which those two recommendations have been fulfilled, and I can assure Peter Black that I take a very close and direct interest in the way in which the leadership of that board measures up to those responsibilities.

Diolch i Peter Black am y cwestiwn hwnnw. Bydd yn cofio bod yr Athro June Andrews yn uniongyrchol iawn yn ei hadroddiad wedi mynd i'r afael â'r cwestiwn ynghylch a yw arweinyddiaeth bresennol bwrdd iechyd PABM yn alluog i gyflawni'r cyfrifoldebau a'r argymhellion a nododd yn ei hadroddiad dros y 12 mis dilynol. Daeth i'r casgliad yn uniongyrchol iawn ei bod yn credu ei fod yn alluog ac y dylid ei ddal yn gyfrifol am y cyfrifoldeb hwnnw. Bydd yr Aelod yn gwybod, o'r 18 argymhelliad a nododd adroddiad Andrews fod dau i'w cwblhau o fewn y tri mis cyntaf. Mae fy swyddogion yn monitro hynny yn agos iawn ac rwy'n derbyn adroddiadau amdanynt. Mae'r bwrdd iechyd yn credu ei fod wedi cwblhau y ddau argymhelliad cyntaf, gan weithio'n agos iawn gyda'r gymuned glinigol a'r cleifion. Rwy'n bwriadu gofyn i'r Athro Andrews lunio barn ar y graddau y cyflawnwyd y ddau argymhelliad, a gallaf sicrhau Peter Black fy mod yn cymryd diddordeb agos ac uniongyrchol iawn yn y modd y mae arweinyddiaeth y bwrdd hwnnw'n ysgwyddo'r cyfrifoldebau hynny.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Gofal Iechyd Integredig

## Integrated Health Care

14:04

**Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynlluniau ar gyfer datblygu gofal iechyd integredig yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf? OAQ(4)0485(HSS)*

*5. Will the Minister make a statement on plans for developing integrated health care in the Cwm Taf University Health Board area? OAQ(4)0485(HSS)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:04

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Mick Antoniw. It is very good news that Cwm Taf was able to produce an approvable three-year plan in the first round of the new planning regime in place in NHS Wales. That three-year plan demonstrates a clear commitment, and a set of practical actions to integrate services in order to secure better outcomes for its patient population.

Diolch i Mick Antoniw. Mae'n newyddion da iawn bod Cwm Taf yn gallu cynhyrchu cynllun tair blynedd y gellir ei gymeradwyo yn rownd gyntaf y gyfundrefn gynllunio newydd sydd ar waith yn GIG Cymru. Mae'r cynllun tair blynedd hwnnw'n dangos ymrwymiad clir, ac yn gosod cyfres o gamau gweithredu ymarferol i integreiddio gwasanaethau er mwyn sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer ei boblogaeth o gleifion.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



14:04

**Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, Minister. I visited recently the Keir Hardie University Health Park model in Merthyr Tydfil with constituents and a number of local GPs, who were impressed not only with the integration of a diverse number of medical specialisms, of medical specialisms, but also by the speed of treatment, the quality of treatment and the quality of service that is being delivered. I understand that this is to be used as a model for Dewi Sant Hospital. Does the Minister agree that this is not only a progressive and positive way forward, but that it is also a model that could potentially be rolled out to other parts of Wales?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Ymwelais yn ddiweddar â model Parc Iechyd Prifysgol Keir Hardie ym Merthyr Tudful gydag etholwyr a nifer o feddygon teulu lleol, a oedd wedi eu plesio nid yn unig ag integreiddiad nifer amrywiol o arbenigeddau meddygol, ond hefyd gan gyflymder y driniaeth, ansawdd y driniaeth ac ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu. Rwy'n deall bod hyn yn cael ei ddefnyddio fel model ar gyfer Ysbyty Dewi Sant. A yw'r Gweinidog yn cytuno bod hon nid yn unig yn ffordd flaengar a chadarnhaol ymlaen, ond ei fod hefyd yn fodel y gellid ei gyflwyno i rannau eraill o Gymru?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:05

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Mick Antoniw for that. I too have visited the Keir Hardie University Health Park on a number of occasions. It is a tribute to the vision of the two key individuals on the ground who made it happen—Sir Mansel Aylwood and Dr Chris Jones, chair of the health board—and, indeed, to my predecessors for finding the funding to allow that innovative way of providing health services to go ahead. It does exactly what Mick Antoniw said: it brings under one roof a group of people who were previously scattered in different locations—not simply clinical staff but social services staff as well. It is very striking what a difference physical proximity makes. If you are able to just walk down the corridor and knock on the door of the person you need to speak to, those conversations happen quickly and effectively and that then translates into better services for people.

Diolch i Mick Antoniw am hynny. Rwyf finnau hefyd wedi ymweld â Pharc Iechyd Prifysgol Keir Hardie ar sawl achlysur. Mae'n deyrnged i weledigaeth y ddau unigolyn allweddol ar y ddaear a wnaeth iddo ddigwydd—Sir Mansel Aylwood a Dr Chris Jones, cadeirydd y bwrdd iechyd—, ac yn wir, i'm rhagflaenwyr am ddod o hyd i'r arian i ganiatáu'r ffordd arloesol o ddarparu gwasanaethau iechyd i fynd yn ei flaen. Mae'n gwneud yn union yr hyn a ddywedodd Mick Antoniw: mae'n dod â grŵp o bobl o dan yr un to a arferai fod yn wasgaredig mewn gwahanol leoliadau—nid dim ond staff clinigol ond staff y gwasanaethau cymdeithasol hefyd. Mae'n drawiadol iawn faint o wahaniaeth y mae agosrwydd ffigsegol yn ei gwneud. Os gallwch chi'n syml gerdded i lawr y rhodfa a churo ar ddrws y person rydych am siarad ag ef, gall y sgysiaid hynny ddigwydd yn gyflym ac yn effeithiol ac mae hyn wedyn yn creu gwasanaethau gwell i bobl.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:06

**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Minister, to have a good integrated healthcare system you need a functioning primary sector and access to that primary sector. Cwm Taf health board has had issues with recruiting GPs in particular, which is pretty much common across the whole of the UK. How is the Welsh Government working with Cwm Taf health board to attract GPs into areas with big social challenges to tackle? Ultimately, unless you get a successful formula in place, you really are not going to have the integrated health model that we would all like to see within our health service.

Weinidog, er mwyn cael system gofal iechyd integredig a da, rhaid i chi gael sector sylfaenol gweithredol a mynediad at y sector sylfaenol hwnnw. Cafodd Bwrdd Iechyd Cwm Taf broblemau yn recriwtio meddygon teulu yn arbennig, sy'n sefyllfa reit gyffredin ar draws y DU gyfan. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Cwm Taf i ddenu meddygon teulu i ardaloedd lle mae heriau cymdeithasol mawr i'w datrys? Yn y pen draw, os nad oes gennych fformiwla lwyddiannus ar waith, ni fedrwnch gael y model iechyd integredig y byddem i gyd yn hoffi ei weld yn ein gwasanaeth iechyd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:06

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Andrew Davies for that question; he makes important points. I am keen to work very closely with Cwm Taf because I believe that it has a set of ideas that will do what he was suggesting needs to be done. We have to find a way of attracting a new cadre of general practitioners into some of the most disadvantaged communities in Wales. If we are to do that, they will want to work in new ways. They will not simply wish to come in and replicate the ways in which GP services have been provided in the past. They will want to work more closely with a wider range of health professionals. They will want some new models; the general medical services model, which works very well in urban areas such as Cardiff, may not fit in Cwm Taf. We may need new salaried models to attract people who want to work in that sort of way. The good news is that the people on the ground in Cwm Taf have a very fertile set of ideas as to how to do that, and we as a Welsh Government are very keen to support them.

Diolch i Andrew Davies am y cwestiwn hwnnw; mae'n gwneud pwyntiau pwysig. Rwy'n awyddus i gydweithio'n agos iawn â Chwm Taf oherwydd credaf fod ganddynt set o syniadau a fydd yn gwneud yr hyn yr oedd ef yn awgrymu sydd angen ei wneud. Mae'n rhaid i ni ddod o hyd i ffordd o ddenu cnewyllyn newydd o ymarferwyr cyffredinol i mewn i rai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Os llwyddwn i wneud hynny, byddant yn awyddus i weithio mewn ffyrdd newydd. Ni fyddant yn syml yn dymuno dod i mewn ac ailadrodd y ffyrdd y mae gwasanaethau meddygon teulu wedi cael eu darparu yn y gorffennol. Byddant yn awyddus i weithio'n agosach gydag ystod ehangach o weithwyr iechyd proffesiynol. Byddant am gael modelau newydd; efallai na fydd y model gwasanaethau meddygol cyffredinol, sy'n gweithio'n dda iawn mewn ardaloedd trefol fel Caerdydd, yn addas yng Nghwm Taf. Efallai y byddwn angen modelau cyflogedig newydd i ddenu pobl sydd am weithio yn y ffordd honno. Y newyddion da yw bod gan bobl ar lawr gwlad yng Nghwm Taf gyfres ffrwythlon iawn o syniadau ynghylch sut i wneud hynny, ac rydym ni, Lywodraeth Cymru yn awyddus iawn i'w cefnogi.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:07

**Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

A central aspect of integrated care is the ability of patients to manage their chronic conditions, which will prevent future ill health and hospitalisation. However, sometimes it is the inappropriate use of these medicines that can cause problems—for example, if the patient is not on the correct dosage. You may be aware of the work done by Swansea University on how medicines management can help to ensure that patients are using their medications properly. However, one of the researchers has told my office of the frustration at the apparent lack of interest in their work from some health boards, which seemingly view medicines management as just being additional expenditure. Given the problems with medicines management that have been highlighted in a number of different reports, will you commit to working with Swansea University on ensuring that health boards adopt the best practice?

Agwedd ganolog ar ofal integredig yw gallu cleifion i reoli eu cyflyrau cronig, a fydd yn atal salwch a mynediad i'r ysbty yn y dyfodol. Fodd bynnag, weithiau gall y defnydd amhriodol o feddyginiaethau achosi problemau—er enghraifft, os nad yw'r daf yn cael y dogn cywir. Efallai eich bod yn ymwybodol o'r gwaith a wnaed gan Brifysgol Abertawe ar sut y gall rheoli meddyginiaethau helpu i sicrhau bod cleifion yn defnyddio'u meddyginiaethau yn gywir. Fodd bynnag, mae un o'r ymchwilyr wedi dweud wrth fy swyddfa am ei rwystredigaeth yn niffyg diddordeb rhai byrddau iechyd yn eu gwaith, sy'n rhoi'r argraff eu bod yn ystyried rheoli meddyginiaethau ddim ond yn wariant ychwanegol. O ystyried y problemau gyda rheoli meddyginiaethau a amlygwyd mewn nifer o adroddiadau gwahanol, a wnewch chi ymrwymo i gydweithio â Phrifysgol Abertawe i sicrhau bod byrddau iechyd yn mabwysiadu'r arferion gorau?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:08

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Leanne Wood for that point. I would be very keen to work with Swansea University on that agenda; it is a very important agenda for us in Wales. You will have seen research published only last week from Cardiff University demonstrating that, over a 22-year period, one in seven prescriptions for antibiotics issued by general practitioners, not in Wales but across the United Kingdom, were of no use to patients and probably did them harm by fostering microbial resistance. We need to do a huge amount in medicines management, and helping people to use the medicine that they get in the most effective way has to be a key part of that. If we can obtain help from Swansea University, I would be very keen to do that.

Hoffwn ddiolch i Leanne Wood am y pwynt hwnnw. Byddwn yn awyddus iawn i gydweithio â Phrifysgol Abertawe ar yr agenda honno; mae'n agenda bwysig iawn i ni yng Nghymru. Byddwch wedi gweld ymchwil a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf gan Brifysgol Caerdydd yn dangos, dros gyfnod o 22 mlynedd, nad oedd un o bob saith presgripsiwn ar gyfer gwrthfotigau a weinyddwyd gan feddygon teulu, nid yng Nghymru ond ar draws y Deyrnas Unedig, o ddim defnydd i gleifion ac yn ôl pob tebyg iddynt wneud eu niweidio drwy feithrin ymwrthedd microbaidd. Mae angen inni wneud llawer iawn o ran rheoli meddyginiaethau, ac mae'n rhaid bod helpu pobl i ddefnyddio'r feddyginiaeth y maent yn ei chael yn y ffordd fwyaf effeithiol yn rhan allweddol o hynny. Os gallwn ni gael cymorth gan Brifysgol Abertawe, byddwn yn awyddus iawn i wneud hynny.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:09

**Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The announcement of the new integrated service centre at Pontypridd is very welcome, Minister. However, we seem to be getting a drip feed of ad hoc announcements regarding service provision in this area. In a letter to Cwm Taf Community Health Council back in May, you said that you could not offer any detail of how the future health needs of the area would be met. Can you provide us with any more detail now, five months on, particularly on how, in an integrated model, transport difficulties will be overcome when there is so much pressure on the ambulance service in Rhondda Cynon Taf?

Mae'r cyhoeddiad am y ganolfan gwasanaeth integredig newydd ym Mhontypridd i'w groesawu'n fawr iawn, Weinidog. Fodd bynnag, ymddengys ein bod yn cael ein bwydo fesul dipyn â chyhoeddiadau ar hap o ran darpariaeth gwasanaeth yn y maes hwn. Mewn llythyr at Gyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf yn ôl ym mis Mai, dywedasoch na allech gynnig unrhyw fanylion am sut y byddai anghenion iechyd dyfodol yr ardal yn cael eu bodloni. A allwch chi roi unrhyw fanylion pellach yn awr, bum mis yn ddiweddarach, yn enwedig ynghylch sut, fel model integredig, y bydd anawsterau cludiant yn cael eu datrys pan fo cymaint o bwysau ar y gwasanaeth ambiwlans yn Rhondda Cynon Taf?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:10

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Eluned Parrott for that. What I can tell her is this: as she will know, in July, I announced £3.5 million of extra investment in primary care services in Wales. A sum of money—£300,000 of that—has been specifically set aside for action to be taken in the Cwm Taf area to address health inequalities. There are bids from all health boards, including Cwm Taf, for other parts of that money to improve primary care services in those areas. I hope to be able to make an announcement very soon on how that money will be allocated.

Hoffwn ddiolch i Eluned Parrott am hynny. Yr hyn y gallaf ei ddweud wrthi yw hyn: fel y gŵyr, ym mis Gorffennaf, cyhoeddais £3.5 miliwn o fuddsoddiad ychwanegol mewn gwasanaethau gofal sylfaenol yng Nghymru. Mae swm o arian—£300,000 o hynny—wedi ei neilltuo yn benodol ar gyfer camau i'w cymryd yn ardal Cwm Taf i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Mae ceisiadau gan bob bwrdd iechyd, gan gynnwys Cwm Taf, am rannau eraill o'r arian hwnnw i wella gwasanaethau gofal sylfaenol yn yr ardaloedd hynny. Gobeithiaf allu gwneud cyhoeddiad yn fuan iawn ar sut y caiff yr arian hwnnw ei ddyrannu.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

As to transport, I am very grateful to my colleague Edwina Hart who has provided some additional expertise from her department to my officials for us to work on transport issues. A very particular part of the work that has gone on is around access in the Rhondda Valley and to services there. We are making new investments—not just there but in other parts of Wales too—to tackle the very issue that the Member raises.

O ran trafnidiaeth, rwy'n ddiolchgar iawn i'm cydweithiwr, Edwina Hart, sydd wedi darparu rhywfaint o arbenigedd ychwanegol gan ei hadran ar gyfer fy swyddogion i'n galluogi i weithio ar faterion trafnidiaeth. Mae rhan arbennig iawn o'r gwaith a gyflawnwyd ynghylch mynediad yng Nghwm Rhondda a mynediad i wasanaethau yno. Rydym yn gwneud buddsoddiadau newydd—nid yno'n unig, ond mewn rhannau eraill o Gymru hefyd—i fynd i'r afael â'r union fater y mae'r Aelod yn ei godi.

**Monitro Paneli Adolygu Annibynnol Byrddau Iechyd Lleol**

**Monitoring of Local Health Board Independent Review Panels**

14:11

**Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar fonitro paneli adolygu annibynnol byrddau iechyd lleol?  
OAQ(4)0494(HSS)

6. Will the Minister make a statement on the monitoring of local health board independent review panels?  
OAQ(4)0494(HSS)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:11

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Julie Morgan for that. Independent review panels provide an additional safeguard for individuals who consider that their eligibility for continuing healthcare has not been correctly determined. Panels operate within a national framework provided by the Welsh Government. An external audit is planned of community health council appeals and retrospective claims.

Hoffwn ddiolch i Julie Morgan am hynny. Mae paneli adolygu annibynnol yn amddiffyniad ychwanegol ar gyfer unigolion sydd o'r farn nad yw eu cymhwyster ar gyfer gofal iechyd parhaus wedi'i bennu yn gywir. Mae paneli'n gweithredu o fewn fframwaith cenedlaethol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae archwiliad allanol yn cael ei gynllunio o apeladau cyngor iechyd cymuned a hawliadau ôl-weithredol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:11 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Minister for that response. How can the Welsh Government ensure the independent and objective monitoring of standards and the appraisal of performance of LHB independent review panels when their hearing appears on eligibility to NHS continuing care so as to be sure that panels are conducted in a manner compatible with the European convention on human rights, that hearings are chaired by suitable persons and that chairs understand the role of elected representatives in advocating for their constituents?
- 14:12 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank Julie Morgan for that; I know that she has taken a close interest in this matter from a constituency point of view. We take a number of steps to try to meet the objectives that she has just outlined. Chairs, for example, are appointed via the public appointments process, with the independence that that guarantees. We have a national training programme that is run out of Powys, where most CHC retrospective claims have been analysed. We have a national framework, published this year, which encourages a regional panel approach to try to make sure that we have greater consistency. LHBs have written to me recently asking whether a national pool of panel members would be a way of making sure that decisions are made in the right way. We have a training event going on in Cardiff today for panel members. The audit process that I referred to in my answer will cover the work of panels, so if there is inconsistency between them across Wales it will be exposed as part of the external audit that Cardiff University will carry out, and then we will be able to respond, if such problems are discovered.
- 14:13 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I understand that the consultation on the individual patient funding requests review closed earlier this year. I am sure that many Members have concerns about the consistency of decision making across Wales. In light of this review, has the Government considered a much more clinically led system, as exists in Scotland, where clinicians are much more at the forefront of the decision-making process?
- 14:13 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Llywydd, of course I can answer that question, although the question on the agenda is not about the IPFR process. We do indeed have the panel report that Paul Davies refers to. It looks very specifically at whether we should have a national panel for that purpose. It concluded that that was not the most sensible way forward and it looks to regional collaboration between IPFR panels. Where it goes in the direction that he is suggesting is in the work that it suggests should be carried out by the All Wales Therapeutics and Toxicology Centre here in Cardiff so that we get early warning of drugs that are coming into the system. If the same drugs are being processed through different panels, we get a combined idea of what those drugs are being requested for and we drive up consistent decision making across Wales.

- 14:14 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
 Pwy sy'n penodi'r paneli hyn a sut mae cael gwybodaeth am eu haelodaeth?  
 Who appoints these panels and how do we get information about their membership?
- 14:14 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
 The panels that Julie Morgan asked about in her question are appointed by LHBs themselves. Their membership is advertised directly on LHB websites.  
 Mae'r paneli y gofynnodd Julie Morgan amdanynt yn ei chwestiwn yn cael eu penodi gan y Byrddau Iechyd Lleol eu hunain. Hysbysebir eu haelodaeth yn uniongyrchol ar wefannau Byrddau Iechyd Lleol.

## Cynghorau Iechyd Cymuned

## Community Health Councils

- 14:15 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei darparu i gynghorau iechyd cymuned? OAQ(4)0483(HSS)*  
 7. Will the Minister make a statement on support the Welsh Government provides to community health councils? OAQ(4)0483(HSS)
- 14:15 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
 Diolch yn fawr i Bethan Jenkins am y cwestiwn. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth ariannol o £3.8 miliwn y flwyddyn i gynghorau iechyd cymuned yng Nghymru. Mae fy swyddogion hefyd yn rhoi cyngor polisi i gynghorau trwy'r bwrdd cynghorau iechyd cymuned yng Nghymru, yn ogystal â help i benodi aelodau.  
 Thank you very much to Bethan Jenkins for that question. The Welsh Government gives financial support of £3.8 million per annum to community health councils in Wales. My officials also provide policy support to the councils via the board of community health councils in Wales, as well as support for the appointment of members.
- 14:15 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
 Diolch am yr ateb hwnnw. Yn amlwg, yn dilyn adolygiad Andrews, mae cyngor ABMU wedi derbyn cryn feirniadaeth ac fe wnes i gwrdd ag aelodau'r cyngor ac maen nhw'n barod i newid eu ffyrdd. Fodd bynnag, yr hyn y maen nhw'n ei ddweud yw bod diffyg hyfforddiant, diffyg help o ran eu rheolaeth a hefyd o ran adnoddau er mwyn iddynt allu mynd mas i'r gymuned yn fwy aml. Felly, pa waith a ydych chi'n ei wneud gyda'r cyngor ar lefel genedlaethol, sydd efallai'n gweithio gyda'r cynghorau cymunedol ar lefel lawr gwlad, er mwyn sicrhau bod ganddynt ddigon o bobl sydd â'r arbenigedd i fynd mas i helpu pobl ar lawr gwlad?  
 Thank you for that response. Obviously, following on from the Andrews review, ABMU council has been criticised and I have met with its members and they are willing to change their ways. However, what they are saying is that there is a lack of training, a lack of assistance in terms of their management and also in terms of resources in order to get out to the community more often. So, what work are you doing with the council at a national level, which may be working with the CHCs on the ground, in order to ensure that they have sufficient numbers of people who have the expertise to go out and assist people on the ground?
- 14:16 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
 Diolch yn fawr i Bethan Jenkins am y sylwadau hynny, a diolch yn fawr ichi hefyd am gwrdd â'r cyngor iechyd cymuned lleol i siarad am y gwaith y mae'n ei wneud. Rwyf wedi clywed ganddo ynglŷn â'r cyfarfod hwnnw.  
 Thank you very much to Bethan Jenkins for those comments. May I also thank you for meeting with the local community health council to talk about the work that it is undertaking? I have heard from it too about that meeting.

What we intend to do, Llywydd, is to take the recommendations that were made by Marcus Longley about strengthening the national board of CHCs so that they are able to exercise a greater sense of national prioritisation, national training and national standards, against which all local community health councils will operate, to make sure that we have greater consistency in operation across Wales. I hope to be able to publish regulations to do that for a brief period of consultation before the Assembly reassembles after the half-term break, so that Members here can see the way in which we intend to carry out those recommendations.

Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud, Lywydd, yw cymryd yr argymhellion a wnaed gan Marcus Longley ynghylch cryfhau bwrdd cenedlaethol y Cynghorau Iechyd Cymuned fel eu bod yn gallu arfer mwy o ymdeimlad o flaenoriaethu cenedlaethol, hyfforddiant cenedlaethol a safonau cenedlaethol, i bob cyngor iechyd cymuned lleol weithredu yn unol â hwy, er mwyn sicrhau bod gennym fwy o gysondeb ar waith ar draws Cymru. Rwy'n gobeithio gallu cyhoeddi rheoliadau i wneud hynny am gyfnod byr o ymgynghori cyn i'r Cynulliad ailymgynnull ar ôl gwyliau'r hanner tymor, fel y gall Aelodau yma weld y ffordd rydym yn bwriadu cyflawni'r argymhellion hynny.

14:17 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In the early years, of course, the community health council was seen as a patient's advocate and actually as an independent watchdog. However, in my own constituency, concerns have been raised that they see the CHC now more as part of the local health board, almost, and sort of answerable to the Welsh Labour Government. What steps are you taking to ensure that the community health councils retain that absolute amount of independence that they need to be able to carry out their roles effectively?

Yn y blynyddoedd cynnar, wrth gwrs, ystyriwyd mai'r cyngor iechyd cymuned oedd eiriolwr y claf ac mewn gwirionedd yn gorff gwarchod annibynnol. Fodd bynnag, yn fy etholaeth fy hun, mae pryderon wedi'u mynegi eu bod yn gweld y CIC bellach fwyfwy fel rhan o'r bwrdd iechyd lleol, bron, ac yn atebol, mewn ffordd, i Lywodraeth Lafur Cymru. Pa gamau rydych yn eu cymryd i sicrhau bod y cynghorau iechyd cymuned yn cadw'r swm absoliwt o annibyniaeth sydd ei angen arnynt i allu cyflawni eu rolau'n effeithiol?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:17 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Nothing has changed, Llywydd, in the rulebook against which CHCs operate and their independence is an essential part of the purpose of having them as the patient watchdog. Concerns have been expressed to me about the way that CHCs, in their names, mirror the names of the local health boards that they operate within. For some patients, that may give the impression that they are all part of one organisation. I am prepared to consider that when I get advice from the national board. I can assure the Member that, in my experience, the north Wales CHC has no difficulty whatsoever in operating in an independent fashion.

Nid oes unrhyw beth wedi newid, Lywydd, yn y llyfr rheolau y mae'r Cynghorau Iechyd Cymuned yn gweithredu yn eu herbyn ac mae eu hannibyniaeth yn rhan hanfodol o bwrpas eu bodolaeth fel corff gwarchod y cleifion. Mynegwyd pryderon wrthyf ynghylch y ffordd y mae cynghorau iechyd cymuned, yn eu henwau, yn adlewyrchu enwau'r byrddau iechyd lleol y maent yn gweithredu o'u mewn. I rai cleifion, gall roi'r argraff eu bod i gyd yn rhan o un sefydliad. Rwy'n barod i ystyried hynny pan fyddaf yn cael cyngor gan y bwrdd cenedlaethol. Gallaf sicrhau'r Aelod, yn fy mhrofiad i, nid oes gan CIC Cymru yng ngogledd Cymru anhawster o gwbl yn gweithredu mewn modd annibynnol.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

## Darparaeth Drawsffiniol o Ofal Iechyd

## Cross-border Healthcare

14:18 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddarpariaeth drawsffiniol o ofal iechyd ar gyfer trigolion yng nghanolbarth Cymru? OAQ(4)0489(HSS)*

*8. Will the Minister make a statement on cross border provision of healthcare for residents in mid Wales? OAQ(4)0489(HSS)*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:18 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Powys Teaching Local Health Board works with neighbouring health boards in Wales and in England to ensure the provision of high-quality services to meet the demands of the local population.

Mae Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys yn cydweithio â byrddau iechyd cyfagos yng Nghymru a Lloegr er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau o ansawdd uchel i fodloni gofynion y boblogaeth leol.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:18 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for your answer, Minister. You will be aware that the model for delivery of health services in England is changing as a result of the national review of urgent care. This will see the role of local emergency centres in England strengthened, providing a personal service for those with urgent but non-threatening conditions. What are you doing to ensure that the residents of mid Wales, many of whom rely on the cross-border provision of healthcare, also benefit from these changes? Do you believe that the Welsh Government should be fully involved in any discussions that take place in Shropshire, given that any changes will significantly affect Welsh patients?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Byddwch yn ymwybodol fod y model ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd yn Lloegr yn newid o ganlyniad i'r adolygiad cenedlaethol o ofal brys. Bydd hyn yn gweld rôl y canolfannau argyfwng lleol yn Lloegr yn cryfhau, gan ddarparu gwasanaeth personol ar gyfer y rhai â chyflyrau brys, ond heb fod yn fygythiol. Beth rydych yn ei wneud i sicrhau bod trigolion canolbarth Cymru, gyda llawer ohonynt yn dibynnu ar ddarpariaeth drawsffiniol o ofal iechyd, yn elwa hefyd ar y newidiadau hyn? A ydych yn credu y dylai Llywodraeth Cymru fod yn rhan lawn mewn unrhyw drafodaethau sy'n cael eu cynnal yn Swydd Amwythig, o gofio y bydd unrhyw newidiadau sylweddol yn effeithio ar gleifion o Gymru?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)



- 14:19 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- I very much agree with the final point that Russell George makes. There are significant changes going on in health services across our border. They have, sometimes, very direct impacts on the health services provided to people in Wales. Over just the last few weeks, maternity services in Wrexham have had to provide new safety-net services because of the way in which services in England are being moved from Shrewsbury to Telford, adding 15 miles to the journey for many women in Powys who now prefer to go to Wrexham instead. We have an England and Wales cross-border protocol. It is laid out in some detail. It was concluded only in April 2013. We are looking at it again with the Department of Health to make sure that, when changes are made along the border, the needs of patients who live either side of it are properly understood and protected.
- Cytunaf yn llwyr â'r pwynt olaf a wnaeth Russell George. Mae newidiadau sylweddol yn digwydd yn y gwasanaethau iechyd ar draws ein ffin. Weithiau, maent wedi effeithio'n uniongyrchol iawn ar y gwasanaethau iechyd a ddarperir i bobl yng Nghymru. Yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf, mae gwasanaethau mamolaeth yn Wrecsam wedi gorffo darparu gwasanaethau diogelwch newydd oherwydd y ffordd y mae gwasanaethau yn Lloegr wedi eu symud o Amwythig i Telford, gan ychwanegu 15 milltir at y daith i lawer o fenywod ym Mhowys sydd bellach yn well ganddynt fynd i Wrecsam yn lle hynny. Mae gennym brotocol trawsffiniol Cymru a Lloegr. Mae wedi ei nodi yn eithaf manwl. Fe'i cwblhawyd ym mis Ebrill 2013. Rydym yn ei ailystyried ynghyd â'r Adran Iechyd er mwyn sicrhau, pan fydd newidiadau yn cael eu gwneud ar hyd y ffin, fod anghenion cleifion sy'n byw bob ochr iddi yn cael eu deall a'u gwarchod yn iawn.
- 14:20 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Rwy'n ddiolch ichi am roi eglurder inni ar y mater hwnnw. A ydych yn cytuno â mi, felly, er ei bod yn bwysig bod y ddwy Lywodraeth yn siarad â'i gilydd, bod hawliau gan yr unigolion hynny sy'n byw y tu allan i'r ardaloedd penodol yn Lloegr i gael cyfrannu'n ffurfiol at y prosesau ymgynghorol hynny hefyd?
- I am grateful to you for giving us some clarity on that issue. Do you agree with me, therefore, that while it is important that both Governments communicate, individuals who live outwith those specific areas of England have the right to contribute formally to those consultation programmes also?
- 14:20 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Wrth gwrs, dyna yw'r pwrpas o gael y protocol. Dyna pam rydym yn ailsiarad â'r Adran Iechyd yn San Steffan. I fod yn glir, mae'r protocol yn gweithio'n dda i'r cleifion yng Nghymru, ond hefyd bobl sy'n byw yn Lloegr ac sy'n cael gwasanaethau yng Nghymru. Hefyd, mae'n hollol bwysig bod y protocol yn deg ac yn gweithio mewn ffordd y mae pobl yn gallu ei ddeall ac yn gallu dibynnu arno.
- Of course, that is the purpose of having the protocol. That is why we are talking again to the Department of Health in Westminster. To clarify, the protocol works well for the patients in Wales, but also for those residents in England who receive services in Wales. Also, it is crucially important that the protocol is equitable and works in a way that people can understand and can depend upon.
- 14:21 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Minister, one of the starkest comparisons that my constituents report to me when they receive treatment across the border are referral-to-treatment times, not helped, of course, by misinformation given to patients that one of the reasons why they wait longer is because Powys does not pay its bills. Powys does pay its bills, but there is a differential between treatment-to-referral times. Now that all health boards are due to meet their targets this year, do you have any plans as a Government to reduce referral-to-treatment times for orthopaedic surgery?
- Weinidog, un o'r cymariaethau amlycaf a adroddir i mi gan fy etholwyr wrth dderbyn triniaeth ar draws y ffin yw'r amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth, ac nid yw'r cam wybodaeth a roddir i gleifion mai un o'r rhesymau pam eu bod yn aros yn hwy yw am nad yw Powys yn talu ei biliau yn helpu'r sefyllfa chwaith. Mae Powys yn talu ei biliau, ond mae gwahaniaeth yn yr amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth. Nawr gan fod pob bwrdd iechyd i fod i gyrraedd eu targedau eleni, a oes gennych unrhyw gynlluniau fel Llywodraeth i leihau'r amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth ar gyfer llawdriniaeth orthopedig?
- 14:21 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Powys Teaching Local Health Board meets its targets-to-treatment times in Wales. It does it more successfully than some other health boards and it provides a very good service as a commissioner in that way. The longest waiting times that any patients face in Wales are Powys patients waiting for cancer treatments in England. A 100% of them get their treatment within 62 days through Betsi Cadwaladr University Local Health Board, but, sometimes, only 66% of them are seen within 62 days when they have to rely on services across our border.
- Mae Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys yn cyflawni ei thargedau amserau aros am driniaeth yng Nghymru. Mae'n fwy llwyddiannus na rhai byrddau iechyd eraill ac mae'n darparu gwasanaeth da iawn fel comisiynydd yn y modd hwnnw. Yr amseroedd aros hwyaf y mae unrhyw glaf yn eu hwynebu yng Nghymru yw amseroedd aros cleifion Powys am driniaethau cancer yn Lloegr. Roedd 100% ohonynt yn cael eu trin o fewn 62 diwrnod drwy Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, ond, weithiau, dim ond 66% ohonynt sy'n cael eu gweld o fewn 62 diwrnod pan fydd yn rhaid iddynt ddibynnu ar wasanaethau ar draws ein ffin.

14:22	<b>Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad</b>	<b>Questions to the Assembly Commission</b>	Y <a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<b>Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> There are no questions submitted to the Assembly Commission.	Nid oes unrhyw gwestiynau wedi'u cyflwyno i Gomisiwn y Cynulliad.	
14:22	<b>Cynnig i Ddiwygio Rheol Sefydlog 26 mewn perthynas â Deddfau'r Cynulliad</b>	<b>Motion to Amend Standing Order 26 in relation to Acts of the Assembly</b>	Y <a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<b>Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I call on a member of the Business Committee to move the motion.	Galwaf ar aelod o'r Pwyllgor Busnes i gyflwyno'r cynnig.	
	Cynnig NDM5583 Rosemary Butler	Motion NDM5583 Rosemary Butler	
	Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:	To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 33.2:	
	<p>1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes, 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 26 – Deddfau'r Cynulliad' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Medi 2014; a</p> <p>2. Yn cymeradwyo'r cynnig i adolygu Rheol Sefydlog 26, fel y nodir yn Atodiad B i Adroddiad y Pwyllgor Busnes.</p>	<p>1. Considers the Report of the Business Committee 'Amending Standing Orders: Standing Order 26 – Acts of the Assembly' laid in the Table Office on 17 September 2014; and</p> <p>2. Approves the proposal to revise Standing Order 26, as set out in Annex B of the Report of the Business Committee.</p>	
14:22	<b>Paul Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I move the motion.	Cyflwynaf y cynnig.	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:22	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.	Cynigir ein bod yn derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, derbynnir y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<i>Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36</i>	<i>Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36</i>	
	<i>Daeth Rhodri Glyn Thomas i'r Gadair am 14:23.</i>	<i>Rhodri Glyn Thomas took the Chair at 14:23.</i>	
	<b>Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Ardaloedd Menter</b>	<b>Welsh Conservatives Debate: Enterprise Zones</b>	
	<i>Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 5 yn enw Jane Hutt, a gwelliannau 2, 3 a 4 yn enw Aled Roberts. Os derbynnir gwelliant 4, bydd gwelliant 5 yn cael ei ddad-ddethol.</i>	<i>The following amendments have been selected: amendments 1 and 5 in the name of Jane Hutt, and amendments 2, 3 and 4 in the name of Aled Roberts. If amendment 4 is agreed, amendment 5 will be deselected.</i>	
14:23	<b>Rhodri Glyn Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Galwaf ar William Graham i gynnig y cynnig.	I call on William Graham to move the motion.	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	Cynnig NDM5585 Paul Davies	Motion NDM5585 Paul Davies	
	Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:	To propose that the National Assembly for Wales:	

1. Yn credu bod angen mwy o eglurder o ran dangosyddion perfformiad allweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer ardaloedd menter;

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu diweddariadau bob hanner blwyddyn o ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer ardaloedd menter; a

3. Yn nodi'r angen i ymestyn lwfansau cyfalaf uwch i ardaloedd menter eraill, fel Eryri.

1. Believes there is a need for greater clarity in the Welsh Government's key performance indicators for enterprise zones;

2. Calls on the Welsh Government to provide half-yearly updates of key performance indicators for enterprise zones; and

3. Notes the need for enhanced capital allowances to be extended to other enterprise zones, such as Snowdonia.

14:23

## William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move the motion.

Welsh Conservatives support the concept of enterprise zones as they have the potential to attract considerable investment to Wales, create skilled jobs and make Wales a more prosperous nation. I have had the privilege of meeting with the board of two zones. I was greatly impressed with the leadership and membership of the boards, and endorse the excellent work that they have begun.

The purpose of today's debate is to raise awareness and to focus the Assembly's attention onto outcomes, particularly the use of key performance indicators to show that enterprise boards must begin to achieve their purpose. Enterprise zones were first announced in England by the Conservative-led UK Government in 2011, while the Welsh Labour Government eventually followed suite. The scheme here desperately requires enhancement and improvement. While these zones offer huge potential, the Welsh Conservatives believe that there needs to be a refinement of distribution data collection.

Various pieces of information have been published by the Welsh Government on the progress of the zones and, astonishingly, the cross-party National Assembly Finance Committee labelled the zones 'something of a mystery'. Since their announcement over two years ago, detail on Welsh enterprise zones has been sadly lacking. The announcement last October, when the First Minister said that almost 2,000 jobs had been created across the seven zones, with a further 6,500 planned, was clearly to be welcomed. However, these statistics, and any other information about the progress of the Welsh zones, was not made available to the National Assembly for scrutiny. It took another three months before any information was made publicly available. This needs to change.

The Finance Committee reported on the issue in December 2013. The report highlighted some key areas for improvement, such as businesses that had had varying success in securing business rate relief. However, during the course of the inquiry, the difficulty of interacting with the enterprise zones became clear, as so little was in the public domain regarding their operation.

Cyflwynaf y cynnig.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cefnogi'r cysyniad o ardaloedd menter gan fod ganddynt y potensial i ddenu buddsoddiad sylweddol i Gymru, creu swyddi crefftus a gwneud Cymru'n genedl fwy ffyniannus. Cefais y ffrind o gwrrdd â'r bwrdd o ddau barth. Cefais fy mhlesio'n fawr gyda'r arweinyddiaeth ac aelodaeth y byrddau, a chymeradwyaf y gwaith rhagorol y maent wedi ei ddechrau.

Pwrpas y ddadl heddiw yw codi ymwybyddiaeth a chanolbwyntio sylw'r Cynulliad ar ganlyniadau, yn enwedig y defnydd o ddangosyddion perfformiad allweddol i ddangos bod yn rhaid i fyrddau menter ddechrau cyflawni eu pwrpas. Cyhoeddwyd parthau menter gyntaf yn Lloegr dan Lywodraeth Geidwadol y DU yn 2011, gyda Llywodraeth Lafur Cymru yn dilyn maes o law. Mae'r cynllun yma'n galw'n daer am ei ddatblygu a'u wella. Tra bod y parthau hyn yn cynnig potensial enfawr, mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu bod angen mireinio'r gwaith o gasglu data ddsbarthiad.

Cyhoeddwyd gwahanol ddarnau o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru ar gynnydd y parthau ac yn rhyfeddol ddigon nododd Pwyllgor Cyllid trawsbleidiol y Cynulliad Cenedlaethol y parthau yn dipyn o ddirgelwch. Ers eu cyhoeddi dros ddwy flynedd yn ôl, mae'r manylion am ardaloedd menter yng Nghymru wedi bod yn ddigon diffygiol. Mae'r cyhoeddiad fis Hydref diwethaf, pan ddywedodd y Prif Weinidog fod bron 2,000 o swyddi wedi cael eu creu ar draws y saith parth, gyda 6,500 pellach yn yr arfaeth, yn amlwg i'w groesawu. Fodd bynnag, ni ryddhawyd yr ystadegau hyn, nac unrhyw wybodaeth arall am gynnydd y parthau yng Nghymru ar gyfer eu craffu gan y Cynulliad Cenedlaethol. Aeth tri mis arall heibio cyn i unrhyw wybodaeth fod ar gael i'r cyhoedd. Mae angen i hyn newid.

Adroddodd y Pwyllgor Cyllid ar y mater yn Rhagfyr 2013. Nododd yr adroddiad rai meysydd allweddol ar gyfer gwella, fel y lefel amrywiol o lwyddiant a gafodd busnesau wrth sicrhau rhyddhad ardrethi busnes. Fodd bynnag, yn ystod yr ymchwiliad, daeth yr anawsterau o ran rhyngweithio â'r ardaloedd menter yn amlwg, gan fod cyn lleied o wybodaeth am eu gweithrediad ar gael i'r cyhoedd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

It is not just the Assembly that seems to be in the dark over enterprise zones. In December 2013, the Minister for the economy finally published key performance indicators for the zones and promised annual reporting from April 2014. The first results from the longitudinal survey showed that only 32% of businesses located within the Cardiff enterprise zone were aware that they were actually in an enterprise zone. Moreover, the results showed no differentiation between public and private sector investment, and the jobs indicator for the financial years 2012-13 and 2013-14 does not differentiate between the jobs created and those safeguarded. That is why we support amendment 2 to include disaggregation of public and private finance within the investment KPI.

The way that KPIs are measured and reported is lacklustre at best. The people of Wales have a right to know more about the success of a scheme that involves spending public money. At present, enterprise zones are not assessed individually. As the targets are not split out by the area, it is impossible to know which combination of special schemes is having an impact on each area. The enterprise zones have received significant public investment: £125 million identified in the Wales infrastructure investment plan, £10 million for business rate relief and some of the £57 million allocated to superfast broadband.

The Finance Committee report recommended that the Minister consider how the Welsh Government could ensure that businesses are informed about business rate relief in the actual enterprise zones. The Minister accepted this recommendation, stating that a marketing campaign has now been undertaken. We request that the Minister updates Members on the success of this marketing campaign. Has there been a greater number of applications, for example, and was there truly greater uptake?

Over 30 written Assembly questions and several freedom of information requests have been submitted by our group leader alone in an attempt to seek clarity over individual zone performance. Andrew R.T. Davies had to appeal to the Information Commissioner last year after Labour's Minister for business refused to reveal statistics on jobs and investment. May I request the Minister to show how there is a true form and content to the boards, and whether she is minded to implement a review of budgeting and introduce some form of statutory framework?

Ymddengys nad dim ond y Cynulliad sydd yn y tywyllwch ynghylch ardaloedd menter. Ym mis Rhagfyr 2013, o'r diwedd cyhoeddodd Gweinidog yr economi ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y parthau ac addawodd adrodd yn flynyddol o fis Ebrill 2014. Mae canlyniadau cyntaf yr arolwg hydredol yn dangos mai dim ond 32% o'r busnesau sydd wedi'u lleoli yn ardal fenter Caerdydd oedd yn sylweddoli eu bod mewn ardal fenter mewn gwirionedd. Ar ben hynny, ni wahaniaethodd y canlyniadau rhwng buddsoddiadau sector cyhoeddus a phreifat, ac nid yw'r dangosydd swyddi ar gyfer blynyddoedd ariannol 2012-13 a 2013-14 yn gwahaniaethu rhwng y swyddi a grëwyd a'r rhai a ddiogelwyd. Dyna pam rydym yn cefnogi gwelliant 2 i gynnwys datgrynhoi cyllid cyhoeddus a phreifat o fewn y Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) buddsoddi.

Mae'r ffordd y mesurir ac yr adroddir DPA yn ddiffiacth ar y gorau. Mae gan bobl Cymru yr hawl i wybod mwy am lwyddiant cynllun sy'n golygu gwario arian cyhoeddus. Ar hyn o bryd, nid yw ardaloedd menter yn cael eu hasesu'n unigol. Gan nad yw'r targedau yn cael eu rhannu fesul ardal, mae'n amhosibl gwybod pa gyfuniad o gynlluniau arbennig sy'n cael dylanwad ar bob ardal. Derbyniodd yr ardaloedd menter fuddsoddiad cyhoeddus sylweddol: clustnodwyd £125 miliwn yng nghynllun buddsoddi mewn seilwaith i Gymru, £10 miliwn ar gyfer rhyddhad ardrethi busnes ac ychydig o'r £57 miliwn a ddyrannwyd i fand eang cyflym iawn.

Argymhellodd adroddiad y Pwyllgor Cyllid i'r Gweinidog ystyried sut y gallai Llywodraeth Cymru sicrhau bod busnesau'n cael gwybod bod rhyddhad ardrethi busnes ar gael yn yr ardaloedd menter. Derbyniodd y Gweinidog yr argymhelliad hwn, gan ddweud bod ymgyrch farchnata wedi'i chynnal erbyn hyn. Gofynnwn i'r Gweinidog roi gwybod i Aelodau am lwyddiant yr ymgyrch farchnata hon. A fu rhagor o geisiadau, er enghraifft, ac a oedd rhagor wedi manteisio mewn gwirionedd?

Cyflwynwyd mwy na 30 o gwestiynau ysgrifenedig i'r Cynulliad a nifer o geisiadau rhyddid gwybodaeth gan arweinydd ein grŵp yn unig mewn ymgais i gael eglurder ynghylch perfformiad ardal unigol. Bu'n rhaid i Andrew R. T. Davies apelio i'r Comisiynydd Gwybodaeth y llynedd ar ôl i'r Gweinidog Llafur ar gyfer busnes wrthod datgelu ystadegau am swyddi a buddsoddiad. A gaf fi ofyn i'r Gweinidog ddangos sut mae ffurf a chynnwys cywir i'r byrddau, ac a yw'n bwriadu gweithredu adolygiad o gyflidebu a chyflwyno rhyw fath o fframwaith statudol?

You have just heard how the Welsh Labour Government is getting it wrong, so let me tell you how about how the United Kingdom Government is getting it right. In Wales, we are setting our sights too low. We are stretching targets against hard statistics. We need continued flexibility regarding boundaries for new developments that can benefit those that remain on the periphery. In contrast, England has 24 zones that opened for business in April 2012. English zones have already attracted 250 businesses, secured £1.1 billion-worth of private sector investment and created over 7,000 local jobs. In total, the UK Government is investing £330 million to support enterprise zones to realise their potential as the engine rooms of local economies. We therefore do not support amendment 4 calling for the Welsh and UK Governments to explore further capital allowances, as the United Kingdom Government has already got this right and has indicated that it is quite happy to work further with the Welsh Government.

In the Birmingham financial services enterprise zone, there has been serious investment in development sites, some £70 million, serious investment in skills and training, some £1.5 million, and a business development package worth £3.5 million. Clear, measurable targets include 40,000 new private sector jobs, contributing £2.8 billion to the economy and 1.3 million sq m of new private sector floor space. We support amendment 2 to ensure that, as in the UK, we have detailed measurements of productivity within each enterprise zone. While other areas of the United Kingdom set measurable targets and detail how successful their enterprise zones have become, the Welsh Government is lagging behind the huge progress made in England, and further details are desperately needed.

With the number of people claiming jobseeker's allowance in the UK falling below the 1 million mark for the first time in recent years, we recognise the way in which these zones can be a catalyst for increasing employment, particularly youth employment, which is of major concern. If, as it should, the Welsh Government follows the benchmark standard set by the United Kingdom Government, it must commit to releasing a report that is broken down by enterprise zone, and more frequently than annually. Once again, the Welsh Government is failing to allow proper scrutiny. No targets, no data, no real jobs—welcome to Labour-run Wales.

14:29

## Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad Biography](#)

Mae'r Llywydd wedi dethol y pum gwelliant i'r cynnig. Os derbynir gwelliant 4, caiff gwelliant 5 ei ddad-ddethol. Galwaf, felly, ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i gynnig gwelliannau 1 a 5, a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt.

*Gwelliant 1—Jane Hutt*

*Ym mhwynt 1, dileu 'mwy o eglurder o ran dangosyddion' a rhoi 'adolygu eglurder a dealltwriaeth o ddangosyddion' yn ei le.*

*Gwelliant 5—Jane Hutt*

Rydych newydd glywed sut y mae Llywodraeth Lafur Cymru yn cyfeiliorni, felly gadewch i mi ddweud wrthy ch sut y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gwneud pethau'n gywir. Yng Nghymru, mae ein golygon yn rhy isel. Rydym yn ymestyn targedau yn erbyn ystadegau caled. Mae arnom angen hyblygrwydd parhaus o ran ffiniau ar gyfer datblygiadau newydd a all fod o fudd i'r rhai sy'n dar y cyrion. Mewn cyferbyniad, mae gan Loegr 24 o barthau a agorwyd ar gyfer busnes yn Ebrill 2012. Mae parthau Lloegr eisoes wedi denu 250 o fusnesau, wedi ennill gwerth £1.1 biliwn o fuddsoddiad o'r sector preifat ac wedi creu dros 7,000 o swyddi lleol. Fel cyfanswm, mae Llywodraeth y DU yn buddsoddi £330 miliwn i gefnogi ardaloedd menter i wireddu eu potensial fel pwerdai i'r economi leol. Felly, nid ydym yn cefnogi gwelliant 4 sy'n galw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i chwilio am lwfansau cyfalaf pellach, gan fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig eisoes wedi gwneud hyn yn iawn ac wedi nodi ei bod yn ddigon hapus i gydweithio ymhellach â Llywodraeth Cymru.

Yn ardal gwasanaethau ariannol menter Birmingham, bu buddsoddiad sylweddol mewn safleoedd datblygu, tua £70 miliwn, buddsoddiad sylweddol mewn sgiliau a hyfforddiant, tua £1.5 miliwn, a phhecyn datblygu busnes gwerth £3.5 miliwn. Mae targedau clir, mesuradwy yn cynnwys 40,000 o swyddi newydd yn y sector preifat, gan gyfrannu £2.8 miliwn i'r economi a 1.3 miliwn metr sgwâr o arwynebedd llawr newydd yn y sector preifat. Rydym yn cefnogi gwelliant 2 i sicrhau, fel yn y DU, fod gennym fesuriadau manwl o gynhyrchiant o fewn pob ardal fenter. Tra bod ardaloedd eraill yn y Deyrnas Unedig yn gosod targedau mesuradwy ac yn manylu pa mor llwyddiannus y daeth eu parthau menter, mae Llywodraeth Cymru yn llusgo y tu ôl i'r cynnydd enfawr a wnaed yn Lloegr, ac mae dirfawr angen rhagor o fanylion.

Gyda nifer y bobl sy'n hawlio lwfans ceisio gwaith yn y DU yn disgyn yn is nag 1 filiwn am y tro cyntaf yn y blynyddoedd diwethaf, rydym yn cydnabod y ffordd y gall y parthau hyn fod yn gatalydd ar gyfer cynyddu cyflogaeth, yn enwedig ymhlith ieuencid, sy'n destun cryn bryder. Os bydd Llywodraeth Cymru, fel y dylai, yn dilyn y safon meincnod a bennwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, rhaid iddi ymrwymo i ryddhau adroddiad sy'n dadansoddi fesul ardal fenter, a gwneud hynny'n amlach nag unwaith y flwyddyn. Unwaith eto, mae Llywodraeth Cymru yn methu o ran sicrhau gwaith craffu priodol. Dim targedau, dim data, dim swyddi go iawn—croeso i Gymru dan reolaeth Llafur.

The Presiding Officer has selected the five amendments to the motion. If amendment 4 is agreed, amendment 5 will be deselected. I call, therefore, on the Minister for Economy, Science and Transport to move amendments 1 and 5, tabled in the name of Jane Hutt.

*Amendment 1—Jane Hutt*

*In point 1, delete 'for greater clarity in' and replace with 'to review the clarity and understanding of'.*

*Amendment 5—Jane Hutt*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

*Ym mhwynt 3, dileu popeth ar ôl 'Yn nodi' a rhoi yn ei le 'y byddai'n ddymunol ymestyn lwfansau cyfalaf uwch i ardaloedd menter eraill hefyd, fel Eryri, ond yn cydnabod y bydd angen, wrth ystyried ardaloedd ychwanegol, nodi'r goblygiadau posibl o ran cost a chael cytundeb Llywodraeth y DU'.*

*In point 3, delete all after 'Notes the' and replace with 'desirability of enhanced capital allowances to be extended to other enterprise zones, such as Snowdonia but recognises that any consideration of additional areas will need to note potential cost implications and have the agreement of the UK Government.'*

14:30 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

I move amendments 1 and 5.

*Cyflwynaf welliannau 1 a 5.*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:30 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Galwaf ar Eluned Parrott i gynnig gwelliannau 2, 3 a 4, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.*

*I call on Eluned Parrott to move amendments 2, 3 and 4, tabled in the name of Aled Roberts.*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Cynnwys ar ddiwedd pwynt 1:*

*Insert at end of point 1:*

*gan gynnwys datgrynhoi cyllid cyhoeddus a phreifat o fewn y DPA buddsoddi,*

*including the disaggregation of public and private finance within the investment KPI,*

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Amendment 3—Aled Roberts*

*Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 2:*

*Add at end of point 2:*

*'ac y dylai'r dangosyddion perfformiad allweddol hynny gynnwys mesurau o gynhyrchiant ym mhob ardal; a'*

*'and that those key performance indicators should include measures of productivity within each zone; and'*

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

*Amendment 4—Aled Roberts*

*Ym mhwynt 3, dileu 'Yn nodi'r' a rhoi 'Yn galw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i archwilio i'r'.*

*In point 3, delete 'Notes' and replace with 'Calls on the Welsh and UK Governments to explore'.*

14:30 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendments 2, 3 and 4, tabled in the name of Aled Roberts.

*Cynigiaf welliannau 2, 3 a 4, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)



It is now more than three years since enterprise zones were first brought to Wales. So, I am disappointed—and depressed, frankly—that we are still here today talking about the key performance indicators or, to put it more bluntly, what the policy is trying to achieve and how we measure performance against those aims. So, I thank the Welsh Conservatives for bringing forward a debate that allows me to indulge my love of geeky detail and explain why I believe it is critical to success in delivering enterprise zones or, indeed, any other policy, because, of course, if you take an evidence-based, strategic approach to policy development the aim that you are seeking to achieve is surely the very first thing you put on the paper, not the last thing that you work out two years after you have introduced the policy. That it took two years to come up with a set of KPIs speaks volumes for the planning process that led to this policy being launched in the first place. Nor is it appropriate, from a scrutiny point of view, that measures were introduced so late, because, of course, there have been two years of public expenditure and Government activity with no effective monitoring and no reporting at all. It is not helpful either to those who have been tasked with delivering these zones and delivering on that policy agenda if for two years they did not know what their strategic priorities would be or what their success specifically would be measured against.

That the Welsh Government has itself tabled an amendment today that acknowledges that these KPIs need to be reviewed is quite an admission, I have to say. However, I welcome that undertaking and I hope that, given that, it will consider the points that I make in our amendments 2 and 3 today. One cause for concern for me in terms of the clarity of these KPIs is the way in which the figures are aggregated: jobs created, for example, is not reported separately to jobs supported, and private investment is not disaggregated from public sector investment. I recognise that this can in practice be difficult, particularly, perhaps, where issues of commercial confidentiality may arise. I also recognise, of course, that not all public expenditure in our enterprise zones is directly related to the Welsh Government and that there are other public agencies investing in those zones too. However, it was clearly stated on many occasions by the Minister and the First Minister on launching these zones that the main priority—the reason for being for this policy area—was specifically the creation of new private sector jobs. That phrase was repeated on a number of occasions. That being the case, you can see why new jobs should be reported separately from existing ones, and you can see why private sector must be reported separately from public sector, because that is the only way in which you will be able to demonstrate that you have met the aim that you set for yourself instead of dodging it or fudging the figures. You cannot move the goalposts half way through the match.

Bellach, aeth mwy na thair blynedd heibio ers i'r ardaloedd menter ddod i Gymru am y tro cyntaf. Felly, rwy'n siomedig—ac yn ddigalon, a dweud y gwir—ein bod yma heddiw yn dal i siarad am y dangosyddion perfformiad allweddol neu, i'w roi yn blwmp ac yn blaen, yr hyn y mae'r polisi yn ceisio ei gyflawni a sut yr ydym yn mesur perfformiad yn erbyn y nodau hynny. Felly, diolchaf i'r Ceidwadwyr Cymreig am gyflwyno'r ddatl sy'n rhoi cyfle i mi ildio i'm hoffter o fanylion ac egluro pam y credaf ei bod yn hanfodol i lwyddiant wrth gyflawni parthau menter neu, yn wir, unrhyw bolisi arall, oherwydd, wrth gwrs, os cymerwch chi ddull strategol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ddatblygu polisi, y nod y ceisiwch ei gyflawni mae'n sicr, yw'r peth cyntaf a rowch ar y papur, nid oedd y peth olaf i'w ddyfalu ddwy flynedd ar ôl i chi gyflwyno'r polisi. Mae'r ffaith iddi gymryd dwy flynedd i gwblhau cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol yn siarad cyfrolau am y broses gynllunio a arweiniodd at lansio'r polisi hwn yn y lle cyntaf. Nid ei bod yn briodol chwaith, o safbwynt craffu, fod mesurau yn cael eu cyflwyno mor hwyr, oherwydd, wrth gwrs, bu dwy flynedd o wariant cyhoeddus a gweithgarwch y Llywodraeth heb unrhyw fonitro effeithiol a dim adroddiadau o gwbl. Nid yw o gymorth chwaith i'r rhai sydd wedi cael y dasg o gyflawni'r parthau hyn a gweithredu'r agenda polisi os nad oeddent am ddwy flynedd yn gwybod beth fyddai eu blaenoriaethau strategol, neu beth fyddai'r fframwaith ar gyfer mesur eu llyddiant.

Mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru ei hun wedi cyflwyno gwelliant heddiw yn cydnabod bod angen adolygu'r DPA hyn yn dipyn o gyfaddefiad, rhaid i mi ddweud. Fodd bynnag, croesawaf yr ymrwymiad hwnnw a gobeithiaf, o ystyried hynny, y bydd yn ystyried y pwyntiau a wnaif yng ngwelliannau 2 a 3 a gyflwynwn heddiw. Un achos pryder i mi o ran eglurder y DPA hyn yw'r ffordd y mae'r ffigurau'n cael eu cyfuno: nid yw swyddi a grëwyd, er enghraifft, yn cael eu cyflwyno ar wahân i'r swyddi â chymorth, ac nid yw buddsoddiad preifat yn cael ei ddadgyfuno o fuddsoddiad sector cyhoeddus. Rwy'n cydnabod y gall hyn fod yn ymarferol anodd, yn enwedig, efallai, lle gall fod materion ynghylch cyfrinachedd masnachol. Rwyf hefyd yn cydnabod, wrth gwrs, nad yw pob gwariant cyhoeddus yn ein parthau menter yn ymwneud yn uniongyrchol â Llywodraeth Cymru a bod asiantaethau cyhoeddus eraill sy'n buddsoddi yn y parthau hynny hefyd. Fodd bynnag, dywedwyd yn glir ar sawl achlysur gan y Gweinidog a'r Prif Weinidog wrth lansio'r parthau hyn mai'r brif flaenoriaeth-y rheswm dros fodolaeth y polisi ardal hwn-oedd creu swyddi newydd yn y sector preifat yn benodol. Ailadroddwyd yr ymadrodd hwnnw droeon. Os felly, gallwch weld pam y dylid adrodd am swyddi newydd ar wahân i rai sydd eisoes yn bodoli, a gallwch weld pam y dylid adrodd am y sector preifat ar wahân i'r sector cyhoeddus, gan mai dyna'r unig ffordd y gallwch ddangos eich bod wedi cyrraedd y nod a bennwyd gennych yn hytrach nag osgoi neu ffugio'r ffigurau. Ni allwch symud y targed pan fo'r gêm ar waith.

Moving on to amendment 3, I also must express my disappointment that productivity was not included in the KPIs originally and nor were base-line productivity analyses conducted, as I understand it—although, hopefully, the Minister will be able to clarify that—when the zones were launched, because that means, of course, that we will never be able to accurately show whether or not the expenditure on this policy has led to economic growth. Time and again, in terms of the programme for government, the No. 1 aim on the first page of the programme for government is to drive economic growth in Wales. Well, productivity is the measure of growth. Why am I so concerned with it? It is because it is the international standard by which all economies are judged, and not least, of course, the indicator that is used to decide whether or not west Wales and the Valleys qualifies for structural funds. Job creation is not a proxy measure for growth, because it completely overlooks the importance of the value of each of those jobs created and the fact that if we want to create wealth for our people and grow our economy we need to attract high value, highly skilled jobs, jobs that pay well, jobs that rely on the skills that therefore make them less portable when there are cheaper locations elsewhere, and jobs that will keep our skilled graduates here in Wales when we have invested so much in training them and giving them the skills that they need to succeed.

Finally, my amendment 4 was introduced to recognise that the expansion of capital allowances, while possibly desirable, is not entirely in the gift of the Welsh Government to deliver. The introduction of capital allowances in the first instance was, of course, an agreement between the Treasury and the Welsh Government, and I hope that further expansion may be possible. However, that agreement will have to come from both Governments, and is not in the gift of just one.

14:35

## **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad Biography](#)

Minister, only two and a half years ago, on this side of the Chamber, I proposed an enterprise zone Bill, which, sadly, was not approved. However, the fact is that, had that Bill been taken care of—or at least had a part of it been taken into account—we probably would not be having a big debate today about a lot of the anomalies that we see regarding this issue.

There are seven areas, Minister, and I am very pleased that, from Anglesey to Snowdonia to Ebbw Vale—which is my region—you are trying to improve the areas that certainly needed improvement economically. However, certainly you need a long-sighted vision as to how these enterprise zones are going to be built. When I made my Bill proposal in front of the Chamber, I sent my staff to the middle east, and I got information from some diplomats in London and embassies in London. That information was vital to how to improve enterprise zones.

Gan symud ymlaen at welliant 3, rhaid i mi hefyd fynegi fy siom na chynhwyswyd cynhyrchiant yn y DPA yn wreiddiol ac na chynhaliwyd dadansoddiadau cynhyrchiant sylfaenol, yn ôl a ddeallaf-er, gobeithio, bydd y Gweinidog yn gallu egluro hynny-pan lansiwyd y parthau, oherwydd mae hynny'n golygu, wrth gwrs, na fyddwn byth yn gallu dangos yn gywir a yw'r gwariant ar y polisi hwn wedi arwain at dwf economaidd. Dro ar ôl tro, o ran y rhaglen lywodraethu, nod flaenaf ar dudalen gyntaf y rhaglen lywodraethu yw hybu twf economaidd yng Nghymru. Wel, cynhyrchiant yw mesur twf. Pam ydw i'n poeni cymaint am hyn? Rwy'n poeni am mai dyma'r safon ryngwladol ar gyfer barnu pob economi, ac yn anad dim, wrth gwrs, dyma'r dangosydd a ddefnyddir i benderfynu a yw gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gymwys ar gyfer cronfeydd strwythurol. Nid yw creu swyddi yn ffordd arall o fesur twf, gan ei fod yn llwyr anwybyddu pwysigrwydd gwerth pob un o'r swyddi hynny a grëwyd a'r ffaith os ydym am greu cyfoeth ar gyfer ein pobl a thyfu ein heconomi mae angen i ni ddenu swyddi gwerth uchel, hynod greffus, sy'n talu'n dda, sy'n dibynnu ar y sgiliau sydd felly'n eu gwneud yn llai cludadwy pan fydd lleoliadau rhatach mewn mannau eraill, a swyddi a fydd yn cadw ein graddedigion medrus yma yng Nghymru pan fyddwn wedi buddsoddi cymaint i'w hyfforddi gan roi iddynt y sgiliau angenrheidiol ar gyfer llwyddo.

Yn olaf, cyflwynwyd fy mhedwerydd gwelliant i gydnabod, er bod ehangu lwfansau cyfalaf o bosibl yn ddymunol, nad yw'n llwyr yn rhywbeth y gall Llywodraeth Cymru ei gyflawni. Roedd cyflwyno lwfansau cyfalaf yn y lle cyntaf, wrth gwrs, yn gytundeb rhwng y Trysorlys a Llywodraeth Cymru, a gobeithiaf y bydd ehangu pellach yn bosibl. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i'r cytundeb hwnnw ddod oddi wrth y ddwy Lywodraeth, ac nid penderfyniad i un o'r llywodraethau hynny mohono.

Weinidog, dim ond dwy flynedd a hanner yn ôl, ar yr ochr hon o'r Siambr, cynigais Fil ardal fenter, na chafodd yn anffodus ei gymeradwyo. Fodd bynnag, mae'n ffaith, pe bai'r Bil hwnnw wedi cael sylw priodol—neu ran ohono o leiaf wedi ei ystyried—mae'n debyg na fyddem yn cael dadl fawr heddiw am lawer o'r anghysonderau a welwn ynghylch y mater hwn .

Mae saith maes, Weinidog, ac rwy'n falch iawn eich bod, o Fôn i Eryri i Lynebwy—sef fy rhanbarth innau—yn ceisio gwella'r meysydd sydd yn sicr angen eu gwella yn economaidd. Fodd bynnag, yn sicr mae angen gweledigaeth hirdymor o ran sut y dylid adeiladu'r parthau menter hyn. Pan gyflwynais y cynnig ar gyfer fy Mil gerbron y Siambr, anfonais fy staff i'r dwyrain canol, a chefais wybodaeth oddi wrth rai diplomyddion yn Llundain a llysgenadaethau yn Llundain. Roedd y wybodaeth honno'n hynod bwysig ar gyfer sut i wella ardaloedd menter.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I will give you an example from Dubai. Twenty-five years ago, I was passing through Dubai, and a place called Jebel Ali. It was a pure desert—a pure desert. The person who actually made a plan to improve it to be an enterprise zone was a Brit—he was a British fellow. He actually initiated Dubai's—or the UAE's—enterprise zones. Guess what? Now, Dubai is one of the top places in the world for enterprise zone development, from aviation to manufacturing, jobs, employment, finance, industry—you name it. The third largest aviation cargo and maintenance facility is in the Abu Dhabi and Dubai areas.

So, basically, Minister, it takes a long time, not only to think about it, but also to make some business plans for enterprise zones, and I think that we are lacking this in certain areas. The First Minister said, in April 2013, that we will be the leader in the world for the fibre optic industry, and all the rest of it. Where are we today?

My hub is near Ebbw Vale. That is still the most—. Not long ago in the Chamber, I said that those areas—Blaenau Gwent, Ebbw Vale, Tredegar, Merthyr, and other areas—are, very, very unfortunately, not very prosperous areas. The question is: how many jobs have been created so far, in the last two years, in the enterprise zone? How many people have gone for skills in those areas? How many apprentices were actually put in to those areas? As a matter of fact, the main object to achieve enterprise zones is actually connectivity—by air, by sea, and by rail.

Our party is trying to get it done with rail—electric trains—as soon as possible, but the fact is that Ebbw Vale is on the Heads of the Valleys road, and is linked differently. The fact is that Newport could have been one of the best areas to improve for enterprise zones, and we could have done ourselves a great favour—not for Ebbw Vale and the Gwent area, but for south-east Wales. Within the last four years, we have had these great world events of the Ryder Cup and the NATO summit; what would have happened had there been an enterprise zone in that area? Just think of it: how many people have taken notice of that great city and of those areas in the Valleys that are not far away—only 15 or 20 miles—from there?

Minister, we need a vision, which I am sure you have, but you are lacking in putting things forward as soon as possible. We are dragging our feet in red tape. People are trying to get places; I know some constituents who want to find places in our area, and our Assembly's estates department is not giving them the information properly. They are saying that they are going to put the land in an auction or give it to the estate agent next year.

Rhodaf enghraifft o Dubai i chi. Bum mlynedd ar hugain yn ôl, roeddwn yn pasio drwy Dubai, mewn lle o'r enw Jebel Ali. Anialwch llwyr ydoedd—anialwch pur. Mewn gwirionedd, Prydeiniwr oedd y person a luniodd gynllun i'w wella'n ardal fenter—dyn o Brydain ydoedd. Ef roes gychwyn mewn gwirionedd ar barthau menter Dubai—neu barthau'r Emiraethau Arabaidd Unedig. Beth ddigwyddodd wedyn? Erbyn hyn, Dubai yw un o'r llefydd gorau yn y byd ar gyfer datblygu ardal fenter, o'r diwydiant hedfan i weithgynhyrchu, swyddi, cyflogaeth, cyllid, diwydiant—beth bynnag a fynnoch. Abu Dhabi a Dubai sydd â'r cyfleuster cargo a chynnal a chadw awyrennau mwyaf ond dau yn y byd.

Felly, yn y bôn, Weinidog, mae'n cymryd amser hir, nid yn unig i feddwl am y peth, ond hefyd i wneud rhai cynlluniau busnes ar gyfer ardaloedd menter, a chredaf fod hyn yn brin mewn rhai ardaloedd. Dywedodd y Prif Weinidog, yn Ebrill 2013, mai ni fydd arweinydd y byd ar gyfer y diwydiant optig ffibr, ac yn y blaen. Ble yr ydym ni heddiw?

Mae fy ardal i ger Glynwby. Mae'r lle'n parhau y mwyaf—. Ychydig yn ôl yn y Siambr, dywedais fod yr ardaloedd—Blaenau Gwent, Glynwby, Tredegar, Merthyr Tudful, ac ardaloedd eraill—yn anffodus iawn, iawn yn ardaloedd nad ydynt yn llewyrchus iawn. Y cwestiwn yw: faint o swyddi sydd wedi eu creu hyd yn hyn, yn y ddwy flynedd ddiwethaf, yn yr ardal fenter? Faint o bobl sydd wedi ennill sgiliau yn yr ardaloedd hynny? Faint o brentisiaid a roddwyd mewn gwirionedd yn yr ardaloedd hynny? Fel mater o ffaith, y prif beth ar gyfer sicrhau ardaloedd menter mewn gwirionedd yw cysylltedd—trwy hedfan, teithio dros y môr ac ar drên.

Mae ein plaid yn ceisio gwneud hyn trwy'r gwasanaeth rheilffordd—trenau trydan—cyn gynted ag y bo modd, ond y ffaith yw bod Glynwby ar ffordd Blaenau'r Cymoedd, a chanddi gysylltiadau gwahanol. Y ffaith yw y gallai Casnewydd fod wedi bod yn un o'r ardaloedd gorau i'w gwella ar gyfer ardaloedd menter, a gallem fod wedi gwneud ffafr fawr â ni ein hunain—nid ar gyfer Glynwby ac ardal Gwent, ond i dde-ddwyrain Cymru. O fewn y pedair blynedd diwethaf, rydym wedi cael digwyddiadau pwysig y byd yma, y Cwpan Ryder ac uwchgynhadledd NATO; beth a fyddai wedi digwydd pe bai ardal fenter wedi bod yn yr ardal honno? Meddylwch am y peth: faint o bobl a fyddai wedi sylwi ar y ddinas fawr a'r ardaloedd hynny yn y Cymoedd nad ydynt yn bell i ffwrdd—dim ond 15 neu 20 milltir—oddi yno?

Weinidog, mae angen gweledigaeth, ac rwy'n siŵr bod gennych un, ond rydych yn ddiffygiol o ran hyrwyddo pethau ymlaen cyn gynted ag y bo modd. Rydym yn llusgo ein traed mewn biwrocratiaeth. Mae pobl yn ceisio mynd yn eu blaenau; gwn am rai etholwyr sydd am ddod o hyd i leoedd yn ein hardal, ond nid yw adran ystadau ein Cynulliad yn rhoi'r wybodaeth briodol iddynt. Maent yn dweud eu bod yn mynd i roi'r tir mewn arwerthiant neu ei roi i'r gwerthwr tai y flwyddyn nesaf.

So, basically, Minister, there are a lot of anomalies. There are 40 ha in Ebbw Vale for this enterprise zone—how much has been occupied so far? We need to know. We need to know how long it will take to have full occupation in that area. Those people will certainly benefit and it will make other economies grow. Minister, there are lots and lots of areas that we can discuss, but enterprise zones are a backbone for private entrepreneurs and it is an indicator for the growth of the economy.

Felly, yn y bôn, Weinidog, mae llawer o anghysonderau. Mae 40 ha yng Nglynebwy ar gyfer ardal fenter-faint sydd wedi ei feddiannu hyd yn hyn? Mae angen i ni wybod. Mae angen inni wybod erbyn pryd y bydd meddiannaeth lwyr yn yr ardal honno. Bydd y bobl hynny yn sicr yn elwa a bydd yn sicrhau twf economïau eraill. Weinidog, gallem drafod meysydd di-rif, ond ardaloedd menter yw asgwrn cefn ein hentrepreneuriaid preifat ac meant yn ddangosydd ar gyfer twf yr economi.

14:40

## Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Fel y dywedodd Oscar ar ddechrau ei araith, mae sefydlu ardaloedd menter yn cymryd amser a dylai'r Ceidwadwyr dderbyn hynny. Beth sy'n glir i mi yw bod ein saith ardal menter yn ymateb pwrpasol ac unigol i Gymru. Eu mantais yw eu gallu i ganolbwyntio ar ein cryfderau yn ogystal â'n gwendidau. Er mwyn gwneud ein heconomi'n fwy cystadleuol, mae ein cryfderau yn hanfodol, ac mae ardaloedd menter yn ffordd flaenllaw o wireddu hyn. Wrth gwrs, yn yr hinsawdd economaidd cyfredol, ceir sialens ynglŷn â blaenoriaethau a sut i fynd ati i gyflwyno'r rhain. Dangosyddion yw'r prif ffordd o fesur cyrhaeddiad. Ffurio a defnyddio rhai deallus a blaenllaw sy'n adlewyrchu'r cyfeiriad yw'r prif ffordd o wneud hynny. Daw'r cadeiryddion i gyd yn bennaf o'r sector preifat. Pecyn o ddangosyddion sydd ei angen, a'r hyn sy'n bwysig yw eu hystyried yn broffesiynol er mwyn dangos adlewyrchiad holistaidd. Wedi'r cwbl, eu pwrpas yw monitro a gwella, ac, er mwyn iddynt fod gwerth eu halen, mae'n rhaid i bobl broffesiynol eu ffurfio—pobl broffesiynol a all gymryd amcanion strategol a ffurfio dangosyddion cryf a gwerthfawr.

Yr hyn yr wyf eisiau sôn amdano yn ychwanegol yw'r profiad ehangach o ran ardaloedd menter. Yn y gorffennol, rwyf wedi gwneud yr achos dros sir Gâr. Mae Llanelli yn gartref i Tinopolis, y cwmni teledu annibynnol mwyaf yng Nghymru, ac, efallai, yn y Deyrnas Unedig. Rydym wedi cael newyddion da am bencadlys S4C yn symud i Gaerfyrddin, a hefyd Theatr Genedlaethol Cymru, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, a Theatr y Ffwrnes; gellid mynd ymlaen. Ddoe, buom yn trafod darlledu. Mae'n rhaid i ddarlledwyr fod yn fwy creadigol a phellgyrhaeddol wrth ehangu ar nifer a chymysgedd rhaglenni lleol. Portreadu Cymru fel cenedl fodern a blaengar ledled y Deyrnas Unedig—dyna yw'r nod. Mae eisoes gennym y sgiliau a'r seilwaith ar y llawr yn sir Gâr. Dyma gyfle gwych i ehangu ar hynny gan ddefnyddio pwrpas yr ardaloedd menter i annog diwydiannau penodol. Yn ôl cefndir yr ardaloedd menter, nodir pwysigrwydd bod yn agos at farchnadoedd a'r gweithlu. Credaf yn bersonol, yn sgîl datblygiad dinas ranbarth Abertawe, a'r cadeirydd newydd, y byddai Llanelli a sir Gâr yn creu ardal gref o fewn dinas ranbarth y gorllewin, yn manteisio ar gryfderau'r rhanbarth, ond hefyd yn rhoi balans a chryfder i'r ardaloedd o'i chwmpas.

Rwy'n derbyn yn hollol y byddai creu ardaloedd menter ym mhob un o'r 40 etholaeth neu'r 22 awdurdod lleol yn tansellio eu pwrpas, ac rwy'n ymwybodol o waith da y sector panel diwydiannau creadigol a'r agwedd traws gwlad a gymerir, ond hoffwn ystyriaeth bellach ar sut y gallem ddatblygu sylfaen y diwydiannau creadigol sydd eisoes yn llwyddiannus yn y gorllewin yn benodol.

As Oscar said at the beginning of his contribution, establishing enterprise zones takes time and the Conservatives should accept that. What is clear to me is that our seven enterprise zones are an individualised response to the needs of Wales. Their benefit is their ability to concentrate on our strengths as well as our weaknesses. To enhance the competitiveness of our economy, our strengths are crucial, and enterprise zones are a prominent way of dealing with this issue. Of course, in the current economic climate there is a challenge in terms of priorities and how we go about introducing these. Indicators are the main way of measuring performance. Forming intelligent indicators that reflect the direction of travel is the main way of doing that. The chairs all mainly come from the private sector. We need a package of indicators and what is important is to consider them professionally in order to reflect what is going on holistically. After all, their purpose is to monitor and improvement, and, if they are to be worth while, then we must ensure that they are brought together by professionals—professionals who can take strategic goals and form indicators that are robust and valuable.

What I want to talk about in addition is the wider experience in terms of enterprise zones. In the past, I have made the case for Carmarthenshire. Llanelli is the home to Tinopolis, the largest independent television company in Wales, and, perhaps, the UK. We have had some good news about the headquarters of S4C moving to Carmarthen, and also National Theatre Wales, University of Wales Trinity Saint David, and the Ffwrnes Theatre; I could go on. Yesterday, we were discussing broadcasting. Broadcasters must be more creative and have a wider reach in terms of the provision of local output. They must portray Wales as an innovative nation throughout the UK—that is the aim. We already have the infrastructure and skills in place in Carmarthenshire. This is an excellent opportunity to enhance this, using the enterprise zones to encourage specific industries. According to the background of enterprise zones, the importance of closeness to markets and the workforce is noted. Personally, I believe that, in light of the establishment of the Swansea city region and the appointment of the new chair, Llanelli and Carmarthenshire would create a strong area within the west Wales city region, benefiting from the strengths of the region, but also providing balance and robustness in surrounding areas.

I fully accept that creating enterprise zones in each of the 40 constituencies or the 22 local authorities would actually be contradictory to the aim, and I am aware of the good work of the creative industries sector panel and the pan Wales approach taken, but I would like to see how we can develop the foundation of the creative industries that are already successful in west Wales in particular.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

It is a pleasure to speak in the debate today as someone who is from an elected area that has two enterprise zones—St Athan, the aerospace enterprise zone, and, obviously, the Cardiff enterprise zone, which is focused on financial services. It has a direct influence, in my area anyway, on economic growth and development in two fields that are very different, but quite linked, because, obviously, aviation requires a huge amount of capital for investment. To have that source pretty close to your area of business attracts, hopefully, other businesses to locate there and create a critical mass. I have to endorse the sentiments of my colleague, William Graham, in his opening remarks about the way that we as Members, and, indeed, the business community, and those with the best intentions for the enterprise zones, are trying to find out how they are performing in Wales. Given that they have been established now for quite some time, it is a maze just to find basic information on new jobs created—I do not mean recycled jobs that were already within that local economy, but genuinely new jobs that have come to areas—and how much private money has gone into the enterprise zones, along with public money, to enable them to grow and attract new investment. Earlier on in the week, I had the pleasure of meeting with the chairman of the Birmingham enterprise zone and his board. I have to say that there were many lessons there for us to learn. Admittedly, Birmingham is a huge metropolitan area and a far more prosperous area than nearly all parts of Wales, I would suggest, but there were three key components that were the recipe for its success, I think it fair to say. The first was a critical mass, as they had managed to get buy-in from all the surrounding local authorities, accepting that Birmingham would be the engine to drive the economic growth and then the eight other authorities that surround Birmingham, going up as far as the potteries and around, were keen then to latch on to that engine and drive growth in their own areas.

The second was the planning system and its ability to respond to the demands of businesses—and it is fair to say ‘demands’, because business has a huge array of choice before it and if an area cannot respond in a timely manner, business will just look elsewhere. I appreciate that there is a planning Bill coming from the Welsh Government shortly, which I hope will reform and transform the planning system here in Wales, but, regrettably, we are very much dealing with a planning environment in Wales that was fit, yes, for the 1950s and 1960s, but is not fit for the twenty-first century. They cited several examples in which they were able to use local planning orders to speed up the process and to allow development to happen. They cited certain companies that had looked at Wales but the planning process here had deterred them because it did not fit with their business model and with getting their operation up and running. They were able to go to Birmingham, set up and be in business in a far shorter period of time. That is something that the Government does desperately need to drive.

Mae'n bleser gennyf siarad yn y ddadl heddiw fel rhywun sydd yn cynrychioli ardal etholedig sydd â dau barth—Sain Tathan, ardal fenter awyrofod, ac, yn amlwg, ardal fenter Caerdydd, sy'n canolbwyntio ar wasanaethau ariannol. Mae ganddo ddylanwad uniongyrchol, yn fy ardal i beth bynnag, ar dwf a datblygiad economaidd mewn dau faes sy'n wahanol iawn, ond yn eithaf cysylltiedig, oherwydd, yn amlwg, mae'r diwydiant awyrennau yn gofyn am lawer iawn o gyfalaf ar gyfer buddsoddi. Mae cael y ffynhonnell honno'n eithaf agos i'ch ardal fusnes yn denu busnesau eraill gobeithio i symud yno ac yn creu mas critigol. Rhaid i mi ategu sylwadau fy nghyd-Aelod, William Graham, yn ei sylwadau agoriadol am y ffordd yr ydym fel Aelodau, ac, yn wir, y gymuned fusnes, a'r rhai sydd â'r bwriadau gorau ar gyfer yr ardaloedd menter, yn ceisio dysgu sut maent yn perfformio yng Nghymru. O gofio eu bod wedi cael eu sefydlu erbyn hyn ers peth amser, mae dod o hyd i wybodaeth sylfaenol am swyddi newydd a grëwyd yn ddryswch—nid wyf yn golygu swyddi wedi'u hailgylchu a oedd eisoes o fewn yr economi leol, ond swyddi gwirioneddol newydd sydd wedi dod i ardaloedd—a faint o arian preifat sydd wedi mynd i mewn i'r ardaloedd menter, ynghyd ag arian cyhoeddus, i'w galluogi i dyfu a denu buddsoddiad newydd. Yn gynharach yn yr wythnos, cefais y pleser o gyfarfod â chadeirydd ardal fenter Birmingham a'i fwrdd. Rhaid i mi ddweud bod llawer o wersi yno i ni eu dysgu. Rhaid cyfaddef, mae Birmingham yn ardal fetropolitan enfawr ac yn ardal llawer mwy llewyrchus na bron pob rhan o Gymru, byddwn yn awgrymu, ond credaf ei bod yn deg dweud bod tair cydran allweddol a oedd yn allwedd i'w llwyddiant. Y gyntaf oedd mas critigol, gan eu bod wedi llwyddo i gael yr holl awdurdodau lleol cyfagos i gymryd rhan, gan dderbyn mai Birmingham fyddai'r pwerdy ar gyfer gyrru twf economaidd ac yna'r wyth awdurdod arall sy'n amgylchynu Birmingham, gan fynd i fyny cyn belled ag ardaloedd y crochendai a'r cyffiniau, a oedd wedyn yn awyddus i gysylltu â'r pwerdy i hyrwyddo twf yn eu hardaloedd eu hunain.

Yr ail oedd y system gynllunio a'i gallu i ymateb i ofynion busnesau—ac mae'n deg dweud 'gofynion', gan fod myrdd o ddewis gan fusnesau ac os na all ardal ymateb mewn modd amserol, bydd busnesau'n mynd ati i chwilio mewn mannau eraill. Rwy'n sylweddoli bod Bil ar fin cael ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru cyn bo hir, a gobeithiaf y bydd yn diwygio ac yn trawsnewid y system gynllunio yma yng Nghymru, ond, yn anffodus, rydym yn ymdrin i raddau helaeth iawn gydag amgylchedd cynllunio yng Nghymru a oedd yn addas, ie, ar gyfer y 1950au a'r 1960au, ond nid yw'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Dyfynnwyd nifer o enghreifftiau ganddynt lle maent yn gallu defnyddio gorchmynion cynllunio lleol er mwyn cyflymu'r broses a chaniatáu i ddatblygiad ddigwydd. Dyfynnwyd cwmnïau penodol ganddynt a oedd wedi edrych ar Gymru, ond roedd y broses gynllunio yma wedi eu rhwystro am nad oedd yn cyd-fynd â'u model busnes nac yn hwyluso gweithrediad eu busnes. Roeddent yn gallu mynd i Birmingham, sefydlu a bod mewn busnes mewn cyfnod llawer byrrach o amser. Mae hynny'n rhywbeth y mae angen dybryd i'r Llywodraeth fynd i'r afael ag ef.

The other area that was of huge importance—and this is an issue, but it will be rectified with the transfer of business rates—was the ability for the Birmingham enterprise zone to use the money from business rates to co-finance and co-sponsor investment in the enterprise zone. They are working on a model of between £700 million and £1.2 billion-worth of co-financing, if you like, which they can put into major infrastructure—and not just in the Birmingham area, but in the eight surrounding areas. It was vital that they looked at it on a regional basis rather than just selfishly looking at it on a Birmingham basis. I think that we have much to learn there.

Another key ingredient was that the priorities were set locally, in the choices that they made to support the financial services sector. For example, there is now a trading floor with Deutsche Bank, I think, with 130 traders located in Birmingham, which originally started with back-office functions being transferred out of London. That is something that could not have been thought of only two or three years ago, but it is now there and is a living example of a successful model, transferring business away from its normal base in the south east of England out to the midlands.

We have a huge challenge ahead of us to make sure that our enterprise zones work here in Wales—or should I say to make sure that the Welsh Government's enterprise zones work? One of the things that would help is an understanding of how they are performing to date, and I have to say that, because of the secrecy, one would have to conclude that they are not performing as we would like, and that they are not generating new investment and new jobs. Ultimately, there needs to be a refresh to see where we need to go, either by bringing some of these zones together so that they have got critical mass or by allowing a greater input from the private sector to draw in more private money. However, ultimately, what we need is to be more competitive in the very competitive field of inward investment and indigenous business growth. I just do not think that we are doing that at the moment, and I look forward to the Minister for business's response to the questions put to her today.

Y maes arall a oedd o bwys mawr iawn—ac mae hyn yn broblem, ond caiff ei chywiro yn sgîl trosglwyddo ardrethi busnes—oedd gallu ardal fenter Birmingham i ddefnyddio'r arian o drethi busnes i gyd-ariannu a chyd-noddi buddsoddiad yn yr ardal fenter. Maent yn gweithio ar fodel o rhwng £700 miliwn a gwerth £1.2 biliwn o gyd-ariannu, os mynnwch chi, y gallant eu rhoi tuag at isadeiledd—ac nid yn ardal Birmingham yn unig, ond yn yr wyth ardal gyfagos. Roedd yn hanfodol eu bod yn ei ystyried ar sail ranbarthol yn hytrach na dim ond edrych yn hunanol ar sail Birmingham yn unig. Credaf fod gennym lawer i'w ddysgu yno.

Elfen allweddol arall oedd bod y blaenoriaethau yn cael eu pennu'n lleol, yn y dewisiadau a wnaed i gefnogi'r sector gwasanaethau ariannol. Er enghraifft, bellach mae llawr masnachu gyda Deutsche Bank, rwy'n credu, gyda 130 o fasnachwyr wedi'u lleoli yn Birmingham, a ddechreuodd yn wreiddiol wrth i swyddogaethau cefn swyddfa gael eu trosglwyddo y tu allan i Lundain. Mae hynny'n rhywbeth na ellid bod wedi meddwl amdano ddim ond dwy neu dair blynedd yn ôl, ond yn awr mae yno ac yn enghraifft byw o fodel llwyddiannus, sy'n trosglwyddo busnes i ffwrdd oddi wrth ei sylfaen arferol yn ne ddwyrain Lloegr allan i ganolbarth Lloegr.

Mae gennym her enfawr o'n blaenau i wneud yn siŵr bod ein hardaloedd menter yn gweithio yma yng Nghymru—neu a ddylwn ddweud i sicrhau bod ardaloedd menter Llywodraeth Cymru yn gweithio? Un o'r pethau a fyddai'n helpu yw dealltwriaeth o sut maent yn perfformio hyd yn hyn, ac mae'n rhaid imi ddweud hynny, oherwydd y cyfrinachedd, byddai'n rhaid i rywun ddod i'r casgliad nad ydynt yn perfformio gystal ag byddem yn hoffi, ac nad ydynt yn cynhyrchu buddsoddiad newydd a swyddi newydd. Yn y pen draw, mae angen diweddarau er mwyn gweld ble mae angen i ni fynd, naill ai drwy ddod â rhai o'r ardaloedd hyn at ei gilydd fel eu bod wedi cael mas critigol neu drwy ganiatáu mwy o fewnbwn gan y sector preifat i ddenu mwy o arian preifat. Fodd bynnag, yn y pen draw, yn hyn sydd ei angen yw ein bod yn fwy cystadleuol ym maes cystadleuol iawn mewnfuddsoddi a thyfu busnesau cynhenid. Ni chredaf ein bod yn gwneud hynny ar hyn o bryd, ac edrychaf ymlaen at ymateb y Gweinidog busnes i'r cwestiynau a ofynnwyd iddi heddiw.

14:49

## Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad Biography](#)

Rwy'n meddwl fy mod i a Phlaid Cymru wedi'i gwneud yn eithaf clir beth yw ein safbwynt ni ar y mater hwn a beth yw ein hagwedd tuag at barthau menter yn gyffredinol. Fodd bynnag, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig dweud hynny eto rŵan. Rydym yn cefnogi'r parthau menter o ran egwyddor ac o ran yr help y maent yn gallu ei gynnig i fusnesau fuddsoddi a thyfu. Rydym yn gwybod bod gwir botensial i helpu twf economaidd yn y saith ardal drwy'r gymysgedd honno o ryddhad trethi busnes, lwfansau gwariant, cyfalaf, isadeiledd gwell, ac yn y blaen. Mae ein pryderon gwirioneddol ni yn ymwneud ag atebolrwydd a thryloywder.

I think that Plaid Cymru and I have made it quite clear what our position is on this matter together with our attitude towards enterprise zones in general. However, I think that it is important to repeat that once more. We do support enterprise zones in principle and in terms of the support and assistance that they can offer businesses to invest and grow. We know that there is great potential to support economic growth in the seven areas, by a combination of business rate relief, spending allowances, capital, better infrastructure, and so on. Our real concerns relate to the accountability of them and their transparency.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



Mae Llywodraeth Cymru yn gosod targedau ac yn cyhoeddi dangosyddion ar gyfer y parthau, ac rydym yn gwybod faint o arian cyhoeddus sy'n mynd i mewn iddynt, faint o ymholiadau sy'n cael eu gwneud am y parthau, faint o fusnesau sy'n cael eu helpu fel cyfanswm, ac yn y blaen, ond nid yw'r hyn sy'n cael ei gyhoeddi, yn syml iawn, yn caniatáu i ni, fel Aelodau Cynulliad, wneud ein gwaith ni ar ran pobl Cymru, sef sgrwtineiddio'r Llywodraeth a gwneud yn siŵr bod arian cyhoeddus yn cael ei wario mor effeithiol â phosibl. Mae hynny yn sicr yn golygu'r angen i ddatgelu sut mae'r parthau unigol yn perfformio—ac rwy'n gwybod bod rhai sy'n gwneud gwaith caled iawn o fewn rhai parthau yn ofni y bydd hynny, rywsut, yn gwneud iddynt edrych fel pe baent yn perfformio'n salach na pharthau eraill, ond nid felly yr wyf i'n ei gweld hi o gwbl. Rydym ni ym Mhlaid Cymru yn meddwl ei bod hi'n gwbl deg a rhesymol bod ambell barth yn creu mwy o swyddi nag eraill ar hyn o bryd. Mae'n deg derbyn y bydd gwahanol barthau yn disgwyl proffil gwahanol o ran patrwm creu swyddi, a bod mwy o waith braenaru'r tir, o bosibl, cyn creu swyddi mewn ambell barth. Byddem yn sicr yn hapus i weld 'caveats' o'r math hwnnw'n cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r ffigurau manylach yr ydym yn chwilio amdanynt.

Nid ydym ychwaith yn meddwl y dylem orfod aros tan ddiwedd blwyddyn i fesur perfformiad y parthau. Dylai'r Llywodraeth allu cyhoeddi diweddariad o fewn blwyddyn. Mater arall y mae'n rhaid inni ei newid, wrth gwrs, yw'r drefn o gyhoeddi ffigurau ar gyfer y swyddi sy'n cael eu creu a swyddi sy'n cael eu diogelu fel un. Mae'r ddau yn gwbl wahanol, a'r ddau yn hynod bwysig wrth inni chwilio nid yn unig am dwf economaidd yn y pen draw ond am sefydlogrwydd, efallai, yn y tymor byr. Wir, mae hyn yn rhan allweddol, rwy'n meddwl, o fesur yr allbynnau a'r canlyniadau sy'n deillio o wariant cyhoeddus. Nid oes esgus dros beidio â gwahaniaethu rhwng y ffigurau hynny.

Rydym wedi ceisio cael gafael ar rai o'r ffigurau yr wyf wedi'u crybwyll, a hynny drwy wneud ceisiadau am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Nid yw'r Llywodraeth wedi bod yn fodlon rhyddau'r wybodaeth mewn ymateb i'r ceisiadau hynny. Ar hyn o bryd, mae'r comisiynydd gwybodaeth yn ymchwilio. Yn wir, ni ddylai Aelodau yma, sydd â chyfrifoldeb am sgrwtineiddio perfformiad y Llywodraeth, orfod gwneud hynny, drwy geisiadau rhyddid gwybodaeth ar rywbeth mor sylfaenol â hyn.

Dywedaf air am lwfansau cyfalaf uwch hefyd, gan fod cyfeiriad atynt yn y cynnig a'r gwelliannau. Nid yw'r lwfansau uwch ar gael ym mhob un o'r parthau, er bod Pwyllgor Cyllid y Cynulliad wedi dweud yn ddiweddar efallai mewn egwyddor mai dyma'r arf bwysicaf sydd gan y parthau yn y frwydr dros dwf economaidd. Rydym yn credu, felly, y byddai'n werth edrych ar roi cyfle i barthau eraill allu manteisio ar hyn—rhywbeth a gafodd ei ategu gan gomisiwn Silk hefyd. Wrth gwrs, gwerth y lwfansau uwch mewn egwyddor y dywedais. Yn ôl adroddiad y Pwyllgor Cyllid ym mis Rhagfyr y llynedd, nid oedd neb wedi cymryd mantais o'r lwfans a'r gallu hwnnw hyd yma. Efallai y gall y Gweinidog ein diweddarau ni ar hynny.

The Welsh Government does set targets and publishes indicators for the zones, and we know how much public funding goes into them, how many inquiries are made about the zones, and how many businesses are assisted in total, and so on, but what is published, put simply, does not allow us as Assembly Members to do our work on behalf of the people of Wales, namely to scrutinise the Government and to ensure that public funding is spent as effectively as possible. That certainly means that there is a need to disclose how the individual zones are performing—and I know that some of those who are working very hard within some zones are concerned that that might somehow make them seem to be underperforming when compared with other zones, but that is not how I see it at all. We in Plaid Cymru feel that it is perfectly fair and reasonable for some zones to be creating and generating more jobs than others at the moment. It is fair to accept that different zones will expect a different profile in terms of the pattern of creating jobs and that more preparation work, quite possibly, is needed before jobs can be created in some of the zones. We would certainly be happy to see caveats such as those being published alongside the more detailed figures that we are seeking.

Nor do we think that we should wait until the end of the year to measure the performance of the zones. The Government should be able to publish an update within the year. Another matter that I believe we must change, of course, is the current system of publishing the number of jobs being created and those being safeguarded as one figure. They are two completely different figures, and both are extremely important as we look not only for economic growth, ultimately, but also for stability, perhaps, in the short term. Indeed, this is a key part, I think, of measuring the outputs and outcomes that result from public funding. There is no excuse for not differentiating between those figures.

We have tried to get hold of some of the figures that I have mentioned by making data requests through the Freedom of Information Act 2000. The Government has not been prepared to release that information in response to those requests. At the moment, the information commissioner is looking into the matter. Indeed, Members here who are responsible for scrutinising the performance of the Government should not have to do that, to submit FOI requests on such a fundamental issue as this.

I will also say a word about enhanced capital allowances, as the motion and amendments refer to them. The enhanced allowances are not available in all of the zones, although the Assembly's Finance Committee recently stated that, perhaps in principle, this is the most important tool that the zones have in the battle for economic growth. Therefore, we do think that it would be worth looking at giving other zones an opportunity to take advantage of this—something that was also mentioned by the Silk commission. However, it was the value of the higher allowances in principle that I said. According to the Finance Committee's report from last December, no-one had yet taken advantage of that allowance and of that ability at that time. Perhaps the Minister could update us on that.

Fel pe bai angen hynny, gwnaeth cyhoeddi'r gyllideb ddrafft ddoe ein hatgoffa ni eto o'r angen i wasgu pob mymryn olaf o werth allan o'r bunt gyhoeddus. Ni allwn fod yn siŵr bod hynny'n digwydd yn achos y parthau menter ar hyn o bryd. Dyna pam y byddwn yn cefnogi'r cynnig hwn heddiw a gwelliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol. Cefnogwn welliant 5 yn enw Jane Hutt hefyd, achos rydym yn sylweddoli'r angen i bwysu a mesur gwariant yn erbyn yr hyn sy'n fforddiadwy. Fy apêl i'r Llywodraeth yw hyn: yn yr hinsawdd sydd ohoni, ni allwn ychwaith fforddio peidio â mesur mor fanwl â phosibl sut y mae'r parthau menter yn perfformio.

As if that were necessary, the publication of the draft budget yesterday reminded us yet again of the need to squeeze every last drop of value out of the public pound. We cannot be certain that that is happening in the case of the enterprise zones at the moment. That is why we will be supporting this motion today, along with the Liberal Democrats' amendments. We will also support amendment 5 in the name of Jane Hutt, because we realise that it is necessary to balance expenditure against what is affordable. My appeal to the Government is this: in the present climate, we cannot afford not to measure in as detailed a way as possible how the enterprise zones are performing.

14:54

## Mark Isherwood [Bywgraffiad Biography](#)

News that the UK has moved up in the rankings of the best places in which to do business in the world, and that the UK's gross domestic product has been significantly revised upwards by the Office for National Statistics is encouraging evidence that the UK Government's long-term plan is building a stronger and healthier economy, meaning more jobs and a better future. UK GDP returned to its pre-crisis peak by the third quarter of last year, and it is now 2.7% above that level. However, with the Welsh Labour Government responsible for economic development in Wales, it is alarming that Welsh GDP is only 70.5% of the UK average, and that the latest Office for National Statistics figures show that Wales was the only UK nation to see a decrease in the number of people employed over the previous year.

Of significance to enterprise zones in Anglesey and Snowdonia, west Wales and the Valleys, which includes four north Wales counties, remains one of only three regions in the UK still qualifying for full EU convergence assistance, with GDP down to just 64% of the EU average. Of significance to Deeside enterprise zone, GDP in Flintshire and Wrexham stands at just 85% of the EU average, down 18% since 2000.

Before being abolished by the Welsh Government, the Welsh Development Agency had to send in regional reports on jobs retained, jobs created and inward investment against targets every six months, and Wales was one of the top performers in the UK. Wales is now bottom. This motion is therefore absolutely right to call on the Welsh Government to provide six-monthly updates on key performance indicators for enterprise zones. To do otherwise is to give the impression that a cult of secrecy prevails, generating questions about why this Welsh Labour Government is afraid of transparency, democratic scrutiny and accountability.

It is deeply concerning that the Minister published key performance indicators only after pressure from all sides of the Chamber just before last Christmas—something highlighted by my colleague, Nick Ramsay—and that, instead of helping to monitor the progress of the zones, the detail was so thin that it shed little light on the progress of individual zones. By contrast, English zones across the border face significantly greater scrutiny, with quarterly reporting on 14 measures and a detailed performance monitoring framework.

Mae'r newyddion bod y DU wedi symud i fyny yn rhestr y lleoedd gorau i wneud busnes yn y byd, a bod cynnyrch mewnwladol crynswth y DU wedi cael ei ddiwygio i fyny yn sylweddol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dystiolaeth galonogol bod cynllun hirdymor Llywodraeth y DU yn adeiladu economi gryfach ac iachach, sy'n golygu mwy o swyddi a gwell dyfodol. Dychwelodd CMC y DU i'r brig lle'r oedd cyn yr argyfwng erbyn trydydd chwarter y llynedd, ac mae bellach yn 2.7% yn uwch na'r lefel honno. Fodd bynnag, gyda Llywodraeth Lafur Cymru'n gyfrifol am ddatblygu economaidd yng Nghymru, mae'n frawychus bod CMC Cymru ddim ond 70.5% o gyfartaledd y DU, a bod ffigurau diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos mai Cymru oedd yr unig wlad yn y DU i weld gostyngiad yn nifer y bobl a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Yn arwyddocaol i ardaloedd menter yn Ynys Môn ac Eryri, gorllewin Cymru a'r Cymoedd, sy'n cynnwys pedair sir gogledd Cymru, sy'n parhau i fod yn un o ddim ond tri rhanbarth yn y DU sy'n dal â hawl i gael cymorth cydgyfeirio llawn yr UE, gyda CMC i lawr i ddim ond 64% o gyfartaledd yr UE. Yn arwyddocaol i ardal fenter Glannau Dyfrdwy, mae'r CMC yn Sir y Fflint a Wrecsam yn sefyll ar ddim ond 85% o gyfartaledd yr UE, i lawr 18% ers 2000.

Cyn ei ddiddymu gan Lywodraeth Cymru, rhaid oedd i Awdurdod Datblygu Cymru anfon adroddiadau rhanbarthol ar swyddi a gadwyd, swyddi a grëwyd a mewnfuddsoddi yn erbyn targedau bob chwe mis, a Cymru oedd un o berfformwyr gorau'r DU. Mae Cymru bellach ar y gwaelod. Mae'n gwbl gywir felly fod y cynnig hwn yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu diweddariadau bob chwe mis ar ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer ardaloedd menter. Byddai gwneud fel arall yn rhoi'r argraff bod cwl't o gyfrinachedd yn bodoli, gan beri bod cwestiynau ynghylch pam y mae Llywodraeth Lafur Cymru yn ofni tryloywder, craffu ac atebolrwydd democrataidd.

Mae'n achos cryn bryder mai dim ond ar ôl llawer o bwysau o bob ochr i'r Siambr ychydig cyn y Nadolig diwethaf y bu i'r Gweinidog gyhoeddi dangosyddion perfformiad allweddol—rhywbeth a amlygwyd gan fy nghyd-Aelod, Nick Ramsay—a hynny, yn hytrach na helpu i fonitro cynnydd yr ardaloedd, roedd y manylion mor brin fel mai ychydig o oleuni a gafwyd ar gynnydd yr ardaloedd unigol. Ar y llaw arall, mae ardaloedd yr ochr arall i'r ffin yn Lloegr yn wynebu llawer mwy o graffu, gydag adroddiadau chwarterol ar 14 mesur a fframwaith monitro perfformiad manwl.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The north Wales local economy is worth £10 billion a year and contributes 22% of the Welsh economy. The region contributes 30% of Wales's manufacturing output, with half of this amount coming from Flintshire and Wrexham. However, it is almost two years since the Mersey Dee Alliance said that this cross-border region needs formal recognition by the Welsh Government if the full potential of its regional economy is to be achieved. The Deeside enterprise zone receives enhanced capital allowances, but windows are continuing to close on capitalising on these, with fewer than two years to go from the five years approved by the Treasury. The Welsh Government is funding the capital scheme for flood prevention on part of the site needed to meet floor-space requirements, and we therefore need to know where it is up to in its discussions with the main landowner, Praxis.

I am advised that central control of economic development in enterprise zones has, in effect, been taken by the Welsh Government in Cardiff, and that that has had a damaging effect on local government delivery of economic development on the ground.

I am further advised that the Welsh Government did not want Deeside to get ahead of the other enterprise zones, despite its being way behind zones in England, and that it tried to reinvent the wheel by overcentralising when England had already set up a process to create enterprise zones and structures to manage them locally, where partnerships understood the issues.

As the motion states, enhanced capital allowances also need to be extended to other enterprise zones such as Snowdonia and Anglesey. Anglesey enterprise zone is grouped as a tier 1 area, which means that it should be entitled to the enhanced capital allowances that it does not currently receive. As we have heard, and as the Silk commission recommended, the Welsh Government should be allowed to extend enhanced capital allowances to more enterprise zones in Wales.

There was cross-party support for enterprise zones in Wales, and it is depressing that the overcentralised approach taken by the Welsh Government and this Minister has left Wales at a disadvantage. Instead of statistical blurring, Wales needs Welsh Government to work in real partnership with business, local and UK Government on a non-partisan basis to deliver long-term economic growth for Wales, something that we certainly seek to do.

Mae economi leol gogledd Cymru yn werth £10 biliwn y flwyddyn ac yn cyfrannu 22% i economi Cymru. Mae'r rhanbarth yn cyfrannu 30% o allbwn gweithgynhyrchu Cymru, gyda hanner y swm hwn yn dod o Sir y Fflint a Wrecsam. Fodd bynnag, aeth dwy flynedd heibio bron ers i Gynghrair Mersi a Dyfrdwy ddweud bod angen cydnabyddiaeth ffurfiol ar y rhanbarth trawsffiniol gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwireddu potensial llawn yr economi ranbarthol. Mae ardal fenter Glannau Dyfrdwy yn derbyn lwfansau cyfalaf uwch, ond mae'r cyfleoedd i fanteisio arnynt yn parhau i gau, gyda llai na dwy flynedd i fynd ers y pum mlynedd a gymeradwywyd gan y Trysorlys. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r cynllun cyfalaf ar gyfer atal llifogydd ar ran o'r safle sydd ei angen i fodloni gofynion arwynebedd llawr, ac felly mae angen i ni wybod ar ba gam o'r trafodaethau â'r prif dirfeddiannwr, Praxis, y maent erbyn hyn.

Cefais fy hysbysu bod Llywodraeth Cymru yng Nghaerdydd wedi cymryd rheolaeth ganolog ar ddatblygu economaidd mewn ardaloedd menter, i bob pwrpas, a bod hynny wedi cael effaith niweidiol ar gyflawniad llywodraeth leol o ran datblygu economaidd ar lawr gwlad.

Dywedir wrthyf ymhellach nad oedd Llywodraeth Cymru'n dymuno i Lannau Dyfrdwy fynd ar y blaen i'r ardaloedd menter arall, er gwaethaf ei fod ymhell y tu ôl i ardaloedd yn Lloegr, a'i bod yn ceisio ail-greu'r olwyn drwy organoli pan oedd Lloegr eisoes wedi sefydlu proses i greu ardaloedd menter a strwythurau i'w rheoli yn lleol, lle mae partneriaethau yn deall y problemau.

Fel y dywed y cynnig, mae angen i lwfansau cyfalaf uwch hefyd gael eu hymestyn i ardaloedd menter eraill fel Eryri ac Ynys Môn. Mae ardal fenter Ynys Môn yn cael ei grwpio fel ardal haen 1, sy'n golygu y dylai allu hawlio lwfansau cyfalaf uwch nad yw'n eu derbyn ar hyn o bryd. Fel y clywsom, ac fel yr argymhellodd comisiwn Silk, dylai Llywodraeth Cymru gael yr hawl i ymestyn lwfansau cyfalaf uwch i fwy o ardaloedd menter yng Nghymru.

Cafwyd cefnogaeth drawsbleidiol ar gyfer ardaloedd menter yng Nghymru, ac mae'n ddiagonal bod y dull gorganolog a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Gweinidog hwn wedi gadael Cymru o dan anfantais. Yn hytrach nag amwysedd ystadegol, mae Cymru angen i Lywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth go iawn gyda busnesau, Llywodraeth leol a Llywodraeth y DU ar sail amhleidiol i sicrhau twf economaidd hirdymor i Gymru, sy'n rhywbeth rydym yn sicr yn awyddus i'w wneud.

14:59

**Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Edwina Hart.

I call on the Minister for Economy, Science and Transport, Edwina Hart.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

I have obviously listened very carefully to the contributions this afternoon, and it is clear that there is a mixed understanding of the progress and performance of enterprise zones. However, I do sense goodwill in terms of people wanting enterprise zones to succeed and certainly help with issues within the economy. I also sense that there is an underselling of enterprise zones and what they have achieved in certain areas, within this particular debate.

Our indicators enable the monitoring of progress in key areas such as jobs, investment, land development, business support and inquiries. We published a report on this in May, and I am happy to publish half-year updates going forward. The first of these will be published before the end of this year.

I recognise that we are reporting information over all levels rather than reporting individual zone-level figures, and I will deal with that issue now, if I may, as it has come from many of the speakers. There seems to be a suggestion that this is because we are trying to mask performance. I can assure Members that I am not interested in masking performance because I am confident about the progress that we are making. We can be in do doubt that progress is being made, with over 5,000 jobs created, safeguarded and assisted. This reflects very well compared with progress in England. The House of Commons Public Accounts Committee reported in May that the results for the English enterprise zones were particularly underwhelming. The Department for Communities and Local Government has reduced the estimate for jobs to be created from 54,000 to between 6,000 and 18,000. The initial estimate was wildly overoptimistic.

Also, when people talk about the alleged transparency in England, it is very interesting to see the exchanges in Parliament on some of these issues and what is happening. There have been various exchanges on it. It was in a written answer, I think, that the department said it did not produce estimates on net job numbers secured by enterprise zones since April 2012. It said that enterprise zones provide regular figures on new employment positions filled in the zones, but these may be subject to local commercial sensitivities. That was the point that you alluded to, Eluned, in that you understood that there might be some sensitivities. The department said that, for this reason, it is for individual zones to determine whether they make their net job numbers available.

Ours has been a much more realistic approach to measuring performance, in contrast to the significant downscaling of job creation targets in England. Our approach has been about building capacity for the long term. The points about the long term were well made by Mohammad Asghar. These are long-term issues, and it could take 15, 20 or 25 years to see the full capacity of these zones achieved. Therefore, it is not about a short-term fix to make attention-grabbing headlines. It is about a long-term response to economic development.

Rwyf yn amlwg wedi gwranddo'n ofalus iawn ar y cyfraniadau y prynhawn yma, ac mae'n amlwg mai cymysg yw'r ddealltwriaeth o gynnydd a pherfformiad yr ardaloedd menter. Fodd bynnag, rwy'n synhwyro ewyllys da o ran bod pobl am i'r ardaloedd menter lwyddo a chymorth yn sicr gyda phroblemau o fewn yr economi. Rwyf hefyd yn synhwyro bod tuedd i danwerthu'r ardaloedd menter a'r hyn y maent wedi'i gyflawni mewn ardaloedd penodol, yn y ddatl arbennig hon.

Mae ein dangosyddion yn galluogi i gynnydd gael ei fonitro mewn meysydd allweddol megis swyddi, buddsoddiad, datblygu tir, cymorth busnes ac ymholiadau. Cyhoeddwyd adroddiad gennym ar hyn ym mis Mai, ac rwy'n hapus i gyhoeddi diweddariadau chwe-misol yn y dyfodol. Bydd y cyntaf o'r rhain yn cael eu cyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn hon.

Rwy'n cydnabod ein bod yn adrodd am wybodaeth ar bob lefel yn hytrach nag adrodd ffigurau ar lefel ardal unigol, a byddaf yn ymdrin â'r mater hwnnw yn awr, os caf, gan fod llawer o'r siaradwyr wedi ei grybwyll. Mae tuedd i awgrymu bod hyn oherwydd ein bod yn ceisio cuddio perfformiad. Gallaf sicrhau Aelodau nad oes gennyf ddi-ddordeb mewn cuddio perfformiad oherwydd rwy'n hyderus am y cynnydd rydym yn ei wneud. Gallwn fod yn gwbl sicr bod cynnydd yn cael ei wneud, gyda dros 5,000 o swyddi wedi'u creu, eu diogelu a'u cynorthwyo. Mae hyn yn edrych yn dda iawn o gymharu â chynnydd yn Lloegr. Adroddodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin ym mis Mai bod y canlyniadau ar gyfer yr ardaloedd menter yn Lloegr yn arbennig o siomedig. Mae Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi lleihau'r amcangyfrif am y swyddi gaiff eu creu o 54,000 i rhwng 6,000 a 18,000. Roedd yr amcangyfrif gwreiddiol yn orffyddiog tu hwnt.

Hefyd, pan fydd pobl yn siarad am dryloywder honedig yn Lloegr, mae'n ddiddorol iawn gweld y trafodaethau yn y Senedd ar rai o'r materion hyn a'r hyn sy'n digwydd. Bu amryw o drafodaethau am hyn. Credaf i'r adran ddweud mewn ateb ysgrifenedig nad oedd yn cynhyrchu amcangyfrifon ar nifer y swyddi net a sicrhawyd gan ardaloedd menter ers mis Ebrill 2012. Dywedodd fod ardaloedd menter yn darparu ffigurau rheolaidd ar swyddi cyflogaeth newydd a lenwyd yn yr ardaloedd, ond gall y rhain fod yn ddarostyngedig i gyfrinachedd masnachol lleol. Dyna oedd y pwynt y cyfeiriasoch chi ato, Eluned, sef eich bod yn deall y gallai fod rhai materion cyfrinachol. Dywedodd yr adran honno, oherwydd y rheswm hwnnw, mai'r parthau unigol sydd i benderfynu a ydynt yn rhyddhau rhifau net y swyddi sydd ar gael.

Bu ein dull ni o fesur perfformiad yn llawer mwy realistig, yn wahanol i'r israddio sylweddol o dargedau creu swyddi yn Lloegr. Mae ein dull wedi bod yn ymwneud ag adeiladu gallu ar gyfer yr hirdymor. Mae'r pwyntiau am yr hirdymor wedi'u cyflwyno'n dda gan Mohammad Asghar. Mae'r rhain yn faterion hirdymor, a gallai gymryd 15, 20 neu 25 mlynedd i weld capasiti llawn yr ardaloedd hyn yn cael eu cyrraedd. Felly, nid mater o gael ateb tymor byr a chreu penawdau i dynnu sylw ydyw. Mae'n ymwneud ag ymateb hirdymor i ddatblygu economaidd.

However, reporting indicators at a zone level is much more complicated than people think. The enterprise zone chairs themselves expressed the view that zone-level reports would not be helpful in encouraging investment at this stage. Their concerns are three-fold on this issue. These enterprise zone chairs are mainly businesspeople. The enterprise zones contain many businesspeople. There are training providers. We have genuine partnerships with businesses on the delivery of the zones. One of the points that they make is that zone-level figures fail to take into account the distinctive opportunities and challenges of each zone. They fail to recognise the different starting points and stages of development of each zone. For example, the challenges faced by Snowdonia are very different to those of Deeside. The enterprise zone chairs fear that an unfair league table would be created. I understand Rhun's point that we could have various caveats against figures and everything, but that is their view.

Secondly, zone-level figures could create unhelpful competition and rivalry between zones. As zones are complementary, core operation collaboration is needed to benefit the Welsh economy as a whole. Thirdly, zone-level figures could portray an inaccurate picture to potential investors and may discourage potential investment decisions. That is not in anyone's interests. It was quite interesting to hear the points that Keith Davies made in his contribution, about linking in to some of the sectors and what we could do to be more creative and about how things link in. That is an issue that I will take up.

These are not just my concerns. Our position on zone-level reporting is consistent with that of the UK Government. The Parliamentary Under-Secretary of State for Communities and Local Government is on record as saying that he is unable to disclose zone-level information, as it may be subject to local commercial sensitivities and may prejudice commercial negotiations. He stated that it was for individual zones to determine whether to make the information available. However, I have already asked our enterprise zone chairs to consider the appropriate performance information for their zone, and what could be published at a zone level. I am meeting with the chairs tomorrow, and I will discuss this issue further with them. Taking into account their views and those expressed by Members today, as the Welsh Government amendment states, I will review the clarity and understanding of the performance indicators.

Fodd bynnag, mae adrodd dangosyddion ar lefel ardal yn llawer mwy cymhleth nag y mae pobl yn ei synhwyro. Dywedodd cadeiryddion yr ardaloedd menter eu hunain na fyddai adroddiadau ar lefel ardal yn ddefnyddiol o ran annog buddsoddiad ar hyn o bryd. Mae eu pryderon yn driphlyg ynghylch y mater hwn. Mae'r cadeiryddion ardaloedd menter hyn yn bobl fusnes yn bennaf. Mae'r ardaloedd menter yn cynnwys llawer o bobl fusnes. Mae darparwyr hyfforddiant. Mae gennym bartneriaethau dilyn gyda busnesau ar gyflawniadau'r ardaloedd. Un o'r pwyntiau y maent yn ei wneud yw bod y ffigurau ar lefel ardal yn methu ag ystyried y cyfleoedd a'r heriau ym mhob ardal nodedig. Maent yn methu â chydabod y gwahanol fannau cychwyn a chymau datblygu pob ardal. Er enghraifft, mae'r heriau sy'n wynebu Eryri yn wahanol iawn i rai Glannau Dyfrdwy. Mae cadeiryddion yr ardaloedd menter yn ofni y byddai hyn yn creu tabl cynghrair annheg. Rwy'n deall pwynt Rhun y gallem gael gwahanol gafeatau yn erbyn ffigurau ac ati, ond dyna yw eu barn hwy.

Yn ail, gallai ffigurau ar lefel ardal greu cystadleuaeth ddi-fudd a chystadleuaeth rhwng yr ardaloedd. Gan fod ardaloedd yn ategu ei gilydd, mae angen cydweithio gweithrediadau craidd er mwyn i economi Cymru elwa yn ei chyfanrwydd. Yn drydydd, gallai ffigurau ar lefel ardal bortreadu darlun anghywir i fuddsoddwyr posibl a gall atal penderfyniadau buddsoddi posibl. Nid yw hynny o fudd i neb. Yr oedd yn eithaf diddorol clywed y pwyntiau a wnaeth Keith Davies yn ei gyfraniad, am gysylltu i mewn i rai o'r sectorau a'r hyn y gallem ei wneud i fod yn fwy creadigol ac ynghylch sut mae pethau'n cysylltu. Hoffwn ddilyn y trywydd hwnnw.

Nid dyma fy unig bryderon. Mae ein safbwynt ar adrodd ar lefel ardal yn gyson ag un Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'r Is-ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol yn dweud ar goedd na all ddatgelu gwybodaeth ar lefel ardal, gan y gall fod yn ddarostyngedig i gyfrinachedd masnachol lleol a gall beryglu trafodaethau masnachol. Dywedodd ei fod mai'r parthau unigol sydd i benderfynu a ddylid datgelu'r wybodaeth sydd ar gael. Fodd bynnag, rwyf eisoes wedi gofyn i gadeiryddion ein hardaloedd menter ystyried y wybodaeth briodol am berfformiad ar gyfer eu hardal, a'r hyn y gellid ei gyhoeddi ar lefel ardal. Byddaf yn cyfarfod â'r cadeiryddion yfory, a byddaf yn trafod y mater hwn ymhellach gyda nhw. Gan ystyried eu barn hwythau a barn a fynegwyd gan yr Aelodau heddiw, fel y dywed gwelliant y Llywodraeth Cymru, byddaf yn adolygu'r eglurder a dealltwriaeth o'r dangosyddion perfformiad.

I will also be discussing with the chairs the next wave of longitudinal study that we are undertaking. This long-term study will enable us to have a clear assessment of progress and impact over time. The survey reported in March 2014, and the findings are published on our website. Interviews were conducted with 247 businesses located across the seven enterprise zones, from a total of 522 companies identified. This will help us to track progress on a range of issues and measures. This type of independent research is important, as our selection of enterprise zone sites was focused on identifying opportunity-based enterprise zones. Some of these sites included large areas of development land, where current economic activity was limited but where investment could take place with the right support, infrastructure and incentives. If we look at Blaenau Gwent, that area where we have the land and we are now going to put the necessary infrastructure in place to ensure that we encourage the businesses in.

Now, I am not taking the easy approach of only choosing locations that are areas of current growth, where we could secure quick wins—hence, perhaps, the comments on Newport, which I think it would have been relatively easy to have taken it as a zone. So, I have included difficult areas, like Snowdonia, where there are significant challenges, and I am also absolutely committed to offering as much clarity as possible with regard to the performance of enterprise zones while remaining sensitive to commercial considerations.

I was pleased that the Finance Committee was able to visit the Anglesey and Haven Waterway enterprise zones last year. I am also facilitating visits with the Chair of the Enterprise and Business Committee, who has already engaged with, I believe, Ebbw Vale, Haven Waterway and St Athan, and arrangements are also in place for further meetings.

I am also considering the long-term governance of the enterprise zones, which I think goes to the heart of some of the comments from Rhun ap Iorwerth, and I have commissioned an independent piece of work from the Public Policy Institute Wales. I am very pleased that Professor Peter Tyler of the University of Cambridge has agreed to undertake this work. I expect his report to be completed in the next few weeks and I will make the findings available to Members as I take forward these issues of governance.

I would say that William Graham is absolutely correct in his comments when he said that we have to deliver a competitive package of financial and other incentives for enterprise zones in Wales. So, finally, I am pleased to announce today that, under the third round of the business rates scheme in enterprise zones, lessons have been learned and we have approved applications for 63 businesses in the seven Welsh enterprise zones, totalling £3 million in support. It is pleasing that the third round has gone well.

Byddaf hefyd yn trafod gyda'r cadeiryddion y don nesaf o astudiaeth hydredol y byddwn yn ei chynnal. Bydd yr astudiaeth hirdymor hon yn ein galluogi i gael asesiad clir o gynnydd ac effaith dros amser. Daeth adroddiad yr arolwg i law ym mis Mawrth 2014, ac mae'r canfyddiadau wedi eu cyhoeddi ar ein gwefan. Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda 247 o fusnesau a oedd wedi'u lleoli ar draws y saith ardal fenter, o gyfanswm o 522 o gwmnïau a nodwyd. Bydd hyn yn ein helpu i olrhain cynnydd ar ystod o faterion a mesurau. Mae'r math hwn o ymchwil annibynnol yn bwysig, gan fod ein detholiad o safleoedd ardaloedd menter yn canolbwyntio ar nodi ardaloedd menter seiliedig ar gyfle. Mae rhai o'r safleoedd hyn yn cynnwys ardaloedd helaeth o dir datblygu, lle mae gweithgarwch economaidd presennol yn gyfyngedig, ond lle y gellid buddsoddi gyda'r cymorth, y seilwaith a'r cymhellion priodol. Os edrychwn ar Flaenau Gwent, yr ardal lle mae gennym y tir a lle bwriadwn nawr roi'r seilwaith angenrheidiol ar waith er mwyn sicrhau ein bod yn annog busnesau i ddod i mewn.

Nawr, nid cymryd y dull hawdd yw fy mwriad o ddim ond dewis y lleoliadau sy'n ardaloedd twf ar hyn o bryd, lle y gallem sicrhau llwyddiannau sydyn—felly, o bosibl, y sylwadau ar Gasnewydd, y credaf y byddai wedi bod yn gymharol hawdd i'w cymryd fel ardal fenter. Felly, rwyf wedi cynnwys ardaloedd anodd, megis Eryri, lle mae heriau sylweddol, ac rwyf hefyd yn llwyr ymrwymo i gynnig cymaint o eglurder â phosibl o ran perfformiad ardaloedd menter gan barhau i fod yn sensitif i ystyriaethau masnachol.

Roeddwn yn falch bod y Pwyllgor Cyllid yn gallu ymweld ag ardaloedd menter Môn a Dyfrffordd y Ddau Gleddau y llynedd. Rwyf hefyd yn hwyluso ymweliadau â Chadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes, sydd eisoes, rwy'n credu, wedi ymgysylltu â Glynebwy, Dyfrffordd y Ddau Gleddau a Sain Tathan, ac mae trefniadau ar waith hefyd ar gyfer cyfarfodydd pellach.

Rwyf hefyd yn ystyried llywodraethiant hirdymor yr ardaloedd menter, sydd, rwy'n credu, yn mynd at wraidd rhai o sylwadau Rhun ap Iorwerth, ac rwyf wedi comisiynu darn annibynnol o waith gan Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru. Rwy'n falch iawn bod yr Athro Peter Tyler o Brifysgol Caergrawnt wedi cytuno i ymgymryd â'r gwaith hwn. Rwy'n disgwyl i'w adroddiad gael ei gwblhau yn ystod yr wythnosau nesaf, a byddaf yn datgelu'r canfyddiadau i Aelodau wrth i mi fwrw ymlaen â'r materion hyn o lywodraethu.

Byddwn yn dweud bod William Graham yn gwbl gywir yn ei sylwadau pan ddywedodd fod yn rhaid inni ddarparu pecyn cystadleuol o gymhellion ariannol ac eraill ar gyfer ardaloedd menter yng Nghymru. Felly, yn olaf, mae'n bleser gennyf gyhoeddi heddiw, o dan drydedd rownd y cynllun ardrethi busnes mewn ardaloedd menter, fod gwersi wedi'u dysgu ac rydym wedi cymeradwyo ceisiadau am 63 o fusnesau yn y saith ardal fenter yng Nghymru, sef cyfanswm o £3 miliwn o gefnogaeth. Mae'n dda bod y drydedd rownd wedi mynd yn dda.



I was very interested in Andrew R.T. Davies's comments today, because we did have the opportunity to discuss informally his visit to the Birmingham enterprise zone, and I think I might ask my officials to go up and have a look at some of the issues that they have dealt with. Obviously, planning is an issue, and, as a result of your comments, I will take it up with my colleague, the Minister with responsibility for planning, because you are right: to be able to deal quickly with certain planning things is important. In terms of your business rates points, there is a wide discussion going on as a result of Professor Brian's report, which I will share with members.

Mae gen i ddi-ddordeb mawr yn sylwadau Andrew R. T. Davies heddiw, gan ein bod wedi cael y cyfle i drafod yn anffurfiol ei ymweliad ag ardal fenter Birmingham, ac rwy'n credu y byddaf yn gofyn i fy swyddogion fynd yno i weld rhai o'r materion y maent wedi delio â nhw. Yn amlwg, mae cynllunio yn broblem, ac, o ganlyniad i'ch sylwadau, byddaf yn codi'r mater gyda fy nghydwethiwr, y Gweinidog sy'n gyfrifol am gynllunio, oherwydd rydych yn iawn: er mwyn gallu ymdrin yn gyflym â rhai pethau mae cynllunio yn bwysig. O ran eich pwyntiau ar ardrethi busnes, mae trafodaeth eang yn digwydd o ganlyniad i adroddiad yr Athro Brian, y byddaf yn ei rhannu gydag aelodau.

15:07 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Galwaf ar Antoinette Sandbach i ymateb i'r ddadl.

I call on Antoinette Sandbach to respond to the debate.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

15:07 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, Minister, I would almost be tempted to say that you saved the best till last. I am very grateful to hear that you are willing to learn from the lessons of Birmingham, because, of course, the danger is that the enterprise zones over the border, as it were, pinch investment that could have come to Wales. These zones have been running for two years now, and a bit like Eluned Parrott said, not only am I disappointed, I am frankly depressed. Both Andrew R.T. Davies and Rhun ap Iorwerth have described the painful process, which is akin to trying to pull teeth, of trying to get information out of the Welsh Government about performance. Quite frankly, it is not sufficient to say that there may be some commercial confidentiality attached to it. There might be in very limited circumstances, but Eluned Parrott and, in fact, Keith Davies, quite rightly highlighted the fact that we need figures to know whether or not they are jobs created, jobs secured, or jobs saved, as it were. Without the breakdown of the figures, however, how do we as Assembly Members assess your performance and, more importantly, the performance of the boards that are in place against the public money that has gone into creating these enterprise zones?

Wel, Weinidog, rwy'n cael fy nhemtio i ddweud eich bod wedi cadw'r gorau tan y diwedd. Rwy'n ddiolchgar iawn clywed eich bod yn barod i ddysgu gan wersi Birmingham, oherwydd, wrth gwrs, y perygl yw bod yr ardaloedd menter dros y ffin, fel petaent, yn dwyn buddsoddiad a allai fod wedi dod i Gymru. Mae'r ardaloedd wedi bod ar waith ers dwy flynedd bellach, ac fel y bu i Eluned Parrott sôn, nid dim ond siomedig ydwyf ond a dweud y gwir rwy'n ddigalon. Mae Andrew R. T. Davies a Rhun ap Iorwerth wedi disgrifio'r broses boenus, sy'n debyg i'r broses tynnu dannedd, wrth geisio cael gwybodaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru am berfformiad. A dweud y gwir, nid yw'n ddigon i ddweud y gall fod rhywfaint o gyfrinachedd masnachol ynghlwm wrtho. Gall hynny fod yn wir dan amgylchiadau prin iawn, ond mae Eluned Parrott ac, mewn gwirionedd, Keith Davies, wedi amlygu'n gwbl briodol y ffaith bod arnom angen ffigurau i wybod p'un a ydynt yn swyddi a grëwyd, swyddi a sicrhawyd, neu swyddi a arbedwyd, fel petai. Heb ddadansoddiad o'r ffigurau, fodd bynnag, sut y gallwn ni fel Aelodau'r Cynulliad asesu eich perfformiad ac, yn bwysicach na hynny, asesu perfformiad y byrddau gweithredol yn erbyn yr arian cyhoeddus a wariwyd wrth greu'r ardaloedd menter hyn?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

You will forgive me, Minister, if I am just a little bit sceptical about some of the claims being made about jobs being created. When, for example, I wrote to you about a business that was looking to secure investment in Deeside—it fell just outside the enterprise zone—I asked you to look at whether or not there was a way of incorporating the proposals into the enterprise zone, to which you wrote back, Minister, to say 'no'. You can imagine my surprise, then, when I read in the 'Daily Post' the chair of the Deeside enterprise zone trumpeting the number of jobs as forming part of that enterprise zone. It makes your figures look dodgy, and it undermines the process that Members in this Assembly have, because you come out with figures and we cannot check them. We cannot measure your performance. Again, as Eluned Parrott quite rightly said, dodging it and fudging the figures simply is not good enough. We have to show that improvement in productivity and we have to be able to show that growth.

Maddeuwch imi, Weinidog, os wyf ychydig bach yn amheus am rai o'r honiadau a wneir am swyddi a grëwyd. Er enghraifft, pan ysgrifennais atoch ynghylch busnes a oedd yn awyddus i sicrhau buddsoddiad yng Nglannau Dyfrdwy—a oedd yn disgyn yn union y tu allan i'r ardal fenter—gofynnais i chi edrych ar a fyddai modd ymgorffori'r cynigion i mewn i'r ardal fenter, bu i chi ysgrifennu'n ôl ataf, Weinidog, i ddweud 'na'. Gallwch ddychmygu fy syndod, felly, pan ddarllenais yn y 'Daily Post' gadeirydd ardal fenter Glannau Dyfrdwy yn cyhoeddi'r newyddion da am nifer y swyddi a'u priodoli'n rhan o'r ardal fenter honno. Mae'n gwneud i'ch ffigurau edrych yn amheus, ac mae'n tansellio'r broses sydd gan Aelodau yn y Cynulliad hwn, oherwydd eich bod yn cyhoeddi ffigurau nad oes modd i ni eu gwirio. Ni allwn fesur eich perfformiad. Unwaith eto, fel y dywedodd Eluned Parrott yn gwbl briodol, yn syml, nid yw chwarae mig a ffugio'r ffigurau yn ddigon da. Mae'n rhaid i ni ddangos y gwelliant hwnnw mewn cynhyrchiant ac mae'n rhaid i ni allu dangos y twf hwnnw.

Keith Davies talked about intelligent indicators. The purpose is to monitor improvement and to look at it strategically, but we should not be doing that two years in; that should have been done at the start of the process. We want to see ambition and we want to see achievement, and that is what we are concerned about. You have said that the figures are there, and I am grateful that you are now considering putting them into the public domain, but they need to be enterprise zone-level figures so that that ambition can be realised and also so that, if there are barriers to take-up in a particular area, maybe because of planning or other issues, those can be identified. However, they can only be identified if that zone-level data is in the public domain. This would mean that we could monitor where the new jobs have come from—whether they have moved from another part of Wales—and we can determine whether they are jobs that have required a large amount of public funds or private-investment jobs. Aggregate data simply are not good enough.

Mark Isherwood made some very good points on the ECA allowances, and the fact that they apply to Deeside but not to other enterprise zones. As he quite rightly pointed out, the window of opportunity is closing. That window of opportunity is there for five years. Minister, I am delighted that you are bringing in someone from Cambridge to have a look at these issues and all of the issues in the zones, but quite frankly, we are two years in and these zones should be flourishing. They should be leading the way in showing how Wales can be more flexible, how it can offer businesses what they want and need, and why they should be beacons demonstrating why businesses should come to Wales for investment. Quite simply, that has not happened, or, if it has happened, it is so hidden in this veil of secrecy that is being drawn over enterprise zones that we cannot go out and sell Wales. We cannot say what a success it has been. We cannot give the examples because of this veil of secrecy.

We want enterprise zones to succeed, as has been clear from all of the contributions in the Chamber. We want them to help to create jobs and opportunities, and we want them to deliver on their targets, but we also want them to stand up to scrutiny. Minister, I am sure that we take your words in good faith, but we want to be able to satisfy ourselves and to look at the data and maybe pick up on something that you or your officials have not picked up on. We want to be able to judge the performance of the boards and to make sure that the issues that are preventing the real success of these enterprise zones are addressed and are brought forward.

Soniodd Keith Davies am ddangosyddion deallus. Y diben yw monitro gwelliannau ac ystyried yn strategol, ond ni ddylem fod yn gwneud hynny ar ddiwedd y ddwy flynedd; dylai fod wedi ei wneud ar ddechrau'r broses. Rydym am weld uchelgais ac rydym am weld cyflawniad, a dyna yw'r hyn rydym yn poeni amdano. Rydych wedi dweud bod y ffigurau ar gael, ac rwy'n ddiolchgar eich bod yn awr yn ystyried eu rhyddhau i'r cyhoedd, ond mae angen iddynt fod yn ffigurau ar lefel ardal fenter fel y gellir gwireddu'r uchelgais hon, a hefyd er mwyn sicrhau, os oes rhwystrau i'w goresgyn mewn ardal benodol oherwydd cynllunio neu faterion eraill, y cânt eu nodi. Fodd bynnag, dim ond os yw'r data a gyhoeddir ar lefel ardal y gellir eu nodi. Byddai hyn yn golygu y gallem fonitro o ble y daeth y swyddi newydd—ac ai symud o ran arall o Gymru a wnaethant—a gallwn benderfynu a ydynt yn swyddi sydd wedi galw am lawer iawn o arian cyhoeddus neu swyddi yn sgîl buddsoddiad preifat. Nid yw data cyfunol yn unig yn ddigon da.

Gwnaeth Mark Isherwood rai pwyntiau da iawn ar y lwfansau cyfalaf ychwanegol (ECA), a'r ffaith eu bod yn gymwys i Lannau Dyfrdwy ond nid i ardaloedd menter eraill. Fel y dywedodd yn gwbl gywir, mae'r cyfle i fanteisio yn prysur ddiplannu. Mae'r cyfle yno am bum mlynedd. Weinidog, rwyf wrth fy modd eich bod yn dod â rhywun o Gaergrawnt i gael golwg ar y materion hyn a phob un o'r materion yn yr ardaloedd, ond, a dweud y gwir, aeth dwy flynedd heibio'n barod a dylai'r ardaloedd hyn fod yn ffynnu. Dylent fod yn arwain y ffordd o ran dangos sut y gall Cymru fod yn fwy hyblyg, sut y gall gynnydd i fusnesau yr hyn y maent ei eisiau a'i angen, a pham y dylent fod yn enghreifftiau disglair sy'n dangos pam y dylai busnesau ddod i Gymru ar gyfer buddsoddi. Yn syml, nid yw hynny wedi digwydd, neu, os yw wedi digwydd, mae'r ardaloedd menter o dan len o gyfrinachedd i'r fath raddau fel na allwn fynd allan a gwerthu Cymru. Ni allwn ddweud cymaint fu eu llwyddiant. Ni allwn roi enghreifftiau oherwydd y gorchudd hwn o gyfrinachedd.

Rydym am i ardaloedd menter lwyddo, fel sydd wedi bod yn glir yn yr holl gyfraniadau a gafwyd yn y Siambr. Rydym am iddynt helpu i greu swyddi a chyfleoedd, ac rydym am iddynt gyflawni eu targedau, ond rydym hefyd am iddynt fod yn wydn i brosesau craffu. Weinidog, rwy'n siŵr ein bod yn cymryd eich geiriau gydag ewyllys da, ond rydym am allu bodloni ein hunain ac edrych ar y data gan o bosibl sylwi ar rywbeth na ddaeth i'ch sylw chi neu sylw eich swyddogion. Rydym am allu barnu perfformiad y byrddau a gwneud yn siŵr yr eir i'r afael â'r materion sy'n atal llwyddiant gwirioneddol yr ardaloedd menter hyn gan eu dwyn i'r golwg.

We have huge opportunities in Wales. You know that we have the skills, the workforce and the opportunity, but it is of huge regret to everyone who has spoken in this debate—and they have been saying this to you, Minister—that they cannot see that success on the ground. We are not hearing it and we are not seeing it delivered. I urge you, Minister, to be transparent in releasing the figures. I agree with Rhun ap Iorwerth that we should not, as Assembly Members, have to put in requests under the Freedom of Information Act and then have to go to the information commissioner to scrutinise Government spending of over £125 million. There are local councils across Wales that are facing huge budget cuts, and £125 million would make a massive difference to their front-line services. If you are going to take money and spend it on other things, we have a right to scrutinise you on that delivery. Minister, you need to put that zone-level data. Quite frankly, the boards may have concerns about one enterprise zone going faster than another, but that does not justify withholding the information from the National Assembly for Wales. Most businesspeople will understand why there may be barriers in Snowdonia National Park or elsewhere, but we need to focus very quickly on what these zones can deliver. Minister, you need to put those data in the public domain so that Members of this Assembly and the business community can properly judge your success and delivery on enterprise zones.

Mae gennym gyfleoedd aruthrol yng Nghymru. Gwyddoch fod gennym y sgiliau, y gweithlu a'r cyfle, ond mae'n ofid mawr i bawb sydd wedi siarad yn y ddadl hon—ac maent wedi bod yn dweud hyn wrthy ch, Weinidog—na allant weld y llwyddiant hwnnw ar lawr gwlad. Nid ydym yn clywed amdano nac yn gweld ei llwyddiant. Pwysaf arnoch, Weinidog, i fod yn dryloyw wrth ryddhau'r ffigurau. Cytunaf â Rhun ap Iorwerth na ddylem, fel Aelodau'r Cynulliad, orfod rhoi ceisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac yna gorfod mynd at y comisiynydd gwybodaeth i graffu ar variant y Llywodraeth sydd dros £125 miliwn. Mae cynghorau lleol ledled Cymru sydd yn wynebu toriadau enfawr yn eu cyllideb, a byddai £125 miliwn yn gwneud gwahaniaeth enfawr i'w gwasanaethau rheng flaen. Os ydych yn mynd i gymryd arian a'i wario ar bethau eraill, mae gennym hawl i graffu ar y cyflawniadau hynny. Weinidog, mae angen i chi roi'r data ar lefel ardaloedd. A dweud y gwir, efallai y bydd y byrddau yn pryderu am un ardal fenter yn tyfu'n gynt nag un arall, ond nid yw hynny'n cyfiawnhau dal y wybodaeth yn ôl oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd y rhan fwyaf o bobl fusnes yn deall pam y gall fod rhwystrau ym Mharc Cenedlaethol Eryri neu mewn man arall, ond mae angen inni ganolbwyntio yn gyflym iawn ar yr hyn y gall yr ardaloedd hyn ei gyflawni. Weinidog, mae angen i chi ryddhau'r data hynny i'r cyhoedd fel y gall Aelodau'r Cynulliad hwn a'r gymuned fusnes farnu'n briodol eich llwyddiant a darparu ar ardaloedd menter.

15:15 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y cwestiwn yw y dylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod, felly gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Newid yn yr Hinsawdd

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Jane Hutt, gwelliannau 2 a 3 yn enw Aled Roberts, a gwelliannau 4, 5 a 6 yn enw Elin Jones.*

The question is that the motion be agreed to. Are there any objections? There are objections, therefore I defer voting on this item until voting time.

*Votes deferred until voting time.*

## Welsh Conservatives Debate: Climate Change

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Jane Hutt, amendments 2 and 3 in the name of Aled Roberts, and amendments 4, 5 and 6 in the name of Elin Jones.*

15:16 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Antoinette Sandbach i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5584 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu'r cynnydd a wnaed yn uwchgyhadledd newid hinsawdd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer 2014 yn Efrog Newydd;
2. Yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau nad yw datgoedwigo yn parhau yng Nghymru a bod ei tharged o 100,000 hectar o goedwigaeth newydd yn cael ei gyrraedd erbyn 2030;

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I call on Antoinette Sandbach to move the motion.

Motion NDM5584 Paul Davies

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Welcomes the progress made at the United Nations Climate Change Summit 2014 in New York;
2. Urges the Welsh Government to ensure that deforestation does not continue in Wales and that its target of 100,000 hectares of new forestry is met by 2030;

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

3. Yn gresynu at y ffaith nad yw Llywodraeth Cymru ar y trywydd iawn i gyrraedd ei thargedau newid hinsawdd ar gyfer 2020;

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i annog ystod ehangach o ynni adnewyddadwy, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i, ynni adnewyddadwy morol, treulio anaerobig ac ynni dŵr;

5. Yn galw am ddatganoli Tystysgrifau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, neu'r hyn sy'n eu dilyn, i Lywodraeth Cymru; a

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio i rwystrau i gysylltu â'r grid ar gyfer prosiectau ynni ar raddfa fach o dan 50MW.

3. Regrets that the Welsh Government is not on track to meet its Climate Change 2020 targets;

4. Calls upon the Welsh Government to encourage a wider range of renewable energies, including but not limited to, marine renewables, anaerobic digestion and hydropower;

5. Calls for the devolution of Renewables Obligation Certificates (ROCs), or its successor, to the Welsh Government; and

6. Calls upon the Welsh Government to explore barriers to connection to the grid for small scale energy projects below 50mw.

15:16

## Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move the motion.

You have a double bill this afternoon. [Laughter.] I am delighted to move the motion in the name of Paul Davies. As you will be aware, progress was made in the United Nations climate change summit that was held in New York just a few days ago. This motion hopes to focus the mind of Welsh Government on climate change. I know that the climate change refresh has been put back a couple of times, and I do not blame this Minister, who I know is very recently in post. I was fortunate enough to sit in an evidence session this morning where the Minister was highlighting the importance of climate change to our communities in Wales. Certainly, on this side of the Chamber, the Welsh Conservatives are serious about climate change. We know that it is a real issue that we have to face, and it is an issue that does not just affect Wales—it affects the whole planet.

We have, therefore, tabled this motion to look at how we in Wales can help contribute towards that wider agenda that was being discussed in New York. In particular, as Peter Davies, the Commissioner for Sustainable Futures, has said, the future will be green growth—that is where the economy is heading. We need to look at where we currently stand in Wales and some of the challenges that we continue to face. Minister, the reason why forestry has been included in this particular motion is because you will be aware that recent figures have shown a 5% increase in our climate change emissions. That, in part, has been attributed to our sustainable land management and use. The main identifying feature of the increase in this particular area has been the impact of deforestation in Wales, particularly in the public forest estate. It is partly based on the historical age of our forestry in Wales, but it also relates to the impacts of phytophthora. Minister, you will be aware that one of the key issues that was raised in New York was the importance of forestry in a global context, particularly deforestation in large parts of the Amazon forest and elsewhere.

Cyflwynaf y cynnig.

Mae gennych raglen ddwbl y prynhawn yma. [Chwerthin.] Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r cynnig yn enw Paul Davies. Fel y gwyddoch, gwnaed cynnydd yn uwchgynhadledd newid hinsawdd y Cenhedloedd Unedig a gynhaliwyd yn Efrog Newydd ychydig ddyddiau yn ôl. Mae'r cynnig hwn yn gobeithio canolbwyntio meddwl Llywodraeth Cymru ar newid hinsawdd. Gwn i'r diweddariad newid hinsawdd gael ei ohirio sawl gwaith, ac nid wyf yn rhoi'r bai ar y Gweinidog am hynny, gwn iddo newydd afael yn y swydd. Roeddwn yn ddigon ffodus i eistedd mewn sesiwn dystiolaeth y bore yma lle bu'r Gweinidog yn tynnu sylw at bwysigrwydd newid hinsawdd i'n cymunedau yng Nghymru. Yn sicr, ar yr ochr hon i'r Siambr, mae'r Ceidwadwyr Cymreig o ddifrif ynghylch newid hinsawdd. Gwyddom ei fod yn fater o bwys y mae'n rhaid inni ei wynebu, ac mae'n fater sy'n effeithio ar fwy na dim ond Cymru—mae'n effeithio ar y blaned gyfan.

Felly, cyflwynwn y cynnig hwn i edrych ar sut y gallwn ni yng Nghymru helpu i gyfrannu at yr agenda ehangach a drafodwyd yn Efrog Newydd. Yn benodol, fel y dywedodd Peter Davies, y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy, twf gwyrrd fydd y dyfodol—i'r cyfeiriad hwnnw yr â'r economi. Mae angen inni edrych ar ble rydym yn sefyll ar hyn o bryd yng Nghymru a rhai o'r heriau rydym yn parhau i'w hwynebu. Weinidog, y rheswm pam mae coedwigaeth wedi cael ei chynnwys yn y cynnig penodol hwn yw oherwydd y byddwch yn ymwybodol bod ffigurau diweddar wedi dangos cynnydd o 5% yn ein hallyriadau newid hinsawdd. Priodolwyd hynny, yn rhannol, i'n dulliau rheoli a'n defnydd tir cynaliadwy. Prif nodwedd adnabod cynnydd yn y maes penodol hwn fu effaith datgoedwigo yng Nghymru, yn enwedig yn yr ystâd goedwig gyhoeddus. Mae'n seiliedig yn rhannol ar oedran hanesyddol ein coedwigaeth yng Nghymru, ond mae hefyd yn ymwneud ag effeithiau phytophthora. Weinidog, byddwch yn ymwybodol mai un o'r materion allweddol a godwyd yn Efrog Newydd oedd pwysigrwydd coedwigaeth mewn cyd-destun byd-eang, yn enwedig datgoedwigo mewn rhannau helaeth o goedwig yr Amazon ac mewn mannau eraill.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Minister, you will also be aware that the WWF's 'Living Planet Report 2012' showed that, in two human generations—in other words, in the last 40 years—population sizes of vertebrate species have dropped by half. Much of this is due to the actions of humans, whether it is climate change, deforestation or hunting and other matters. Clearly, we have to start moving away from our reliance on fossil fuels, which will be difficult given our reliance on the car as a mode of transport, particularly in rural areas. We are going to have to look at renewable sources.

Minister, the motion has been tabled—. I know the Welsh Government's predilection for wind, and I am afraid—. I should not say 'for wind' perhaps. [Laughter.] However, there are very real concerns about the concentration on one technology only. This motion has been tabled to try to encourage the Welsh Government, much in the way that the Environment and Sustainability Committee's energy report did, to look at the other ways in which other technologies can be encouraged and taken up. I am thinking particularly of biomass and marine tidal energy generation. I know that Paul Davies will be speaking about marine tidal projects later in the debate.

However, it is quite clear that, if we are going to hit our climate change target of a 40% reduction in 2020, there is going to have to be a far greater take-up of renewables, not only on a national scale but on a local scale and among householders. There are very real barriers to entry and take-up of new renewable technology. Minister, I would invite you, if you have not already done so, to read the Environment and Sustainability Committee's report on energy, because that inquiry was wide-ranging and very in-depth. I know that the members of the committee who sat on that inquiry know that we are not on track to hit our climate change targets, that there are blocks in the system that are going to have an impact on the Welsh approach and that we need to address them now. The year 2020 is not that far away; it is six years away and, as Friends of the Earth has said, it is going to take radical action to hit the target by 2020. Quite frankly, Minister, we are nowhere near it at the moment. We are not on track to achieve—. You can shake your head but that is the evidence that we have had. I prefer to work on evidence-based assessments, and it is quite clear: the evidence provided to us has indicated that we are not on track. So, I hope that your refresh policy will not just abolish targets or move them or move the goalposts or do whatever Welsh Government normally does when it comes to things like this. I hope that you will actually come up with a concrete plan to say to us, 'This is how we are going to deal with climate change and this is how we are going to make sure that it has an impact on people in Wales'.

I know that Russell George is going to deal with the wind power aspect of things. So, I am going to sit down and let my colleagues speak, and then I shall be summing up at the end, Minister, once I have heard the arguments that you put forward.

Weinidog, byddwch hefyd yn ymwybodol bod 'Adroddiad Living Planet 2012' y WWF yn dangos mewn dwy genhedlaeth ddynol—mewn geiriau eraill, yn y 40 mlynedd diwethaf-fod maint poblogaeth rhywogaethau feritebratau wedi gostwng i'w hanner. Mae llawer o hyn yn ganlyniad i weithredoedd pobl, boed yn newid hinsawdd, datgoedwigo neu hela a materion eraill. Yn amlwg, mae'n rhaid i ni ddechrau symud i ffwrdd oddi wrth ein dibyniaeth ar danwydd ffosil, a fydd yn anodd o ystyried ein dibyniaeth ar y car fel dull o deithio, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Rydym yn mynd i orfod edrych ar ffynonellau adnewyddadwy.

Weinidog, cyflwynwyd y cynnig—. Rwy'n gwybod fel y mae Llywodraeth Cymru'n hoffi gwynt, ac mae arnaf ofn—. Ni ddylwn ddweud 'hoffi gwynt' o bosibl. [Chwerthin.] Fodd bynnag, mae pryderon gwirioneddol am y pwyslais ar un dechnoleg yn unig. Cyflwynwyd y cynnig hwn er mwyn ceisio annog Llywodraeth Cymru, yn debyg i'r ffordd y bu i adroddiad ynni Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd ei wneud, i edrych ar y ffyrdd eraill y gellir hyrwyddo a defnyddio technolegau eraill. Rwy'n meddwl yn benodol am fomas a chynhyrchu ynni o lanw'r môr. Gwn y bydd Paul Davies yn siarad am brosiectau llanw morol ddiweddarach yn y ddadl.

Fodd bynnag, mae'n eithaf amlwg, os ydym yn mynd i gyrraedd ein targed newid hinsawdd sef gostyngiad 40% yn 2020, y bydd yn rhaid cael llawer mwy i ddefnyddio ynni adnewyddadwy, nid yn unig ar raddfa genedlaethol, ond ar raddfa leol ac ymysg deiliaid tai. Mae rhwystrau real iawn i fynediad at a'r defnydd o dechnoleg adnewyddadwy newydd. Weinidog, a gaf fi eich gwahodd, os na wnaethoch eisoes, i ddarllen adroddiad ynni Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, gan fod yr ymchwiliad hwnnw yn eang a manwl iawn. Gwn fod aelodau'r pwyllgor a eisteddodd yn yr ymchwiliad hwnnw yn gwybod nad ydym ar y trywydd iawn i gyrraedd ein targedau newid hinsawdd, bod rhwystrau yn y system sy'n mynd i gael effaith ar y dull Cymreig, a bod angen i ni fynd i'r afael â hwy yn awr. Nid yw'r flwyddyn 2020 yn bell i ffwrdd; mae chwe blynedd i fynd ac, fel y dywed Cyfeillion y Ddaear, mae'n mynd i gymryd camau radical i gyrraedd y targed erbyn 2020. A bod yn onest, Weinidog, yr ydym ymhell o gyrraedd hynny ar hyn o bryd. Nid ydym ar y trywydd cywir i lwyddo—. Gallwch ysgwyd eich pen, ond dyna'r dystiolaeth a gawsom. Mae'n well gen i weithio ar asesiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac mae'n eithaf amlwg: mae'r dystiolaeth a roddwyd i ni wedi nodi nad ydym ar y trywydd iawn. Felly, rwy'n gobeithio na fydd eich polisi adnewyddu ond yn diddymu targedau neu eu symud neu symud targedau, neu wneud beth bynnag y mae Llywodraeth Cymru yn arfer ei wneud pan ddaw i faterion fel hyn. Rwy'n gobeithio y dowch o hyd i gynllun pendant a fydd yn dweud wrthym, 'Dyma sut rydym yn mynd i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a dyma sut rydym yn mynd i wneud yn siŵr ei fod yn effeithio ar bobl yng Nghymru'.

Gwn fod Russell George yn mynd i ymdrin ag agwedd ynni gwynt. Felly, eisteddaf i lawr a gadael i'm cyd-aelod siarad, a byddaf fi'n dod â'r cyfan i fwcwl ar y diwedd, Weinidog, unwaith y byddaf wedi clywed y dadleuon y byddwch yn eu cyflwyno.

15:23	<p><b>Rhodri Glyn Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Mae'r Llywydd wedi dethol y chwe gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i gynnig yn gwelliant 1 a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt.</p> <p><i>Gwelliant 1—Jane Hutt</i></p> <p><i>Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:</i></p> <p><i>Yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn parhau'n ymrwymedig i gyrraedd ei thargedau Newid Hinsawdd ar gyfer 2020;</i></p>	<p>The Presiding Officer has selected the six amendments to the motion. I call on the Minister for Natural Resources to move amendment 1 in the name of Jane Hutt.</p> <p><i>Amendment 1—Jane Hutt</i></p> <p><i>Delete point 3 and replace with:</i></p> <p><i>Notes the Welsh Government's continued commitment to meet its Climate Change 2020 targets;</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:23	<p><b>Carl Sargeant</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources</i></p> <p>I move amendment 1.</p>	<p>Cynigiau welliant 1.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:23	<p><b>Rhodri Glyn Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Galwaf ar William Powell i gynnig gwelliannau 2 a 3, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.</p> <p><i>Gwelliant 2—Aled Roberts</i></p> <p><i>Cynnwys pwynt 5 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:</i></p> <p><i>Yn llongyfarch Tidal Energy Cyf. ar ddadorchuddio ei ddyfais DeltaStream ar 7 Awst 2014, a wnaed yn bosibl drwy ddefnyddio arian Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod prosiectau o'r fath yn parhau i gael cefnogaeth briodol yn y dyfodol fel y gall Cymru wneud y mwyaf obotensial ynni adnewyddadwy morol i hyrwyddo dull grid cymysg.</i></p> <p><i>Gwelliant 3—Aled Roberts</i></p> <p><i>Cynnwys pwynt 5 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:</i></p> <p><i>Yn croesawu'r datblygiad diweddar o ddwy ardal profi ac arddangos morol yn nyfroedd Cymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu gwybodaeth reolaidd i'r Cynulliad am ei chynnydd tuag at alluogi datblygiadau technolegol pellach a masnacheiddio dyfeisiadau sy'n defnyddio ynni adnewyddadwy o'r tonnau a'r llanw.</i></p>	<p>I call on William Powell to move amendments 2 and 3, tabled in the name of Aled Roberts.</p> <p><i>Amendment 2—Aled Roberts</i></p> <p><i>Add as new point 5 and renumber accordingly:</i></p> <p><i>Congratulates Tidal Energy Ltd on the unveiling of their DeltaStream device on 7 August 2014, which was made possible through the use of WEFO funds, and calls on the Welsh Government to ensure that such projects continue to be suitably supported in future years so that Wales can maximise the potential of marine renewables to promote a mixed grid approach.</i></p> <p><i>Amendment 3—Aled Roberts</i></p> <p><i>Add as new point 5 and renumber accordingly:</i></p> <p><i>Welcomes the recent development of two marine testing and demonstrating zones in Welsh waters and calls on the Welsh Government to provide regular updates to the Assembly on their progress towards enabling further technological development and commercialisation of wave and tidal renewable energy devices.</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:23	<p><b>William Powell</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I move amendments 2 and 3.</p>	<p>Cynigiau welliannau 2 a 3.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>



In moving amendments 2 and 3, I would like to make clear that we will be supporting all of Plaid Cymru's amendments but opposing the one tabled by the Welsh Government. The reason for this is simple: while we have no issue with setting ambitious targets, there has to be a point where the Government admits that the only way it is likely to meet the 2020 targets at this point is by switching all heavy industry off in 2019—something that is clearly not acceptable to anyone in this Chamber. As fellow members of the Environment and Sustainability Committee will have heard over and over again and in the context of the report that Antoinette Sandbach referred to in her opening remarks, these targets look increasingly out of reach and, if anything, hamper the ability of both Government and the wider business community to plan effectively over the coming decade.

However, aside from this, I am pleased to see in Antoinette Sandbach's remarks that the Conservatives are tabling a debate about the central importance of climate change. It was only a few months ago that we had some contributions from the other side of the Chamber that cast some doubt as to the level of conviction about the reality of climate change from that side. I am very pleased to see that that has been put beyond doubt today. Hopefully, this is not an area on which we need to waste any further Assembly time. It is clear that the irrefutable evidence proves that our climate is changing and that human activity is an influential factor that determines that change.

Human influence, of course, is what brings us to the second part of this debate and to our amendments. As I and many others have rehearsed on numerous occasions, Wales finds itself in a very exciting position when it comes to maximising the environmental, social and, indeed, economic opportunities presented by the low carbon revolution. Renewable energy in all of its forms will have a key role to play in building up a mixed-grid approach. As such, it would be foolish to rule out any one generation technology from this picture. As our amendments make clear, I remain a strong supporter of the emergent marine technologies that are being proposed and experimented with around our Welsh coastline. Such technologies are perhaps best exemplified by the impressive DeltaStream project, which is undergoing final pre-installation checks as we speak, in Pembroke Dock, following its official unveiling by the First Minister back in August.

However, such technologies are not yet commercially viable and, thus, they require significant further investment both in the public and private sectors to ensure that they can reach grid parity, something that is now only beginning to happen with onshore wind and is still a long way off for nuclear.

Wrth gynneg gwelliannau 2 a 3, hoffwn ei gwneud yn glir y byddwn yn cefnogi holl welliannau Plaid Cymru ond yn gwrthwynebu'r un a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rheswm dros hynny'n syml: er nad oes gennym unrhyw broblem gyda gosod targedau uchelgeisiol, mae'n rhaid cael pwynt lle mae'r Llywodraeth yn cyfaddef mai'r unig ffordd y mae'n debygol o gyrraedd targedau 2020 yn y fan hon yw trwy ddiffodd yr holl ddiwydiant trwm yn 2019—rhywbeth sy'n amlwg yn annerbyniol i bawb yn y Siambr hon. Fel y bydd cyd-aelodau o Bwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi clywed dro ar ôl tro ac yng nghyd-destun yr adroddiad y cyfeiriodd Antoinette Sandbach ato yn ei sylwadau agoriadol, ymddengys y targedau hyn fwyfwy y tu hwnt i'n cyrraedd ac, os rhywbeth, meant yn llesteirio gallu'r Llywodraeth a'r gymuned fusnes ehangach fel ei gilydd i gynllunio'n effeithiol dros y degawd nesaf.

Fodd bynnag, ar wahân i hyn, rwy'n falch o weld yn sylwadau Antoinette Sandbach fod y Ceidwadwyr yn cyflwyno dadl am bwysigrwydd canolog newid hinsawdd. Dim ond ychydig fisoedd yn ôl gwelwyd rhai cyfraniadau o ochr arall y Siambr yn bwrw rhywfaint o amheuaeth ynghylch lefelau argyhoeddiad ynghylch realiti newid hinsawdd o'r ochr honno. Rwy'n falch iawn o weld y rhoddyd hynny y tu hwnt i amheuaeth heddiw. Rwy'n gobeithio, nad yw hwn yn faes y mae angen i ni wastraffu rhagor o amser y Cynulliad yn ei gylch. Mae'n amlwg bod y dystiolaeth ddiymwad yn profi bod ein hinsawdd yn newid a bod gweithgarwch dynol yn ffactor dylanwadol sy'n achosi'r newid hwnnw.

Dylanwad dynol, wrth gwrs, yw'r hyn sy'n dod â ni at ail ran y dadl hon ac at ein gwelliannau. Fel yr adroddais i a llawer o bobl eraill ar sawl achlysur, mae Cymru yn cael ei hun mewn sefyllfa gyffrous iawn wrth sôn am fanteisio ar gyfleoedd amgylcheddol, cymdeithasol ac, yn wir, economaidd a gyflwynir gan y chwyldro carbon isel. Bydd rôl allweddol gan ynni adnewyddadwy yn ei holl ffurfiau i'w chwarae wrth adeiladu ymagwedd grid-gymysg. Fel y cyfryw, ffôl fyddai diystyru unrhyw dechnoleg un genhedlaeth o'r darlun hwn. Fel sy'n amlwg yn ein gwelliannau, rwy'n dal yn gefnogwr brwd o'r technolegau morol newydd sy'n cael eu cynnig a'u harbrofi o gwmpas arfordir Cymru. Enghraifft dda o dechnoleg o'r fath efallai yw'r prosiect DeltaStream arbennig, sy'n destun gwiriadau terfynol wrth inni siarad, yn Noc Penfro, yn dilyn ei ddadorchuddiad swyddogol gan y Prif Weinidog yn ôl ym mis Awst.

Fodd bynnag, nid yw technolegau o'r fath yn fasnachol hyfwrw eto ac, felly, maent yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol pellach yn y sectorau cyhoeddus a phreifat er mwyn sicrhau y gallant sicrhau cydraddoldeb grid, rhywbeth sydd ond yn dechrau digwydd nawr gyda gwynt ar y tir ac sydd ymhell o ddigwydd ar gyfer niwclear.

That is why I celebrate the fact that this particular project has only been possible through the harnessing of European Union funds through the Welsh European Funding Office—funds which, of course, are due to end by the end of this year. Given the delays that the project has had to endure, it would be extremely unfortunate and potentially very embarrassing for the Welsh Government should that important project fail at the last minute, due to funds being prematurely removed. As such, I am using our amendment to call upon the Welsh Government to look very closely at this potential funding gap and to ensure that the ending of public funds does not prevent the device from completing its operational life.

Further to this, I would also call on the Welsh Government to ensure that similar funds continue to be given to such projects in the future, so that our own developing supply chain and newly established demonstrator zones do not lose out to their equivalents in England and Scotland, which would then be able to offer a better deal. One point that would be of particular value on this would be to work closely with the Department of Energy and Climate Change on addressing the issues that result from the fully justifiable need to set aside decommissioning costs—something that is hard within the existing terms of public grants.

Finally, I would also like to make a quick reference to the need to improve the way in which small-scale devices can be connected to the national grid. I have lost count of the number of times farmers have told me of the problems that they have endured installing a small wind turbine on their own land, particularly because of the prohibitive costs of connection to the national grid. This is simply unaffordable to the average business or local group and establishes an unnecessary barrier to growth. This should be addressed.

Dyna pam rwy'n dathlu'r ffaith bod y prosiect penodol hwn nid yn unig wedi bod yn bosibl drwy harneisio cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd trwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru—cronfeydd sydd, wrth gwrs, yn dod i ben erbyn diwedd y flwyddyn hon. O ystyried yr oedi y bu'n rhaid i'r prosiect ei ddioddef, byddai'n hynod anffodus a gallai fod yn gryn embaras i Lywodraeth Cymru pe methai'r prosiect pwysig hwn ar y funud olaf, oherwydd bod cronfeydd yn cael eu symud cyn pryd. Fel y cyfryw, rwy'n defnyddio ein gwelliant i alw ar Lywodraeth Cymru i edrych yn ofalus iawn ar y bwllch ariannu posibl ac i sicrhau nad yw rhoi diwedd ar arian cyhoeddus yn atal y ddyfais rhag cwblhau ei hoes weithredol.

Yn dilyn ymlaen o hyn, byddwn hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cyllid tebyg yn dal i gael ei rhoi i brosiectau o'r fath yn y dyfodol, fel na fydd ein cadwyn gyflenwi sy'n datblygu a'n parhau arddangos sydd newydd eu sefydlu ar eu colled i'r rhai cyfatebol yn Lloegr a'r Alban, a fyddai wedyn yn gallu cynnig bargaen well. Un pwynt a fyddai o werth arbennig yn hyn o beth fyddai cydweithio'n agos ag Adran Ynni a Newid Hinsawdd ar fynd i'r afael â'r materion sy'n deillio o'r angen cwbl gyfiawnadwy i neilltuo costau datgomisynu—rhywbeth sy'n anodd o fewn y telerau grantiau cyhoeddus presennol.

Yn olaf, hoffwn hefyd gyfeirio'n gyflym at yr angen i wella'r ffordd y gellir cysylltu dyfeisiau graddfa fach â'r grid cenedlaethol. Rwyf wedi colli cyfrif ar sawl gwaith y mae ffermwyr wedi dweud wrthyf am y problemau y maent wedi eu dioddef wrth osod tyrbîn gwynt bach ar eu tir eu hunain, yn enwedig oherwydd y costau afresymol o gysylltu â'r grid cenedlaethol. Mae hyn yn syml yn anfforddiadwy i grŵp lleol neu fusnes arferol ac mae'n gosod rhwystr diangen sy'n atal twf. Dylid datrys hyn.

15:28

## Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Llyr Gruffydd i gynnig gwelliannau 4, 5 a 6, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 4—Elin Jones*

*Dileu pwynt 5 a rhoi yn ei le:*

*Yn credu bod adnoddau naturiol Cymru yn asedau gwerthfawr y gellid eu defnyddio i dorri allyriadau carbon, ac yn galw am ddatganoli'r holl bwerau dros ynni yn llawn, gan gynnwys pob agwedd ar drwyddedu, caniatâd cynllunio ac Ystad y Goron.*

*Gwelliant 5—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i osod targed i Gymru fod yn hunangynhaliol o ran trydan adnewyddadwy.*

*Gwelliant 6—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I call on Llyr Gruffydd to move amendments 4, 5 and 6, tabled in the name of Aled Roberts.

*Amendment 4—Elin Jones*

*Delete point 5 and replace with:*

*Believes that Wales's natural resources are valuable assets that could be used to cut carbon emissions, and calls for all powers over energy to be devolved in full, including all licencing, planning consenting and the Crown Estate.*

*Amendment 5—Elin Jones*

*Add as new point at the end of the motion:*

*Calls on the Welsh Government to set a target for Wales to reach self-sufficiency in renewable electricity.*

*Amendment 6—Elin Jones*

*Add as new point at the end of the motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu rhaglen ôl-osod uchelgeisiol i gynyddu effeithlonrwydd ynni y stoc dai bresennol.*

*Calls on the Welsh Government to implement an ambitious retrofitting programme to increase the energy efficiency of existing housing stock.*

15:28

**Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Cynigiad wellianau 4, 5 a 6.

I move amendments 4, 5 and 6.

Rydym yn clywed yn gyson rethreg digon positif yn dod o gyfeiriad Llywodraeth Cymru. Mae'r gwelliant yn cadarnhau bod y Llywodraeth yn ymrwymedig, wrth gwrs, i'r hyn sydd o dan sylw, ond ar ddiwedd y dydd, o edrych ar y gweithredu, yn fy marn i, mae cwestiynau sylfaenol sydd angen eu hateb.

We consistently hear rhetoric that is quite positive coming from the Welsh Government. The amendment confirms that the Government is committed, of course, to the subject in hand, but, at the end of the day, looking at the steps taken, in my view, fundamental questions need to be answered.

Nid oes amheuaeth, ar y 'trajectory' presennol, na fyddwn yn cwrrd â'r nod o dorri allyriadau gan 40% erbyn 2020. Nid yw'n golygu na allwn ni gyrraedd y targed hwnnw, ond mae'r enillion hawdd wedi cael eu gwneud; rydym yn awr yn cyrraedd y pwynt lle mae'n rhaid newid gêr gwirioneddol os ydym o ddifrif ynglŷn â chyrraedd y targedau hyn. Beth ydym yn ei gael gan Lywodraeth Cymru? Rydym yn cael gan y Gweinidog, yn ei rôl flaenorol, safonau tai newydd lle roedd y lefel yr ymgynghorwyd arno ar gyfer gostwng allyriadau yn 40%—roedd opsiwn arall o 25%—a'r lefel a ddewiswyd gan y Llywodraeth yn 8%. Mae hynny oddi ar y 'scale' yn llwyr, sy'n dangos i mi lefel yr uchelgais.

There is no doubt that, on the current trajectory, we will not meet the goal of cutting emissions by 40% by 2020. That does not mean that we cannot achieve that target, but the easy gains have been made; we are now reaching the point where a real gear change is needed if we are serious about reaching these targets. What we are getting from the Government? From the Minister, in his previous role, we had new housing standards where the emission reduction level consulted upon was 40%—there was another option of 25%—and the level chosen by the Government was 8%. That is completely off the scale, which indicates to me the level of ambition.

Cawn gyfle yn y ddafl nesaf i drafod yr M4. Wrth gwrs, mae cwestiynau mawr ynglŷn â goblygiadau'r M4 yn y cyd-destun hwn. Mae llusgo traed wedi bod ar ran Llywodraeth Cymru pan ddaw i'r cynlluniau addasu sectorau—y 'sectoral adaptation plans'. Chi yw'r pedwerydd Gweinidog i mi ofyn i drïo newid gêr ychydig ar sicrhau bod y cynlluniau hyn yn cael eu datblygu ac yn gweld golau dydd. Wrth gwrs, rydym wedi gweld yn ddiweddar iawn cyhoeddi Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Dyma Fil sy'n gwneud un cyfeiriad at newid hinsawdd, ond nid yw'n gyfeiriad ystyrion yn yr ystyr o fynd i'r afael â'r broblem mewn gwirionedd. Nawr, byddwn ninnau fel plaid yn cefnogi gwelliannau 2 a 3 oherwydd mae'r datblygiadau sy'n cael eu cyfeirio atynt yn cynnig cyfleoedd o safbwynt ynni adnewyddadwy a thorri allyriadau, ac hefyd y cyfleoedd economaidd sy'n dod yn sgîl hynny.

We will have an opportunity in the next debate to discuss the M4. Of course, there are major questions on the implications of the M4 development in this context. The Welsh Government has been dragging its feet when it comes to the sectoral adaptation plans. You are the fourth Minister whom I have asked to change gear on ensuring that these plans are developed and do so see the light of day. Of course, recently we have seen the publication of the Well-being of Future Generations (Wales) Bill. The Bill makes a single reference to climate change, but it is not a meaningful reference in terms of actually tackling the problem. As a party, we will be supporting amendments 2 and 3 because the developments referred to provide opportunities in terms of renewable energy and cutting emissions, and obviously the economic advantages that would accrue from that.

Moving to the Plaid Cymru amendments, we are clear that a Plaid Cymru Government in 2016 would set itself a target to become self-sufficient in renewable energy—in renewable electricity, I should say—by 2035. We already produce, of course, more electricity than we use in Wales, but the latest data unfortunately shows that less than 8% of our electricity consumption is sourced from renewables. Now that compares with—

Gan symud at welliannau Plaid Cymru, rydym yn glir y byddai Llywodraeth Plaid Cymru yn 2016 yn gosod targed i ddod yn hunangynhaliol mewn ynni adnewyddadwy ei hun—i mewn trydan adnewyddadwy, dylwn ddweud—erbyn 2035. Rydym eisoes yn cynhyrchu, wrth gwrs, mwy o drydan nag a ddefnyddiwn yng Nghymru, ond mae'r data diweddaraf yn anffodus yn dangos bod llai nag 8% o'n defnydd o drydan yn dod o ffynonellau adnewyddadwy. Nawr mae hyn yn cymharu ag—

15:31

**Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I appreciate what the Member has been saying on that. Will he restate Plaid Cymru's absolute commitment to nuclear power at this point?

Rwy'n gwerthfawrogi'r hyn y mae'r Aelod wedi bod yn ei ddweud am hynny. A yw am ailddatgan ymrwymiad llwyr Plaid Cymru i ynni niwclear yn y fan hon?

## Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that the Member knows exactly where Plaid Cymru policy stands on these matters. I would tell you that the only saving grace for nuclear, as far as I am concerned, is in that carbon reduction context. However, until you can tell me what you will do with the waste then it is not something that I would entertain.

The renewables sourced across the UK is 9.4% of electricity across the UK and is 26.8% in Scotland. Obviously, for Wales, being less than 8%, that is disappointing but not surprising. We are severely restricted, as I am sure the Minister will remind us, in terms of influence and the level of devolution around some of these areas. Our amendments, therefore, call for energy to be devolved in full and that would include consenting arrangements without imposing arbitrary limits in the generating capacity that we could make use of here in Wales.

Rwyf eisiau symud hefyd at y cynnig arall, sef, wrth gwrs, yr holl agenda 'retrofitio' hon. Mae dwy agwedd i bob polisi ynni: un yw sicrhau bod ynni yn cael ei gynhyrchu o ffynonellau adnewyddadwy a'r ail un wedyn yw lleihau'r defnydd o ynni yn y lle cyntaf. Mae cyfeiriadau wedi bod fan hyn yn y gorffennol at gynlluniau fel Arbed a Nyth, ac mae'r rheiny i'w canmol, ond mae 'scale' y cynlluniau sydd eu hangen mewn gwirionedd lawer iawn yn fwy. Mae ymchwil wedi dangos bod angen 'retrofitio' 400,000 o dai yng Nghymru—traean o stoc dai Cymru—a gwneud hynny dros y 10 mlynedd nesaf os ydym o ddirif ynglŷn â chwrrd â thoriad allyriadau carbon o 40% erbyn 2020. Byddai cost sylweddol ynghlwm â hynny, wrth gwrs. Mae'n bosibl y byddai'n un o'r opsiynau y gellid ei ystyried yng nghydestun pwerau benthyg ar gyfer prosiectau cyfalaf. Mae hwnna'n un peth, efallai, a fyddai'n werth ei ystyried. Mae cost, ond, wrth gwrs, nid yn unig buddiannau amgylcheddol a fyddai'n dod yn sgîl hynny; byddai'n creu miloedd o swyddi a byddai'n helpu i daclo tlodi tanwydd, yr amgylchedd, yr economi a'r elfennau cymdeithasol. Dyna yw datblygu cynaliadwy gwirioneddol a byddwn i'n eich annog fel Aelodau i gefnogi'r gwelliannau.

Credaf fod yr Aelod yn gwybod union safbwynt polisi Plaid Cymru ar y materion hyn. Byddwn yn dweud wrthyhch mai'r unig achubiaeth i niwclear, yn fy marn i, yw yng nghydestun lleihau carbon. Fodd bynnag, nes y gallwch chi ddweud wrthyf beth y byddwch yn ei wneud gyda'r gwastraff, yna nid yw'n rhywbeth y byddwn yn ei ystyried.

Roedd yr ynni adnewyddadwy a gafwyd ledled y DU yn 9.4% o drydan ar draws y DU ac mae 26.8% yn yr Alban. Yn amlwg, ar gyfer Cymru, sy'n llai nag 8%, mae hynny'n siomedig, ond nid yn syndod. Rydym wedi ein cyfyngu yn ddifrifol, fel y bydd y Gweinidog yn ein hatgoffa rwy'n siŵr, o ran dylanwad a lefel datganoli ynghylch rhai o'r meysydd hyn. Mae ein gwelliannau, felly, yn galw am i ynni gael ei ddatganoli yn llawn a byddai hynny'n cynnwys trefniadau cydsynio heb osod terfynau mympwyol yn y gallu cynhyrchu y gallem eu defnyddio yma yng Nghymru.

I also want to move on to the other amendment, which is, of course, on the whole issue of retrofitting. There are two aspects to any energy policy: one is to ensure that energy is produced from renewable sources and the second is to reduce energy usage in the first place. References have been made in this place in the past to schemes such as Arbed and Nest, and those are to be praised, but the scale of the schemes required is far, far greater. Research has demonstrated that we need to retrofit 400,000 homes in Wales—a third of the Welsh housing stock—over the next 10 years if we are serious about meeting the carbon reduction target of 40% by 2020. There would be a significant cost attached to that, of course. It is possible that it could be one of the options considered in the context of borrowing powers for capital projects. That is one thing that could be worth while considering. There is a cost, of course, but it is not only environmental benefits that would accrue from that; it would create thousands of jobs and it would help to tackle fuel poverty, the environment, the economy and social issues. That is what sustainable development means in its truest sense and I would encourage you as Members to support the amendments.

## Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am pleased to be able to take part in this debate this afternoon. I am sure that all Members will join me in celebrating the richness of Wales's natural resources. This is a very fitting debate for me as I, personally, consider Pembrokeshire to be the energy capital of Wales and so the focus of my contribution today will be to highlight what Pembrokeshire offers Wales and can offer Wales, particularly in the field of marine energy.

Rwy'n falch o allu cymryd rhan yn y ddatl hon y prynhawn yma. Rwy'n siŵr y bydd yr holl Aelodau'n ymuno â mi i ddathlu cyfoeth adnoddau naturiol Cymru. Mae hon yn ddatl addas iawn i mi gan fy mod i, yn bersonol, yn ystyried Sir Benfro fel prifddinas ynni Cymru ac felly mae canolbwynt fy nghyfraniad heddiw yn tynnu sylw at yr hyn y mae Sir Benfro yn ei gynig i Gymru ac y gall ei gynig i Gymru, yn enwedig ym maes ynni morol.

I believe that marine technology offers a unique opportunity to Wales and Pembrokeshire can play a key part in that. Given its extensive coastline and ports, Pembrokeshire has the potential to be a global leader in the marine energy market as a generator of energy and as an exporter of marine energy knowledge. Unlike Scotland, which is facing significant issues with the grid, the grid capacity in Wales is well placed to support marine technologies, as are our port facilities. In Pembrokeshire, there is a wealth of activity taking place in relation to marine energy and it is really quite an exciting time for the industry. It has already been said that Wales's first full-scale tidal energy generator was awarded a £1.6 million European Union grant to fund its deployment in Ramsey sound last year. As the Member for Mid and West Wales referred to, DeltaStream is a device that is an underwater turbine, which is mounted on a freestanding base, with a 49 ft diameter rotor connected to a generator, and produces electricity by both the ebb and flood tides.

The tidal power scheme will actually provide green electricity with the potential to power up to 1,000 homes. I was particularly pleased that the company has been keen to involve the local community, and local residents have had the opportunity to learn more about this project, and, indeed, it will also create a number of skilled jobs for the local economy. Only very recently, that project announced an important deal with EDF Energy, marking a significant milestone in the commercial development of tidal power in the UK.

That is not all that Pembrokeshire's marine sector is offering Wales. There is also Wave Dragon, which is a floating, slack-moored energy convertor that can be deployed in a single unit or in groups, resulting in a power plant with a capacity that is comparable to traditional fossil-based power plants. The device, even in this early demonstration phase, could produce enough clean and green electricity each year to meet the annual demand of between 2,500 and 3,000 homes, subject to grid connection. This clean generation will offset the release of about 1,000 tonnes of carbon dioxide every year, which is, of course, the main greenhouse gas contributing to global warming and climate change.

These are just two examples of how the marine sector in Wales is developing, and I have no doubt that, with the current pace of development in Pembrokeshire, Wales will be a global leader in this field in years to come. For that very reason, marine energy must be at the top of the Welsh Government's energy agenda. Indeed, last year, the Environment and Sustainability Committee made a number of key recommendations in its report on marine policy in Wales, which included the Welsh Government affording a higher priority to marine policy in Wales. In its follow-up letter to the Minister this year, the committee noted that, while developments such as the publication of the Wales marine and fisheries strategic action plan were welcomed by stakeholders, concerns were also expressed that marine policy is still being viewed as a standalone sector, and is not mainstreamed across Welsh Government policy. The White Paper on the Environment Bill was highlighted as an example of where marine policy had not been sufficiently integrated into proposals for natural resources management.

Credaf fod technoleg forol yn cynnig cyfle unigryw i Gymru a gall Sir Benfro chwarae rhan allweddol yn hynny. O ystyried ei harfordir a'i phorthladdoedd helaeth, mae gan Sir Benfro'r potensial o fod yn arweinydd byd-eang yn y farchnad ynni morol fel generadur ynni ac fel allforiwr gwybodaeth am ynni morol Sir Benfro. Yn wahanol i'r Alban, sy'n wynebu problemau sylweddol gyda'r grid, mae capasiti grid yng Nghymru mewn sefyllfa dda i gefnogi technolegau morol, fel y mae ein cyfleusterau porthladd. Yn Sir Benfro, mae cyfoeth o weithgaredd yn digwydd mewn perthynas ag ynni'r môr ac mae yn ddi-os mae'n gyfnod cyffrous i'r diwydiant. Dywedwyd eisoes fod generadur ynni'r llanw ar raddfa lawn gyntaf Cymru wedi derbyn grant o £1.6 miliwn gan yr Undeb Ewropeaidd i ariannu'r ddyfais yn Swnt Dewi y llynedd. Fel y cyfeiriodd yr Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru, dyfais yw DeltaStream sy'n dyrbin tanddwr, sy'n cael ei osod ar sylfaen annibynnol, gyda rotor â diamedr o 49 troedfedd wedi'i gysylltu â generadur sy'n cynhyrchu trydan gyda llif y trai a'r llanw.

Bydd cynllun ynni'r llanw mewn gwirionedd yn darparu trydan gwyrdd gyda'r potensial o bweru hyd at 1,000 o gartrefi. Roeddwn yn arbennig o falch fod y cwmni wedi bod yn awyddus i gynnwys y gymuned leol, a thrigolion lleol wedi cael y cyfle i ddysgu mwy am y prosiect hwn, ac, yn wir, bydd hefyd yn creu nifer o swyddi crefftus ar gyfer yr economi leol. Dim ond yn ddiweddar iawn y cyhoeddodd y prosiect gytundeb pwysig gydag EDF Energy, sy'n garreg filltir bwysig yn natblygiad masnachol ynni'r llanw yn y DU.

Nid dyna'r cyfan y mae sector morol Sir Benfro yn ei gynnig i Gymru. Mae Wave Dragon hefyd, sy'n drawsnewidydd ynni ar angor-llac sy'n arnofio y gellir ei ddefnyddio fel uned sengl neu mewn grwpiau, gan greu pwerdy gyda chapasiti sy'n cymharu â'r gorsafoedd ynni sy'n seiliedig ar ffosil traddodiadol. Gallai'r ddyfais, hyd yn oed yn y cyfnod arddangos cynnar, gynhyrchu digon o drydan glân a gwyrdd bob blwyddyn i ateb y galw blynyddol o rhwng 2,500 a 3,000 o gartrefi, yn amodol ar gysylltiad â'r grid. Bydd y cynhyrchiant glân hwn yn gwrthbwysio tua 1,000 tonnell o garbon deuocsid sy'n cael ei ryddhau bob blwyddyn, sef y prif nwy tŷ gwyrdd sy'n cyfrannu at gynhesu byd-eang a newid hinsawdd.

Dyma ddwy enghraifft o sut mae'r sector morol yng Nghymru yn datblygu, ac nid oes gennyf amheuaeth y bydd Cymru, gyda'r datblygiad cyflym presennol yn Sir Benfro, yn arweinydd byd-eang yn y maes hwn yn y blynyddoedd i ddod. Am yr union reswm hwnnw, mae'n rhaid i ynni morol fod ar frig agenda ynni Llywodraeth Cymru. Yn wir, y llynedd, gwnaeth y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd nifer o argymhellion allweddol yn ei adroddiad ar bolisi morol yng Nghymru, a oedd yn cynnwys Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth uwch i bolisi morol yng Nghymru. Yn ei lythyr dilynol at y Gweinidog eleni, nododd y pwyllgor, er bod datblygiadau fel cyhoeddi'r cynllun gweithredu strategol morol a physgodfeydd Cymru yn cael eu croesawu gan randdeiliaid, mynegwyd pryderon hefyd fod polisi morol yn dal i gael ei weld fel sector annibynnol, a heb gael ei brif ffyrddio ar draws polisi Llywodraeth Cymru. Roedd y Papur Gwyn ar y Bil Amgylchedd wedi'i amlygu fel enghraifft o hyn, lle nad yw polisi morol wedi cael ei integreiddio'n ddigonol i mewn i gynigion ar gyfer rheoli adnoddau naturiol.

So, today's debate is an opportunity for the Minister to clarify to Members—and to the whole of Wales—exactly how the Welsh Government is affording a higher priority to the marine sector, and how it is being mainstreamed across Government policy, and I hope that, in his response, he will do so. Now, I am sure that Members will agree with me that marine energy is increasingly being seen as an important part of the energy mix. According to the Environment and Sustainability Committee's report, the marine and coastal environment contributes £2.5 billion to the Welsh economy, and supports over 92,000 jobs. Therefore, we cannot underestimate the importance of the marine industry, not only to the overall energy industry in Wales, but to our economy as well. Therefore, in closing, it is essential that the Welsh Government does more to promote the marine industry, and engages with the sector in future.

Felly, mae'r ddadl heddiw yn gyfle i'r Gweinidog egluro i'r Aelodau—ac i Gymru gyfan—sut yn union y mae Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth uwch i'r sector morol, a sut y mae'n cael ei brif ffrydio ar draws polisi'r Llywodraeth, ac rwy'n gobeithio, yn ei ymateb, y bydd yn gwneud hynny. Yn awr, rwy'n siŵr y bydd yr Aelodau'n cytuno â mi bod ynni'r môr yn cael ei weld yn gynyddol fel rhan bwysig o'r cymysgedd ynni. Yn ôl adroddiad Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, mae'r amgylchedd morol ac arfordirol yn cyfrannu £2.5 biliwn i economi Cymru, ac yn cefnogi dros 92,000 o swyddi. Felly, ni allwn danbrisiu pwysigrwydd y diwydiant morol, nid yn unig i'r diwydiant ynni cyffredinol yng Nghymru, ond i'r economi hefyd. Felly, wrth gloi, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn gwneud mwy i hyrwyddo'r diwydiant morol, ac yn ymgysylltu â'r sector yn y dyfodol.

15:39

## Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the Government's commitment to tackle climate change, but we clearly need to go well beyond commitment—we need action. We have to forget wind, windbags and warm words; we need to seize, with both hands, the opportunities that are open to us, and the natural advantages that we have here in Wales. We have a huge competitive advantage, which we ignore at our own peril.

Paul Davies and William Powell have already spoken about the prospects for tidal power and marine energy, and I absolutely agree with that. However, I feel that we are really missing out on what Wales is centrally known for, which is our coalfields, and we have failed, so far, to tap in to all the mine water heat that we could be getting energy from. For example, there is a farm, Llwyn Llanc Uchaf Farm, in Crynant in Neath, which has a mine water heat recovery access agreement with the coal board. Using two boreholes, it is generating 19.8 kW and will get its money back within nine years. That is a pretty serious investment and I am astonished that we have not done a lot more to tap into that source of energy.

I feel that we have become somewhat paralysed by the fact that the grid does not reach all parts of Wales and I feel that we need to move beyond that. We need to look at how local communities could be generating their own energy and then making savings for themselves on energy bills. If we look at what has been done in Germany, in a mere 15 years, it has gone from 4% to 24% renewable energy generation—.

Rwy'n croesawu ymrwymiad y Llywodraeth i fynd i'r afael â newid hinsawdd, ond mae'n amlwg bod angen i ni fynd ymhell y tu hwnt i ymrwymiad—mae arnom angen gweithredu. Mae'n rhaid i ni anghofio gwynt, malu awyr a geiriau cynnes; mae angen gafael, gyda dwy law, yn y cyfleoedd sydd ar gael i ni, a'r manteision naturiol sydd gennym yma yng Nghymru. Mae gennym fantasia gystadleuol enfawr, gwae ni os bydd i ni ei hanwybyddu.

Mae Paul Davies a William Powell eisoes wedi siarad am y rhagolygon ar gyfer ynni'r llanw ac ynni morol, ac rwy'n cytuno'n llwyr â hynny. Fodd bynnag, teimlaf ein bod yn wir yn colli cyfle yn yr hyn y mae Cymru'n enwog amdano, sef ein meysydd glo, a hyd yn hyn, rydym wedi methu manteisio ar yr holl wres o ddŵr mwynbyllau y gallem fod yn cael ynni ohono. Er enghraifft, mae gan fferm Llwyn Llanc Uchaf, yn y Creunant yng Nghastell-nedd, gytundeb gyda'r bwrdd glo sy'n rhoi mynediad i wres dŵr o fwynbyllau. Trwy ddefnyddio dau dwll turio, mae'n cynhyrchu 19.8 kW a bydd yn cael ei arian yn ôl o fewn naw mlynedd. Mae hynny'n fuddsoddiad eithaf sylweddol ac rwy'n synnu nad ydym wedi gwneud llawer mwy i fanteisio ar y ffynhonnell ynni honno.

Rwy'n teimlo ein bod wedi ein parlysu braidd gan y ffaith nad yw'r grid yn cyrraedd pob rhan o Gymru a theimlaf fod angen i ni symud y tu hwnt i hynny. Mae angen inni edrych ar sut y gallai cymunedau lleol gynhyrchu eu hynni eu hunain ac yna gwneud arbedion ar gyfer eu hunain ar filiau ynni. Os ydym yn edrych ar yr hyn a wnaed yn yr Almaen, mewn dim ond 15 mlynedd, maent wedi dringo o gynhyrchu 4% i 24% o ynni adnewyddadwy—.

15:41

## Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I take the point about community generation and I wholeheartedly endorse what you are saying, but the big issue is that for projects to get financing and get over that threshold, you need that grid connection from the provider. Sadly, the grid that we have here in Wales and the UK is not geared up for microgeneration projects. It is a vital piece of Government work to make sure that that upgrade does take place.

Derbyniaf y pwynt am gynhyrchu cymunedol ac rwy'n llwyr gefnogi'r hyn rydych yn ei ddweud, ond y broblem fawr yw er mwyn i brosiectau gael eu hariannu a dod dros y trothwy hwnnw, mae angen i chi gael cysylltiad â'r grid gan ddarparwr. Yn affodus, nid oedd y grid sydd gennym yma yng Nghymru ac yn y DU yn barod ar gyfer prosiectau microgynhyrchu. Dyma ddarn hanfodol o waith y Llywodraeth sef sicrhau bod y gwaith uwchraddio yn digwydd.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



**Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We could get involved in that, but we also need to look at how we can develop the technology to enable communities to use the energy that they generate on site, in their local communities. If we could develop that technology, that would be relevant to the vast swathes of the world that are not locked into any grid at all. They are generating their energy with solar, if they are lucky, otherwise candles. So, if there is a prospect of us being able to tap into local generation schemes and store energy, whether it is by using some sort of battery storage or something else, so that people can use it when they actually need it, as opposed to when the sun is shining, that, in itself, will enrich local communities, particularly in isolated areas, which are simply not tapping into the streams that are pouring down and the heat that comes from the earth.

Gallem gymryd rhan yn hynny, ond mae angen hefyd inni edrych ar sut y gallwn ddatblygu'r dechnoleg er mwyn galluogi cymunedau i ddefnyddio'r ynni y maent yn ei gynhyrchu ar y safle, yn eu cymunedau lleol. Pe gallwn ddatblygu'r dechnoleg, byddai hynny'n berthnasol i'r rhannau helaeth o'r byd nad ydynt wedi'u cysylltu ag unrhyw grid o gwbl. Maent hwy yn cynhyrchu eu hynni drwy'r haul, os ydynt yn ffodus, fel arall canhwyllau sydd ganddynt. Felly, os oes gobaith i ni allu manteisio ar gynlluniau cynhyrchu lleol a storio ynni, boed hynny drwy ddefnyddio rhyw fath o fatris i storio neu rywbeth arall, er mwyn i bobl allu defnyddio'r ynni pan fydd ei angen arnynt mewn gwirionedd, yn hytrach na phan fydd yr haul yn tywynnu, bydd hynny, ynddo'i hun, yn cyfoethogi cymunedau lleol, yn enwedig mewn ardaloedd anghysbell, nad ydynt yn manteisio ar y nentydd sy'n llifo i lawr a'r gwres sy'n dod o'r ddaear.

I think that part of the problem is that we have in Britain such a wholly centralised system. In Germany, for example, one in six companies creates its own energy. Very few of our companies in Wales are creating their own energy, including companies that require large-scale energy to run the business that they are doing. So, in Germany, they look at the electricity grid as something that is brought into social ownership and citizens are termed 'prosumers' as they both produce and consume energy. Only 5% of generating capacity in Germany is owned by the big four power companies. How fantastic would it be if we could generate so much more of our energy in Wales and we were not subject to the comings and goings of the big six? I feel that there is a real opportunity for us in Wales to develop this locally generated energy, which would be a great potential future export to third-world countries that obviously do not have the grid. So, I would like us to do a lot more on that.

Credaf mai rhan o'r broblem yw bod gennym ym Mhrydain system sy'n gyfan gwbl ganolog. Yn yr Almaen, er enghraifft, mae n cwmni o bob chwech yn creu ei ynni ei hun. Ychydig iawn o'n cwmnïau yng Nghymru sy'n creu eu hynni eu hunain, gan gynnwys cwmnïau sydd angen ynni ar raddfa fawr i redeg y busnes maent yn ei wneud. Felly, yn yr Almaen, maent yn edrych ar y grid trydan fel rhywbeth sy'n cael ei ddwyn i mewn i berchnogaeth gymdeithasol gan gyfeirio at ddinasyddion fel 'prosumers' am eu bod yn cynhyrchu ac yn defnyddio ynni. Dim ond 5% o gapasiti cynhyrchu yn yr Almaen sy'n eiddo i'r pedwar cwmni ynni mawr. O mor wych fyddai cael sefyllfa lle gallwn gynhyrchu cymaint mwy o'n hynni yng Nghymru heb fod ar drugaredd mynd a dod y chwe cwmni mawr? Rwy'n teimlo bod cyfle gwirioneddol i ni yng Nghymru ddatblygu'r ynni hwn a gaiff ei gynhyrchu'n lleol, gan roi'r potensial mawr i ni o allu ei allforio i wledydd y trydydd byd sydd yn amlwg yn fan lle nad oes grid yn bodoli. Felly, hoffwn inni wneud llawer mwy ar hynny.

**Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am pleased to take part in this important debate this afternoon. Members will probably be aware of which areas I may be covering this afternoon.

Rwy'n falch o gymryd rhan yn y ddadl bwysig hon y prynhawn yma. Mae'n debyg y bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r ardaloedd hynny y byddaf yn ymdrin â nhw'r prynhawn yma.

I certainly believe that communities across Wales want to play their part in meeting the environmental challenges presented by climate change. Very few would disagree that we need to reduce our energy footprint, cut carbon emissions and secure clean energy supplies for future generations. I was rather surprised by Bill Powell's contributions in doubting the Welsh Conservatives' commitment in that regard. I also think that given Wales has a rich supply of natural resources, we have the potential to become a major green player in green energy.

Rwy'n sicr yn credu bod cymunedau ledled Cymru yn awyddus i chwarae eu rhan wrth gwrdd â'r heriau amgylcheddol a gyflwynir gan newid yn yr hinsawdd. Prin iawn fyddai'r rhai a fyddai'n anghytuno bod angen i ni leihau ein hól-troed ynni, lleihau allyriadau carbon a sicrhau cyflenwadau ynni glân ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Yr oeddwn yn synnu braidd gan gyfraniadau Bill Powell yn amau ymrwymiad y Ceidwadwyr Cymreig yn y cyswllt hwnnw. Credaf hefyd, o ystyried yr holl gyfoeth o adnoddau naturiol sydd gan Gymru, mae gennym y potensial o fod yn un o'r prif bwysigion ym maes ynni gwyrdd.

However, I do believe that until the Welsh Government takes a fresh approach to renewable energy, progress towards meeting our emissions reduction targets will be slow. That is why it is key that our communities embrace renewable technologies. Members will be aware that I have continually referred to the need to ensure that local communities are fully engaged—I have continually referred to that—in developments and that local communities are afforded greater determination in the decisions that they make locally.

I feel that it does a great disservice to the renewable energy agenda for any Government to pursue a bull-in-a-china-shop approach to renewable energy that forces large-scale infrastructure projects on communities and fails to build a consensus alongside local people.

Members will be aware of the mid Wales connection project in my own constituency—a project that is progressing only because of TAN 8 and the Welsh Government's policy on encouraging large-scale windfarm development in three strategic search areas that have been sited in mid Wales. Members will be aware of all of the local opposition. When I have raised this in the past, some Welsh Ministers accused my constituents of Nimbyism, but that merely characterises the Welsh Government's disregard for my constituents' very real concerns. It is not good enough to impose a top-down decision on local communities in the face of stark opposition.

Over recent months, I have conducted my own survey of local views on wind energy and wider issues and the survey, completed by over 800 residents in my own constituency and by people on both sides of the debate, concluded that almost nine in 10 people in Montgomeryshire are overwhelmingly supportive of renewable energy. Two thirds of respondents are sceptical of an agenda of an increased focus on wind power as a realistic way of combating climate change and meeting our renewable energy targets.

The survey also reveals a strong feeling that the mid Wales connection project has been a top-down exercise and that communities have been disempowered by it. There is also a belief that mid Wales does not have the relevant road infrastructure to support developments of windfarms on the scale proposed and that the project will be negative for tourism, property prices, wildlife and the visual amenity of our area. However, the survey did show a strong preference for supporting small-scale renewable-energy based schemes, which also included single individual wind turbines.

Fodd bynnag, credaf mai araf fydd cynnydd tuag at gyrraedd ein targedau ar gyfer lleihau allyriadau yn araf hyd oni bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd ymagwedd newydd at ynni adnewyddadwy. Dyna pam ei bod yn allweddol bod ein cymunedau'n cofleidio technolegau adnewyddadwy. Bydd yr Aelodau'n gwybod fy mod wedi cyfeirio yn barhaus at yr angen i sicrhau bod cymunedau lleol yn ymgysylltu'n llwyr-rwyf wedi cyfeirio'n barhaus at hynny-â datblygiadau ac y rhoddir i gymunedau lleol rôl amlycach yn y penderfyniadau a wneir yn lleol.

Teimlaf fod unrhyw Lywodraeth yn gwneud cam mawr â'r agenda ynni adnewyddadwy trwy ddilyn ymagwedd tuag at ynni adnewyddadwy sy'n gorfodi prosiectau seilwaith ar raddfa fawr ar gymunedau ac yn methu ag adeiladu consensws ochr yn ochr â phobl leol.

Bydd Aelodau'n gwybod am y prosiect cyswllt yn y canolbarth yn fy etholaeth—prosiect a lwyddodd dim ond oherwydd TAN 8 a pholisi Llywodraeth Cymru ar annog datblygu ffermydd gwynt ar raddfa fawr mewn tair ardal chwilio strategol sydd wedi eu lleoli yng nghanolbarth Cymru. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r holl wrthwynebiad lleol. Pan godiais hyn yn y gorffennol, cyhuddodd rhai o Weinidogion Cymru fy etholwyr o amddiffyn eu milltir sgwâr eu hunain, ond dim ond nodweddu difaterwch Llywodraeth Cymru tuag at bryderon gwirioneddol fy etholwyr y mae hynny. Nid yw'n ddigon da bod penderfyniadau'n cael eu gorfodi o'r brig i lawr ar gymunedau lleol yn wyneb gwrthwynebiad llwyr.

Dros y misoedd diwethaf, rwyf wedi cynnal fy arolwg fy hun o safbwyntiau lleol ar ynni gwynt a materion ehangach a'r arolwg, a gwblhawyd gan dros 800 o drigolion yn fy etholaeth i a chan bobl ar ddwy ochr y ddadl, a ddaeth i'r casgliad bod bron naw o bob 10 o bobl yn Sir Drefaldwyn yn hynod gefnogol o ynni adnewyddadwy. Mae dwy ran o dair o ymatebwyr yn amheus o agenda gyda ffocws cynyddol ar ynni gwynt fel ffordd realistig o drechu newid yn yr hinsawdd a bodloni ein targedau ynni adnewyddadwy.

Mae'r arolwg hefyd yn dangos teimlad cryf bod prosiect cyswllt canolbarth Cymru wedi bod yn ymarferiad o'r brig i lawr ac iddo ddadrymuso cymunedau. Mae barn hefyd nad oes gan y canolbarth seilwaith ffyrdd perthnasol i gefnogi datblygiadau ffermydd gwynt ar y raddfa arfaethedig ac y bydd y prosiect yn negyddol ar gyfer twristiaeth, prisiau eiddo, bywyd gwyllt ac amwynder gweledol ein hardal. Fodd bynnag, roedd yr arolwg yn dangos ffafiaeth gref o blaid cefnogi cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fechan, oedd hefyd yn cynnwys tyrbinau gwynt unigol sengl.

On these benches, we have always believed in a balanced and sustainable mix of renewables to secure our long-term energy needs. However, the key word there is 'sustainable'. We need to invest in technologies that will be financially self-sufficient in the medium and long term. I appreciate that the Government here has limited powers at the moment as renewables obligation certificates are not yet devolved to Wales. However, I do think that the UK Conservative Party's approach to removing public subsidies for onshore wind development is the right way to proceed in terms of evidence-based policy making because it is clear that the current UK planning data show that we are on schedule to meet our EU renewable targets by the end of the decade. Therefore, it is right that a future Conservative Government would remove public subsidies for onshore wind, because I do not think that it is realistic that any industry should receive public money ongoing. That money could and will be used to back other renewable technologies as part of a mix of energy supplies, such as marine energy, as Paul Davies mentioned earlier, and that is the right way to proceed.

To conclude, acting Presiding Officer, we need to be serious about our opportunities of developing a low-carbon economy through a correct renewable-energy mix that genuinely meets our energy needs. It is a new approach in Wales. We need to rebuild community confidence, stop putting barriers up to small-scale community projects that have local support and stop imposing projects on communities that do not want them and we need to ensure that we have a fresh approach that does not involve putting divisions among communities in Wales.

15:49

## **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that one of the continuing disappointments that many of us have shared in this and other debates on issues of sustainability and climate change is the way that they constantly seem to be compartmentalised or pigeon holed for the Minister for environment to respond to and are seen to be in competition with other matters. We are constantly being confronted with false choices, such as: do we deal with climate change or tackle poverty; is it climate change or jobs, or climate change or affordable homes? I hope that, for at least today, and in the future, we can move away from these false choices and that sterile argument.

I have some quite significant concerns that the place and importance of climate change is not fully recognised by the Welsh Government. I am concerned that this Government could well find itself with a record worse than that of the United Kingdom Government or of any other of the devolved administrations.

Ar y meinciau hyn, rydym bob amser wedi credu mewn cymysgedd cytbwys a chynaliadwy o ynni adnewyddadwy i ddiogelu ein hanghenion ynni hirdymor. Fodd bynnag, y gair allweddol yw 'cynaliadwy'. Mae angen i ni fuddsoddi mewn technolegau a fydd yn ariannol hunangynhaliol yn y tymor canol a'r hirdymor. Rwy'n sylweddoli mai pwerau cyfyngedig sydd gan y Llywodraeth hon ar hyn o bryd gan nad yw tystysgrifau rhwymedigaeth ynni adnewyddadwy wedi eu datganoli i Gymru eto. Fodd bynnag, credaf mai ymagwedd Plaid Geidwadol y DU sy'n cael gwared ar gymorthdaliadau cyhoeddus i ddatblygiadau gwynt ar y tir yw'r ffordd gywir i symud ymlaen o ran llunio polisi ar sail tystiolaeth gan ei bod yn amlwg bod data cynllunio cyfredol y DU yn dangos ein bod ar y trywydd iawn i gyrraedd targedau adnewyddadwy yr UE erbyn diwedd y degawd. Felly, mae'n iawn y byddai Llywodraeth Geidwadol yn y dyfodol yn dileu cymorthdaliadau cyhoeddus ar gyfer gwynt ar y tir, oherwydd nid wyf yn credu ei bod yn realistig y dylai unrhyw ddiwydiant dderbyn arian cyhoeddus parhaus. Gallai'r arian hwnnw a bydd yr arian hwnnw'n cael ei ddefnyddio i gefnogi technolegau adnewyddadwy eraill fel rhan o gymysgedd o gyflenwadau ynni, megis ynni'r môr, fel y soniodd Paul Davies yng gynharach, a dyna'r ffordd iawn o fwrw ymlaen.

I gloi, Lywydd Gweithredol, mae angen inni fod o ddirif ynghylch ein cyfleoedd i ddatblygu economi carbon-isel drwy gymysgedd cywir o ynni adnewyddadwy sy'n diwallu yn wirioneddol ein hanghenion ynni. Mae'n ddull newydd yng Nghymru. Mae angen i ni ail-adeiladu hyder y gymuned, rhoi'r gorau i rwystro prosiectau cymunedol ar raddfa fach sydd â chefnogaeth leol a rhoi'r gorau i orfodi prosiectau ar gymunedau pan nad ydynt eu heisiau ac mae angen i ni sicrhau bod gennym ymagwedd newydd nad yw'n cynnwys creu rhaniadau yn ein cymunedau yng Nghymru.

Credaf mai un o'r siomedigaethau parhaus y mae llawer ohonom wedi rhannu yn hyn o beth, a dadleuon eraill ar faterion cynaliadwyedd a newid hinsawdd yw'r ffordd yr ymddengys eu bod yn cael eu compartmentaleiddio neu eu dosrannu i'r Gweinidog amgylchedd ymateb iddynt ac y'u gwelir eu bod yn cystadlu â materion eraill. Rydym yn wynebu dewisiadau ffug yn gyson, er enghraifft: a ddylem ni fynd i'r afael â newid hinsawdd neu fynd ati i drechu tloidi; ai newid hinsawdd neu swyddi ddylai gael ein sylw, neu newid hinsawdd neu gartrefi fforddiadwy? Gobeithio, o leiaf am heddiw, ac yn y dyfodol, y gallwn symud i ffordd oddi wrth y dewisiadau ffug hyn a'r ddadl hesb honno.

Mae gennyf rai pryderon eithaf sylweddol nad yw lle a phwysigrwydd newid hinsawdd yn cael ei gydnabod yn llawn gan Lywodraeth Cymru. Rwy'n pryderu bod perygl i'r Llywodraeth hon ganfod ei hun gyda record waeth na record Llywodraeth y Deyrnas Unedig, neu record unrhyw un arall o'r gweinyddiaethau datganoledig.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The Minister will be aware that a compact for regional government was signed last week in New York and endorsed by the United Nations. This officially recognised the role and place of regional and subnational Governments in the wider international and global debates on climate change. I hope that Wales will sign up to that compact and play its full role in the vital international debates that are taking place today in the run up to Lima at the end of this year and the debates that will be taking place in Paris next year. In doing so, I hope that this Government will be a radical Government, looking for radical change in what we do. Let me say, if I might be so rude as to say it to a Minister, that I think that there are three tests that the Government has to face in terms of its radicalism in this area.

The first is to accept that there is, and needs to be, a statutory framework for these targets. The Welsh Government has agreed to review how targets can be managed and implemented and whether a statutory framework is based on either emissions reductions, as in Scotland, or on the basis of carbon budgeting. We need the certainty now of understanding which direction the Government will be moving in and how that statutory framework will be created and delivered. There are legislative opportunities in this Assembly. The Minister has said that he does not believe that the Well-being of Future Generations (Wales) Bill is the place for a statutory framework, but, clearly, the environment Bill may well be so. If so, I hope that we will see the Government legislating to create that statutory framework.

The second test is that on green growth. I very much welcome the commitment made by the Minister for finance yesterday to create a green growth fund. The £5 million that has been allocated to this is something that I would like to see explained as to how that will lead to an additional £500 million of investment and in what timescale. However, it is important that, in terms of green growth, we see ourselves as ahead of the game. Wales was at the heart of the first industrial revolution, and we simply must be at the heart of the green growth revolution. This revolution is one that can be based on the sustainable use and management of our natural resources and the active and proactive creation of a circular economy. These things will be key to our future economic success. I would say to the Government that the deep place study of Tredegar in my constituency demonstrates that we can at once meet our ambitions on sustainability and climate change as well as tackling poverty and creating work and jobs in some of our poorest communities.

Bydd y Gweinidog yn ymwybodol y llofnodwyd compact ar gyfer llywodraeth ranbarthol yr wythnos diwethaf yn Efrog Newydd ac a gymeradwywyd gan y Cenhedloedd Unedig. Mae hyn yn cydnabod yn swyddogol y rôl a lle'r Llywodraethau rhanbarthol ac is-genedlaethol yn y trafodaethau rhyngwladol a byd-eang ehangach ar newid hinsawdd. Rwy'n gobeithio y bydd Cymru'n ymrwymo i'r compact ac yn chwarae ei rhan lawn yn y trafodaethau rhyngwladol hanfodol sy'n digwydd heddiw wrth baratoi at Lima ar ddiwedd y flwyddyn hon a'r dadleuon a fydd yn cael eu cynnal ym Mharis y flwyddyn nesaf. Wrth wneud hynny, gobeithiaf y bydd y Llywodraeth hon yn Llywodraeth radical, yn chwilio am newid radical yn yr hyn a wnawn. A gaf fi ddweud, os caf fod mor anghwrtais â dweud hyn wrth Weinidog, fy mod yn meddwl bod tri phrawf sy'n rhaid i'r Llywodraeth eu hwynebu o ran ei radicaliaeth yn y maes hwn.

Y cyntaf yw derbyn bod fframwaith statudol ar gyfer y targedau hyn ac mae angen fframwaith. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i adolygu sut y gellir rheoli targedau a'u gweithredu ac a yw fframwaith statudol yn seiliedig ar naill ai ostyngiadau mewn allyriadau, fel yn yr Alban, neu ar sail cyllidebu carbon. Mae arnom angen y sicrwydd, nawr, wrth ddeall i ba gyfeiriad y bydd y Llywodraeth yn symud a sut y bydd y fframwaith statudol yn cael ei greu a'i ddarparu. Mae cyfleoedd deddfwriaethol yn y Cynulliad hwn. Dywedodd y Gweinidog nad yw'n credu mai Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw'r lle i fframwaith statudol, ond, yn amlwg, y Bil amgylchedd o bosibl fydd y lle. Os felly, gobeithiaf y byddwn yn gweld y Llywodraeth yn deddfu i greu'r fframwaith statudol.

Yr ail brawf yw'r prawf twf gwyrdd. Rwy'n croesawu'n fawr yr ymrwymiad a wnaed gan y Gweinidog cyllid ddoe i greu cronfa twf gwyrdd. Mae'r £5 miliwn a ddyrannwyd i hyn yn rhywbeth y byddwn yr hoffwn gael esboniad amdano o ran sut y bydd hynny'n arwain at £500 miliwn yn ychwanegol o fuddsoddiad ac o fewn pa amserlen. Fodd bynnag, mae'n bwysig, o ran twf gwyrdd, ein bod yn ein gweld ein hunain ar flaen y gad. Roedd Cymru yng nghanol y chwyldro diwydiannol cyntaf, ac mae'n rhaid i ni'n syml fod wrth galon y chwyldro twf gwyrdd. Mae'r chwyldro yn un y gellir ei seilio ar ddefnyddio a rheoli'n hadnoddau naturiol yn gynaliadwy gan greu economi gylchol weithgar a rhagweithiol. Bydd y pethau hyn yn allweddol i'n llwyddiant economaidd yn y dyfodol. A gaf fi ddweud wrth y Llywodraeth bod astudiaeth lle dwfn Tredegar yn fy etholaeth yn dangos ein bod yn gallu yn bodloni ein huchelgeisiau ar gynaliadwyedd a newid hinsawdd ar yr un pryd â threchu tlodi a chreu gwaith a swyddi yn rhai o'n cymunedau tlotaf.

The final test that I will place in front of the Government is in terms of EU programmes and projects. Climate change and sustainability are at the heart of the new European Commission's approach to supporting economic development and to supporting the programmes that it has in place across different areas of the economy and different parts of Europe. These principles were and are at the heart of this Government's approach when the decisions on European programmes were taken. I hope that the Government will ensure that as it is delivering these programmes over the next seven years. Whether it is the rural development plan and protecting and restoring every blanket bog in Wales, which is hugely important in terms of creating a carbon sink across Wales, whether it is ESF in terms of creating the new skills for this green economy, or whether it is the European regional development fund in helping to invest in this green infrastructure, these are once-in-a-lifetime opportunities where Wales can, once again, be ahead of the game, demonstrating that a radical Government can not only face up to the test of climate change, but also do the right thing by this generation and future generations.

15:55

### **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Point 4 of the motion:

'Calls upon the Welsh Government to encourage a wider range of renewable energies, including but not limited to, marine renewables, anaerobic digestion and hydropower'.

I really welcome the opportunity to speak in today's debate. As mentioned previously by relevant Ministers, Wales has great potential to benefit from the expansion of renewable energy provision, and we all recognise that, in order to slow the process of climate change, a strong move away from the use of fossil fuels is required. We need to use a variety of renewable energy sources and those that have a positive impact on more than just the environment. Indeed, the relatively new industries of renewable and low-carbon energy provision have, in recent years, created tens of thousands of jobs for our people in Wales. The continuation of growth in these industries would serve as a much-needed boost to our Welsh economy.

Not unrelated to the current economic climate is the issue of fuel poverty. The latest statistics show that approximately 30% of Welsh households were experiencing fuel poverty, yet, in England, the figure was dramatically lower at just 10%. Surely the greater provision of renewable energy would go a long way towards reducing the level of fuel poverty here in Wales.

Mae'r prawf olaf y byddaf yn rhoi o flaen y Llywodraeth ynghylch rhaglenni a phrosiectau'r UE. Mae newid hinsawdd a chynaliadwyedd wrth galon ymagwedd newydd y Comisiwn Ewropeaidd at gefnogi datblygiad economaidd ac at gefnogi'r rhaglenni y mae wedi eu sefydlu ar draws gwahanol feysydd o'r economi a gwahanol rannau o Ewrop. Roedd yr egwyddorion hyn ac maent yn parhau i fod yn ganolog i ymagwedd y Llywodraeth hon pan wneir penderfyniadau ar raglenni Ewropeaidd. Gobeithiaf y bydd y Llywodraeth yn sicrhau hynny gan ei bod yn cyflawni'r rhaglenni hyn am y saith mlynedd nesaf. Boed yn gynllun datblygu gwledig a gwarchod ac adfer pob gorgors yng Nghymru, sy'n eithriadol o bwysig o ran creu dalfa garbon ledled Cymru, boed yn Gronfa Gymdeithasol Ewrop gan greu sgiliau newydd ar gyfer yr economi werdd hon, neu'n gronfa ddatblygu ranbarthol Ewropeaidd yn helpu i fuddsoddi yn y seilwaith gwyrdd hwn, mae'r rhain yn gyfleoedd unwaith mewn oes lle gall Cymru, unwaith eto, fod ar flaen y gad, gan ddangos y gall Llywodraeth radical nid yn unig wynebu her newid hinsawdd, ond hefyd drin y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol yn deg.

Mae pwynt 4 y cynnig:

'Yn galw ar Lywodraeth Cymru i annog ystod ehangach o ynni adnewyddadwy, gan gynnwys ond heb gael eu cyfyngu i ynni adnewyddadwy morol, treulio anaerobig ac ynni dŵr'.

Rwy'n croesawu'n fawr y cyfle i siarad yn y ddatl heddiw. Fel y soniwyd yn flaenorol gan y Gweinidogion perthnasol, mae gan Gymru botensial mawr i elwa o ehangu'r ddarpariaeth ynni adnewyddadwy, ac rydym i gyd yn cydnabod, er mwyn arafu proses newid hinsawdd, mae angen symud yn gadarn oddi wrth y defnydd o danwydd ffosil. Mae angen defnyddio amrywiaeth o ffynonellau ynni adnewyddadwy a defnyddio rhai sy'n cael effaith positif ar fwy na'r amgylchedd yn unig. Yn wir, mae'r diwydiannau darpariaeth adnewyddadwy ac ynni carbon isel cymharol newydd yn y blynyddoedd diwethaf wedi creu degau o filoedd o swyddi ar gyfer ein pobl yng Nghymru. Byddai parhad twf y diwydiannau hyn yn hwb sy'n fawr ei angen ar ein heconomi yng Nghymru.

Mae tlodi tanwydd hefyd yn fater nad yw'n gwbl amherthnasol i'r hinsawdd economaidd ar hyn o bryd. Mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos bod tua 30% o gartrefi Cymru yn profi tlodi tanwydd, eto, yn Lloegr, roedd y ffigur yn sylweddol is, sef dim ond 10%. Mae'n siŵr y byddai'r ddarpariaeth uwch o ynni adnewyddadwy yn cyfrannu llawer tuag at leihau lefelau tlodi tanwydd yma yng Nghymru.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The importance of renewable energy creation is clear. It is imperative that the Welsh Government consider a variety of methods to achieve this. The Gwynt y Môr windfarm, off the coast of Llandudno bay in my constituency, is a definite insight into Welsh Labour policy and Labour Government policy. Although due to be completed by the end of this year, this was a scheme that saw 160 massive wind turbines, giving little regard to the potential impact on the area's tourism economy, upon which so many jobs depend. Many studies, such as the one by the John Muir Trust, have proven the inefficiency of windfarms and highlighted their unreliability due to dependence on weather conditions. It is a huge disappointment that the local authority and, in fact, the thousands of people who objected to that scheme were ignored by this Government. For this reason, along with the impact that turbines have on local communities, I urge the Welsh Government to carefully examine the alternatives.

I suggest a greater consideration of hydropower. We as humans have been harnessing the power of water for thousands of years for an array of tasks from sawing wood to grinding flour. For over a century now, falling water has provided people across the world with hydroelectricity. Hydropower is often described as being one of the most reliable and least environmentally intrusive of the renewable energy technologies and is currently responsible for 16% of the world's energy supply. However, in Wales, it accounts for only 13% of our overall renewably sourced energy requirements. In 2010, the Welsh Government, along with the Department of Energy and Climate Change, funded an assessment of hydropower sources in Wales. The assessment reported that Wales had the potential to generate up to 63,000 kW of electricity using this method. In the same year, Environment Agency Wales identified 4,112 sites with the potential to create hydroelectric power. If hydropower, which has been shown to be more reliable and environmentally friendly than its alternatives, could be utilised to such a large extent across Wales, why then are there still only a handful of hydroelectric power stations?

In my constituency, there is the River Conwy, which has long been under consideration as a possible hydroelectric power generation site. RWE UK is currently in the process of developing plans for the Conwy Falls project. It is hoped that, should the plan go ahead, 2,700 households will be supplied with their required energy. Also in Conwy valley, in Dolwyddelan, we have a very small scheme that has been put together by local residents, who want to generate enough for their own little village. I urge the Welsh Government to support schemes like Conwy Falls, tidal lagoons—we have one of those coming into the constituency of my colleague, Darren Millar, I hope. These are reliable and environmentally friendly projects, and they are less obtrusive than the construction of more windfarms. It is time for the Welsh Government to up its game, to train our youngsters to have the high level of skills required for these well-paying jobs, and to work with industry leaders to ensure that Wales plays its own part in terms of the climate change agenda.

Mae pwysigrwydd creu ynni adnewyddadwy yn glir. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn ystyried amrywiaeth o dulliau i gyflawni hyn. Mae fferm wynt Gwynt y Môr, oddi ar arfordir bae Llandudno yn fy etholaeth i, yn bendant yn ddrych o bolisi Llafur Cymru a pholisi Llywodraeth Lafur. Er ei fod i gael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn hon, dyma gynllun a welodd 160 o dyrbinau gwynt enfawr, na roes fawr o ystyriaeth i'r effaith bosibl ar economi twristiaeth yr ardal, sy'n ffynhonnell swyddi y mae cymaint yn dibynnu arni. Mae llawer o astudiaethau, megis yr un gan Ymddiriedolaeth John Muir, wedi profi aneffeithlonrwydd ffermydd gwynt gan amlygu eu pa mor annibynadwy ydynt oherwydd eu dibyniaeth ar y tywydd. Mae'n siom enfawr bod yr awdurdod lleol ac, yn wir, y miloedd o bobl a oedd yn gwrthwynebu'r cynllun hwnnw yn cael eu hanwybyddu gan y Llywodraeth hon. Dyma'r rheswm, ynghyd â'r effaith y mae tyrbinau yn ei chael ar gymunedau lleol yr wyf yn annog Llywodraeth Cymru i edrych yn ofalus ar y dewisiadau eraill.

Rwy'n awgrymu y dylid rhoi ystyriaeth bellach i ynni dŵr. Rydym ni fel bodau dynol wedi bod yn defnyddio pŵer dŵr am filoedd o flynyddoedd ar gyfer amrywiaeth o dasgau o lifio coed i falu blawd. Am dros ganrif yn awr, mae dŵr yn disgyn wedi darparu trydan dŵr i bobl ledled y byd. O'r technolegau ynni adnewyddadwy, disgrifir ynni dŵr yn aml fel un o'r dulliau mwyaf dibynadwy a lleiaf trafferthus yn amgylcheddol ac mae'n gyfrifol am 16% o gyflenwad ynni'r byd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, yng Nghymru, mae'n cyfrif am ddim ond 13% o'n gofynion egni o ffynonellau adnewyddadwy yn gyffredinol. Yn 2010, bu i Lywodraeth Cymru ynghyd â'r Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd ariannu asesiad o ffynonellau ynni dŵr yng Nghymru. Dywedodd yr asesiad fod gan Gymru y potensial i gynhyrchu hyd at 63,000 kW o drydan gan ddefnyddio'r dull hwn. Yn yr un flwyddyn, nododd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru 4,112 o safleoedd sydd â photensial i greu trydan dŵr. Pe gellid defnyddio ynni dŵr, y dangoswyd ei fod yn fwy dibynadwy ac amgylcheddol gyfeillgar na dewisiadau eraill, ar raddfa llawer mwy ledled Cymru, pam felly mai dim ond llond dwrn o orsafoedd pŵer trydan dŵr sydd ar gael yma?

Yn fy etholaeth i, mae Afon Conwy, sydd wedi ei hir ystyried fel safle cynhyrchu pŵer trydan dŵr posibl. Ar hyn o bryd mae RWE UK yn y broses o ddatblygu cynlluniau ar gyfer prosiect Rhaeadr Conwy. Y gobaith yw ped elai'r cynllun yn ei flaen, y byddid yn cyflenwi 2,700 o gartrefi â'r egni gofynnol. Hefyd yn nyffryn Conwy, yn Nolwyddelan, mae gennym gynllun bach iawn sydd wedi cael ei roi at ei gilydd gan y trigolion lleol, sydd am gynhyrchu digon ar gyfer eu pentref bach eu hunain. Rwy'n annog Llywodraeth Cymru i gefnogi cynlluniau megis Rhaeadr y Graig Lwyd, morlynnoedd llanw—a gobeithio bod un ohonynt yn dod i etholaeth fy nghyd-aelod, Darren Millar. Mae'r prosiectau hyn ddibynadwy ac ecogyfeillgar, ac maent yn llai amlwg i'r llygad nag y byddai adeiladu rhagor o ffermydd gwynt. Mae'n bryd i Lywodraeth Cymru fynd ati o ddirif, i hyfforddi ein pobl ifanc i gael y sgiliau lefel uchel sydd eu hangen ar gyfer y swyddi hyn sy'n talu'n dda, a gweithio gydag arweinwyr y diwydiant i sicrhau bod Cymru'n chwarae ei rhan ei hun o ran yr agenda newid hinsawdd.

16:00

**Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad Biography](#)

Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Carl Sargeant.

I call on the Minister for Natural Resources, Carl Sargeant.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



I think that we can all agree that climate change is having a significant impact on our communities across the globe, and indeed in Wales, too. It is something on which we can come together on certain issues, in terms of the development of opportunities to tackle these very issues, as has been outlined by many Members in the Chamber today. On climate change, we continue to take an active part internationally to secure the UN objective of getting a new international agreement in Paris next year. Last week's UN climate summit, as Antoinette Sandbach made reference to, was an important step, and it raised the momentum for a global climate agreement.

The Welsh Government joined with other regional Governments in signing a new global compact of states and regions on that very process, as the Member alluded to. It commits the signatories to reporting against their climate change actions, commitments and on progress towards targets. We have also signed the World Bank's statement calling for a global price on carbon, along with 73 other national Governments, 11 other subnational Governments, and 1,000 businesses and investors across the world.

I recognise the contribution made by Members today, asking regarding the climate change policy refresh. I intend to make an oral statement in late October with regard to that. Unlike in England, we are taking an integrated approach to natural resource management. We think that this is fundamental if we are to mitigate and adapt to climate change. This is at the heart of our legislative programme, as Members referred to, and it is also at the heart of delivery where we are committed to both natural-based approaches and technology innovation. For example, on our commitment to tree planting—and I know that Members made reference to deforestation—we recently announced funding for the Llynfi Valley for the creation of 30 ha of new woodland planting. This will result in emissions savings of around 13,000 tonnes of carbon dioxide after 25 years. It certainly is not our policy to create deforestation. We are continuing to invest in our communities of forests around Wales.

On energy, it has been a really interesting debate, and I welcomed Paul Davies's contribution today. In fact, it was a very balanced view in terms of opportunities for the future. The approach that the Member brings to the table is about looking at the collective of renewables and new opportunities presented. Indeed, I am aware very much of the Pembrokeshire processes in terms of energy creation in that particular area—a very valuable asset to Wales it is, too. The irony of the fact is that Paul Davies's constructive approach to marine opportunities is then obscured by comments made by colleagues on his own benches, where there seems to be a political intervention in terms of their approach to renewables. Indeed, I know that the leader of the opposition is a big fan of windfarms, and yet his own backbenchers are now critical, all of a sudden, of their development in such areas.

*Andrew R.T. Davies a gododdd—*

Credaf y gallwn i gyd gytuno bod newid hinsawdd yn cael effaith sylweddol ar ein cymunedau ar draws y byd, ac yn wir yng Nghymru, hefyd. Mae'n rhywbeth y gallwn ddod at ein gilydd ar faterion penodol, o ran y gwaith o ddatblygu cyfleoedd i fynd i'r afael â'r union faterion hyn, fel yr amlinellwyd gan lawer o Aelodau yn y Siambr heddiw. O ran newid hinsawdd, rydym yn parhau i gymryd rhan weithredol yn rhyngwladol i sicrhau amcan y Cenhedloedd Unedig o gael cytundeb rhyngwladol newydd ym Mharis y flwyddyn nesaf. Roedd Uwchgynhadledd hinsawdd y Cenhedloedd Unedig yr wythnos diwethaf, fel y soniodd Antoinette Sandbach, yn gam pwysig, a bu'n sbardun ar gyfer cytundeb hinsawdd byd-eang.

Ymunodd Llywodraeth Cymru â Llywodraethau rhanbarthol eraill gan arwyddo compact byd-eang newydd o wladwriaethau a rhanbarthau ar gyfer yr union broses, fel y soniodd yr Aelod. Mae'n ymrwymo'r llofnodwyr i adrodd yn erbyn eu gweithredoedd newid hinsawdd, eu hymrwymiaidau a'u cynnydd tuag at dargedau. Rydym hefyd wedi llofnodi datganiad Banc y Byd yn galw am bris byd-eang ar garbon, ynghyd â 73 o Lywodraethau eraill cenedlaethol, 11 o Lywodraethau is-genedlaethol eraill, a 1,000 o fusnesau a buddsoddwyr ar draws y byd.

Rwy'n cydnabod y cyfraniad a wneir gan Aelodau heddiw, yn gofyn am ddiweddarau'r polisi newid hinsawdd. Rwy'n bwriadu gwneud datganiad llafar ddiwedd mis Hydref mewn perthynas â hynny. Yn wahanol i Loegr, rydym yn mynd ati mewn ffordd integredig i reoli adnoddau naturiol. Rydym yn credu bod hyn yn hanfodol os ydym i liniaru ac addasu i newid hinsawdd. Mae hyn wrth wraidd ein rhaglen ddeddfwriaethol, fel y soniodd Aelodau, ac mae hefyd yn ganolog i'r gwaith o ddarparu lle rydym wedi ymrwymo i ddulliau naturiol a thechnoleg arloesol fel ei gilydd. Er enghraifft, o ran ein hymrwymiad i blannu coed—a gwn fod Aelodau wedi cyfeirio at ddatgoedwigo—cyhoeddasom yn ddiweddar gyllid i Gwm Llynfi ar gyfer creu coetir 30 hectar o waith plannu newydd. Bydd hyn yn arwain at arbedion allyriadau o oddeutu 13,000 tonnell o garbon deuocsid ar ôl 25 mlynedd. Yn sicr, nid ein polisi yw creu datgoedwigo. Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein cymunedau o goedwigoedd ledled Cymru.

O ran ynni, mae wedi bod yn ddadl ddiddorol iawn, a chrosawaf gyfraniad Paul Davies heddiw. Yn wir, rhoes olwg gytbwys iawn o ran cyfleoedd ar gyfer y dyfodol. Mae'r dull y mae'r Aelod wedi'i gyflwyno yn ymwneud ag edrych ar ynni adnewyddadwy ar y cyd a chyfleoedd newydd a gyflwynir. Yn wir, rwy'n ymwybodol iawn o'r prosesau yn Sir Benfro o ran creu ynni yn yr ardal honno—ac ased gwerthfawr iawn ydyw i Gymru, hefyd. Eironi'r sefyllfa yw bod agwedd adeiladol Paul Davies at gyfleoedd morol wedyn yn cael ei gysgodi gan sylwadau a wnaed gan ei gyrd-aelodau ar ei feinciau ei hun, lle'r ymddengys fod ymyrraeth wleidyddol o ran eu hagwedd at ynni adnewyddadwy. Yn wir, gwn fod arweinydd yr wrthblaid yn hoff iawn o ffermydd gwynt, ac eto mae aelodau ei fainc gefn ei hun yn awr yn sydyn yn feirniadol o'u datblygu mewn ardaloedd o'r fath.

*Andrew R.T. Davies rose—*

16:03

**Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

I will give way in a second. What we need to understand—and this is the debate for the grown-up discussion around climate change—is that this is about having a mixture of renewable energies, so low-carbon, renewable, tidal marine, and microgeneration. We need a complete mix that is fit for the future in terms of opportunities for Wales. That is why I was surprised by William—. [Assembly Members: 'Powell.'] Thank you. I was surprised by his contribution this afternoon, when he said that he would be supporting Plaid Cymru in its approach in its amendments regarding targets on renewables. The Member will be aware that any targets for sustainable energy in Wales must include nuclear energy and low-carbon energy. Again, the confusion within Plaid Cymru regarding whether nuclear is acceptable or not still remains. I am still not convinced, or understand, what that approach is. Maybe the Member, at some point, would like to clarify that for me.

I will take an intervention now. I have not forgotten about you.

Ildiaf mewn eiliad. Yr hyn y mae angen i ni ei ddeall— a dyma yw'r ddaid ar gyfer y drafodaeth aeddfed ynghylch newid hinsawdd—yw bod hyn yn ymwneud â chael cymysgedd o ynni adnewyddadwy, felly carbon isel, adnewyddadwy, morol, y llanw, a microgynhyrchu. Mae angen cymysgedd cyflawn sy'n addas ar gyfer y dyfodol o ran cyfleoedd i Gymru. Dyna pam yr oeddwn yn synnu at William—. [Aelodau'r Cynulliad: 'Powell.']. Diolch. Cefais fy synnu gan ei gyfraniad y prynhawn yma, pan ddywedodd y byddai'n cefnogi agwedd Plaid Cymru yn ei gwelliannau o ran targedau ar ynni adnewyddadwy. Bydd yr Aelod yn gwybod bod yn rhaid i unrhyw dargedau ar gyfer ynni cynaliadwy yng Nghymru gynnwys ynni niwclear ac ynni carbon-isel. Unwaith eto, mae'r dryswch o fewn Plaid Cymru ynghylch a yw niwclear yn dderbyniol neu beidio yn parhau. Rwy'n dal heb fy argyhoeddi, nac yn deall, beth yw'r agwedd honno. Efallai y gall yr Aelod, ar ryw adeg, egluro hynny i mi.

Cymeraf ymyriad yn awr. Nid wyf wedi anghofio amdanoch chi.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:05

**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful to the Minister for taking an intervention. I hope that he acknowledges that there is a world of difference between a windfarm, which is the industrialisation of the landscape, and a single wind turbine—[Assembly Members: 'Oh.']. If the Minister could be more helpful in improving grid connections, then I could go a long way towards improving my already great contribution to renewables, which currently stands at 7.5 MW, which I am very proud of.

Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am dderbyn ymyriad. Gobeithiaf ei fod yn cydnabod bod byd o wahaniaeth rhwng fferm wynt, sy'n diwydiannu tirweddau, a thyrbin gwynt sengl [Aelodau'r Cynulliad: 'O.']. Pe gallai'r Gweinidog roi mwy o gymorth o ran gwella cysylltiadau grid, yna gallwn fynd yn bell tuag at wella fy nghyfraniad sydd eisoes yn sylweddol at ynni adnewyddadwy, sydd ar hyn o bryd yn 7.5 MW, ac yn ffigwr yr wyf yn falch iawn ohono.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:05

**Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am glad that the Member has confirmed his commitment to the wind industry, and to hot air, indeed. [Laughter.]

Can I also thank the former Minister, Alun Davies, for the great contribution that he made, making a real difference in Wales? I was surprised by some of his comments, but I am sure that we will have a conversation about some of them a little bit later. What is more important—[Laughter.] His contribution is really important. He gets the issues, and he understands that we have to take the green growth agenda forward. I am working with Edwina Hart in terms of ensuring that we have an agenda moving forward, to make sure that we can maximise the benefits for Wales in Wales in terms of the green growth economy.

Rwy'n falch bod yr Aelod wedi cadarnhau ei ymrwymiad i'r diwydiant gwynt, ac i falu awyr, yn wir. [Chwerthin.]

A gaf fi hefyd ddiolch cyn Weinidog, Alun Davies, am y cyfraniad mawr a wnaeth, gan wneud gwahaniaeth go iawn yng Nghymru. Roeddwn yn synnu at rai o'i sylwadau, ond rwy'n siŵr y cawn sgwrs am rai ohonynt ychydig yn ddiweddarach. Yr hyn sy'n bwysicach—[Chwerthin.] Mae ei gyfraniad yn bwysig iawn. Mae'n deall y problemau, ac mae'n deall bod yn rhaid inni hyrwyddo'r agenda twf gwyrdd yn ei blaen. Rwy'n gweithio gydag Edwina Hart o ran sicrhau bod gennym agenda sy'n symud ymlaen, i wneud yn siŵr ein bod yn gallu sicrhau'r manteision eithaf i Gymru yng Nghymru o ran yr economi twf gwyrdd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Jenny Rathbone's contribution was most thoughtful. I actually agree with her in most of the terms that she used. I think that, actually, we have to think bigger and bolder for Wales about being self-sufficient. I think that we should take on the big six in terms of energy creation. It is something that we could do in Wales. The licensing issue is something that we need to discuss with Westminster, in terms of what is devolved and what is not in terms of licensing. However, why should we not have a national Government energy scheme? Actually, this is something that communities across the whole of Wales could benefit from: lower tariffs created by energy in Wales for the people of Wales. That is something that I would welcome further conversations with the Member on.

The fact is that I have been in this position as Minister for only three weeks. I have certainly heard clearly from the external lobby and Members across the Chamber that we recognise that the issues that face us are a huge challenge. I am still committed, as this Government is completely, to achieving our targets for the future. It is something that we cannot allow to drift and something that, against policy, we must take action, too.

I am grateful for the contributions made by Members today. It has been a great insight to further my understanding of where party policies now lie in terms of the political agenda. I welcome further engagement with the parties to make sure that we can tackle climate change together.

16:08 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Galwaf ar Antoinette Sandbach i ymateb i'r ddadl.

16:08 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very grateful for the debate today and for the constructive way in which every party has approached it across the Chamber. I did enjoy Jenny Rathbone's comment when she said that we had to forget 'wind, windbags and warm words'. Actually, there is a serious point behind that, because the recent budget published by the Welsh Government cuts the climate change budget by 6.2%. If you are serious, Minister, you are going to have to show that your actions are louder than your words.

For that reason, I very much welcomed what the former Minister Alun Davies said, namely that he is concerned that the Welsh Government could end up with a worse record than the UK Government's. Peter Davies, the Commissioner for Sustainable Futures, has described silo thinking, and the reality is that that silo thinking has to be broken down. On Llyr Huws Gruffydd's contribution, looking at retrofitting, we know that there is a massive problem with Wales's housing stock. A lot of that housing stock is rented accommodation, but, by 2018, that is not going to be available for rent, because it will not comply with housing standards, and there is going to be a big problem. Minister, if you genuinely are able to work in that cross-portfolio, cross-cutting way that your colleague, Alun Davies, was asking you to do, then you have the potential to make a very real impact.

Cyfraniad Jenny Rathbone oedd fwyaf meddylgar. Mewn gwirionedd rwy'n cytuno â hi yn y rhan fwyaf o'r termau a ddefnyddiodd hi. Credaf, mewn gwirionedd, fod yn rhaid i ni feddwl ar raddfa fwy ac yn fwy beiddgar ar gyfer Cymru ynghylch bod yn hunangynhaliol. Credaf y dylem herio'r chwe chwmni mawr o ran creu ynni. Mae'n rhywbeth y gallem ei wneud yng Nghymru. Mae materion trwyddedu yn rhywbeth y mae angen inni eu trafod gyda San Steffan, o ran yr hyn sydd wedi'i ddatganoli a'r hyn nad yw o ran trwyddedu. Fodd bynnag, pam na ddylem fel Llywodraeth genedlaethol gael cynllun ynni? Mewn gwirionedd, mae hyn yn rhywbeth y gallai'r cymunedau ar draws Cymru gyfan elwa arno: tariff is wedi'i greu gan ynni yng Nghymru ar gyfer pobl Cymru. Mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn croesawu cael sgysiau pellach amdano gyda'r Aelod.

Y ffaith yw imi fod yn y swydd fel Gweinidog am ddim ond tair wythnos. Rwy'n sicr wedi clywed yn glir gan y lobi allanol a chan Aelodau ar draws y Siambur ein bod yn cydnabod bod y materion sy'n ein hwynebu yn her enfawr. Rwy'n dal wedi ymrwymo, fel y mae'r Llywodraeth hon yn gyfan gwbl, i gyrraedd ein targedau ar gyfer y dyfodol. Mae'n rhywbeth y mae'n rhaid i ni ddal gafael arno, ac yn rhywbeth y mae'n rhaid i ni weithredu yn ei gylich yn unol â pholisi.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfraniadau a wnaed gan Aelodau heddiw. Mae wedi rhoi cyfle gwyb i mi ehangu fy nealltwriaeth o safbwyntiau polisi'r pleidiau ar hyn o bryd o ran yr agenda wleidyddol. Rwy'n croesawu ymgysylltiad pellach gyda'r partion i wneud yn siŵr y gallwn fynd i'r afael â newid hinsawdd gyda'n gilydd.

I call on Antoinette Sandbach to reply to the debate.

Rwy'n ddiolchgar iawn am y ddadl heddiw ac am y modd adeiladol y mae pob plaid wedi ymdrin â hi ar draws y Siambur. Mwynheais sylw Jenny Rathbone pan ddywedodd fod yn rhaid i ni anghofio 'gwynt, malu awyr a geiriau cynnes'. A dweud y gwir, mae pwynt difrifol y tu ôl i hynny, gan fod y gyllideb ddiweddar a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn torri'r gyllideb newid yn yr hinsawdd 6.2%. Os ydych o ddifrif, Weinidog, bydd yn rhaid i chi ddangos bod eich gweithredoedd yn well na'ch geiriau.

Am y rheswm hwn, roeddwn yn croesawu'n fawr yr hyn a ddywedodd y cyn Weinidog Alun Davies, sef ei fod yn pryderu y gallai record Llywodraeth Cymru fod yn waeth yn y pen draw na record Llywodraeth y DU. Mae Peter Davies, y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy, wedi disgrifio meddylfryd seilo, a'r gwir yw bod yn rhaid dileu meddylfryd seilo. O safbwynt cyfraniad Llyr Huws Gruffydd, wrth edrych ar ôl-ffitio, rydym yn gwybod bod problem enfawr gyda stoc dai Cymru. Mae llawer o'r stoc dai yn llety ar rent, ond, erbyn 2018, ni fydd y stoc honno ar gael i'w rhentu, gan na fydd yn cydymffurfio â'r safonau tai, a bydd problem fawr yn codi. Weinidog, os ydych wir yn gallu gweithio yn y ffordd drawsbortffolio, drawsbynciol roedd eich cydweithiwr, Alun Davies, yn gofyn i chi ei wneud, yna mae gennych y potensial i wneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I, too, thought that Paul Davies's contribution was very thoughtful, although I suspect that Anglesey might challenge Pembrokeshire for the title of energy capital of Wales. However, you make a very serious point about the grid. There is capacity in Pembrokeshire—spare capacity on the grid at Milford Haven, which is a huge opportunity in that part of the world. Minister, one of the things that you failed to address in your response was the issue that Jenny Rathbone and others raised, including William Powell and Andrew R.T. Davies, about grid connection for small-scale renewables. The support that people will give to the larger projects is largely dependent on their being successful in installing smaller-scale projects where possible. There really is an issue about connection, and grid connection for small-scale, on-farm, at-home renewables. That could make a huge difference, as Janet Finch-Saunders said, to fuel poverty.

Rather than having to nationalise energy in Wales, as you suggested in terms of Jenny Rathbone's contribution, I think that Jenny Rathbone would be very interested in what some of the water companies are saying—Dŵr Cymru, for example. There is potential to generate both energy and heat from human waste. That has potential particularly for rural communities, where there are off-grid rural communities that cannot connect up to gas, but every single one—or a lot of them—will have sewage treatment works. If you could work together with Dŵr Cymru and look at what has been happening in Germany, Holland and other places like that, we might start to get that kind of imaginative thinking, and those green growth jobs that Alun Davies was talking about, in a way that could really make a difference in Wales. The technology is there, the resource is there, and Dŵr Cymru is a not-for-profit company. There is a huge opportunity there, Minister, and it does mean, as Jenny Rathbone said, thinking slightly outside the box and looking at where we can make the most of the assets that we have in the most intelligent way that we can, to promote the kind of sustainable development and low-carbon economy that we want to see.

I welcomed all of the contributions. In particular, Llyr Huws Gruffydd was right to point out that he has asked four Ministers for a change of gear and, in particular, that the sectoral plans have been delayed. Businesses, farmers and communities need to be able to plan. They need to know what they are looking at in terms of strategy and direction from Welsh Government. Without seeing those plans and being able to plan for implementation, what you are doing is hindering Welsh businesses, Minister, and preventing their ability to adapt. You are also acting as a barrier to their taking up this technology. If there were a clear steer, they may well go for it, with all the advantages that there are for the Welsh economy.

Roeddwn i, hefyd, yn meddwl bod cyfraniad Paul Davies yn feddylgar iawn, er rwy'n amau y gallai Ynys Môn herio Sir Benfro ar gyfer teitl prifddinas ynni Cymru. Fodd bynnag, rydych yn gwneud pwynt difrifol iawn am y grid. Mae capasiti yn Sir Benfro—capasiti dros ben ar y grid yn Aberdaugleddau, sy'n gyfle enfawr yn y rhan honno o'r byd. Weinidog, un o'r pethau na wnaethoch fynd i'r afael ag ef yn eich ymateb oedd y mater a gododd Jenny Rathbone ac eraill, gan gynnwys William Powell ac Andrew R.T. Davies, am y cysylltiad â'r grid ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach. Mae'r gefnogaeth y bydd pobl yn ei rhoi i'r prosiectau mwy yn dibynnu i raddau helaeth ar eu llwyddiant wrth roi prosiectau ar raddfa lai ar waith lle bo hynny'n bosibl. Mae problem wirionedd ynglŷn â chysylltiad, a chysylltiad â'r grid ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy raddfa fach ar y fferm, yn y cartref. Gallai hynny wneud gwahaniaeth enfawr, fel y dywedodd Janet Finch-Saunders, i dlodi tanwydd.

Yn hytrach na gorfod gwladoli ynni yng Nghymru, fel y gwnaethoch awgrymu o safbwynt cyfraniad Jenny Rathbone, rwy'n meddwl y byddai gan Jenny Rathbone ddiddordeb yn yr hyn y mae rhai o'r cwmnïau dŵr yn ei ddweud—Dŵr Cymru, er enghraifft. Mae potensial i gynhyrchu ynni a gwres o wastraff dynol. Mae gan y syniad hwn botensial, yn enwedig mewn cymunedau gwledig, lle mae cymunedau gwledig oddi ar y grid nad oes modd iddynt gysylltu â'r cyflenwad nwy, ond bydd gan bob un ohonynt—neu lawer ohonynt—weithfeydd trin carthion. Pe gallech gydweithio â Dŵr Cymru ac edrych ar yr hyn sydd wedi bod yn digwydd yn yr Almaen, yr Iseldiroedd a llefydd eraill tebyg, efallai y gwelwn ni'r math hwn o feddwl llawn dychymyg, a'r swyddi twf gwyrdd yr oedd Alun Davies yn sôn amdanynt, mewn ffordd a allai wneud gwahaniaeth gwirioneddol yng Nghymru. Mae'r dechnoleg yno, mae'r adnodd yno, a chwmmi dielw yw Dŵr Cymru. Mae cyfle enfawr yno, Weinidog, ac mae'n golygu, fel y dywedodd Jenny Rathbone, bod angen meddwl ychydig y tu allan i'r bocs ac edrych ar ble y gallwn wneud y gorau o'r asedau sydd gennym yn y ffordd fwyaf deallus posibl, er mwyn hyrwyddo'r math o ddatblygu cynaliadwy ac economi carbon isel yr ydym am ei gweld.

Roeddwn yn croesawu pob un o'r cyfraniadau. Yn benodol, roedd Llyr Huws Gruffydd yn gywir i nodi ei fod wedi gofyn i bedwar Gweinidog am newid gêr ac, yn arbennig, bod y cynlluniau sectorol wedi'u gohirio. Mae angen i fusnesau, ffermwyr a chymunedau allu cynllunio. Mae angen iddynt wybod beth yw'r sefyllfa o safbwynt strategaeth a chyfeiriad gan Lywodraeth Cymru. Heb weld y cynlluniau hynny a gallu cynllunio ar gyfer gweithredu, yr hyn rydych yn ei wneud yw llesteirio busnesau Cymru, Weinidog, gan atal eu gallu i addasu. Rydych hefyd yn gweithredu fel rhwystr iddynt ddefnyddio'r dechnoleg hon. Pe bai arweiniad pendant, mae'n bosibl y byddant yn mynd amdani, gyda'r holl fanteision ar gyfer economi Cymru sy'n deillio o hynny.

It is clear that climate change is here. It is not going away. It is quite clear that you are not going to hit your targets. That is the evidence that there is. We need to see how Wales, and how a Welsh Government, intends to take that forward in a way that produces wins for the Welsh economy, wins for Welsh business, and wins for the climate, too. Working with companies like Dŵr Cymru, you could potentially get those wins and deal with issues around affordable heating and affordable electricity. However, please make sure that people can be adopters in their own homes of that technology, and that there are not the barriers to grid connection that stop people taking up this technology and leading the way in showing their communities how this technology can make a difference—and it has the benefit of also improving our climate change figures. You may find that, if you enable people to do it, the take-up will be much quicker than has been the case so far.

Mae'n amlwg bod y newid yn yr hinsawdd ar waith. Nid yw'n mynd i ffwrdd. Mae'n eithaf amlwg nad ydych yn mynd i gyrraedd eich targedau. Dyna'r dystiolaeth sy'n bodoli. Mae angen i ni weld sut mae Cymru, a sut mae Llywodraeth Cymru, yn bwriadu bwrw ymlaen â hyn mewn ffordd sy'n fanteisiol i economi Cymru, i fusnesau Cymru, ac i'r hinsawdd, hefyd. Drwy weithio gyda chwmnïau fel Dŵr Cymru, gallech o bosibl sicrhau'r manteision hynny a mynd i'r afael â materion yn ymwneud â gwres fforddiadwy a thrydan fforddiadwy. Fodd bynnag, cofiwch sicrhau y gall pobl fabwysiadu'r dechnoleg hon yn eu cartrefi eu hunain, ac nad oes rhwystrau i gysylltu â'r grid sy'n atal pobl rhag manteisio ar y dechnoleg hon na'u hatal rhag arwain y ffordd wrth ddangos i'w cymunedau sut y gall y dechnoleg hon wneud gwahaniaeth—a mantais arall yw'r ffaith y bydd yn gwella ein ffigurau newid yn yr hinsawdd. Efallai y byddwch yn canfod, os ydych yn galluogi pobl i wneud hynny, y bydd y defnydd yn gyflymach o lawer na'r hyn sydd wedi digwydd hyd yn hyn.

16:14

## Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Mae gwrthwynebiad, felly caiff pob pleidlais ar yr eitem hon ei gohirio tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

## Dadl Plaid Cymru: Yr M4 o amgylch Casnewydd

*Detolwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Paul Davies, gwelliant 2 yn enw Jane Hutt, a gwelliannau 3 a 4 yn enw Aled Roberts. Os derbynir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2, 3 a 4 yn cael ei ddad-ddethol. Os derbynir gwelliant 2, bydd gwelliannau 3 a 4 yn cael ei ddad-ddethol.*

The question is that we accept the motion without amendment. Are there any objections? There is objection, therefore voting on this item will be deferred until voting time.

*Voting deferred until voting time.*

## Plaid Cymru Debate: The M4 around Newport

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Paul Davies, amendment 2 in the name of Jane Hutt, and amendments 3 and 4 in the name of Aled Roberts. If amendment 1 is agreed, amendments 2, 3 and 4 will be deselected. If amendment 2 is agreed, amendments 3 and 4 will be deselected.*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:15

## Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Rhun ap Iorwerth i wneud y cynnig.

Cynnig NDM5587 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu bod tagfeydd ar yr M4 yn ardal Casnewydd yn niweidiol i economi Cymru, a bod angen datrysiaid cynaliadwy a fforddiadwy;
2. Yn cadarnhau nad yw'r achos wedi'i wneud ar gyfer bwrw ymlaen â'r 'llwybr du';
3. Yn credu y bydd neilltuo holl bwerau benthyca newydd Cymru i un prosiect yn cyfyngu ar fuddsoddi mewn mannau eraill; a
4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi ystyriaeth lawn i'r 'llwybr glas' am resymau economaidd, amgylcheddol ac ariannol ac er mwyn rheoli traffig.

I call on Rhun ap Iorwerth to move the motion.

Motion NDM5587 Elin Jones

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Believes that congestion on the M4 in the Newport area is detrimental to the Welsh economy, and that a sustainable and affordable resolution is required.
2. Affirms that the case has not been made for proceeding with the 'black route'.
3. Believes that committing the entirety of new Welsh borrowing powers to one project will limit investment elsewhere.
4. Calls on the Welsh Government to fully consider the 'blue route' on economic, traffic management, environmental and financial grounds.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

## Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr iawn. I am grateful for the opportunity to open the debate and I move the motion in the name of Elin Jones.

Diolch yn fawr iawn. Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i agor y ddatl a chyflwynaf y cynnig yn enw Elin Jones.

The M4 in the Newport area is a problem. Regular and serious congestion is bad for business. It is a brake on the economy as well as being a serious inconvenience for hundreds of thousands of motorists. Yes, we need to take vehicles off the road, and we need to invest in public transport, to give people a genuine alternative to using the M4, but there is no escaping the need to increase capacity, too. It is how we do that, at what cost to the public purse, to the environment, to other transport infrastructure projects Wales-wide, and taking into consideration genuine and realistic traffic growth plans that is at stake here.

Mae'r M4 yn ardal Casnewydd yn broblem. Mae tagfeydd rheolaidd a difrifol yn ddrwg i fusnes. Mae'n arafu'r economi yn ogystal â bod yn anghyfleustra difrifol i gannoedd o filoedd o fodurwyr. Oes, mae angen i ni gymryd cerbydau oddi ar y ffordd, ac mae angen i ni fuddsoddi mewn trafndiaeth gyhoeddus, i roi dewis amgen gwirioneddol i bobl i ddefnyddio'r M4, ond mae'n amhosibl anwybyddu'r angen am gynyddu capasiti, hefyd. Yr hyn sydd yn y fantol yma yw sut rydym yn gwneud hynny, ar ba gost i bwrs y wlad, i'r amgylchedd, i brosiectau seilwaith trafndiaeth eraill ledled Cymru, a chan ystyried cynlluniau twf traffig gwirioneddol a realistig.

It has been a long-running debate—that is for certain. The seeds of a new M4 relief road were sown back in the 1980s, but we must not now jump for an answer that would actually have been the default back then—build a big road, with maximum capacity, assuming that road use will, and should be allowed to, grow and grow. We are—or we should be, at least—far more sophisticated now. That is why members of all parties represented here expressed genuine disappointment when the Minister with responsibility for transport announced in the last week of the summer term that the black route had been chosen. Were there no alternative, the disappointment would still have existed, there would have been the same concern about the committing of all our new borrowing powers to one project, and, no doubt, judicial reviews could still have been instigated. However, what frustrates more, of course, is the fact that there is an alternative, and our message today is the fact that there is an alternative that it is not too late to look at, to give in-depth and transparent consideration to, and the Government should take stock now, before it is too late, to look for an answer that could be met with much more support—and I do not mean just from Members here, but from communities in all parts of Wales.

Mae wedi bod yn ddatl hirfaith—mae hynny'n ddi-os. Plannwyd hadau'r syniad o ffordd liniaru newydd ar gyfer yr M4 yn ôl yn y 1980au, ond rhaid i ni beidio yn awr â chwilio'n syth am ateb a fyddai mewn gwirionedd wedi bod yn ateb cwbl amlwg yr adeg honno—adeiladu ffordd fawr, gyda'r capasiti mwyaf, gan dybio y bydd defnydd o'r ffordd yn cynyddu fwyfwy, ac y dylid caniatáu i hynny ddioglydd. Rydym—neu dylem, o leiaf—fod yn llawer mwy soffistigedig yn awr. Dyna pam y mynegodd aelodau o bob plaid a gynrychiolir yma siom go iawn pan gyhoeddodd y Gweinidog sy'n gyfrifol am drafndiaeth yn ystod wythnos olaf tymor yr haf fod y llwybr du wedi'i ddewis. Pe na bai dewis arall ar gael, yr un fyddai'r siom, byddai'r un pryder wedi bodoli ynglŷn ag ymrwymo ein holl bwerau benthyca newydd i un prosiect, ac, yn ddiaw, gallai adolygiadau barnwrol fod wedi'u cychwyn yn yr un modd. Fodd bynnag, yr hyn sy'n peri mwy o rwystredigaeth, wrth gwrs, yw'r ffaith fod dewis arall ar gael, a'n neges heddiw yw bod dewis arall yn bodoli ac nad yw'n rhy hwyr edrych arno a rhoi ystyriaeth fanwl a thryloyw iddo, ac y dylai'r Llywodraeth fynd ati yn awr, cyn ei bod yn rhy hwyr, i chwilio am ateb a allai gael llawer mwy o gefnogaeth—ac nid wyf yn golygu gan Aelodau yma yn unig, ond hefyd gan gymunedau yn mhob rhan o Gymru.

It is worth reminding ourselves, in the light of what has been said in the past couple of weeks, of what was said by the Minister about the black route in July. She told us:

Mae'n werth atgoffa ein hunain, o ystyried yr hyn a ddywedwyd dros yr wythnosau diwethaf, o'r hyn a ddywedodd y Gweinidog am y llwybr du ym mis Gorffennaf. Dywedodd wrthym:

'I have decided to adopt the plan.'

'Rwyf wedi penderfynu mabwysiadu'r cynllun.'

That is pretty unequivocal. She added:

Mae hynny'n eithaf diamwys. Ychwanegodd:

'I thought it important that I made this statement to the Chamber today, having taken the decision on it yesterday.'

'Roeddwn i'n meddwl ei bod yn bwysig fy mod yn gwneud y datganiad hwn i'r Siambr heddiw, ar ôl gwneud y penderfyniad ddoe.'

And the ball had indeed begun rolling on implementing the plan. She said:

Ac yn wir, roedd y broses o roi'r cynllun ar waith wedi dechrau. Meddai:

'I have agreed for my officials to begin the procurement of a contractor to progress the design of the scheme.'

'Rwyf wedi cytuno i fy swyddogion ddechrau ar y broses o gaffael contractwr i symud ymlaen â dyluniau y cynllun.'



It is fair to say that the fact that the decision was made—signed off, in the Minister's words—right at the end of the summer term made it very difficult for us to scrutinise the decision, but I think it equally fair to say that the immediate response of several Members of her own backbenches to the announcement, as well as ourselves and members of the other parties, would have left her in no doubt about the strength of feeling on the matter. That has been amplified since the July statement by others the length and breadth of Wales. The decision had been taken, and there was a clear feeling that it was the wrong decision.

Fast forward to September 17. This is what the Minister said in reply to my question:

'As a Government, we have adopted a plan and identified a preferred route, which we will now continue to design and develop. No final decisions have been made on this matter.'

We were told that

'any firm decisions will be made then by any Governments in power in 2017.'

I am pleased that reference was made to that in the announcement on the draft budget yesterday as well, but today, I invite the Minister to go further again and to commit to looking again, in full, in-depth and with an open mind, at the alternative that remains on the table—the so-called blue route.

I am pleased that the Government is willing to discuss that option again, though I was disappointed at what seemed like the beginnings of resistance from the First Minister yesterday. He claimed that the blue route might cost £800 million. The available estimated figure is £380 million. It is true that the costs of road schemes only ever go up and that unforeseeable factors can, and often do, affect the value of schemes, but in the case of the black route, we seem to have seen the opposite happen. A scheme that was priced at over £900 million in Government-approved documents has now been described as a £500 million scheme by the Welsh Government. You cannot bump up one price to suit and bump down another price to suit and expect people to accept your figures at face value.

The First Minister also seemed to argue that the blue route was not a viable option because he had been there and there were traffic lights on it. For the sake of clarity for anyone left confused by it, the blue route is not about diverting traffic on to existing roads, but about using the footprints of existing roads, plus land, most of which is already in the ownership of the Welsh Government, in order to develop a new and effective route.

Mae'n deg dweud bod y ffaith fod y penderfyniad wedi'i wneud—wedi'i gymeradwyo, yng ngeiriau'r Gweinidog—ar ddiwedd tymor yr haf wedi'i gwneud yn anodd iawn i ni graffu ar y penderfyniad, ond rwy'n credu ei fod yr un mor deg dweud y byddai ymateb cyntaf sawl Aelod mainc gefn o'i phlaid ei hun i'r cyhoeddiad, yn ogystal â'n hymateb ni ein hunain ac ymateb aelodau o'r pleidiau eraill, wedi'i hargyhoeddi o gryfder y teimladau ar y mater. Adlesiwyd hynny gan eraill ar hyd a lled Cymru ers y datganiad ym mis Gorffennaf. Roedd y penderfyniad wedi'i wneud, ac roedd teimlad clir ei fod yn benderfyniad anghywir.

Symudwn ymlaen at 17 Medi. Dyma a ddywedodd y Gweinidog wrth ateb fy nghwestiwn:

"Fel Llywodraeth, rydym wedi mabwysiadu cynllun ac wedi nodi llwybr a ffeirir, a byddwn yn awr yn parhau i ddylunio a datblygu. Nid oes unrhyw benderfyniadau terfynol wedi eu gwneud ar y mater hwn."

Dywedwyd wrthym y

'Bydd unrhyw benderfyniadau cadarn yn cael eu gwneud wedyn gan unrhyw Lywodraethau mewn grym yn 2017.'

Rwy'n falch y cyfeiriwyd at hynny yn y cyhoeddiad ar y gyllideb ddrafft ddoe hefyd, ond heddiw, rwy'n gwahoddi y Gweinidog i fynd ymhellach eto ac ymrwymo i edrych eto, yn llawn, yn fanwl a chyda meddwl agored, ar y dewis arall sydd ar ôl ar y bwrdd—yr hyn a elwir yn llwybr glas.

Rwy'n falch bod y Llywodraeth yn fodlon trafod y dewis hwnnw eto, ond roeddwn yn siomedig â'r hyn a oedd yn ymddangos fel pe baent yn arwyddion o wrthwynebiad gan y Prif Weinidog ddoe. Honnodd y gallai'r llwybr glas gostio £800 miliwn. Y ffigur amcangyfrifedig sydd ar gael yw £380 miliwn. Mae'n wir mai dim ond cynyddu y mae costau cynlluniau ffyrdd a bod ffactorau na ellir eu rhagweld yn gallu effeithio ar werth y cynlluniau, ac yn aml yn gwneud hynny, ond yn achos y llwybr du, mae'n ymddangos bod y gwrthwyneb wedi digwydd. Mae cynllun a fyddai'n costio dros £900 miliwn yn ôl dogfennau a gymeradwywyd gan y Llywodraeth bellach wedi'i ddisgrifio'n gynllun £500 miliwn gan Lywodraeth Cymru. Ni allwch gynyddu un pris er cyfleuster a gostwng pris arall er cyfleuster a disgwyl i bobl dderbyn eich ffigurau yn ddi-gwestiwn.

Hefyd, roedd y Prif Weinidog fel pe bai'n dadlau nad oedd y llwybr glas yn opsiwn ymarferol oherwydd ei fod wedi bod yno ac roedd goleuadau traffig arno. Er mwyn bod yn glir i unrhyw un sydd wedi drysu, nid yw'r llwybr glas yn ymwneud â dargyfeirio traffig i ffyrdd sy'n bodoli eisoes, ond am ddefnyddio olion traed ffyrdd presennol, yn ogystal â thir, y mae'r rhan fwyaf ohono eisoes yn eiddo i Lywodraeth Cymru, er mwyn datblygu llwybr newydd ac effeithiol.

Scrutiny is supposed to unearth the truth about Government spending and value for money. What we are saying with the blue route is that it should receive open and transparent scrutiny and that, indeed, any limitations of that route should be taken into account and looked at as part of the wider picture. By that, I mean genuine limitations and not traffic lights. Certainly, full environmental impact studies should be conducted on that route. We are not looking at any environmental shortcuts here, but my colleague, Llyr Gruffydd, will look more at environmental considerations.

I will turn to the finances and, in particular, the consequences of the black route for Government borrowing. Our motion speaks of the danger inherent in committing the entirety, it seems, of Welsh borrowing powers to a single project. In yesterday's statement on the draft budget, the Minister for finance said that some, rather than all, of the future Welsh borrowing powers had been committed to an M4 scheme. We would like the Government to be totally open about the actual financial costs of the black route, and maybe we could have clarification on that from the Minister today.

What about the Wales-wide effect of using all borrowing powers on one project? In previous statements on borrowing powers, the Welsh and UK Governments have both mentioned the A55 expressway across north Wales and implied that unspecified improvements to that corridor could be funded alongside a new M4. A full financial breakdown of what that means has never been provided. Is that really good enough? We are talking about the first ever use of borrowing powers by an elected Government for the whole of Wales, and all mention of the A55 has simply disappeared. The need to spread money around the nation is highlighted by yesterday's budget, but in what way? For north Wales, we had £10 million for a yet-to-be-developed and unidentified transport project. While I obviously prefer half a promise to no promise at all, this was really felt by people in north Wales to be tokenistic. I also remind you of the context in which observers will see this. It is £10 million for an unspecified project versus £0.5 billion of borrowing powers being tied up in the M4 project. I can only hope that we do move to a serious national transport plan before this Assembly term concludes.

I will turn to the amendments. The Conservative amendment makes valid points and echoes our motion in many ways, but with a slightly different wording, which is a shame as it means that we have to vote against it, but we obviously take the points on board regarding transparency. The Labour Government amendment overrules our concerns, as we would expect. The Liberal Democrat amendments would add to our motion and are welcome. It is, of course, vital, as I stated earlier, that public transport is part of any solution to congestion in Wales.

Therefore, in conclusion, let us all—Members of all parties who were disappointed after that announcement in July—make it clear today that we do want the door to be left wide open for a responsible twenty-first century answer, not a 1980s answer, to the M4 problem.

Nod craffu yw canfod y gwir am wariant y Llywodraeth a gwerth am arian. Yr hyn rydym yn ei ddweud am y llwybr glas yw y dylid craffu arno mewn ffordd agored a thryloyw, ac, yn wir, y dylid ystyried ac edrych ar unrhyw gyfyngiadau yn ymwneud â'r llwybr hwnnw fel rhan o'r darlun ehangach. Mae hynny'n golygu cyfyngiadau gwirioneddol ac nid goleuadau traffig. Yn sicr, dylid cynnal astudiaethau llawn o'r effaith amgylcheddol ar y llwybr hwnnw. Nid ydym yn edrych ar dorri unrhyw gorneli amgylcheddol yn fan hyn, ond bydd fy nghyd-Aelod, Llyr Gruffydd, yn edrych mwy ar yr ystyriaethau amgylcheddol.

Byddaf yn troi at y cyllid ac, yn benodol, goblygiadau'r llwybr du ar gyfer benthyc gan y Llywodraeth. Mae ein cynnig yn sôn am y perygl sy'n deillio'n anorod o ymrwymo, mae'n ymddangos, holl bwerau benthyc Cymru i un prosiect. Yn ei datganiad ddoe ar y gyllideb ddrafft, dywedodd y Gweinidog cyllid bod rhai, yn hytrach na phob un, o bwerau benthyc Cymru yn y dyfodol wedi eu hymrwymo i gynllun M4. Hoffem i'r Llywodraeth fod yn gwbl agored ynglŷn â chostau ariannol gwirioneddol y llwybr du, ac efallai y gallem gael eglurhad ynglŷn â hynny gan y Gweinidog heddiw.

Beth am yr effaith ar Gymru gyfan o ddefnyddio'r holl bwerau benthyc ar gyfer un prosiect? Mewn datganiadau blaenorol ar bwerau benthyc, mae Llywodraethau Cymru a'r DU wedi cyfeirio at wibffordd yr A55 ar draws gogledd Cymru ac wedi awgrymu y gallai gwelliannau amhenodol i'r coridor hwnnw gael eu hariannu ochr yn ochr ag M4 newydd. Nid yw dadansoddiad ariannol llawn o'r hyn y mae hynny'n ei olygu erioed wedi'i gwblhau. A yw hynny'n ddigon da mewn gwirionedd? Rydym yn siarad am y defnydd cyntaf erioed o bwerau benthyc gan Lywodraeth a etholwyd ar gyfer Cymru gyfan, ac mae unrhyw sôn am yr A55 wedi diflannu. Mae'r gyllideb ddoe yn amlygu'r angen i ledaenu arian o gwmpas y wlad, ond ym mha ffordd? Yng ngogledd Cymru, cawsom £10 miliwn ar gyfer prosiect trafndiaeth anhysbys nad yw wedi'i ddatblygu eto. Er, wrth reswm, ei bod yn well gennyf gael hanner addewid na dim addewid o gwbl, roedd pobl gogledd Cymru yn teimlo bod hwn yn symbolaidd. Rwyf hefyd am eich atgoffa ym mha gyd-destun y bydd sylwedyddion yn gweld hyn. Mae'n £10 miliwn ar gyfer prosiect amhenodol yn erbyn ymrwymo £0.5 biliwn o bwerau benthyc i brosiect yr M4. Ni allaf ond gobeithio y byddwn yn symud tuag at gynllun trafndiaeth cenedlaethol difrifol cyn y bydd tymor y Cynulliad hwn yn dod i ben.

Trof at y gwelliannau. Mae gwelliant y Ceidwadwyr yn gwneud pwyntiau dilys ac yn adleisio ein cynnig mewn sawl ffordd, ond gyda geiriad ychydig yn wahanol, sy'n drueni gan ei fod yn golygu bod yn rhaid i ni bleidleisio yn ei erbyn, ond rydym yn amlwg yn derbyn y pwyntiau yn ymwneud â thryloywder. Mae gwelliant y Llywodraeth Lafur yn gwrthod ein pryderon, fel y byddem yn ei ddisgwyl. Byddai gwelliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ychwanegu at ein cynnig ac maent yn cael eu croesawu. Mae'n hollbwysig, wrth gwrs, fel y dywedais yn gynharach, bod trafndiaeth gyhoeddus yn rhan o unrhyw ateb i dagfeydd yng Nghymru.

Felly, i gloi, gadewch i bawb ohonom—Aelodau o bob plaid a oedd yn siomedig ar ôl y cyhoeddiad ym mis Gorffennaf—ei gwneud yn glir heddiw ein bod am i'r drws aros ar agor led y pen ar gyfer ateb cyfrifol sy'n perthyn i'r unfed ganrif ar hugain, nid ateb o'r 1980au, i broblem yr M4.

**Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'r Llywydd wedi dethol y pedwar gwelliant i'r cynnig. Os derbynir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2, 3 a 4 eu dad-ddethol. Os derbynir gwelliant 2, caiff gwelliannau 3 a 4 eu dad-ddethol. Galwaf ar Byron Davies i gynnig gwelliant 1 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

The Presiding Officer has selected the four amendments to the motion. If amendment 1 is agreed, amendments 2, 3 and 4 will be deselected. If amendment 2 is agreed, amendments 3 and 4 will be deselected. I call on Byron Davies to move amendment 1, which is tabled in the name of Paul Davies.

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Amendment 1—Paul Davies*

*Dileu popeth a rhoi yn ei le:*

*Delete all and replace with:*

*1. Yn credu bod tagfeydd ar yr M4 yn ardal Casnewydd yn niweidiol i economi Cymru, a bod angen datrysiad cynaliadwy a fforddiadwy;*

*1. Believes that congestion on the M4 in the Newport area is detrimental to the Welsh economy, and that a sustainable and affordable resolution is required.*

*2. Yn cadarnhau bod diffyg achos tryloyw dros fwrw ymlaen â'r 'llwybr du' ac yn galw ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i gyhoeddi tystiolaeth glir bod materion amgylcheddol wedi cael eu hystyried yn llawn a bod proses o ddiwydrwydd dyladwy effeithiol wedi ei dilyn;*

*2. Affirms that a transparent case is lacking for proceeding with the 'black route' and calls on the Minister for Economy, Science and Transport to publish clear evidence that environmental issues have been fully considered and an effective due diligence process has taken place.*

*3. Yn credu y bydd neilltuo cyfran sylweddol o bwerau benthyca newydd Cymru i un prosiect yn cyfyngu ar fuddsoddi mewn mannau eraill ac y bydd, yn ddiamau, yn effeithio ar gynlluniau trafndiaeth ledled Cymru; a*

*3. Believes that committing a significant portion of new Welsh borrowing powers to one project will limit investment elsewhere and undoubtedly have an effect on other transport schemes across Wales.*

*4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i egluro pam y cafodd y 'llwybr glas' ei ddiystyru yn gynnar ac amlinellu pa amodau economaidd, rheoli traffig, amgylcheddol ac ariannol y methodd y llwybr â'u cwrdd.*

*4. Calls on the Welsh Government to explain why the 'blue route' was ruled out prematurely and outline what economic, traffic management, environmental and financial grounds it failed to meet.*

**Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Chair. I move amendment 1, tabled in the name of Paul Davies.

Diolch yn fawr iawn, Gadeirydd. Cynigiau welliant 1, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

I thank Plaid Cymru for bringing forward this debate today, and welcome the opportunity to make a contribution to the Assembly.

Rwy'n diolch i Blaid Cymru am gyflwyno'r ddaol hon heddiw, ac yn croesawu'r cyfle i wneud cyfraniad i'r Cynulliad.

Since the original announcement by the Minister for Economy, Science and Transport, I have called on behalf of the Welsh Conservatives for a much more transparent approach to her decision-making and for clear evidence, given the likely long legal delays because of the uncertainty around the due diligence and consideration of the environmental concerns. As Members, we are already seeing the first legal challenge begin with Friends of the Earth asking for consideration of what it calls 'the substantial damage to wildlife involved' is legal, and if an alternative route was considered sufficiently.

Ers y cyhoeddiad gwreiddiol gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, rwyf wedi galw ar ran y Ceidwadwyr Cymreig am ddull llawer mwy tryloyw o safbwynt ei phroses o wneud penderfyniadau ac am dystiolaeth glir, o ystyried yr oedi cyfreithiol hir tebygol yn sgîl yr ansicrwydd ynglŷn â diwydrwydd dyladwy ac ystyriaeth o'r pryderon amgylcheddol. Fel Aelodau, rydym eisoes yn gweld yr her gyfreithiol gyntaf yn dechrau wrth i Gyfeillion y Ddaear ofyn am ystyried a yw'r hyn a ddisgrifia fel 'y difrod sylweddol i'r bywyd gwylt perthnasol' yn gyfreithiol, ac a oedd llwybr arall wedi'i ystyried yn ddigonol.

As Rhun ap Iorwerth said, there is a large degree of agreement among Members here, and I also want further evidence as to why the blue route was not given, in my opinion, proper scrutiny and a fair hearing. I am not standing here and saying that we must do the blue route, but certainly I think that it should have had, as I say, proper scrutiny and a fair hearing. I am concerned by some of the evidence used, such as the hugely significant optimistic bias weighting in the Arup report, adding over £160 million to the business case for the blue route.

This concern around the Minister's decision-making should, however, not detract from the serious congestion on the M4 in the Newport area. It is hugely detrimental to the Welsh economy, and a sustainable and affordable resolution is required—of that there is no doubt. So, I welcome the opportunity in this debate to affirm my party's position that a transparent case is lacking for proceeding with the black route, and I call on the Minister for Economy, Science and Transport to publish clear evidence that environmental issues have been fully considered, and that an effective due diligence process has taken place. It is the key request in the substantial motion and in our amendment.

I am also fearful that significant projects could be in danger if we do not get the finance right for the M4. Committing a significant portion of new Welsh borrowing powers to one project will limit investment elsewhere, and it will undoubtedly have an effect on other transport schemes across Wales. This is especially if the lessons outlined by the Wales Audit Office in its report on major transport projects have not been learned, as I fear perhaps they have not. Like the example of the Heads of the Valleys road, we may well end up with the M4 relief road spiralling in cost.

Members yesterday heard the results of the closed-door dealing between the Government and the Liberal Democrats—that the construction of the M4 relief road will be delayed until at least 2016. Secret discussions highlight the lack of transparency around such decisions in this building. Let me be clear—this agreement is a blow to the entire economy of south Wales, kicking one of the country's most important infrastructure projects into the long grass. We need the arguments now. We need the answers now. We need the evidence now and we need consensus now. Every day that the M4 continues to creak under the strain of congestion without a relief road means rising costs, more missed opportunities for companies to invest and more lost trade for business. We regret that this project faces yet another lengthy delay, but we hope that Ministers will use the time wisely to examine route options, to properly address environmental concerns and to ensure that, finally, an M4 relief road can be built.

Fel y dywedodd Rhun ap Iorwerth, mae elfen fawr o gytundeb ymysg Aelodau yma, ac rwyf hefyd eisiau rhagor o dystiolaeth ynglŷn â pham, yn fy marn i, na chraffwyd yn briodol ar y llwybr glas ac na chafodd wrandawriad teg. Nid wyf yn sefyll yma ac yn dweud bod yn rhaid i ni ddewis y llwybr glas, ond rwy'n meddwl yn sicr, fel y dywedais, y dylai'r llwybr fod wedi bod yn destun craffu priodol a gwrandawriad teg. Mae rhywfaint o'r dystiolaeth a ddefnyddir yn peri pryder i mi, fel y pwysiad tuedd optimistaidd hynod arwyddocaol yn adroddiad Arup, sy'n ychwanegu dros £160 miliwn at yr achos busnes ar gyfer y llwybr glas.

Fodd bynnag, ni ddylai'r pryder hwn ynglŷn â phroses y Gweinidog o wneud penderfyniadau dynnu oddi wrth y tagfeydd difrifol ar yr M4 yn ardal Casnewydd. Mae'n hynod niweidiol i economi Cymru, ac mae angen ateb cynaliadwy a fforddiadwy—nid oes unrhyw amheuaeth am hynny. Felly, croesawaf y cyfle yn y ddafl hon i gadarnhau safbwynt fy mhlaid, sef nad oes achos tryloyw ar gyfer bwrw ymlaen â'r llwybr du, a galwaf ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i gyhoeddi tystiolaeth glir bod materion amgylcheddol wedi'u hystyried yn llawn, a bod proses o ddiwydrwydd dyladwy effeithiol wedi'i chynnal. Hwn yw'r cais allweddol yn y cynnig sylweddol ac yn ein gwelliant.

Rwyf hefyd yn ofni y gallai prosiectau arwyddocaol fod mewn perygl os nad ydym yn cael y cyllid ar gyfer yr M4 yn gywir. Bydd ymrwymo cyfran sylweddol o bwerau benthyca newydd Cymru i un prosiect yn cyfyngu ar fuddsoddiad mewn mannau eraill, a bydd yn sicr o gael effaith ar gynlluniau trafndiaeth eraill ledled Cymru. Mae hyn yn arbennig o berthnasol os nad yw'r gwrs a amlinellwyd gan y Swyddfa Archwilio Cymru yn ei hadroddiad ar brosiectau trafndiaeth mawr wedi cael eu dysgu, ac rwy'n ofni efallai nad ydynt. Yn debyg i ffordd Blaenau'r Cymoedd, gallai cost ffordd liniaru'r M4 gynyddu'n sylweddol yn y pen draw.

Clywodd yr Aelodau ddoe am ganlyniadau'r trafodaethau y tu ôl i ddrysau caeedig rhwng y Llywodraeth a'r Democratiaid Rhyddfrydol—y bydd y gwaith o adeiladu ffordd liniaru'r M4 yn cael ei ohirio tan o leiaf 2016. Mae trafodaethau yn y dirgel yn amlygu'r diffyg tryloywder o safbwynt penderfyniadau o'r fath yn yr adeilad hwn. Gadewch i mi fod yn glir—mae'r cytundeb hwn yn ergyd i economi gyfan y De, gan roi un o brosiectau seilwaith pwysicaf y wlad o'r neilltu. Rydym angen y dadleuon yn awr. Rydym angen yr atebion yn awr. Rydym angen y dystiolaeth yn awr ac rydym angen consensws yn awr. Bob diwrnod y mae'r M4 yn parhau i ddiodef o dan straen tagfeydd heb ffordd liniaru, mae'n golygu costau cynyddol, cwmnïau'n colli mwy o gyfleoedd i fuddsoddi a busnesau'n colli mwy o fasnach. Gresynwn fod y prosiect hwn yn wynebu oedi hir eto, ond rydym yn gobeithio y bydd y Gweinidogion yn defnyddio'r amser yn ddoeth i ystyried dewisiadau llwybrau, mynd i'r afael yn briodol â phryderon amgylcheddol a sicrhau, o'r diwedd, bod modd adeiladu ffordd liniaru'r M4.

It is regrettable that Ministers here do not give sufficient and transparent consideration to all the available options for an M4 relief road, which could help to alleviate environmental concern and would have avoided the latest in a series of chronic delays. Here we go again, Members. This is yet another missed opportunities for business, transport and the economy of south Wales.

I am an optimist, not a pessimist, but I predict, Members, that this will end up in the Minister's too-difficult-to-deal-with tray, and that this Assembly will be debating this issue in decades to come. The Assembly may be built from glass, but at the moment I am afraid that very few can see through it. We need a properly costed and properly determined decision with regard to the environment and the route that puts Welsh business and Welsh people at the forefront of Government action, and we need that action now.

Mae'n drueni nad yw Gweinidogion yma yn rhoi ystyriaeth ddigonol a thryloyw i'r holl opsiynau sydd ar gael ar gyfer ffordd liniaru i'r M4, a allai helpu i leddfu pryder amgylcheddol a fyddai wedi osgoi'r diweddaraf mewn cyfres o achosion o oedi difrifol. Dyma ni eto, Aelodau. Mae hyn yn gyfle arall a gollwyd ar gyfer busnes, trafndiaeth ac economi'r De.

Rwy'n optimist, nid yn besimist, ond rwy'n rhagweld, Aelodau, y bydd hwn yn fater rhy anodd i'r Gweinidog ymdrin ag ef yn y pen draw, ac y bydd y Cynulliad hwn yn trafod y mater hwn yn y degawdau i ddod. Er bod y Cynulliad wedi'i adeiladu o wydr, ar hyn o bryd rwy'n ofni mai ychydig iawn sy'n gallu gweld trwyddo. Rydym angen penderfyniad ar yr amgylchedd a'r llwybr sydd wedi'i gostio a'i benderfynu'n briodol, sy'n sicrhau bod camau gweithredu'r Llywodraeth yn rhoi blaenoriaeth i fusnesau a phobl Cymru, ac mae'n rhaid gweithredu yn awr.

16:29 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Galwaf ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Technoleg i gynnis gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt.

*Gwelliant 2—Jane Hutt*

*Dileu pwyntiau 2, 3 a 4.*

I call on the Minister for Economy, Science and Transport to move amendment 2, tabled in the name of Jane Hutt.

*Amendment 2—Jane Hutt*

*Delete points 2, 3 and 4.*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

16:29 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*  
I move amendment 2.

Cynigaf gynnis 2.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

16:29 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Galwaf ar Eluned Parrott i gynnis gwelliannau 3 a 4 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Cynnwys pwynt 3 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:*

*Yn credu y dylai buddsoddi mewn trafndiaeth gyhoeddus a chamau gweithredu i annog newid moddol oddi wrth ddefnyddio ceir fod yn flaenoriaeth fel rhan o gynllun trafndiaeth gynaliadwy ac integredig.*

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

*Mewnosod ym mhwynt 4 ar ôl 'llwybr glas':*

*Yn ogystal â datrysiadau trafndiaeth gyhoeddus addas.*

I call on Eluned Parrott to move amendments 3 and 4, tabled in the name of Aled Roberts.

*Amendment 3—Aled Roberts*

*Add as new point 3 and renumber accordingly:*

*Believes investment in public transport and actions to encourage modal shift away from car use should be a priority as part of a sustainable, integrated transport plan.*

*Amendment 4—Aled Roberts*

*Insert in point 4 after 'blue route':*

*as well as suitable public transport solutions.*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

16:29 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Diolch, Gadeirydd. I move amendments 3 and 4, in the name of Aled Roberts.

Diolch, Gadeirydd. Cynigaf welliannau 3 a 4, yn enw Aled Roberts.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

I thank Plaid Cymru for bringing forward the debate today and providing us with another opportunity to discuss this highly contentious issue. There are clearly environmental, economic and a number of other grounds on which people have expressed concerns. Of course, my own party is similarly unconvinced the case has been made for proceeding with building the black route as a solution to congestion issues on the M4 at Newport. So, we are supportive of today's motion but want to widen the debate a little to explore how a more integrated approach that brings public transport into the discussion could help to alleviate the pressure on our roads. Clearly, roads do not exist in a vacuum, and we have discussed on many occasions the importance of encouraging modal shift to tempt drivers out of their cars, primarily on environmental grounds. However, of course, it is a positive policy to pursue economically if it alleviates congestion on our roads as well.

We also need to recognise the interrelationship between road and rail capacity and how a lack of capacity in one area can drive demand in the other. I really do feel that we are a victim of this tendency at the moment. We are not in control of it, and that is something that we really do need to consider. If you take the question back to basics, transport planning is essentially about how we move people and how we move stuff, and both forms of transport are an issue here. You cannot look at one without looking at the other because, of course, we share at least some of the same infrastructure by road, by rail, by air or by sea between the people and goods. I would like to see an increase in the proportion of freight that is moved by rail, but we have to recognise that it is not only our roads but also our railways that suffer from some significant pinch points. If we set aside additional rail pathways for freight in south-east Wales, we will lose that pathway for passengers. So, this may well need some major infrastructure investment if we are to see a truly ambitious transport plan, including that metro system for south-east Wales, delivered.

Diolchaf i Blaid Cymru am gyflwyno'r ddadl heddiw ac am roi cyfle arall i ni drafod y mater hynod ddadleuol hwn. Mae'n amlwg bod pobl wedi mynegi pryderon ar sail yr amgylchedd, yr economi a nifer o resymau eraill. Wrth gwrs, nid yw fy mhlaid fy hun wedi'i hargyhoeddi chwaith bod yr achos wedi'i wneud dros fwrw ymlaen ag adeiladu'r llwybr du fel ateb i'r broblem dagfeydd ar yr M4 yng Nghasnewydd. Felly, rydym yn cefnogi'r cynnig heddiw, ond yn awyddus i ehangu'r drafodaeth ychydig er mwyn archwilio sut y gallai dull gweithredu mwy integredig sy'n dod â thrafnidiaeth gyhoeddus i'r drafodaeth helpu i leddfu'r pwysau ar ein ffyrdd. Yn amlwg, nid yw ffyrdd yn bodoli mewn gwagle, ac rydym wedi trafod droeon y pwysigrwydd o annog newid moddol i demtio gyrwyr allan o'u ceir, yn bennaf am resymau amgylcheddol. Fodd bynnag, wrth gwrs, mae'n bolisi cadarnhaol i'w ddilyn yn economaidd os bydd yn lleddfu tagfeydd ar ein ffyrdd hefyd.

Mae angen i ni hefyd gydnabod y gydberthynas rhwng capasiti'r ffordd a'r rheilffordd a sut y gall diffyg capasiti mewn un maes ysgogi galw yn y llall. Rwyf wir yn teimlo ein bod yn dioddef o'r duedd hon ar hyn o bryd. Nid ydym yn ei rheoli, ac mae angen i ni ystyried hynny o ddifrif. O edrych ar y cwestiwn hwn yn sylfaenol, yn y bôn mae cynllunio ar gyfer trafndiaeth yn ymwneud â sut rydym yn symud pobl a sut rydym yn symud nwyddau, ac mae'r ddau fath o drafnidiaeth yn broblem yma. Ni allwch edrych ar un heb edrych ar y llall oherwydd, wrth gwrs, rydym yn rhannu rhywfaint o'r un seilwaith ar y ffyrdd, ar y rheilffyrdd, yn yr awyr neu ar y môr rhwng y bobl a nwyddau. Hoffwn weld cynnydd yng nghyfran y nwyddau sy'n cael eu symud ar y rheilffyrdd, ond rhaid inni gydnabod bod ein rheilffyrdd yn ogystal â'n ffyrdd yn dioddef o rai mannau cyfyng arwyddocaol. Pe baem yn gosod llwybrau rheilffyrdd ychwanegol o'r neilltu ar gyfer cludo nwyddau yn ne-ddwyrain Cymru, byddem yn colli'r llwybr hwnnw i deithwyr. Felly, efallai y bydd angen rhywfaint o fuddsoddiad mawr yn y seilwaith os ydym am weld cynllun trafndiaeth wirioneddol uchelgeisiol yn cael ei gyflwyno, gan gynnwys y system metro ar gyfer De-ddwyrain Cymru.



However, there are some specific actions that we can take to alleviate pressure at this particular point, and that is why I was so pleased that, in the joint statement on the budget between the Welsh Government and my group yesterday, the importance of reopening the Gaer curve in Newport to reconnect Newport to its valleys was so firmly stated. It is an issue that my colleagues in Newport have campaigned on for many years. The detailed planning for the delivery of the metro is now to begin, and the aspiration is clearly to deliver a transport system that will have a transformative impact on the way that people travel around this region. If we are successful in that, if we are drawing new passengers to the public transport network, what impact is that going to have on road usage? We know that the M4 at Newport is heavily used by local people travelling short distances—local people driving on the motorway for one or two junctions to avoid traffic on a distributor system around the south of their city that is frankly woeful; local people who are choosing to drive or obliged to drive because of the lack of public transport options for them at the present time, particularly for those living in what ought to be Newport's commuter belt in the Ebbw Valley. So, I hope that, with the improvements made to the Gaer curve in Newport, we will at last see commuters being able to choose rail as an attractive option for travelling into Newport to work. I hope that, in future, more and more people, as we invest in this metro system, will be making that choice to walk, cycle, travel by bus or travel by train. All of these things are aspirations that we share.

If we are successful, therefore, in our aims for that public transport network and, as I say, in the aspirations that we share, it will have a massive impact on our roads in south-east Wales. To my mind, that calculation has not been adequately assessed within this process either. That is why I have tabled these amendments today.

Very briefly, I would also like to mention the potential in future for Wales's ports to play an increasing role in moving freight in particular in and out of Wales. The policy and funding direction of the EU is clearly moving in the direction of what it calls its motorways of the sea over motorways of the land. It is not funding road building any more and it would be unbelievably backward-looking if the building of a motorway across Newport docks prevented it from developing fully in future for the motorways of the sea that the EU believes are the way forward for sustainable transport for the next century.

Turning to the other amendments briefly, I will not be supporting amendment 1, because I cannot for the life of me work out why the Welsh Conservatives have undertaken a line-for-line rewrite of the motion without actually adding a single idea to it, as far as I can tell. Perhaps you find yourselves in a difficult position. However, I will not support it, because I want to have the opportunity to vote on our amendments introducing public transport to that debate. Similarly, I cannot support the Welsh Government amendment, which simply turns it back on the debate today, for similar reasons, although I understand why the Minister might choose to do so.

Fodd bynnag, mae rhai camau penodol y gallwn eu rhoi ar waith i leddfu'r pwysau yn y man penodol hwn, a dyna pam roeddwn mor falch bod y datganiad ar y cyd ar y gyllideb rhwng Llywodraeth Cymru a'm grŵp ddoe wedi nodi'n gadarn y pwysigrwydd o ailagor Tro'r Gaer yng Nghasnewydd i ailgysylltu Casnewydd â'i chymoedd. Mae fy nghyd-Aelodau yng Nghasnewydd wedi bod yn ymgyrchu ar y mater hwn ers blynnyddoedd lawer. Bydd y gwaith cynllunio manwl ar gyfer cyflwyno'r metro yn dechrau yn awr, a'r dyhead yn amlwg yw cyflwyno system drafnidiaeth a fydd yn cael effaith drawsnewidiol ar sut mae pobl yn teithio o gwmpas y rhanbarth hwn. Os ydym yn llwyddo yn hynny o beth, os ydym yn denu teithwyr newydd i'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus, pa effaith y bydd hynny'n ei chael ar ddefnydd o'r ffordd? Rydym yn gwybod bod yr M4 yng Nghasnewydd yn cael ei defnyddio'n helaeth gan bobl leol sy'n teithio pellteroedd byr—pobl leol sy'n gyrru ar y draffordd am un gyffordd neu ddwy er mwyn osgoi traffig ar system ddosbarthu o amgylch ardal ddeheuol eu dinas sydd, mewn gwirionedd, yn druenus; pobl leol sy'n dewis gyrru neu sy'n gorfod gyrru oherwydd y diffyg opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus sydd ar gael ar hyn o bryd, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n byw yn yr hyn a ddylai fod yn ardal gymudo Casnewydd yng Nghwm Ebwy. Felly, gobeithiaf, yn sgîl y gwelliannau i dro'r Gaer yng Nghasnewydd, y byddwn o'r diwedd yn gweld cymudwyr yn gallu dewis y rheilffordd fel opsiwn deniadol ar gyfer teithio i Gasnewydd i'r gwaith. Gobeithiaf, yn y dyfodol, y bydd mwy a mwy o bobl, wrth i ni fuddsoddi yn y system metro, yn dewis cerdded, seiclo, teithio ar fws neu deithio ar y trêrn. Rydym yn rhannu pob un o'r dyheadau hyn.

Felly, os ydym yn llwyddo yn ein hamcanion ar gyfer y rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus ac, fel y dywedais, yn y dyheadau a rannwn, bydd yn cael effaith enfawr ar ein ffordd yn Ne-ddwyrain Cymru. Yn fy marn i, nid yw'r ystyriaeth honno wedi'i hasesu'n ddigonol yn y broses hon chwaith. Dyna pam rwyf wedi cyflwyno'r gwelliannau hyn heddiw.

Yn fyr iawn, hoffwn hefyd sôn am y potensial yn y dyfodol i borthladdoedd Cymru chwarae rôl gynyddol yn y gwaith o gludo nwyddau, yn enwedig nwyddau i mewn ac allan o Gymru. Mae cyfeiriad polisi a chyllid yr UE yn symud yn glir i gyfeiriad yr hyn y mae'n ei ddisgrifio fel traffyrdd y môr yn hytrach na traffyrdd y tir. Nid yw'n ariannu gwaith i adeiladu ffordd mwyach a byddai'n gam hynod negyddol pe bai adeiladu traffordd ar draws dociau Casnewydd yn atal y ddinas rhag datblygu'n llawn yn y dyfodol ar gyfer traffyrdd y môr, sef y ffordd ymlaen ym marn yr UE ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy yn y ganrif nesaf.

Gan droi at y gwelliannau eraill yn fyr, ni fyddaf yn cefnogi gwelliant 1, oherwydd ni allaf yn fy myw deall pam y mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi ail-ysgrifennu'r cynnig air am air heb ychwanegu unrhyw syniad newydd ato mewn gwirionedd, hyd y gwelaf. Efallai eich bod mewn sefyllfa anodd. Fodd bynnag, ni fyddaf yn ei gefnogi, oherwydd rwyf am gael y cyfle i bleidleisio ar ein gwelliannau i gyflwyno trafnidiaeth gyhoeddus i'r drafodaeth honno. Yn yr un modd, ni allaf gefnogi gwelliant Llywodraeth Cymru, sydd yn syml yn troi ei gefn ar y ddadl heddiw, am resymau tebyg, er fy mod yn deall pam y gallai'r Gweinidog ddewis gwneud hynny.

I will be supporting the Government in the votes this afternoon but I wish to make it clear that I do not support the Government in this decision. I feel that this is the wrong decision, that it has been done in the wrong way and that it is something that we need to re-examine.

Others on this backbench have described their own disappointments with the way in which this decision was reached and the way in which it was announced in July. I will do no more this afternoon than simply say that I share their disappointments. I do not believe that this is the way in which decisions should be taken and announced, either to this group or to this Assembly.

I therefore welcome the announcement that was made yesterday in the budget statement that there will be a stop to this process now to allow us to have the debate that we should have had before this decision was announced. Let me say this absolutely clearly: I believe that we should be addressing these issues. I am not an instinctive anti-roads person or someone who believes that roads should not be built. However, I do believe that we need to take these decisions openly and after due consideration, and as a consequence of debates and discussions that take place in individual parties, in this place and in the committees of this place.

The decisions that have been taken will have a significant and long-term impact. The Gwent levels—an area that I know very well—are described as an essential migration route, a key site for many nationally and internationally important species and a landscape of outstanding historic interest. That is not the description given to it by Friends of the Earth, but by the Welsh Government itself. If we are going to drive a six-lane motorway across that historically and internationally important area, then we must be absolutely clear that we have the knowledge and information and that we are taking the right decision. I am clear on none of those matters this afternoon.

I hope that we will be able to solve the problems around Newport. We do need a more resilient infrastructure around Newport. The Member for Newport East spoke yesterday in questions about ensuring that we have a sustainable, multi-modal system based on public transport. I agree with the Member for Newport East on that. However, I also want to say that this decision does not, in my view, reflect the commitments that we have made as a Labour Party and does not reflect the commitments that we made in the Labour manifesto. Our manifesto speaks of sustainability and our commitment to creating a sustainable economy and sustainable jobs. It is difficult to reconcile these commitments to sustainability and this approach to decision taking with plans to drive this six-lane motorway across some of our most precious and protected landscapes.

Byddaf yn cefnogi'r Llywodraeth yn y pleidleisiau'r prynhawn yma, ond rwyf am ei gwneud yn glir nad wyf yn cefnogi'r Llywodraeth yn y penderfyniad hwn. Rwy'n teimlo bod hwn yn benderfyniad anghywir, ei fod wedi'i wneud yn y ffordd anghywir a'i fod yn rhywbeth y mae angen i ni edrych arno eto.

Mae eraill ar y meinciau cefn wedi disgrifio eu siomedigaethau eu hunain ynglŷn â sut y cafodd y penderfyniad hwn ei wneud a sut y cafodd ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf. Ni fyddaf yn gwneud dim mwy y prynhawn yma na dweud fy mod yn rhannu eu siomedigaethau. Nid wyf yn credu mai dyma'r ffordd y dylai penderfyniadau gael eu gwneud na'u cyhoeddi, naill ai i'r grŵp hwn neu i'r Cynulliad hwn.

Felly, rwy'n croesawu'r cyhoeddiad ddoe yn y datganiad ar y gyllideb y bydd y broses hon yn cael ei hatal yn awr fel y gallwn gael y ddadl y dylem fod wedi'i chael cyn cyhoeddi'r penderfyniad hwn. Gadewch i mi ddweud hyn yn hollol glir: rwy'n credu y dylem fod yn mynd i'r afael â'r materion hyn. Nid oes gennyf deimladau gwrth-ffyrdd greddfodol ac nid wyf yn unigolyn sy'n credu na ddylai ffyrdd gael eu hadeiladu. Fodd bynnag, rwy'n credu bod angen i ni gymryd y penderfyniadau hyn yn agored ac ar ôl eu hystyried yn briodol, ac o ganlyniad i ddadleuon a thrafodaethau sy'n digwydd mewn pleidiau unigol, yn y lle hwn ac ym mhwyllgorau'r lle hwn.

Bydd y penderfyniadau sydd wedi'u gwneud yn cael effaith arwyddocaol a hirdymor. Mae gwastadeddau Gwent—ardal sy'n gyfarwydd iawn i mi—yn cael eu disgrifio fel llwybr mudo hanfodol, yn safle allweddol ar gyfer llawer o rywogaethau cenedlaethol a rhyngwladol pwysig ac yn dirwedd o ddiddordeb hanesyddol eithriadol. Nid dyna'r disgrifiad a roddwyd i'r ardal gan Gyfeillion y Ddaear, ond gan Lywodraeth Cymru ei hun. Os ydym yn mynd i adeiladu traffordd chwe lôn ar draws yr ardal hon o bwysigrwydd hanesyddol a rhyngwladol, yna mae'n rhaid i ni fod yn gwbl glir fod gennym y wybodaeth a'n bod yn gwneud y penderfyniad cywir. Nid wyf yn sicr am unrhyw un o'r materion hynny'r prynhawn yma.

Rwy'n gobeithio y byddwn yn gallu datrys y problemau o gwmpas Casnewydd. Rydym angen seilwaith mwy cadarn o amgylch Casnewydd. Siaradodd yr Aelod dros Ddwyrain Casnewydd ddoe yn ystod cwestiynau am yr angen i sicrhau bod gennym system gynaliadwy, aml-foddol yn seiliedig ar drafnidiaeth gyhoeddus. Rwy'n cytuno â'r Aelod dros Ddwyrain Casnewydd ar hynny. Fodd bynnag, rwyf am ddweud hefyd nad yw'r penderfyniad hwn, yn fy marn i, yn adlewyrchu'r ymrwymadau rydym wedi'u gwneud fel Plaid Lafur ac nad yw'n adlewyrchu'r ymrwymadau a wnaethom ym maniffesto Llafur. Mae ein maniffesto yn cyfeirio at gynaliadwyedd a'n hymrwymiad i greu economi gynaliadwy a swyddi cynaliadwy. Mae'n anodd cysoni'r ymrwymadau hyn i gynaliadwyedd a'r agwedd hon tuag at wneud penderfyniadau â chynlluniau i adeiladu'r draffordd chwe lôn hon ar draws rhai o'n tirweddau mwyaf gwerthfawr sy'n cael eu diogelu fwyaf.

Where are the benefits? When I read the Government's economic impact analysis of this, I noticed—and I think that others noticed—that there is significant benefit along a very narrow stretch of the M4 corridor. My constituents in Blaenau Gwent will not be benefiting from this investment. There will be benefits in Cardiff, Newport, south Gloucestershire and north Somerset, but not in Blaenau Gwent.

That draws a sharp focus with the south Wales metro system. I would like to see this Government prioritising the south Wales metro system for investment, ensuring that we have adequate resources available, through capital or through borrowing, to be able to design a transport infrastructure that is sustainable and fit for purpose and that will drive and create wealth, not simply along the M4 corridor, but in some of the communities that need that wealth most. We see and we understand what the economic impacts might be in Blaenau Gwent when it comes to the investment on the south Wales metro. We see the economic impacts of this decision on the M4. We know that the people of Blaenau Gwent will not benefit from that.

So, I hope that, over the coming weeks and months, we will be able to have the debate that we should have had prior to July, and that we will be able to have a debate in this party, in this Chamber and across Wales about how we invest in our transport infrastructure and the decisions that we need to take around Newport. The Conservative Member for South Wales West is absolutely right: we cannot continue to delay decisions on Newport, but it is more important that we get those decisions right.

16:40

### **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As someone who lives in this area and represents it, I am already hearing concerns from businesses and others about the potential for a negative economic impact in the long term and the short term from a second M4. In the Government's plan, significant economic pay-offs are promised, but little solid detail is offered. For a price tag that now sits at nearly £1 billion, we should demand that the economical reward be enormous, but that is simply not the case. What is clear is that there are real and serious objections to this project from businesses in and around Newport now.

Yesterday, I warned about Associated British Ports and Island Steel UK Ltd—two major employers—and their real concerns. The environmental concerns are also weighing heavily over this proposal. There is no hiding it: a second M4 would cut through some of the most important landscapes in Wales. The Gwent levels need to be protected. Every environmental group has heavily criticised the Government's plan, and some of them are even advocating for the blue route. That is a first.

Ble mae'r manteision? Pan ddarllenais ddadansoddiad o effaith economaidd y Llywodraeth, sylwais—yn debyg i bobl eraill rwy'n credu—fod budd sylweddol ar hyd darn cul iawn o goridor yr M4. Ni fydd fy etholwyr ym Mlaenau Gwent yn elwa o'r buddsoddiad hwn. Bydd manteision yng Nghaerdydd, Casnewydd, de Swydd Gaerloyw a gogledd Gwlad yr Haf, ond nid ym Mlaenau Gwent.

Mae hynny'n wahanol iawn i system metro De Cymru. Hoffwn weld y Llywodraeth hon yn rhoi blaenoriaeth i system metro'r De ar gyfer buddsoddi, gan sicrhau bod gennym adnoddau digonol ar gael, drwy gyfalaf neu drwy fenthyca, i allu cynllunio seilwaith trafnidiaeth sy'n gynaliadwy ac yn addas at y diben ac a fydd yn ysgogi ac yn creu cyfoeth, nid yn unig ar hyd coridor yr M4, ond mewn rhai o'r cymunedau sydd angen y cyfoeth mwyaf. Rydym yn gweld ac yn deall yr effeithiau economaidd posibl ym Mlaenau Gwent o'r buddsoddiad ym metro'r De. Rydym yn gweld effeithiau economaidd y penderfyniad hwn ar yr M4. Rydym yn gwybod na fydd pobl Blaenau Gwent yn elwa ar hynny.

Felly, rwy'n gobeithio, dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf, y byddwn yn gallu cael y ddadl y dylem fod wedi'i chael cyn mis Gorffennaf, ac y byddwn yn gallu cael dadl yn y blaidd hon, yn y Siambr hon a ledled Cymru am y ffordd rydym yn buddsoddi yn ein seilwaith trafnidiaeth a'r penderfyniadau y mae angen i ni eu gwneud yn ardal Casnewydd. Mae'r Aelod Ceidwadol dros Orllewin De Cymru yn llygad ei le: ni allwn barhau i ohirio penderfyniadau ar Gasnewydd, ond mae'n bwysicach ein bod yn gwneud y penderfyniadau cywir.

Fel rhywun sy'n byw yn yr ardal hon ac sy'n cynrychioli'r ardal, rwyf eisoes yn clywed pryderon gan fusnesau ac eraill am y potensial ar gyfer effaith economaidd negyddol yn yr hirdymor a'r tymor byr oherwydd ail M4. Mae cynllun y Llywodraeth yn addo manteision economaidd sylweddol, ond ychydig iawn o fanylion pendant sydd ar gael. O ystyried bod cost y prosiect yn agos at £1 biliwn, dylem fynnu bod y wobr economaidd yn enfawr, ond nid yw hynny'n wir. Yr hyn sy'n amlwg yw bod gwrthwynebiad gwirioneddol a difrifol i'r prosiect hwn gan fusnesau yng Nghasnewydd a'r cyffiniau erbyn hyn.

Ddoe, rhybuddiais am Associated British Ports ac Island Steel UK Ltd—dau gyflogwr mawr—a'u pryderon gwirioneddol. Mae'r pryderon amgylcheddol hefyd yn pwyso'n drwm dros y cynnig hwn. Ni ellir gwadu'r ffaith: byddai ail M4 yn torri drwy rai o'r tirweddau pwysicaf yng Nghymru. Mae angen gwarchod gwastadeddau Gwent. Mae pob grŵp amgylcheddol wedi beirniadu cynllun y Llywodraeth yn llym, ac mae rhai ohonynt hyd yn oed yn hyrwyddo'r llwybr glas. Mae hynny'n torri tir newydd.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Why then will the Government not give proper consideration to the blue route? The blue route would have much less environmental impact, significantly less disruption upon families living in Newport and a lower economic impact, and the project would be completed sooner. That should be a key point. If what we are considering here is, first and foremost, how to reduce traffic flows on the existing M4—because we all want that—a project that delivers the capacity for increased traffic flows sooner rather than later at a cost that does not bankrupt the rest of the capital budget for years to come should be given priority consideration, in our view. To say that it was not part of the official consultation beggars belief, and this point was raised by members of the Government's party during proceedings of the Environment and Sustainability Committee and here today.

Yesterday, the First Minister said to me in this Chamber that the blue route would now cost £800 million and would take the same amount of time to complete as the Government's preferred black route. I would like the Minister, please, to clarify that point today, because as I—and I think everyone else—understood it, the blue route was going to cost £400 million and could feasibly be completed by 2018, according to the independent and expert analysis.

We need to consider proposals based on evidence. If the Government's black route would divert 40% of existing traffic flow away from the current M4—and we are only talking about dealing with an increased traffic flow of 20% over the coming years on the existing M4—why not consider the blue route, which would provide the lion's share of that required extra capacity in a much more cost-effective manner? Combine that with the plans, as we have heard in this Chamber from several speakers, for the south-east Wales metro, which will, if implemented properly, reduce traffic flows on all roads in south-east Wales, and the mammoth new motorway that the Government would prefer is simply not needed.

My last point brings me to the aspect that really concerns me most, which is the impact on other budgets and priorities, in particular the south-east Wales metro. We know that the estimated cost for this over an extended period will be around £2 billion, if implemented to its full potential and ambition. How can the Government claim to be serious about investing in public transport while it is ignoring evidence and common sense and ploughing ahead with this new motorway? Are we to be a country with an efficient transport network that finally delivers joined-up planning and transport to all of south-east Wales, or a country with a scaled back public transport network and a half-baked compromise, because Government insists on this route? What about the other parts of Wales, we hear? They will never forgive you. What about the A55 in north Wales? The A470 is still not fit for purpose, and there is still a long way to go with the Heads of the Valleys road. The people of this country will never forgive a Government that goes for the most expensive option when there was no overwhelming need and when there were other options available. I implore everyone to think seriously about this now, before we make a mistake that cannot be undone. We are not playing Monopoly here; this is serious business.

Pam felly na fydd y Llywodraeth yn rhoi ystyriaeth briodol i'r llwybr glas? Byddai'r llwybr glas yn cael llawer llai o effaith ar yr amgylchedd, byddai'n amharu llawer llai ar deuluoedd sy'n byw yng Nghasnewydd ac yn cael llai o effaith economaidd, a byddai'r prosiect yn cael ei gwblhau yn gynt. Dylai hynny fod yn bwynt allweddol. Os rydym yn ystyried, yn anad dim, sut i leihau llif y traffig ar yr M4 bresennol—oherwydd dyna ddymuniad pob un ohonom—dylid rhoi blaenoriaeth, yn ein barn ni, i brosiect sy'n darparu'r capasiti i gynyddu llif y traffig cyn gynted ag sy'n bosibl ar gost nad yw'n gwagio gweddill y gyllideb gyfalaf am flynyddoedd i ddod. Mae honni nad oedd hyn yn rhan o'r ymgynghoriad swyddogol yn anghredadwy, a chodwyd y pwynt hwn gan aelodau o blaid y Llywodraeth yn ystod trafodion y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ac yma heddiw.

Ddoe, dywedodd y Prif Weinidog wrthyf yn y Siambr hon y byddai'r llwybr glas yn awr yn costio £800 miliwn ac y byddai'n cymryd yr un faint o amser i'w gwblhau â'r llwybr du a ffefrir gan y Llywodraeth. Hoffwn i'r Gweinidog, os gwelwch yn dda, gadarnhau'r pwynt hwnnw heddiw, oherwydd yn ôl fy nealltwriaeth i—a dealltwriaeth pawb arall rwy'n credu—roedd y llwybr glas yn mynd i gostio £400 miliwn a byddai'n bosibl ei gwblhau yn ymarferol erbyn 2018, yn ôl y dadansoddiad annibynnol ac arbenigol.

Mae angen i ni ystyried cynigion ar sail y dystiolaeth. Pe bai llwybr du'r Llywodraeth yn dargyfeirio 40% o lif y traffig presennol oddi wrth yr M4 bresennol—ac rydym ond yn sôn am ymdrin â chynnydd yn llif y traffig o 20% dros y blynyddoedd nesaf ar yr M4 bresennol—beth am ystyried y llwybr glas, a fyddai'n darparu'r gyfran fwyaf o'r capasiti ychwanegol sydd ei angen mewn ffordd llawer mwy costeffeithiol? Cyfunwch hynny â'r cynlluniau, fel rydym wedi clywed yn y Siambr hon gan nifer o siaradwyr, ar gyfer metro de-ddwyrain Cymru, a fydd, o gael eu gweithredu'n gywir, yn lleihau llif y traffig ar holl ffordd de-ddwyrain Cymru, ac yn syml iawn nid oes angen y draffordd newydd enfawr sy'n cael ei ffafrio gan y Llywodraeth.

Mae fy mhwynt olaf yn dod â mi at yr agwedd sy'n peri'r pryder mwyaf i mi mewn gwirionedd, sef yr effaith ar gyllidebau a blaenoriaethau eraill, yn enwedig metro de-ddwyrain Cymru. Rydym yn gwybod mai'r gost amcangyfrifedig ar gyfer hyn dros gyfnod estynedig fydd tua £2 biliwn, os caiff y prosiect ei weithredu i'w llawn botensial ac uchelgais. Sut gall y Llywodraeth honni ei bod o ddifrif am fuddsoddi mewn trafniadaeth gyhoeddus pan ei bod yn anwybyddu tystiolaeth a synnwyr cyffredin ac yn bwrw ymlaen â'r draffordd newydd? A ydym i fod yn wlad sydd â rhwydwaith trafniadaeth effeithlon sydd o'r diwedd yn darparu systemau cynllunio a thrafnidiaeth cydgysylltiedig ar gyfer pawb yn ne-ddwyrain Cymru, neu'n wlad sydd â rhwydwaith trafniadaeth gyhoeddus wedi'i gwtogi a chyfaddawd annigonol, oherwydd bod y Llywodraeth yn mynnu dewis y llwybr hwn? Beth am y rhannau eraill o Gymru, rydym yn clywed? Ni fyddant byth yn maddau i chi. Beth am yr A55 yng Ngogledd Cymru? Nid yw'r A470 yn addas at y diben o hyd, ac mae ffordd bell i fynd o hyd o safbwynt ffordd Blaenau'r Cymoedd. Ni fydd pobl y wlad hon byth yn maddau i Lywodraeth sy'n dewis yr opsiwn drutaf pan nad oedd angen llethol a phan oedd opsiynau eraill ar gael. Erfyniaf ar bawb i feddwl o ddifrif am hyn yn awr, cyn i ni wneud camgymeriad na ellir ei ddadwneud. Nid ydym yn chwarae Monopoly yma; mae hyn yn fusnes difrifol.

The M4 is arguably our most important piece of economic infrastructure. It has been responsible for growing the Welsh economy and is now sadly threatening to curtail it, because of congestion at the Brynglas tunnel bottleneck. Listening to previous speakers, I think that it is true to say that we all agree that we need a solution and we need it pretty quick. Of course, the Welsh Government has already embarked on part of the solution, and it is not even a road. Rail electrification and the metro system, as has been mentioned by other speakers, should get more people onto our rail network so that those living in the Cardiff city region do not feel the need to use their cars at all. This should reduce local traffic on the M4 and adjacent roads, which I must say casts doubt on some of the more outlandish predictions of traffic growth.

The new M4 proposal comes with a huge £1 billion price tag. The advance borrowing being allowed by the UK Government will not cover all of this. This means that, unless the Welsh Government has a hefty win on the lottery, the second phase of borrowing powers will be absorbed by the costs of the motorway, leaving far less money for capital transport projects across the rest of Wales.

As I understand it—I would be grateful if the Minister could clarify this—unlike the 1980s M44 proposals, the black route re-routes the M4 across the Gwent levels and, worryingly, de-motorways the existing road, removing motorway-grade access for commuters living between the Magor junction and the proposed new junction with the A48M at Castleton. As we have heard, the black route M4 is the most direct route, but it crosses wetland containing four sites of special scientific interest, irreversibly endangering protected species of plants and animals, and changing the landscape forever. It will also put jobs and future investments at Newport docks at risk, and the new motorway bridge will have height restrictions that will affect over half of the vessels that are currently using the docks. The current M4 will not be unaffected during construction: joining up at junction 23 and junction 29 will require lane closures. In addition, of course, the project might not be delivered on time when we need a quick solution.

Gellir dadlau mai'r M4 yw ein darn pwysicaf o seilwaith economaidd. Mae wedi bod yn gyfrifol am dyfu economi Cymru ac mae bellach yn bygwth ei chrebachu yn anffodus, oherwydd tagfeydd tagfa twnnel Brynglas. Wrth wrando ar y siaradwyr blaenorol, rwy'n meddwl ei bod yn wir dweud ein bod i gyd yn cytuno bod angen ateb, a hynny'n ddi-oed. Wrth gwrs, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyflwyno rhan o'r ateb, ac nid yw'r ateb hwnnw yn ymwneud â ffyrdd hyd yn oed. Dylai trydaneiddio'r rheilffordd a'r system metro, fel y nododd siaradwyr eraill, olygu bod mwy o bobl yn defnyddio ein rhwydwaith rheilffyrdd fel nad yw'r rhai sy'n byw yn rhanbarth dinas Caerdydd yn teimlo'r angen i ddefnyddio eu ceir o gwbl. Dylai hyn leihau traffig lleol ar yr M4 a'r ffyrdd cyfagos, sydd, mae'n rhaid i mi ddweud, yn codi amheuan ynglŷn â rhai o'r darogan mwy eithafol ynglŷn â thwf traffig.

Bydd y cynnig newydd ar gyfer yr M4 yn costio swm enfawr o £1 biliwn. Ni fydd y benthyca ymlaen llaw a ganiateir gan Lywodraeth y DU yn gallu talu'r gost gyfan. Mae hyn yn golygu, oni bai bod Llywodraeth Cymru yn ennill arian mawr iawn ar y loteri, bydd ail gam y pwerau benthyca yn mynd ar gostau'r draffordd, gan adael llawer llai o arian ar gyfer prosiectau trafnidiaeth cyfalaf yng ngweddill Cymru.

Yn ôl a ddeallaf—byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog gadarnhau hyn—yn wahanol i'r cynigion ar gyfer yr M44 yn y 1980au, mae'r llwybr du yn dargyfeirio'r M4 ar draws gwastadeddau Gwent ac, mewn datblygiad sy'n peri pryder, yn golygu na fydd y ffordd bresennol yn draffordd, gan ddileu mynediad o radd draffordd ar gyfer cymudwyr sy'n byw rhwng cyffordd Magwyr a'r gyffordd newydd arfaethedig â'r A48M yng Nghas-bach. Fel rydym wedi'i glywed, llwybr du'r M4 yw'r llwybr mwyaf uniongyrchol, ond mae'n croesi gwlyptir sy'n cynnwys pedwar safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig, yn peryglu rhywogaethau planhigion ac anifeiliaid a warchodir mewn ffordd na ellir ei dadwneud, ac yn newid y tirlun am byth. Bydd hefyd yn peryglu swyddi a buddsoddiadau yn y dyfodol yn nocio Casnewydd, a bydd gan y bont draffordd newydd gyfyngiadau uchder a fydd yn effeithio ar dros hanner y cychod sy'n defnyddio'r dociau ar hyn o bryd. Bydd y gwaith adeiladu yn effeithio ar yr M4 bresennol: bydd angen cau lonydd er mwy cysylltu cyffordd 23 â chyffordd 29. Yn ogystal, wrth gwrs, mae'n bosibl na fydd y prosiect yn cael ei gwblhau'n brydlon ar adeg pan mae angen ateb cyflym arnom.

As we have heard, there are alternatives, although they were dismissed remarkably early in this process. The widening of the existing motorway with new tunnels was considered. Professor Stuart Cole's blue route was quickly dismissed, but suffered from an inherent misunderstanding from the start. The blue route is not a new motorway. The scheme recognises that we already have an M4 that does the job most of the time, but it recognises that we need a peak-time congestion solution—a release valve. Traffic would be monitored and directed onto the relief route when required by electronic display signs. Like the M4, and since the opening of the steelworks road earlier this year, the blue route, the Newport southern distributor road and the newly opened steelworks road, purchased by the Welsh Government in 2010, already exist, but they also have pinch points that would need to be dealt with by the construction of a series of flyovers. These flyovers would benefit the SDR anyway and, arguably, should have been included in the SDR scheme from the beginning. Most importantly, the blue route comes with a much lower price tag. As other speakers have said, it deserves to be looked at again.

Thanks to the innovative Lib Dem budget agreement to postpone construction of the new road until the date building was due to start anyway—I am still trying to get my head around that one, but it is your agreement, not mine.

Fel y clywsom, mae dewisiadau eraill ar gael, er iddynt gael eu diystyru'n hynod o gynnar yn y broses hon. Cafodd y syniad o ledu'r draffordd bresennol gyda thwneli newydd ei ystyried. Cafodd llwybr glas yr Athro Stuart Cole ei ddiystyru'n gyflym, ond roedd yn dioddef o gamddealltwriaeth cynhenid o'r cychwyn. Nid yw'r llwybr glas yn draffordd newydd. Mae'r cynllun yn cydnabod bod gennym M4 eisoes sy'n bodloni'r gofynion y rhan fwyaf o'r amser, ond mae'n cydnabod bod angen ateb i dagfeydd yn ystod oriau brig—er mwyn lliniaru'r pwysau. Byddai traffig yn cael ei fonitro a'i gyfeirio i'r llwybr lliniaru pan fydd angen gan arwyddion arddangos electronig. Yn debyg i'r M4, ac ers agor ffordd y gwaith dur yn gynharach eleni, mae'r llwybr glas, ffordd ddsbarthu ddeheuol Casnewydd a ffordd y gwaith dur sydd newydd agor, a brynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2010, eisoes yn bodoli, ond mae ganddynt fannau cyfyng hefyd y byddai'n rhaid mynd i'r afael â hwy drwy adeiladu cyfres o bontffyrdd. Byddai'r pontffyrdd o fudd i'r SDR beth bynnag a gellid dadlau y dylent fod wedi'u cynnwys yn y cynllun SDR o'r cychwyn. Yn bwysicaf oll, mae cost y llwybr glas yn llawer llai. Fel y mae siaradwyr eraill wedi'i ddweud, mae'n haeddu cael ei ystyried eto.

Diolch i gytundeb arloesol y Democratiaid Rhyddfrydol ar y gyllideb i ohirio adeiladu'r ffordd newydd tan y dyddiad pan oedd y gwaith adeiladu i fod i ddechrau beth bynnag—rwy'n dal i geisio deall hynny, ond eich cytundeb chi yw e, nid fy nghytundeb i.

16:47 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

16:47 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

One moment. The Welsh Government has time now to revisit this issue and to address the concerns of many people, organisations and environmental groups. I am sure that Eluned Parrott is going to explain the Lib Dem position.

Un funud. Mae gan Lywodraeth Cymru amser yn awr i edrych ar y mater hwn eto ac ystyried pryderon llawer o bobl, sefydliadau a grwpiau amgylcheddol. Rwy'n siŵr bod Eluned Parrott yn mynd i egluro safbwynt y Democratiaid Rhyddfrydol.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

16:48 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Not at all; I am going to query yours, in that your spokesperson on transport has just spent five minutes criticising it for delaying the decision. Which is it, do you think?

Dim o gwbl; rwy'n mynd i gwestiynu'ch safbwynt chi, gan fod eich llfarydd ar drafndiaeth newydd dreulio pum munud yn ei feirniadu am ohirio'r penderfyniad. Pa un yw e, ydych chi'n meddwl?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

16:48 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No, if you had listened carefully to what Byron Davies had said, as I did, you would know that he complained about delays in a solution to the M4 problem. Earlier in his speech, he did actually criticise the speed at which a decision was taken on the black route. I think that you need to revisit what Byron Davies said, Eluned.

Na, pe baech wedi gwranddo'n ofalus ar yr hyn a ddywedodd Byron Davies, fel y gwnes i, byddech yn gwybod ei fod wedi cwyno am yr oedi i ganfod ateb i broblem yr M4. Yn gynharach yn ei araith, beirniadodd pa mor gyflym y gwnaed penderfyniad ar y llwybr du. Credaf fod angen i chi ailedrych ar yr hyn a ddywedodd Byron Davies, Eluned.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)



I am not favouring a particular route today, but I am saying that the jury is still out on whether the black route really is the right choice. As Rhun ap Iorwerth alluded to in his opening remarks, there is a hint that it smacks of a 1980s solution to a twenty-first century problem. As I understand it, the purpose of devolution was to get away from the top-down, distant decisions of the past and to allow a clear, more localised, innovative solution-finding process. The metro is part of a new solution, but we seem to have reached a halfway house with looking at old road-building solutions. It is for the Welsh Government now to bring forward a convincing argument for its chosen solution, and if it cannot do that, then we need to go back to the drawing board and develop a solution that provides the right balance between solving congestion, environmental considerations and affordability at a time of constrained finances.

Nid wyf yn ffafrio llwybr penodol heddiw, ond rwy'n dweud nad oes sicrwydd eto ai'r llwybr du yw'r dewis cywir mewn gwirionedd. Fel y dywedodd Rhun ap Iorwerth yn ei sylwadau agoriadol, mae awgrym bod hyn yn cynnig ateb 1980au i broblem sy'n perthyn i'r unfed ganrif ar hugain. Yn ôl a ddeallaf, diben datganoli oedd symud i ffordd o'r penderfyniadau o'r brig i lawr, pell a wnaed yn y gorffennol a chaniatáu proses glir, fwy lleol ac arloesol o ganfod atebion. Mae'r metro yn rhan o ateb newydd, ond mae'n ymddangos ein bod wedi cyrraedd tŷ hanner ffordd drwy edrych ar hen atebion i adeiladu ffyrdd. Mater i Lywodraeth Cymru yn awr yw cyflwyno dadl sy'n argyhoeddi ar gyfer yr ateb y mae'n ei ddewis, ac os na all wneud hynny, yna mae angen inni fynd yn ôl i'r cychwyn a datblygu ateb sy'n darparu'r cydbwysedd cywir rhwng datrys tagfeydd, ystyriaethau amgylcheddol a fforddiadwyedd ar adeg pan fo arian yn dynn iawn.

16:49

## John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As a local Member, I am fully aware of the issues around the M4 near Newport, particularly at peak times. The congestion there is a real problem; it has an economic impact, it creates air pollution, there are safety issues and, of course, it has a real negative impact on the quality of life of people because of the delay and inconvenience involved. Therefore, we do need to find effective ways forward to address those issues.

I believe that we have seen some progress, with better traffic management, such as the variable speed limits, and there are possible solutions in terms of the number of junctions along that route around Newport, as others have already mentioned. However, fundamentally, I believe that we need a more integrated transport system and much better public transport to get people out of their cars, which would ease so many of these problems. As well as getting them onto public transport, we need to drive forward our Active Travel (Wales) Act 2013 so that we get them onto their bicycles and walking.

Fundamentally, that is my approach to these issues. I believe that we need to look afresh at the public transport solutions to these problems. The south Wales metro system, I believe, has much to offer in that regard, although there would be further developments that would also be required.

In terms of the mooted new and upgraded road solutions, I would join others in stating the great environmental and species damage impact of a new M4 relief road across those Gwent levels. These are issues that have been well rehearsed and addressed over a period of time, as indeed has this debate in general, but there is great strength in those environmental and species concerns because we know that the Gwent levels are a unique, historic landscape and are very valuable in environmental terms, with many special designations applying. Putting a new road through those Gwent levels would obviously have an incredibly damaging impact. That needs to be a major part of consideration of what is the best way forward.

Fel Aelod lleol, rwy'n gwbl ymwybodol o'r problemau yn ymwneud â'r M4 ger Casnewydd, yn enwedig yn ystod oriau brig. Mae'r tagfeydd yna yn broblem wirioneddol; maent yn cael effaith economaidd, yn creu llygredd aer, mae materion diogelwch ac, wrth gwrs, maent yn cael effaith negyddol wirioneddol ar ansawdd bywyd pobl oherwydd yr oedi a'r anghyfleustra a achosir. Felly, mae angen i ni ddod o hyd i ffyrdd effeithiol o fynd i'r afael â'r problemau hyn.

Rwy'n credu ein bod wedi gweld rhywfaint o gynydd, gyda rheoli traffig yn well, fel y cyfyngiadau cyflymder y gellir eu hamrywio, ac mae atebion posibl o safbwynt nifer y cyffyrdd ar hyd y llwybr hwnnw o amgylch Casnewydd, fel y mae eraill eisoes wedi'i grybwyll. Fodd bynnag, yn y bôn, rwy'n credu bod angen system drafnidiaeth fwy integredig arnom ynghyd â thrafnidiaeth gyhoeddus lawer gwell i gael pobl allan o'u ceir, a fyddai'n gwella cynifer o'r problemau hyn. Yn ogystal ag annog pobl i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus, mae angen i fwrw ymlaen â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 i annog pobl i seiclo a cherdded.

Yn y bôn, dyna fy agwedd tuag at y materion hyn. Credaf fod angen inni edrych o'r newydd ar yr atebion trafndiaeth gyhoeddus i'r problemau hyn. Mae gan system metro'r De, yn fy marn i, lawer i'w gynnig yn hynny o beth, er y byddai angen datblygiadau pellach hefyd.

O ran yr atebion sy'n cael eu crybwyll i adeiladu ffordd newydd ac uwchraddio'r ffordd, byddwn yn ymuno ag eraill a datgan yr effaith niweidiol iawn ar yr amgylchedd ac ar rywogaethau o adeiladu ffordd liniar M4 newydd ar draws gwastadeddau Gwent. Mae'r rhain yn faterion sydd wedi'u trafod yn helaeth ac wedi cael sylw dros gyfnod o amser, fel yn wir y mae'r ddadl hon yn gyffredinol, ond mae'r pryderon yn ymwneud â'r amgylchedd a rhywogaethau yn gryf iawn oherwydd rydym yn gwybod bod gwastadeddau Gwent yn dirwedd unigryw, hanesyddol a'u bod yn werthfawr iawn o safbwynt amgylcheddol, gyda llawer o ddynodiadau arbennig perthnasol. Byddai rhoi ffordd newydd drwy wastadeddau Gwent yn amlwg yn cael effaith hynod niweidiol. Mae angen i hynny fod yn rhan bwysig o ystyried beth yw'r ffordd orau ymlaen.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Also, in terms of the possible upgrading of the route at the Llanwern steelworks and the southern distributor road, that in itself brings forward a host of issues because increasing the volume of traffic substantially, which would be the result of that, alongside estates and communities, would have a major impact on quality of life and air pollution for those people. That must also be factored into consideration of these matters. We have the environmental issues, and we have the species issues on the Gwent levels, but we have real impact on communities and people, and their quality of life, in terms of that blue route. That is why I say that, fundamentally, improvements to public transport and the speeding up of that metro system must be at the heart of the solutions to these problems.

Other matters that I would like to touch on surround the funding of these major infrastructure projects. We know that, in the wake of the Scottish referendum, there needs to be a rebalancing of the UK. Part of that rebalancing, I believe, needs to address economic problems and transport infrastructure problems that, of course, are very relevant to those economic issues. Therefore, we need to see new funding, new moneys available and a new facilitation of regional transport systems. Again, I believe that central to that, as far as Wales is concerned, is that metro system. I believe that when it comes to addressing the issues around the M4, any UK Government assistance should not be restricted. Therefore, new borrowing powers and access to those powers should not be restricted to a road solution; it should be about any integrated transport system that will have a major impact.

Therefore, I welcome the Welsh Government announcement yesterday, and I believe that we should approach the new consideration in the context that I have described.

16:54

## Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf am ffocysu fy sylwadau ar faterion amgylcheddol. Yr ydym yn gwybod, wrth gwrs, bod gwastadeddau Gwent yn safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig—SSSI. Roeddwn yn gwybod am y cornchwiglod, am lygod y dŵr, y cardwenyn, y sgwarnogod brown a'r dyfrgwn, a dysgais y dydd o'r blaen y gallwch chi ffeindio un o flodau lleiaf y byd ar wastadeddau Gwent, ynghyd ag un o rywogaethau mwyaf y ddaear o chwilod. Dyna fe, rydych wedi dysgu rhywbeth arall heddiw, rwy'n siŵr. Mae'n safle archeolegol hynod hefyd, wrth gwrs, gan fod pobl wedi byw yno ers 7,000 o flynyddoedd. Gallwch ffeindio olion traed plant Mesolithic, mae'n debyg, ym mwd yr aber rhwng llanwa a thrai.

Nid yw hon yn mynd i fod yn araith o ryw ddelfrydiaeth amgylcheddol ddiplom, ond rwy'n dweud hyn dim ond i atgoffa'r Llywodraeth ei bod yn Llywodraeth sydd wedi ymrwymo i roi stop ar ddirywiad bioamrywiaeth yng Nghymru, ac i gynnal ecosystemau gwydn. Mae hefyd yn Llywodraeth sydd wedi'i hymrwymo i ostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr, fel y clywsom yn y ddadl ddiwethaf, gan 40% erbyn 2020. Dyma hefyd Lywodraeth sydd yn y broses o osod datblygu cynaliadwy fel gwyddor drefniadol ganolog i'w gwaith.

Hefyd, o safbwynt uwchraddio posibl y llwybr yng ngwaith dur Llanwern a'r ffordd ddosbarthu ddeheuol, mae hynny ynddo'i hun yn arwain at lu o broblemau gan fod cynyddu lefel y traffig yn sylweddol, a fyddai'n deillio o hynny, wrth ymyl stadau a chymunedau, yn cael effaith fawr ar ansawdd bywyd a llygredd aer ar gyfer y bobl hynny. Rhaid cynnwys hynny hefyd wrth ystyried y materion hyn. Mae gennym y materion amgylcheddol, ac mae gennym y materion ymwned â rhywogaethau ar wastadeddau Gwent, ond mae gennym effaith wirioneddol ar gymunedau a phobl, ac ar eu hansawdd bywyd, o ran y llwybr glas hwnnw. Dyna pam rwy'n dweud hynny, yn y bôn, bod rhaid i welliannau i drafnidiaeth gyhoeddus a chyflymu'r system metro fod wrth wraidd yr atebion i'r problemau hyn.

Mae'r materion eraill yr hoffwn gyfeirio atynt yn ymwneud ag ariannu'r prosiectau seilwaith mawr hyn. Gwyddom, yn sgil refferendwm yr Alban, fod angen ail-gydbwysu'r DU. Fel rhan o'r ail-gydbwysu, yn fy marn i, mae angen mynd i'r afael â phroblemau economaidd a phroblemau â'r seilwaith trafnidiaeth sydd, wrth gwrs, yn berthnasol iawn i'r materion economaidd hynny. Felly, mae angen inni weld cyllid newydd, sicrhau bod arian newydd ar gael a hwyluso systemau trafnidiaeth rhanbarthol o'r newydd. Unwaith eto, cyn belled ag y mae Cymru yn y cwestiwn, rwy'n credu bod y system metro yn ganolog i hyn. O safbwynt mynd i'r afael â'r materion yn ymwneud â'r M4, rwy'n credu y dylid cyfyngu ar unrhyw gymorth gan Lywodraeth y DU. Felly, ni ddylai pwerau benthycu newydd a mynediad i'r pwerau hynny gael eu cyfyngu i ateb ar gyfer ffordd; dylent ymwneud ag unrhyw system drafnidiaeth integredig a fydd yn cael effaith fawr.

Felly, rwy'n croesawu cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ddoe, ac yn credu y dylem drin yr ystyriaeth newydd yn y cyd-destun a ddisgrifiais.

I want to focus my comments on environmental issues. We know, of course, that the Gwent levels are a site of special scientific interest—SSSI. I knew about the lapwings, the water voles, the carder bees, the brown hares and the otters, and I learnt the other day that you can find one of the smallest flowers in the world on the Gwent levels, along with one of the largest species in the world of beetles. There you are, you have learnt something else today, I am sure. It is also an archaeological site of great interest, of course, with people having inhabited it for 7,000 years. You can find the footprints of Mesolithic children in the estuary mud, it is said, between high and low tide.

This is not going to be an unrestricted, idealistic environmental speech, but I say this just to remind the Government that it is a Government that is committed to stopping the decline of biodiversity in Wales, and to maintaining robust ecosystems. It is also a Government that is committed to reducing greenhouse gas emissions, as we heard in the last debate, by 40% by 2020. This is also a Government that is in the process of setting sustainable development as a central organising principle for all of its activities.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

'Nawr, nid yw datblygu cynaliadwy yn rhywbeth haniaethol. Bydd gwrthdrawiad rhwng y gwahanol nodau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol ar adegau, ond yr eironi fan hyn, wrth gwrs, yw bod opsiwn amgen a fyddai yn caniatáu i'r Llywodraeth i daro gwell cydbwysedd rhwng y gwahanol elfennau hynny.

The Minister, of course, has clarified that the process from here on would include an environmental impact study, which I welcome, although any scheme of this nature would require such a study. We should hope, of course, that the Government's impact study follows a different logic to the process it used when it ran a limited number of M4 options through WelTAG. WelTAG, of course, is a set of Welsh transport environmental, social and economic criteria by which schemes can be measured. When the black route and also the now rejected red and purple routes were put through WelTAG, some of the results were surprising and, I have to say, showed an unusual interpretation of environmental factors. For example, the environmental impact of the black route on emissions was considered positive. The argument made by planners was that faster flowing traffic generated fewer emissions. Well, this, of course, is totally absurd when you consider the evidence that greater road capacity encourages more people to drive. I therefore want to see assurances that the environmental impact study for the Government's preferred route is done on a more rational basis and on a basis that conforms to the sustainable development principles that Labour Ministers have said that they want to uphold. I also urge you, Minister, to ensure that a similar study is undertaken for the blue route as well.

The case letter from Friends of the Earth Cymru, which is supported by other environmental organisations, is a matter of public record, of course. As it has been difficult to scrutinise the Minister in the Chamber, I welcome the letter and the points that it raises. Within the letter, there are multiple grounds for objection, not only to the specific route preferred by the Government, but to the process by which the decision was made. Some of those points were also picked up in committee, of course, and Members will be familiar with the points that were made on the traffic forecasting levels being inaccurate and a lack of alternative options being considered.

The Government has always maintained that it was aware of the possibility of a legal challenge and judicial review. Well, Plaid Cymru has also recognised that this was always likely. That is why we said that the black route did not represent a quick and decisive option. Thanks to the clarification—if I can call it that—from the Minister, we now know that construction should not be expected until at least 2016. The outcome of the current judicial review may even cast further doubt on the future of that effort.

Now, sustainable development is not an abstract concept. There will be some conflict between the different environmental, economic or social aims at times, but the irony here, of course, is that there is an alternative option that would allow the Government to strike a better balance between all of those different elements.

Mae'r Gweinidog, wrth gwrs, wedi egluro y byddai'r broses o hyn ymlaen yn cynnwys astudiaeth o'r effaith amgylcheddol, a chroesawaf hynny, er y byddai angen astudiaeth o'r fath ar gyfer unrhyw gynllun tebyg. Dylem obeithio, wrth gwrs, fod astudiaeth effaith y Llywodraeth yn dilyn rhesymeg wahanol i'r broses a ddefnyddiodd wrth fesur nifer cyfyngedig o opsiynau ar gyfer yr M4 drwy Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru. Mae Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru, wrth gwrs, yn set o feini prawf amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd trafniadaeth Cymru y gellir eu defnyddio i fesur cynlluniau. Pan ddefnyddiwyd Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru i ystyried y llwybr du a hefyd y llwybrau coch a phorffor a wrthodwyd, roedd rhai o'r canlyniadau yn annisgwyl ac, mae'n rhaid imi ddweud, yn dangos dehongliad anarferol o ffactorau amgylcheddol. Er enghraifft, ystyriwyd effaith amgylcheddol y llwybr du ar allyriadau yn gadarnhaol. Dadl y cynllunwyr oedd bod traffig sy'n llifo'n gyflymach yn cynhyrchu llai o allyriadau. Wel, mae hyn, wrth gwrs, yn gwbl hurt o ystyried y dystiolaeth bod mwy o gapasiti ar y ffyrdd yn annog mwy o bobl i yrru. Felly, rwyf am weld sicrwydd bod yr astudiaeth o effaith ar yr amgylchedd ar gyfer llwybr dewisol y Llywodraeth yn cael ei chwblhau ar sail fwy rhesymegol ac ar sail sy'n cydymffurfio ag egwyddorion datblygu cynaliadwy y mae Gweinidogion Llafur yn awyddus i'w cynnal meddent hwy. Rwyf hefyd yn eich annog, Weinidog, i sicrhau bod astudiaeth debyg yn cael ei chynnal ar gyfer y llwybr glas.

Mae'r llythyr achos gan Gyfeillion y Ddaear Cymru, a gefnogir gan sefydliadau amgylcheddol eraill, yn fater o gofnod cyhoeddus, wrth gwrs. Gan y bu'n anodd craffu ar y Gweinidog yn y Siambr, rwy'n croesawu'r llythyr a'r pwyntiau y mae'n eu codi. Mae'r llythyr yn cynnwys seiliau lluosog dros wrthwynebu, nid yn unig y llwybr penodol a ffefrir gan y Llywodraeth, ond y broses o wneud y penderfyniad. Codwyd rhai o'r pwyntiau hynny yn y pwyllgor hefyd, wrth gwrs, a bydd yr Aelodau'n gyfarwydd â'r pwyntiau a wnaed ynglŷn â'r ffaith fod y lefelau traffig a gafodd eu rhagweld yn anghywir a'r diffyg o ran ystyried dewisiadau eraill.

Mae'r Llywodraeth wedi dweud o'r cychwyn ei bod yn ymwybodol o'r posibilrwydd o her gyfreithiol ac adolygiad barnwrol. Wel, mae Plaid Cymru hefyd wedi nodi bod hynny wastad yn debygol. Dyna pam y gwnaethom ddweud nad oedd y llwybr du yn opsiwn cyflym a phendant. Diolch i'r eglurhad—os gallaf ei alw'n eglurhad—gan y Gweinidog, rydym bellach yn gwybod na ddylid disgwyl i'r gwaith adeiladu gychwyn tan o leiaf 2016. Gallai canlyniad yr adolygiad barnwrol presennol fwrw rhagor o amheuaeth hyd yn oed dros ddyfodol yr ymdrech honno.

It is fair to say that Plaid Cymru has consistently been opposed to building on the Gwent levels and we have also had the affordability issue at the forefront of our minds, including, of course, during the One Wales Government. However, ultimately, the way that the draft plan was adopted was a very counter-productive way of making a decision. The tying of Welsh Government borrowing powers to a specific project, which was designed so that two Governments could share credit for the scheme, made the issue even more difficult to scrutinise and also caused distrust. The Government has given the impression, I have to say, that it is avoiding opposition scrutiny and committee scrutiny as well. So, the challenge now is to arrive at a sustainable solution that deals with the real problem of M4 congestion around Newport, but without, of course, the huge, huge environmental damage in prospect from the current proposal.

Mae'n deg dweud bod Plaid Cymru wedi gwrthwynebu adeiladu ar wastadeddau Gwent yn gyson ac rydym hefyd wedi rhoi sylw mawr i'r mater o fforddiadwyedd, gan gynnwys, wrth gwrs, yn ystod Llywodraeth Cymru'n Un. Fodd bynnag, yn y pen draw, roedd y ffordd y cafodd y cynllun drafft ei fabwysiadu yn ffordd wrthgynhyrchiol iawn o wneud penderfyniad. Roedd y broses o glymu pŵerau benthyca Llywodraeth Cymru wrth brosiect penodol, a gynlluniwyd er mwyn i ddwy Lywodraeth rannu'r clod am y cynllun, yn golygu ei bod hyd yn oed yn anos craffu ar y mater, gan achosi diffyg ymddiriedaeth hefyd. Mae'r Llywodraeth wedi rhoi'r argraff, mae'n rhaid i mi ddweud, ei bod yn osgoi craffu gan y gwrthbleidiau a chraffu gan y pwyllgor hefyd. Felly, yr her yn awr yw canfod ateb cynaliadwy sy'n mynd i'r afael â'r broblem wirioneddol o dagfeydd ar yr M4 yn ardal Casnewydd, ond heb, wrth gwrs, y difrod amgylcheddol enfawr a allai ddeillio o'r cynnig presennol.

16:59

## Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very pleased to have the opportunity to speak in this debate. I am a member of the Environment and Sustainability Committee, which scrutinised this proposal. I think that it is very regrettable that the Government's preferred option was chosen before there was an opportunity for the report from the Environment and Sustainability Committee to be considered. I do not think that this was the way that this process should have happened, and it certainly was not in the spirit of openness. Certainly, there was virtually no support for the black route from the witnesses that we saw in the committee, and the opposition included the Federation of Small Businesses as well as environmental groups. We have heard today about the value of the wetlands and how important they are.

However, I welcome very much the agreement between the Government and the Liberal Democrats, and, as a consequence, I will be supporting the Government's amendment. The Government, as I understand it, has now said that it will have an open mind and will consider the position after any public inquiry, after the detailed environmental impact study that has been mentioned here today, and that it is likely that a Minister in 2016 or 2017 will make the decision. I am also very pleased that the Government has recognised the many objections and worries about the plan. I believe that there are cheaper alternatives—and certainly less environmentally damaging alternatives—that could be considered, one such being the blue route, which my constituent Professor Stuart Cole has worked very hard on and I think certainly should be seriously considered. It is very ironic, I think, that we are debating in the Environment and Sustainability Committee the Well-being of Future Generations (Wales) Bill, which is looking at the long-term effects of all of the decisions that we make on our children and our grandchildren. I think that the decision on the Government's preferred option is not in line with the principles behind that Bill.

Rwy'n falch iawn o gael y cyfle i siarad yn y ddadl hon. Rwy'n aelod o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd a graffodd ar y cynnig hwn. Credaf ei bod yn anffodus iawn bod yr opsiwn a ffafriodd y Llywodraeth wedi'i ddewis cyn bod cyfle i ystyried adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Nid wyf yn credu mai dyma'r broses gywir yn yr achos hwn, ac yn sicr nid oedd y broses yn un agored. Yn ddiau, nid oedd fawr ddim cefnogaeth ar gyfer y llwybr du gan y tystion a welsom yn y pwyllgor, ac roedd y gwrthwynebwyr yn cynnwys y Ffederasiwn Busnesau Bach yn ogystal â grwpiau amgylcheddol. Rydym wedi clywed heddiw am werth y gwlyptiroedd a pha mor bwysig ydynt.

Fodd bynnag, rwy'n croesawu'n fawr y cytundeb rhwng y Llywodraeth a'r Democratiaid Rhyddfrydol, ac, o ganlyniad, byddaf yn cefnogi gwelliant y Llywodraeth. Mae'r Llywodraeth, yn ôl a ddeallaf, wedi dweud yn awr y bydd ganddi feddwl agored ac y bydd yn ystyried y sefyllfa ar ôl unrhyw ymchwiliad cyhoeddus, ar ôl yr astudiaeth fanwl o'r effaith amgylcheddol sydd wedi'i chrybwyll yma heddiw, a'i bod yn debygol y bydd Gweinidog yn gwneud y penderfyniad yn 2016 neu 2017. Rwyf hefyd yn falch iawn bod y Llywodraeth wedi cydnabod yr holl wrthwynebiadau a phryderon yn ymwneud â'r cynllun. Rwy'n credu bod modd ystyried dewisiadau rhatach—ac yn sicr dewisiadau sy'n llai niweidiol i'r amgylchedd—ac un o'r rhain yw'r llwybr glas, y mae fy etholwr yr Athro Stuart Cole wedi gweithio'n galed iawn arno ac sy'n haeddu ystyriaeth ddifrifol yn fy marn i. Mae'n eironig iawn, rwy'n credu, ein bod yn trafod Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, sef Bil sy'n edrych ar effeithiau hirdymor pob un o'r penderfyniadau a wnawn ar ein plant a'n hwyryon. Nid yw'n credu bod y penderfyniad ar opsiwn dewisol y Llywodraeth yn cyd-fynd â'r egwyddorion sy'n sylfaen i'r Bil hwnnw.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I think that we also need some more clarification about the money—about the £500 million. I wonder whether the Minister could tell us how much of that is being committed to other projects and how much would be going on the new M4. Also, other Members have mentioned the importance of the metro. Certainly, I know that the Government is supporting the metro and, I think, again as part of the deal with the Liberal Democrats, has agreed to develop part of the railway line as part of the metro. However, has it taken into consideration the effect of the electrification of the Valleys lines, the metro, the electrification of the main lines, and the effect that that will have on the numbers using the M4? Of course, we had a debate in the committee as well about whether the increase in traffic was actually stalled, and whether there was a level playing field regarding the numbers of cars on the road. I think the basis of anything that we plan to do with traffic should be to move to a more integrated form of traffic and greater use of public transport, and that we should be guarding the environment for the future. So, I think that we need those issues to be taken into consideration when the final decision is made on what we do on the M4.

Credaf fod angen i ni gael mwy o eglurhad hefyd ynglŷn â'r arian—y £500 miliwn. Tybed a allai'r Gweinidog ddweud wrthym faint o'r arian hwnnw sy'n cael ei ymrwymo i brosiectau eraill a faint ohono a fyddai'n cael ei wario ar yr M4 newydd. Hefyd, mae Aelodau eraill wedi crybwyll pwysigrwydd y metro. Yn sicr, rwy'n gwybod bod y Llywodraeth yn cefnogi'r metro ac, rwy'n meddwl, unwaith eto fel rhan o'r cytundeb â'r Democratiaid Rhyddfrydol, ei bod wedi cytuno i ddatblygu rhan o'r rheilffordd fel rhan o'r metro. Fodd bynnag, a yw wedi ystyried effaith trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd, y metro, trydaneiddio'r prif linellau, a'r effaith a gaiff hynny ar y niferoedd sy'n defnyddio'r M4? Wrth gwrs, cawsom ddadl yn y pwyllgor hefyd ynglŷn ag a oedd y cynnydd yn y traffig wedi arafu mewn gwirionedd, ac a oedd chwaraeg eto o safbwynt nifer y ceir ar y ffordd. Rwy'n credu mai symud tuag at ffurf fwy integredig o draffig a mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus a ddylai fod yn sylfaen i unrhyw beth y bwriadwn ei wneud o safbwynt traffig, ac y dylem fod yn gwarchod yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol. Felly, credaf fod angen sicrhau bod y materion hyn yn cael eu hystyried wrth wneud y penderfyniad terfynol ar yr hyn rydym am yn ei wneud ar yr M4.

17:03

### **William Graham** [Bywgraffiad Biography](#)

Members will know of my long-term support for the M4 relief road, and I welcome the further debate this afternoon. I am interested, once again, to speak about the blue route, and I am pleased for some clarification on that. I took the opportunity to drive along it on Monday afternoon. As Members will know, over the eight miles, there are 14 roundabouts and 12 sets of traffic lights. That would mean 26 interventions to prevent either traffic lights or roundabouts. Also, there is a large hydrogen plant between Newport Galvanizers Ltd and the Tata Steel zodiac plant. Health and safety requirements will not allow an increased road anywhere near a hydrogen plant. That means another cost for removal. Also, one of the more interesting features, of course, is that the road itself does not belong to the Welsh Government. It is like the A55 in north Wales. So, it would have to be acquired, which would increase the cost yet again. The report that was made said that the solution was possibly only of 10 years, whereas, to be fair, the WelTAG one is based on a 60-year projection. Already, we know that the traffic volume exceeds that of 2007. So, already, traffic is increasing on an overburdened motorway. We have heard also of the way in which the road is going to be funded. It is clearly to be welcomed that the Treasury will allow some £500 million towards the cost of providing the black route—which is largely the purple route of years ago—and that could well be reduced in cost if the height of the bridge is reduced to a more manageable level, bearing in mind that all the wharves north of the southern distributor road have long been acquired by Newport City Council and are no longer in use.

Bydd yr Aelodau'n gwybod am fy nghefnogaeth hirdymor i ffordd liniaru'r M4, ac rwy'n croesawu'r ddadl y prynhawn yma. Mae gen i ddiddordeb, unwaith eto, mewn siarad am y llwybr glas, ac rwy'n falch o gael rhywfaint o eglurhad am hynny. Manteisiais ar y cyfle i yrru ar ei hyd brynawn dydd Llun. Fel y gwyr yr Aelodau, dros yr wyth milltir, mae cyfanswm o 14 o gylchfannau a 12 set o oleuadau traffig. Byddai hynny'n golygu 26 o ymyriadau i atal naill ai oleuadau traffig neu gylchfannau. Hefyd, mae ffatri hydrogen fawr rhwng Newport Galvanizers Ltd a ffatri zodiac Tata Steel. Ni fydd y gofynion iechyd a diogelwch yn caniatáu mwy o ffordd yn unrhyw le sy'n agos at ffatri hydrogen. Mae hynny'n golygu cost arall ar gyfer dileu. Hefyd, un o'r nodweddion mwy diddorol, wrth gwrs, yw'r ffaith nad yw'r ffordd ei hun yn perthyn i Lywodraeth Cymru. Mae'n debyg i'r A55 yng ngogledd Cymru. Felly, byddai'n rhaid caffael y ffordd, gan gynyddu'r gost unwaith eto. Dywedodd yr adroddiad a gwblhawyd y byddai'r ateb yn para 10 mlynedd yn unig o bosibl, ond, a bod yn deg, mae adroddiad Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru yn seiliedig ar ragamcan o 60 mlynedd. Eisoedd, rydym yn gwybod bod lefel y traffig yn fwy na'r lefel yn 2007. Felly, mae lefel y traffig eisoedd yn cynyddu ar draffordd sydd wedi'i gorlwytho. Rydym wedi clywed hefyd am sut y caiff y ffordd ei hariannu. Mae'n amlwg bod angen croesawu'r ffaith y bydd y Trysorlys yn caniatáu tua £500 miliwn tuag at y gost o ddarparu'r llwybr du—sef y llwybr porffor o flynyddoedd yn ôl yn bennaf—ac y gallai'r gost leihau mewn gwirionedd os caiff uchder y bont ei leihau i lefel sy'n haws ei drin, gan gofio bod yr holl lanfeydd i'r gogledd o'r ffordd ddosbarthu ddeheuol wedi'u hen gaffael gan Gyngor Dinas Casnewydd ac nad ydynt bellach yn cael eu defnyddio.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

In terms of expansion for other areas, more recently published figures are really quite dramatic on that. In mid Wales, the expenditure has been £122 million, in west Wales, £163 million, and, in north Wales, £492 million since 2011. The south-east Wales projection within the same period is £1.394 billion, but you take out of that a projected £810 million for the M4 relief road, and £48 million for the eastern bay extension, both of which, in my view, are very necessary improvements to our road structure in Wales.

The legal challenge from Friends of the Earth was to be expected, and I am sure that that would be the case in terms of the blue route. After all, we know that this is the way in which it funds its cause.

Again, looking to the future, for 25 years Newport has suffered dramatically and so has the economy of south-east Wales. This is an opportunity to put it right. It is not necessarily the most advantageous solution. Sadly, there are always sacrifices to be made. If you look at the route, it runs very broadly along the line of pylons between junction 23 and Queensway Meadows. So, many of the environmental considerations in terms of species loss are magnified probably beyond true expectation. Certainly, one welcomes further debate on this and further evidence to be explored, but I would be interested to see here how the possibility of the blue route could exceed that of the black route.

In terms of public policy, this is a real opportunity to increase the economy of south-east Wales—something, surely, that this Assembly should be wholly devoted to.

O safbwynt ehangu ar gyfer ardaloedd eraill, mae'r ffigurau a gyhoeddwyd yn fwy diweddar yn eithaf dramatig yn y cyswllt hwn. Gwariwyd £122 miliwn yn y Canolbarth, £163 miliwn yng ngorllewin Cymru a £492 miliwn yng ngogledd Cymru ers 2011. Yr amcanestyniad ar gyfer yr un cyfnod yn ne-ddwyrain Cymru yw £1.394 biliwn, ond o hynny mae'n rhaid tynnu amcanestyniad o £810 miliwn ar gyfer ffordd liniaru'r M4, a £48 miliwn ar gyfer estyniad dwyreiniol y bae, ac mae'r ddau ohonynt, yn fy marn i, yn welliannau angenrheidiol iawn i'n strwythur y ffyrdd yng Nghymru.

Roedd yr her gyfreithiol gan Gyfeillion y Ddaear i'w ddisgwyl, ac rwy'n siŵr y byddai'r un peth wedi digwydd gyda'r llwybr glas. Wedi'r cyfan, rydym yn gwybod mai fel hyn y maen nhw'n ariannu eu hachos.

Unwaith eto, gan edrych tua'r dyfodol, mae Casnewydd ac economi de-ddwyrain Cymru wedi dioddef yn sylweddol ers 25 mlynedd. Mae hwn yn gyfle i unioni pethau. Nid hwn yw'r ateb mwyaf manteisiol o reidrydd. Yn anffodus, mae'n rhaid aberthu rhywbeth bob amser. Os edrychwch ar y llwybr, mae'n rhedeg yn fras iawn ar hyd y llinell o beilonau rhwng cyffordd 23 a Queensway Meadows. Felly, mae llawer o'r ystyriaethau amgylcheddol o safbwynt colli rhywogaethau yn cael eu chwyddo yn ôl pob tebyg y tu hwnt i'r disgwyliad gwirioneddol. Yn sicr, mae rhywun yn croesawu trafodaeth bellach ar hyn a'r angen i archwilio rhagor o dystiolaeth, ond byddai gennyf ddiddordeb mewn gweld yma sut y gallai posibilrwydd y llwybr glas ragor ar bosibilrwydd y llwybr du.

O safbwynt polisi cyhoeddus, mae hwn yn gyfle gwirioneddol i gynyddu economi de-ddwyrain Cymru—rhywbeth, yn sicr, y dylai'r Cynulliad hwn ganolbwyntio arno o ddifrif.

17:07

**Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Edwina Hart.

I call on the Minister for the Economy, Science and Transport, Edwina Hart.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:07

**Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

Thank you very much, acting Presiding Officer. First, I would like to address the amendments that have been tabled for this debate. I will not be supporting amendment 1, tabled by Paul Davies. While I think that we are all in agreement that we need to take action to address congestion issues on the M4 around Newport, I cannot accept the other points in this amendment. Careful and thorough consideration was given to a number of options, including the suggested blue route, and all the environmental impacts required at this stage were undertaken before a decision was made on the plan. All of this information is in the public domain, and has been published on the M4 Newport website.

Diolch yn fawr iawn, Lywydd gweithredol. Yn gyntaf, hoffwn fynd i'r afael â'r gwelliannau sydd wedi'u cyflwyno ar gyfer y ddadl hon. Ni fyddaf yn cefnogi gwelliant 1, a gyflwynwyd gan Paul Davies. Er fy mod yn credu ein bod i gyd yn cytuno bod angen inni weithredu i fynd i'r afael â phroblemau tagfeydd ar yr M4 yn ardal Casnewydd, ni allaf dderbyn y pwyntiau eraill yn y gwelliant hwn. Rhoddwyd ystyriaeth ofalus a thrylwyr i nifer o opsiynau, gan gynnwys y llwybr glas a awgrymir, a chynhaliwyd yr holl astudiaethau o'r effeithiau amgylcheddol yr oedd angen eu cynnal yn ystod y cam hwn cyn i benderfyniad gael ei wneud ar y cynllun. Mae'r holl wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd, ac mae wedi'i chyhoeddi ar wefan yr M4 Casnewydd.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



A number of concerns have been raised in relation to the Welsh Government's position on borrowing powers. As was announced yesterday, the Welsh Government has made a decision to use some of its borrowing powers to build an M4 relief road around Newport, and a preferred route has been identified. However, we recognise the objections and concerns about aspects of the plan. The announcement confirmed that borrowing powers will also be used to fund infrastructure investment in north, mid and west Wales. We need to be clear that, without the M4 proposal, we would not be in a position to borrow, and we will not be allocating the full borrowing capacity to this scheme, important though it is. It is for this reason that the Government has tabled amendment 2.

On amendment 3, tabled by Aled Roberts—

17:08 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Will you take an intervention?

17:08 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
No. We recognise the importance of investment in public transport and actions to encourage modal shift away from car use. These measures are already priorities in the Wales transport strategy and the national transport plan. I am therefore happy to accept this amendment. For example, yesterday, we confirmed our commitment to progress with detailed planning on the establishment of the south Wales metro system to enhance public transport across the region.

On amendment 4, assessment of the suggested blue route found that it would not achieve the objectives of the M4 around Newport. Therefore, I will not be supporting this amendment.

Mae nifer o bryderon wedi'u mynegi ynglŷn â safbwynt Llywodraeth Cymru ar bwerau benthyca. Fel y cyhoeddwyd ddoe, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud penderfyniad i ddefnyddio rhai o'i phwerau benthyca i adeiladu ffordd liniaru i'r M4 yn ardal Casnewydd, ac mae llwybr a ffeirir wedi'i nodi. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gwrthwynebiadau a'r pryderon ynglŷn ag agweddau ar y cynllun. Cadarnhaodd y cyhoeddiad y bydd pwerau benthyca hefyd yn cael eu defnyddio i ariannu buddsoddiad yn seilwaith gogledd, canolbarth a gorllewin Cymru. Mae angen inni nodi'n glir, heb gynnig yr M4, na fyddem mewn sefyllfa i fenthyc, ac na fyddwn ni'n neilltuo'r capasiti benthyca llawn i'r cynllun hwn, er mor bwysig ydyw. Am y rheswm hwn mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno gwelliant 2.

O ran gwelliant 3, a gyflwynwyd gan Aled Roberts—

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Na wna. Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw buddsoddi mewn trafniadaeth gyhoeddus a chamau gweithredu i annog newid moddol oddi wrth ddefnyddio ceir. Mae'r mesurau hyn eisoes yn flaenoriaethau yn strategaeth drafnidiaeth Cymru a'r cynllun trafniadaeth cenedlaethol. Rwyf felly'n hapus i dderbyn y gwelliant hwn. Er enghraifft, ddoe, gwnaethom gadarnhau ein hymrwymiad i fwrw ymlaen â gwaith cynllunio manwl ar sefydlu system metro'r De er mwyn gwella trafniadaeth gyhoeddus ledled y rhanbarth.

O ran gwelliant 4, dangosodd asesiad o'r llwybr glas a awgrymwyd na fyddai'n cyflawni amcanion yr M4 yn ardal Casnewydd. Felly, ni fyddaf yn cefnogi'r gwelliant hwn.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)



To ensure that all options were considered, variations of the blue route were also explored, but even the most attractive version, adding free-flowing connections to the M4, provides little relief to the motorway and results in continuing congestion. Our analysis shows that the blue route would have cost between £600 million and £800 million, depending on the inclusion of free-flow M4 connections. At these costs, the returns on investment would be very low, with costs being greater than the benefits achieved. The blue route would be subject to the same statutory process as the plan, requiring land acquisition and the demolition of a large number of residential, commercial and industrial properties. It could be subject to challenges similar to those to the current proposals and could not be delivered any sooner. Furthermore, the blue route would utilise the so-called southern distributor road, which was, of course, built under a PFI contract, as William Graham alluded to, and any changes would require modifications to the contract and potentially increased costs. In addition to failing to significantly reduce noise and air-quality issues on the existing M4, the blue route would exacerbate such issues for residents along the route of the southern distributor road and steelworks access road due to the inefficient linking of local and strategic traffic—John Griffiths alluded to the difficulties faced by residents in that area. Matters would be further complicated by the likely objection from the Health and Safety Executive under the control of major accident hazards regulations in relation to the hydrogen installation in the vicinity.

This is a significant and complex project that is likely to be subject to a high level of interest and scrutiny. To that end, as announced yesterday, we have agreed to commission a detailed environmental impact study on the preferred route before any detailed design work begins. This will be considered very carefully before the Welsh Government makes a decision on how to proceed. In addition, given the level of interest and the range of views being expressed, I anticipate that there will be a public local inquiry into the proposals in 2016. At that time, more detailed information will be available on the scheme design, cost and environmental assessments. An independent inspector would hear a range of both oral and written evidence before reporting to the Welsh Government with their findings and final recommendations.

*Daeth y Llywydd i'r Gadair am 17:11.*

Er mwyn sicrhau bod yr holl opsiynau yn cael eu hystyried, archwiliwyd i amrywiadau o'r llwybr glas hefyd, ond nid yw'r fersiwn mwyaf deniadol hyd yn oed, sy'n ychwanegu cysylltiadau at yr M4 lle mae'r traffig yn llifo'n rhwydd, yn cynnig fawr o ryddhad i'r draffordd ac mae'n arwain at dagfeydd parhaus. Mae ein dadansoddiad yn dangos y byddai'r llwybr glas wedi costio rhwng £600 miliwn a £800 miliwn, gan ddibynnu ar gynnwys cysylltiadau â'r M4 lle mae'r traffig yn llifo'n rhwydd. Gyda'r costau hyn, byddai'r elw ar fuddsoddiad yn isel iawn, gyda'r costau yn fwy na'r manteision. Byddai'r llwybr glas yn destun yr un broses statudol â'r cynllun, gan ofyn am gaffael tir a dymchwel nifer fawr o eiddo preswyl, masnachol a diwydiannol. Gallai fod yn destun heriau tebyg i'r rhai sy'n ymwneud â'r cynigion cyfredol ac ni fyddai modd ei gwblhau'n gynt. Ar ben hynny, byddai'r llwybr glas yn defnyddio'r ffordd ddsbarthu ddeheuol fel y'i gelwir, a adeiladwyd, wrth gwrs, o dan gontract PFI, fel y nododd William Graham, a byddai unrhyw newidiadau yn gofyn am addasiadau i'r contract a chostau cynyddol o bosibl. Yn ogystal â methu â lleihau'n sylweddol problemau swm ac ansawdd aer ar yr M4 bresennol, byddai'r llwybr glas yn gwaethygu materion o'r fath i drigolion ar hyd llwybr y ffordd ddsbarthu ddeheuol a'r ffordd fynediad i'r gwaith dur oherwydd cysylltu aneffeithlon traffig lleol a strategol—cyfeiriodd John Griffiths at yr anawsterau a wynebier gan drigolion yn yr ardal honno. Byddai materion yn cael eu cymhlethu ymhellach gan y gwrthwynebiad tebygol gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o dan reoliadau rheoli peryglon yn sgil damweiniau mawr mewn perthynas â'r gosodiad hydrogen yn y cyffiniau.

Mae hwn yn brosiect sylweddol a chymhleth sy'n debygol o fod yn destun lefel uchel o ddiddordeb a chraffu. I'r perwyl hwnnw, fel y cyhoeddwyd ddoe, rydym wedi cytuno i gomisiynu astudiaeth effaith amgylcheddol manwl ar y llwybr a ffeirir cyn i unrhyw waith dylunio manwl ddechrau. Bydd hyn yn cael ei ystyried yn ofalus iawn cyn i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniad ar sut i symud ymlaen. Yn ogystal, o ystyried lefel y diddordeb a'r amrywiaeth o safbwyntiau sy'n cael eu mynegi, rwy'n rhagweld y bydd ymchwiliad lleol cyhoeddus i'r cynigion yn 2016. Bryd hynny, bydd gwybodaeth fanylach ar gael am ddyluniad y cynllun, y gost a'r asesiadau amgylcheddol. Byddai arolygydd annibynnol yn clywed amrywiaeth o dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig cyn hysbysu Llywodraeth Cymru am ei ganfyddiadau a'i argymhellion terfynol.

*The Presiding Officer took the Chair at 17:11.*

17:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Rhun ap Iorwerth to reply to the debate.

Galwaf ar Rhun ap Iorwerth i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:11 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y drafodaeth heddiw.

I thank everybody who has taken part in the debate today.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I think, whatever the result of the vote at the end of the day, the record will speak for itself in that only one Member in the Chamber spoke in support of the Government's position. Any good Minister clearly has to be willing to make sometimes unpopular decisions and stick with those decisions because they believe those decisions to be right. This Minister is not known for being particularly thin-skinned, and I am sure that you will be able to shake off whatever criticisms have been levelled at you in the Chamber today and move on, Minister. However, good Ministers are also willing to listen and to respond, and the clear message here today is that there is a belief here that it was the wrong decision that was made back in July.

I appreciate your addressing many of the points raised during the debate this afternoon. I will not respond to them all now, because, in a way, that is what we are asking for: an in-depth investigation into the alternatives to the black route. It will not be resolved here in a few minutes of the conclusion of this debate.

On the borrowing powers, you said, Minister, that it would not have been possible to borrow without the M4, but that is only because the First Minister gave in to UK Government demands on that. It is totally unacceptable in principle that new powers of borrowing, which it is widely accepted Wales needs, should be put in a straightjacket from day one by the Government here agreeing to UK Government demands regarding what they should be spent on.

Ymatebaf i ambell sylw sydd wedi cael ei wneud yn barod. Byron Davies, o ran eich sylwadau chi ynglŷn â'r gohirio a'r oedi yn awr, rwy'n cytuno nad rhoi'r llwybr du 'on hold' sydd angen ei wneud ond symud ymlaen efo'r gwaith o edrych ar gynlluniau amgen. 'Roads do not exist in a vacuum', meddai Eluned Parrott, a gobeithiaf fy mod wedi ei wneud yn glir fy mod mor eiddgar â hithau i weld buddsoddiad mewn trafndiaeth gyhoeddus hefyd, ar y cyd â datblygiadau ffyrdd.

Bu i mi grybwyll cryfder y teimladau o feinciau cefn Llafur ac, unwaith eto heddiw, rydym wedi clywed sylwadau cryfion iawn. Rwy'n ddiolchgar yn benodol i Alun Davies am y sylwadau a wnaeth o ran ein cefnogi ni yn ein gwrthwynebiad ni ar lafar, er y buaswn yn apelio iddo ddangos y gwrthwynebiad hwnnw i weithredoedd y Llywodraeth yn y ffordd y mae'n pleidleisio hefyd y prynhawn yma.

Mae'r Llywodraeth wedi dangos ei bod yn camu yn ôl rhywfaint o'r datganiad hwnnw ym mis Gorffennaf. Ar ôl dweud bryd hynny bod y penderfyniad wedi ei wneud, mae'n awr yn dweud mai'r Llywodraeth nesaf a fydd yn penderfynu mewn gwirionedd. Rwy'n croesawu hynny.

Fodd bynnag, gadewch i ni heddiw bwysleisio cryfder y teimladau yn y Siambr a ledled Cymru. Mae cynifer o gwestiynau sydd heb eu hateb am y llwybr du fel bod yn rhaid pwylllo. Mae opsiwn arall a byddai'n anghyfrifol peidio â rhoi ystyriaeth lawn iddo.

Rwy'n meddwl, beth bynnag fydd canlyniad y bleidlais ar ddiwedd y dydd, y bydd y cofnod yn siarad drosto'i hunan oherwydd mai dim ond un Aelod yn y Siambr sydd wedi siarad o blaid safbwynt y Llywodraeth. Mae'n amlwg bod yn rhaid i unrhyw Weinidog da fod yn barod i wneud penderfyniadau sydd weithiau'n amhoblogaidd a chadw at y penderfyniadau hynny oherwydd ei fod yn credu bod y penderfyniadau hynny'n gywir. Nid yw'r Gweinidog yn adnabyddus am fod yn arbennig o groenddenau, ac rwy'n siŵr y byddwch yn gallu dod dros ba feirniadaethau bynnag rydych wedi'u hwynebu yn y Siambr heddiw ac yna symud ymlaen, Weinidog. Fodd bynnag, mae Gweinidogion da hefyd yn barod i wrando ac ymateb, a'r neges glir yma heddiw yw bod cred yma bod y penderfyniad anghywir wedi'i wneud yn ôl ym mis Gorffennaf.

Rwy'n gwerthfawrogi eich bod wedi mynd i'r afael â nifer o'r pwyntiau a godwyd yn ystod y ddadl y prynhawn yma. Ni fyddaf yn ymateb i bob un ohonynt yn awr, oherwydd, mewn ffordd, dyna rydym yn gofyn amdano: ymchwiliad manwl i'r dewisiadau amgen i'r llwybr du. Ni fydd yn cael ei ddatrys yma mewn ychydig funudau i ddiwedd y ddadl hon.

O safbwynt y pwerau benthyca, dywedaso, Weinidog, na fyddai wedi bod yn bosibl benthyca heb yr M4, ond yr unig reswm am hynny yw bod y Prif Weinidog wedi ildio i ofynion Llywodraeth y DU ar hynny. Mae'n gwbl annerbyniol mewn egwyddor y dylai pwerau benthyca newydd, y mae eu hangen ar Gymru yn ôl y farn gyffredinol, gael eu cyfyngu o'r diwrnod cyntaf ar ôl i'r Llywodraeth yma gytuno i ofynion Llywodraeth y DU ynglŷn â'r hyn y dylid gwario'r arian arno.

Ymatebaf i ambell sylw sydd wedi cael ei wneud yn barod. Byron Davies, o ran eich sylwadau chi ynglŷn â'r gohirio a'r oedi yn awr, rwy'n cytuno nad rhoi'r llwybr du 'on hold' sydd angen ei wneud ond symud ymlaen â'r gwaith o edrych ar gynlluniau amgen. 'Roads do not exist in a vacuum', meddai Eluned Parrott, a gobeithiaf fy mod wedi ei gwneud yn glir fy mod mor eiddgar â hithau i weld buddsoddiad mewn trafndiaeth gyhoeddus hefyd, ar y cyd â datblygiadau ffyrdd.

Bu i mi grybwyll cryfder y teimladau o feinciau cefn Llafur ac, unwaith eto heddiw, rydym wedi clywed sylwadau cryfion iawn. Rwy'n ddiolchgar yn benodol i Alun Davies am y sylwadau a wnaeth o ran ein cefnogi ni yn ein gwrthwynebiad ni ar lafar, er y buaswn yn apelio iddo ddangos y gwrthwynebiad hwnnw i weithredoedd y Llywodraeth yn y ffordd y mae'n pleidleisio hefyd y prynhawn yma.

Mae'r Llywodraeth wedi dangos ei bod yn camu yn ôl rhywfaint o'r datganiad hwnnw ym mis Gorffennaf. Ar ôl dweud bryd hynny bod y penderfyniad wedi ei wneud, mae'n awr yn dweud mai'r Llywodraeth nesaf a fydd yn penderfynu mewn gwirionedd. Rwy'n croesawu hynny.

Fodd bynnag, gadewch i ni heddiw bwysleisio cryfder y teimladau yn y Siambr a ledled Cymru. Mae cynifer o gwestiynau sydd heb eu hateb am y llwybr du fel bod yn rhaid pwylllo. Mae opsiwn arall a byddai'n anghyfrifol peidio â rhoi ystyriaeth lawn iddo.

As I said earlier, let us all across the parties send a clear message today: there is an alternative that it would be irresponsible not to investigate fully. We need to deal with the M4 issue in a responsible way, in a way that provides value for money, a way that recognises the environmental concerns, that would be effective in transport terms, that reflects the need to invest in public transport alongside road projects, and a way that could be delivered quickly and that reflects a Wales-wide transport context.

Fel y dywedais yn gynharach, gadewch i ni i gyd ar draws y pleidiau anfon neges glir heddiw: mae dewis arall y byddai'n anghyfrifol peidio ag ymchwilio'n llawn iddo. Mae angen i ni ymdrin â mater yr M4 mewn ffordd gyfrifol, mewn ffordd sy'n rhoi gwerth am arian, sy'n cydnabod y pryderon amgylcheddol, a fyddai'n effeithiol o ran trafniadaeth, sy'n adlewyrchu'r angen i fuddsoddi mewn trafniadaeth gyhoeddus ochr yn ochr â phrosiectau ffyrdd, ac mewn ffordd y gellid ei rhoi ar waith yn gyflym sy'n adlewyrchu cyd-destun trafniadaeth Cymru gyfan.

17:15

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? There is objection, so I will defer all voting on this item until voting time.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly gohiriaf yr holl bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y bleidlais tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I now propose to move to the vote. Does anyone object? I see that there are no objections, so let us move to voting time.

Rwyf nawr yn cynnig symud at y bleidlais. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiadau, felly, gadewch inni symud at y cyfnod pleidleisio.

## Cyfnod Pleidleisio

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5585.](#)

## Voting Time

[Result of the vote on motion NDM5585.](#)

*Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5585.*

*Result of the vote on motion NDM5585.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5585.](#)

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5585.](#)

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 20, Yn erbyn 30, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 20, Against 30, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5585.](#)

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5585.](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 30, Yn erbyn 20, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 30, Against 20, Abstain 0.*

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 25, Yn erbyn 25, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 25, Against 25, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5585.](#)

[Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5585.](#)

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 25, Yn erbyn 25, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 25, Against 25, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5585.](#)

[Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5585.](#)

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnig NDM5585.](#)

[Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5585.](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 14, Yn erbyn 36, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 14, Against 36, Abstain 0.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 39, Yn erbyn 11, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 39, Against 11, Abstain 0.

Cynnig NDM5585 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5585 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn credu bod angen adolygu eglurder a dealltwriaeth o ddangosyddion perfformiad allweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer ardaloedd menter;

1. Believes there is a need to review the clarity and understanding of Welsh Government's key performance indicators for enterprise zones;

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu diweddariadau bob hanner blwyddyn o ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer ardaloedd menter; a

2. Calls on the Welsh Government to provide half-yearly updates of key performance indicators for enterprise zones; and

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5585 fel y'i diwygiwyd.](#)

[Result of the vote on motion NDM5585 as amended.](#)

3. Yn nodi y byddai'n ddymunol ymestyn lwfansau cyfalaf uwch i ardaloedd menter eraill hefyd, fel Eryri, ond yn cydnabod y bydd angen, wrth ystyried ardaloedd ychwanegol, nodi'r goblygiadau posibl o ran cost a chael cytundeb Llywodraeth y DU.

3. Notes the desirability of enhanced capital allowances to be extended to other enterprise zones, such as Snowdonia but recognises that any consideration of additional areas will need to note potential cost implications and have the agreement of the UK Government.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5584.](#)

[Result of the vote on motion NDM5584.](#)

Derbyniwyd cynnis NDM5585 fel y'i diwygiwyd: O blaid 50, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Motion NDM5585 as amended agreed: For 50, Against 0, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnis NDM5584.](#)

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5584.](#)

Gwrthodwyd y cynnis: O blaid 11, Yn erbyn 39, Ymatal 0.

Motion not agreed: For 11, Against 39, Abstain 0.

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 25, Yn erbyn 25, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 25, Against 25, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnis NDM5584.](#)

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5584.](#)

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnis NDM5584.](#)

[Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5584.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 50, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 50, Against 0, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnis NDM5584.](#)

[Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5584.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 50, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 50, Against 0, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnis NDM5584.](#)

[Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5584.](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 14, Yn erbyn 36, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 14, Against 36, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnis NDM5584.](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 14, Yn erbyn 36, Ymatal 0.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 50, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Cynnig NDM5584 fel y'i diwygiwyd:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu'r cynnydd a wnaed yn uwchgyhadledd newid hinsawdd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer 2014 yn Efrog Newydd;
2. Yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau nad yw datgoedwigo yn parhau yng Nghymru a bod ei tharged o 100,000 hectar o goedwigaeth newydd yn cael ei gyrraedd erbyn 2030;
3. Yn gresynu at y ffaith nad yw Llywodraeth Cymru ar y trywydd iawn i gyrraedd ei thargedau newid hinsawdd ar gyfer 2020;
4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i annog ystod ehangach o ynni adnewyddadwy, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i, ynni adnewyddadwy morol, treulio anaerobig ac ynni dŵr;
5. Yn croesawu'r datblygiad diweddar o ddwy ardal profi ac arddangos morol yn nyfroedd Cymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu gwybodaeth reolaidd i'r Cynulliad am ei chynnydd tuag at alluogi datblygiadau technolegol pellach a masnacheiddio dyfeisiadau sy'n defnyddio ynni adnewyddadwy o'r tonnau a'r llanw.
6. Yn llongyfarch Tidal Energy Cyf. ar ddadorchuddio ei ddyfais DeltaStream ar 7 Awst 2014, a wnaed yn bosibl drwy ddefnyddio arian Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod prosiectau o'r fath yn parhau i gael cefnogaeth briodol yn y dyfodol fel y gall Cymru wneud y mwyaf o botensial ynni adnewyddadwy morol i hyrwyddo dull grid cymysg;
7. Yn galw am ddatganoli Tystysgrifau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, neu'r hyn sy'n eu dilyn, i Lywodraeth Cymru;
8. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio i rwystrau i gysylltu â'r grid ar gyfer prosiectau ynni ar raddfa fach o dan 50MW; a

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5584 fel y'i diwygiwyd.](#)

9. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu rhaglen ôl-osod uchelgeisiol i gynyddu effeithlonrwydd ynni y stoc dai bresennol.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5587.](#)

[Result of the vote on amendment 6 to motion NDM5584.](#)

Amendment not agreed: For 14, Against 36, Abstain 0.

Amendment agreed: For 50, Against 0, Abstain 0.

Motion NDM5584 as amended:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Welcomes the progress made at the United Nations Climate Change Summit 2014 in New York;
2. Urges the Welsh Government to ensure that deforestation does not continue in Wales and that its target of 100,000 hectares of new forestry is met by 2030;
3. Regrets that the Welsh Government is not on track to meet its Climate Change 2020 targets;
4. Calls upon the Welsh Government to encourage a wider range of renewable energies, including but not limited to, marine renewables, anaerobic digestion and hydropower;
5. Welcomes the recent development of two marine testing and demonstrating zones in Welsh waters and calls on the Welsh Government to provide regular updates to the Assembly on their progress towards enabling further technological development and commercialisation of wave and tidal renewable energy devices.
6. Congratulates Tidal Energy Ltd on the unveiling of their DeltaStream device on 7 August 2014, which was made possible through the use of WEFO funds, and calls on the Welsh Government to ensure that such projects continue to be suitably supported in future years so that Wales can maximise the potential of marine renewables to promote a mixed grid approach;
7. Calls for the devolution of Renewables Obligation Certificates (ROCs), or its successor, to the Welsh Government;
8. Calls upon the Welsh Government to explore barriers to connection to the grid for small scale energy projects below 50mw; and

[Result of the vote on motion NDM5584 as amended.](#)

9. Calls on the Welsh Government to implement an ambitious retrofitting programme to increase the energy efficiency of existing housing stock.

[Result of the vote on motion NDM5587.](#)

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

Gwrthodwyd cynnig NDM5584 fel y'i diwygiwyd: O blaid 24, Yn erbyn 25, Ymatal 0.

Motion NDM5584 as amended not agreed: For 24, Against 25, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnis NDM5587.](#)[Result of the vote on motion NDM5587.](#)

Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5587.

Motion not agreed: For 14, Against 36, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnis NDM5587.](#)[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5587.](#)

Gwrthodwyd y cynnis: O blaid 14, Yn erbyn 36, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 11, Against 39, Abstain 0.

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 11, Yn erbyn 39, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 25, Against 25, Abstain 0.

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 25, Yn erbyn 25, Ymatal 0.

As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnis NDM5587.

Amendment agreed: For 39, Against 10, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnis NDM5587.](#)[Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5587.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 39, Yn erbyn 10, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 14, Against 36, Abstain 0.

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 14, Yn erbyn 36, Ymatal 0.

Motion NDM5587 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn credu bod tagfeydd ar yr M4 yn ardal Casnewydd yn niweidiol i economi Cymru, a bod angen datrysiad cynaliadwy a fforddiadwy;

1. Believes that congestion on the M4 in the Newport area is detrimental to the Welsh economy, and that a sustainable and affordable resolution is required.

2. Yn cadarnhau nad yw'r achos wedi'i wneud ar gyfer bwrw ymlaen â'r 'llwybr du';

2. Affirms that the case has not been made for proceeding with the 'black route'.

3. Yn credu y dylai buddsoddi mewn trafniadaeth gyhoeddus a chamau gweithredu i annog newid moddol oddi wrth ddefnyddio ceir fod yn flaenoriaeth fel rhan o gynllun trafniadaeth gynaliadwy ac integredig.

3. Believes investment in public transport and actions to encourage modal shift away from car use should be a priority as part of a sustainable, integrated transport plan.

4. Yn credu y bydd neilltuo holl bwerau benthyca newydd Cymru i un prosiect yn cyfyngu ar fuddsoddi mewn manau eraill.

4. Believes that committing the entirety of new Welsh borrowing powers to one project will limit investment elsewhere.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi ystyriaeth lawn i'r 'llwybr glas' am resymau economaidd, amgylcheddol ac ariannol ac er mwyn rheoli traffig.

5. Calls on the Welsh Government to fully consider the 'blue route' on economic, traffic management, environmental and financial grounds.

Gwrthodwyd cynnis NDM5587 fel y'i diwygiwyd: O blaid 14, Yn erbyn 36, Ymatal 0.

Motion NDM5587 as amended not agreed: For 14, Against 36, Abstain 0.

Daeth Sandy Mewies i'r Gadair am 17:25.

Sandy Mewies took the Chair at 17:25.

[Daeth Sandy Mewies i'r Gadair am 17:25.](#)[Result of the vote on motion NDM5587 as amended.](#)

*Could I ask Members, if they are leaving, to do so quickly and quietly?*

*I call on Bethan Jones—sorry, Bethan Jenkins, Member for South Wales West. Sorry, Bethan.*

*A wnaiff yr Aelodau sydd am adael wneud hynny yn gyflym ac yn dawel?*

*Galwaf ar Bethan Jones—mae'n ddrwg gen i, Bethan Jenkins, yr Aelod dros Orllewin De Cymru. Mae'n ddrwg gen i, Bethan.*

17:25 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. William Powell has asked for a minute of my time, as well.

Diolch. Mae William Powell wedi gofyn am funud o'm hamser, hefyd.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

17:25 **Dadl Fer: Cyfranogiad Etholwyr a Sut y Gallwn Gael Pethau'n Iawn mewn perthynas â Democratiaeth**

**Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My short debate is on a participating electorate and how we can get it right for democracy. When we want to describe what happened after a big event, we often talk about how the dust is beginning to settle. No doubt, you will have all read the phrase in the papers, or heard it in the news in recent weeks, to describe the aftermath of the Scottish referendum. However, in reality, the dust is not settling at all. In fact, it is only now that the analysts, the wonks and all of us in politics are beginning to sift through the raft of data in the hope that they will speak truths to some of us.

**Short Debate: A Participating Electorate, and How We Can Get It Right with Democracy**

Mae fy nadl fer yn ymwneud ag etholwyr sy'n cymryd rhan a sut y gallwn ei gael yn iawn ar gyfer democratiaeth. Pan fyddwn ni am ddisgrifio beth ddigwyddodd ar ôl digwyddiad mawr, byddwn yn aml yn sôn am sut mae'r llwch yn dechrau setlo. Mae'n siŵr y byddwch i gyd wedi darllen yr ymadrodd yn y papurau, neu ei glywed yn y newyddion dros yr wythnosau diwethaf, i ddisgrifio canlyniad refferendwm yr Alban. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, nid yw'r llwch yn setlo o gwbl. Yn wir, dim ond nawr y mae'r dadansoddwyr, yr arbenigwyr polisi a phob un ohonom mewn gwleidyddiaeth yn dechrau dadansoddi'r holl ddata yn y gobaith y bydd yn siarad gwirioneddau i rai ohonom.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

17:25 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As a nationalist, the result was most important to me, but now that it is settled—for the time being—what is interesting to me is why people took part. We already know that the record turnout was one of 84.6%, and we also know that almost 110,000 16 and 17-year-olds registered to take part in the vote, and this should be extended to all elections. Considering that there are around 130,000 people in Scotland of those ages, according to the General Register Office for Scotland, that is a phenomenal accomplishment.

What makes these statistics more remarkable is that they go dramatically against the trend of falling turnouts in recent years. In the 2011 elections to this Assembly, 42.2% of the Welsh population went to the polls—less than half of that which voted recently in Scotland. Of course, that needs to be seen in context. Scottish general election figures in 2011 were not much better than in Wales, at 50%, but what I think this shows is how much appetite there is for discussing real issues. The Scottish referendum was far less about what the markets liked and far more about what to do with the debate around what kind of Scotland people really wanted. A movement was created.

Fel cenedlaetholwr, y canlyniad oedd y peth pwysicaf i mi, ond yn awr y mae wedi'i setlo—am y tro—yr hyn sy'n ddiddorol i mi yw pam y cymerodd pobl ran. Rydym eisoes yn gwybod bod y nifer uchel a bleidleisiodd yn 84.6%, ac rydym hefyd yn gwybod bod bron i 110,000 o bobl ifanc 16 ac 17 oed wedi cofrestru i gymryd rhan yn y bleidlais, a dylid ymestyn hyn i bob etholiad. O ystyried bod tua 130,000 o bobl yn yr Alban o'r oedrannau hynny, yn ôl Swyddfa Gofrestru Gyffredinol yr Alban, mae hynny'n gamp aruthrol.

Yr hyn sy'n gwneud yr ystadegau hyn yn fwy rhyfeddol yw'r ffaith eu bod yn mynd yn gwbl groes i'r duedd dros y blynyddoedd diwethaf o lai o bobl yn pleidleisio. Yn yr etholiadau i'r Cynulliad hwn yn 2011, pleidleisiodd 42.2% o boblogaeth Cymru—llai na hanner y nifer a bleidleisiodd yn ddiweddar yn yr Alban. Wrth gwrs, mae angen ystyried y ffaith hon yn ei chyd-destun. Nid oedd y ffigurau ar gyfer etholiad cyffredinol yr Alban yn 2011 fawr gwell na ffigurau Cymru, sef 50%, ond yr hyn rwy'n credu sy'n cael ei ddangos yma yw faint o awydd sydd i drafod materion go iawn. Roedd refferendwm yr Alban yn ymwneud llawer llai â'r hyn yr oedd y marchnadoedd yn ei hoffi a llawer mwy am beth i'w wneud gyda'r drafodaeth ynghylch pa fath o wlad roedd pobl am i'r Alban fod mewn gwirionedd. Cafodd mudiad ei greu.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)



That is what motivated voters in Scotland. By contrast, we could say that Wales has been subject to many referenda and it may have to face more in the future, and so there is not the motivation to take part in something along those lines, potentially, which will not change the country forever and will only go some way towards changing the country. It is not the fundamental discussion that was had in Scotland about the 'yes' or 'no' that was offered to them.

It has long been my contention that voting is not an alien concept to people, young or old. They already vote and they often do so every day: on 'The X Factor', they sign petitions on [38degrees.org.uk](http://38degrees.org.uk), [change.org.uk](http://change.org.uk) and, we hope, the National Assembly's petitions page; and they vote on [buzzfeed.com](http://buzzfeed.com) and other website polls. It may be coffee break stuff a lot of the time, but what we have is millions of people every day taking the time to have their voices heard. This is not the only way that people become involved in politics and public life; sometimes, sadly, they are forced to do so, as parents and families in my area are at the moment, because of proposals to close their children's schools in Neath Port Talbot.

What happens all too frequently is that these participants get to the end of their campaign, and their enthusiasm and drive for change is left to wither. They have gained experience in setting up committees, working with other people and organising protests and events, and then that experience sometimes goes to waste—but it need not be that way. By bringing together communities that live with opencast mining, for example, we have been able to create a much more powerful opposition to an industry that operates with few democratic checks.

Similarly, when the Visteon workers successfully concluded their campaign, they were then willing to offer support and advice to the Allied Steel and Wire workers who continue to fight for their fair pension settlement.

What I try to do with the campaigns that I run is speak to those involved and broaden out the debate to their wider communities, and encourage them to become involved in other issues by setting up committees and structures to retain and develop that expertise. It is something I believe that we should all get into the habit of doing, because creating a nation of campaigners can only be a good thing for Welsh democracy.

Dyna oedd yr ysgogiad i bleidleiswyr yr Alban. Ar y llaw arall, gallem ddweud bod sawl refferendwm wedi'i gynnal yng Nghymru ac efallai y bydd yn rhaid wynebu mwy yn y dyfodol, ac felly nid oes cymhelliant i gymryd rhan mewn rhywbeth tebyg i hynny, o bosibl, na fydd yn newid y wlad am byth ac a fydd ond yn mynd gam o'r ffordd tuag at newid y wlad. Nid yw'n debyg i'r drafodaeth sylfaenol a gafwyd yn yr Alban ynglŷn â'r dewis 'ie' neu 'na' a gynigiwyd iddynt.

Rwyf wedi dadlau erioed nad yw pleidleisio yn gysyniad estron i bobl, hen neu ifanc. Maent eisoes yn pleidleisio ac maent yn aml yn gwneud hynny bob dydd: ar 'The X Factor', maent yn llofnodi deisebau ar [38degrees.org.uk](http://38degrees.org.uk), [change.org.uk](http://change.org.uk) ac, rydym yn gobeithio, ar dudalen ddeisebau'r Cynulliad Cenedlaethol; ac maent yn pleidleisio ar [buzzfeed.com](http://buzzfeed.com) ac arolygon ar wefannau eraill. Mae'n bosibl bod llawer o bobl yn gwneud hyn yn ystod amser paned, ond yr hyn sydd gennym yw miliynau o bobl bob dydd yn cymryd yr amser i gael dweud eu dweud. Nid dyma'r unig ffordd y mae pobl yn cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth a bywyd cyhoeddus; weithiau, yn anffodus, maent yn cael eu gorfodi i wneud hynny, fel sy'n wir am rieni a theuluoedd yn fy ardal i ar hyn o bryd, oherwydd y cynigion i gau ysgolion eu plant yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Beth sy'n digwydd yn rhy aml yw bod y cyfranogwyr hyn yn dod i ddiwedd eu hymgyrch, ac mae eu brwdfrydedd a'u hawydd am newid yn pylu. Maent wedi ennill profiad o sefydlu pwyllgorau, gweithio gyda phobl eraill a threfnu protestiadau a digwyddiadau, ac yna mae'r profiad hwnnw weithiau'n cael ei wastraffu—ond nid oes rhaid iddo fod felly. Drwy ddwyn ynghyd cymunedau sy'n byw gyda chloddio glo brig, er enghraifft, rydym wedi gallu creu gwrthwynebiad llawer cryfach i ddiwydiant sy'n gweithredu gydag ychydig iawn o wiriadau democrataidd.

Yn yr un modd, pan ddaeth ymgyrch lwyddiannus gweithwyr Visteon i ben, roeddynt yn barod wedyn i gynnig cymorth a chyngor i weithwyr Allied Steel and Wire sy'n parhau i frwydro dros setliad pensiwn teg.

Yr hyn rwy'n ceisio ei wneud gyda'r ymgyrchoedd rwy'n eu rhedeg yw siarad â'r rhai sy'n cymryd rhan ac ymestyn y ddadl i'w cymunedau ehangach, a'u hannog i gymryd rhan mewn materion eraill drwy sefydlu pwyllgorau a strwythurau i gadw a datblygu'r arbenigedd hwnnw. Mae'n rhywbeth rwy'n credu y dylem i gyd fynd i'r arfer o'i wneud, oherwydd gall greu cenedl o ymgyrchwyr ond fod yn beth da i ddemocratiaeth yng Nghymru.

Plaid Cymru is currently creating a national debate, called Bring Our Government Home. In the wake of the Scottish referendum and in a climate where more powers could be offered to Wales, we think that it is vital that people engage with important issues that affect them, such as policing and justice, energy and resources, taxation, broadcasting, the railways and planning powers over big infrastructure projects. People can engage in our Million Ideas website, a proper discussion on ideas from members of society with members of Plaid Cymru. It is not to say that we should agree with everything that they say on that website or in the discussion that we have with them as a party, but it is a debate, and it is the engagement that we desperately need in politics to make people feel re-energised and re-engaged once again in politics.

I have also mentioned this before in the Chamber, which is a relatively new idea in Canada called civic lotteries. Local people are chosen at random and are asked to step forward and take part in a wide-range of civic initiatives by sitting on citizens reference panels. Local people are recruited in a number of different ways, but, once on board, the citizens reference panels draw on their capacity to reason on behalf of their communities. With between 24 and 36 members, the panels usually meet for a series of day-long meetings to work through a programme designed to establish public priorities and make clear recommendations that the decision makers, such as us, can then use. Panellists are also mentored during this time and encouraged to gain a deeper understanding of issues, doing so in a collaborative environment rather than the adversarial arenas you see quite often in council chambers around Wales, but certainly in my region.

I said recently that politics, as a whole, needs to take a serious and considered look at electronic voting. In an age when we can make lifelong decisions such as sorting out a mortgage via our mobile phones, why is it that we still need to go to the nearest community hall to cast our vote? The argument we hear against electronic voting is that it is susceptible to electoral fraud, but, I am sorry, I just do not buy this. It is computers that run quadrillion-dollar markets and it is computers that now control weapon systems we use in wars. My point is that the fear of electoral fraud in itself should not be a bar to allowing people to vote on their phones or at home on their computers.

Back in December 2006, the Local Government and Public Services Committee reported on the electoral arrangements in Wales, and the scrutiny project looked at a number of issues, including registration and the participation of young people. Among the report's 33 recommendations was for the Welsh Government and the WLGAs to encourage Welsh local authorities to pilot methods of electronic voting. Earlier this year, the Electoral Commission launched a review of modern voting. Its head, Jenny Watson, said:

Ar hyn o bryd mae Plaid Cymru yn creu trafodaeth genedlaethol, o'r enw Dewch â'n Llywodraeth Gartref. Yn sgil refferendwm yr Alban ac mewn hinsawdd lle gallai mwy o bwerau gael eu cynnig i Gymru, rydym yn credu ei bod yn hanfodol bod pobl yn ymgysylltu â materion pwysig sy'n effeithio arnynt, fel plismona a chyfiawnder, ynni ac adnoddau, trethiant, darlledu, y rheilffyrdd a phwerau cynllunio ar gyfer prosiectau seilwaith mawr. Gall pobl gymryd rhan yn ein gwefan Miliwn Syniad, trafodaeth briodol ar syniadau gan aelodau cymdeithas ag aelodau o Blaid Cymru. Nid wyf yn dweud y dylem gytuno â phopeth sy'n cael ei ddweud ar y wefan neu yn y drafodaeth a gawn gyda hwy fel plaid, ond mae'n ddadl, a dyma'r ymgysylltu sydd wir ei angen mewn gwleidyddiaeth fel bod pobl yn teimlo bod ganddynt ddiddordeb o'r newydd mewn gwleidyddiaeth ac yn ymgysylltu â hi unwaith eto.

Rwyf hefyd wedi crybwyll hyn o'r blaen yn y Siambr, sydd yn syniad cymharol newydd yng Nghanaada o'r enw loteriau dinesig. Mae pobl leol yn cael eu dewis ar hap a gofynnir iddynt gamu ymlaen a chymryd rhan mewn amrywiaeth eang o fentrau dinesig drwy eistedd ar baneli cyfeirio dinasyddion. Mae pobl leol yn cael eu recriwtio mewn nifer o ffyrdd gwahanol, ond, unwaith y maent wedi'u recriwtio, mae'r paneli cyfeirio dinasyddion yn defnyddio eu gallu i resymu ar ran eu cymunedau. Mae gan y paneli rhwng 24 a 36 o aelodau, ac fel arfer maent yn cyfarfod ar gyfer cyfres o gyfarfodydd diwrnod er mwyn gweithio drwy raglen a gynlluniwyd i sefydlu blaenoriaethau cyhoeddus a gwneud argymhellion clir y gallai'r penderfynwyr, fel ni, eu defnyddio wedyn. Mae panelwyr hefyd yn cael eu mentora yn ystod y cyfnod hwn a'u hannog i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o faterion, gan wneud hynny mewn amgylchedd cydweithredol yn hytrach na mewn arena wrthwynebus sy'n gymharol gyffredin mewn siambrau cyngorau ledled Cymru, ond yn sicr yn fy rhanbarth i.

Dywedais yn ddiweddar bod angen i wleidyddiaeth, yn gyffredinol, gymryd golwg ddifrifol a phwylllog ar bleidleisio electronig. Mewn oes pan allwn wneud penderfyniadau gydol oes, fel trefnu morgais drwy ein ffonau symudol, pam y mae angen o hyd i ni fynd i'r neuadd gymunedol agosaf i fwrw ein pleidlais? Y ddadl rydym yn ei chlywed yn erbyn pleidleisio electronig yw ei bod yn agored i dwyll etholiadol, ond, mae'n ddrwg gennyf, nid wyf yn derbyn hynny o gwbl. Cyfrifiaduron sy'n rhedeg marchnadoedd cwadriliwn o ddoleri a chyfrifiaduron sydd bellach yn rheoli systemau'r arfau a ddefnyddiwn mewn rhyfeloedd. Fy mhwynt i yw na ddylai ofn o dwyll etholiadol ynddo ei hun fod yn rhwystr i ganiatáu i bobl bleidleisio ar eu ffonau neu gartref ar eu cyfrifiaduron.

Yn ôl ym mis Rhagfyr 2006, adroddodd y Pwyllgor Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Leol ar y trefniadau etholiadol yng Nghymru, ac edrychodd y prosiect craffu ar nifer o faterion, gan gynnwys cofrestru a chyfranogiad pobl ifanc. Ymhlith 33 o argymhellion yr adroddiad oedd yr angen i Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru annog awdurdodau lleol Cymru i dreialu dulliau pleidleisio electronig. Yn gynharach eleni, lansiodd y Comisiwn Etholiadol adolygiad o bleidleisio modern. Dywedodd pennaeth y Comisiwn, Jenny Watson:

'Unless our electoral system keeps pace with the way many voters live the rest of their lives—where the way they bank and the way they shop has been transformed—it risks being seen as increasingly alien and outdated, particularly to young voters as they use it for the first time.'

The issue with falling voter numbers does not just apply to young people. I have plenty of friends—I obviously do not class myself as young anymore—who frequently tell me that they often struggle to get to the polling station on election day. This is because our working lives are a lot less nine-to-five than they once were, there are impacts on home life, issues with looking after children and essential tasks. If supermarkets can stay open through the night to cater for this is, we should question why this cannot happen for how we vote. Some people on Twitter earlier were asking me, 'Why not have voting on a Sunday, when there is more time and flexibility?'

In recent years, we have seen a huge growth in the use of social media in politics. There cannot be many of us here today who do not have a Twitter or Facebook account, but some of us use them more than others. For many people who will be voting for the first time next year or in 2016, it is all they have ever known growing up. To put that in context, many of the young people I work with do not even have e-mail because, with Facebook Messenger, Snapchat and Instagram, they simply do not see the use in it. Sadly, this Assembly does not have the competency for administering elections in Wales. That remains a Westminster responsibility. Hopefully, if we get a reserved powers model, like Scotland, that might change.

I am conscious of time, and I have written more about the fact that we need to have more participatory democracy here in Wales, but especially with regard to young people. I think that this is urgent now, because we heard last week from Jane Hutt, who is the Minister here, that there is going to be some money given to Children in Wales, but that does not give us a youth parliament for Wales. I think that it would be remiss of us to not set something up in Wales and be the only nation without any representation for young people. While I would like to thank the outreach team, especially for the work that they did with me on my Member-proposed Bill on financial education, which was excellent, we need to extend that so that we can ensure that every young person and people who would never think of getting involved in politics before do get involved in politics in the future.

'Oni bai bod ein system etholiadol yn ymateb i'r ffordd y mae llawer o bleidleiswyr yn byw gweddill eu bywydau—mae eu dulliau bancio a siopa wedi'u gweddnewid—mae perygl y bydd yn cael ei hystyried yn fwyfwy estron a hen ffasiwn, yn enwedig i bleidleiswyr ifanc wrth iddynt ei defnyddio am y tro cyntaf.'

Nid yw'r mater o ostyngiad yn nifer y pleidleiswyr yn berthnasol i bobl ifanc yn unig. Mae gen i lawer o ffrindiau—yn amlwg nid wyf yn ystyried fy hun yn berson ifanc bellach—sy'n dweud wrthyf yn aml eu bod yn cael trafferth cyrraedd yr orsaf bleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad. Mae hyn oherwydd nad yw ein bywydau gwaith yn gyfyngedig i naw tan bump bellach, mae effeithiau ar fywyd y cartref, materion yn ymwneud â gofalu am blant a thasgau hanfodol. Os gall archfarchnadoedd aros ar agor drwy'r nos i ddarparu ar gyfer hyn, dylem ofyn pam na all hyn ddigwydd ar gyfer sut rydym yn pleidleisio. Roedd rhai pobl ar Twitter yn gofyn i mi yn gynharach, 'Beth am gael pleidleisio ar y Sul, pan fydd mwy o amser a hyblygrwydd?'

Yn y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld twf enfawr yn y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol mewn gwleidyddiaeth. Nid oes llawer o bobl yma heddiw nad oes ganddynt gyfrif Twitter neu Facebook, ond mae rhai ohonom yn eu defnyddio yn fwy nag eraill. I lawer o bobl a fydd yn pleidleisio am y tro cyntaf y flwyddyn nesaf neu yn 2016, mae defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol wedi bod yn ail natur iddynt wrth dyfu i fyny. I roi hynny mewn cyddestun, nid oes gan lawer o'r bobl ifanc rwy'n gweithio gyda nhw gyfrif e-bost hyd yn oed oherwydd, gyda Facebook Messenger, Snapchat ac Instagram, yn syml, nid ydynt yn gweld gwerth ynddo. Yn anffodus, nid oes gan y Cynulliad hwn y cymhwysedd i weinyddu etholiadau yng Nghymru. Mae hynny'n parhau i fod yn gyfrifoldeb San Steffan. Gobeithio, os cawn fodel cadw pwerau, fel yr Alban, gallai hynny newid.

Rwy'n ymwybodol o'r amser, ac rwyf wedi ysgrifennu mwy am y ffaith bod angen i ni gael mwy o ddemocratiaeth gyfranogol yma yng Nghymru, ond yn enwedig mewn perthynas â phobl ifanc. Rwy'n meddwl bod hwn yn fater brys bellach, oherwydd clywsom yr wythnos diwethaf gan Jane Hutt, sef y Gweinidog yma, y bydd rhywfaint o arian yn cael ei roi i Plant yng Nghymru, ond nid yw hynny'n rhoi senedd ieuencid ar gyfer Cymru i ni. Rwy'n meddwl y byddai'n esgeulus ohonom pe na baem yn sefydlu rhywbeth yng Nghymru ac os mai ni oedd yr unig wlad heb unrhyw gynrychiolaeth ar gyfer pobl ifanc. Er yr hoffwn ddiolch i'r tîm allgymorth, yn enwedig am y gwaith a wnaethant gyda mi ar fy Mil Aelod ar addysg ariannol, a oedd yn rhagorol, mae angen inni ymestyn hynny er mwyn sicrhau bod pob person ifanc a'r bobl na fyddent byth wedi meddwl cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth yn y gorffennol yn cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth yn y dyfodol.

## William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

One of the most notable aspects of the Scottish referendum result was, of course, the vote being extended to 16 and 17-year-olds, as Bethan Jenkins has said. My party was, in fact, the first UK-wide political party to fully and publicly support the extension of the franchise to 16 and 17-year-olds. In fact, Welsh-born MP Stephen Williams, back in January 2013, introduced a backbench committee motion to reduce the voting age which, unfortunately, was not entered into law. Hopefully, the time is not far distant when we in this place will gain powers over our electoral regulations, franchise and registration so that we can take these matters forward for the betterment of the people of Wales.

Un o agweddau mwyaf nodedig canlyniad refferendwm yr Alban, wrth gwrs, oedd ymestyn y bleidlais i bobl ifanc 16 a 17 oed, fel y dywedodd Bethan Jenkins. Fy mhlaid i, mewn gwirionedd, oedd y blaid wleidyddol gyntaf yn y DU i gefnogi'n llawn ac yn gyhoeddus y syniad o ymestyn yr etholfraint i'r rhai 16 a 17 oed. Yn wir, yn ôl ym mis Ionawr 2013, cyflwynodd yr AS a anwyd yng Nghymru, Stephen Williams, gynneg pwyllgor y meinciau cefn i ostwng yr oedran pleidleisio, ond ni ddaeth yn ddeddf yn anffodus. Gobeithio na fydd rhaid i ni aros yn rhy hir cyn y byddwn yn y lle hwn yn ennill pwerau dros ein rheoliadau, rhyddfraint a chofrestru etholiadol fel y gallwn fynd â'r materion hyn ymlaen er lles pobl Cymru.

## Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. I call on the Presiding Officer to reply to the debate on behalf of the Assembly Commission.

Diolch. Galwaf ar y Llywydd i ymateb i'r ddadl ar ran Comisiwn y Cynulliad.

17:35

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much. I would like to thank Bethan Jenkins for highlighting the importance of engagement by the electorate with the work of the Assembly, including, crucially, increasing voter participation in Wales, and for putting forward some really innovative ideas. I am responding today as Presiding Officer and Chair of the Assembly Commission. In those roles, I aim to ensure that the Assembly is a strong, accessible and forward-looking democratic institution that delivers effectively for the people of Wales, now and in the future.

Diolch yn fawr iawn. Hoffwn ddiolch i Bethan Jenkins am dynnu sylw at bwysigrwydd ymgysylltu gan yr etholwyr â gwaith y Cynulliad, gan gynnwys, yn hollbwysig, cynyddu cyfranogiad pleidleiswyr yng Nghymru, ac am gyflwyno rhai syniadau gwirioneddol arloesol. Rwy'n ymateb heddiw fel Llywydd a Chadeirydd Comisiwn y Cynulliad. Yn y rolau hynny, fy nod yw sicrhau bod y Cynulliad yn sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar sy'n darparu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru, yn awr ac yn y dyfodol.

Of course, this is an extremely timely debate. The Scottish referendum, which both speakers have referred to, has meant that discussions about democracy and the constitution have been dominating the news. As my friend and colleague the Presiding Officer of the Scottish Parliament, Trish Marwick, said last week, that vote was

Wrth gwrs, mae hon yn ddadl hynod o amserol. Mae refferendwm yr Alban, y mae'r ddau siaradwr wedi cyfeirio ato, wedi golygu bod trafodaethau ar ddemocratiaeth a'r cyfansoddiad wedi bod yn amlwg iawn yn y newyddion. Fel y dywedodd fy ffrind a'm cydweithiwr, Llywydd Senedd yr Alban, Trish Marwick, yr wythnos diwethaf, roedd y bleidlais honno

'an extraordinary expression of civic democracy the like of which we have never seen, with a turnout of 85%.'

'yn fynegiant eithriadol o ddemocratiaeth ddinesig nad ydym wedi gweld ei thebyg erioed, gyda 85% yn pleidleisio.'

The referendum sparked a democratic revival across Scotland, and an unprecedented level of public engagement. So, what do we need to do in Wales to make voting more meaningful for our people and our communities? The reaction to events in Scotland and the passage of the Wales Bill have created a unique chance for us to achieve some essential changes that will provide a sustainable foundation for this institution as a fully fledged legislature that will deliver for the people of Wales.

Ysgogodd y refferendwm adfywiad democrataidd ledled yr Alban, a lefel o ymgysylltu â'r cyhoedd na welwyd ei thebyg o'r blaen. Felly, beth sydd angen i ni ei wneud yng Nghymru i wneud pleidleisio yn fwy ystyrlon ar gyfer ein pobl a'n cymunedau? Mae'r ymateb i'r digwyddiadau yn yr Alban a thaith Bil Cymru wedi creu cyfle unigryw i ni sicrhau rhai newidiadau angenrheidiol a fydd yn rhoi sylfaen gynaliadwy i'r sefydliad hwn fel deddfwrfa gyflawn a fydd yn cyflawni ar gyfer pobl Cymru.

Some of this might be about technical changes that may not in themselves be terribly inspiring for people. However, those changes are the key to establishing this institution as a permanent legislature with the powers, capacity and status that we need to make a real difference to the lives of people in Wales. Once we have enhanced powers that are clear and understandable, I feel confident that people will want to engage more and will want their voice to be heard, through their contribution to our work here in the Assembly and through voter participation at election time.

I have been very proud to be part of the progress that the Assembly has made in recent years and I am greatly encouraged by the prospect of further changes. I trust that we will move quickly to a reserved powers model—that will be much easier for everyone to understand, which is crucial if we want people to engage with our work. It is important that the Assembly should have more flexibility in how we use our powers and functions. For some time, I have been asking for the devolution of electoral powers. That would give us the opportunity to explore what could be done differently in Wales, such as addressing the very disappointingly low voter registration numbers among young people and our ethnic minority communities. I strongly believe that the capacity of the Assembly needs to be increased to reflect our new responsibilities and to enable us to discharge our responsibilities effectively. I am also pressing for the sovereignty of the Assembly to be made clear. Westminster should not have the power to decide the future of the Assembly or to control decisions on matters such as our name and our electoral registration.

However, achieving all of this will still not be enough to ensure a healthy democracy. To do that, we must develop a dynamic relationship with the people we represent. We must continue to be open and transparent in our work and to demonstrate that our scrutiny and our legislation are relevant to the people of Wales, and that we are representing their interests in our work.

This aim is not a new one for me or for the Commission. Throughout this Assembly, a key priority for the Commission has been to encourage wider democratic engagement. We will continue to seek new and innovative ways to do this. Perhaps we could look at some of the ones that Bethan Jenkins suggested earlier.

Voting is a choice. We—politicians and political parties—have a crucial role to play in inspiring the Welsh electorate to vote by persuading people that our vision, ideas and policies can make a positive difference to their lives. How Members engage with their communities and raise awareness about the work of the Assembly is absolutely crucial.

Efallai y bydd rhywfaint o'r gwaith hwn yn ymwneud â newidiadau technegol nad ydynt ynddynt eu hunain yn arbennig o gyffrous o bosibl ar gyfer pobl. Fodd bynnag, y newidiadau hynny yw'r allweddol i sefydlu'r sefydliad hwn fel deddfwrfa barhaol sydd â'r pwerau, y gallu a'r statws y mae eu hangen arnom i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl yng Nghymru. Unwaith y mae gennym ragor o bwerau sy'n glir ac yn ddealladwy, rwy'n teimlo'n hyderus y bydd pobl yn awyddus i ymgysylltu mwy a byddant am i'w lleisiau gael eu clywed, drwy eu cyfraniad at ein gwaith yma yn y Cynulliad a thrwy gyfranogiad pleidleiswyr adeg etholiad.

Rwyf wedi bod yn falch iawn o fod yn rhan o'r cynnydd y mae'r Cynulliad wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf ac rwyf wedi fy nghalonogi'n fawr gan y posibilrwydd o newidiadau pellach. Hyderaf y byddwn yn symud yn gyflym tuag at fodol cadw pwerau—a fydd yn llawer haws i bawb ei ddeall, sy'n hanfodol os ydym am i bobl ymgysylltu â'n gwaith. Mae'n bwysig y dylai'r Cynulliad gael mwy o hyblygrwydd yn y ffordd rydym yn defnyddio ein pwerau a'n swyddogaethau. Ers peth amser, rwyf wedi bod yn gofyn am ddatganoli pwerau etholiadol. Byddai hynny'n rhoi cyfle i ni archwilio beth y gellid ei wneud yn wahanol yng Nghymru, fel mynd i'r afael â nifer y pleidleiswyr cofrestredig isel ymysg pobl ifanc a'n cymunedau lleiafrifoedd ethnig. Credaf yn gryf fod angen cynyddu capasiti'r Cynulliad i adlewyrchu ein cyfrifoldebau newydd ac i'n galluogi i gyflawni ein cyfrifoldebau yn effeithiol. Rwyf hefyd yn pwysu am wneud sofraniaeth y Cynulliad yn glir. Ni ddylai San Steffan fod â'r pŵer i benderfynu dyfodol y Cynulliad na rheoli penderfyniadau ar faterion fel ein henw a'n cofrestru etholiadol.

Fodd bynnag, ni fydd cyflawni hyn i gyd yn ddigon i sicrhau democratiaeth iach. I wneud hynny, mae'n rhaid i ni ddatblygu perthynas ddeinamig gyda'r bobl rydym yn eu cynrychioli. Rhaid i ni barhau i fod yn agored ac yn dryloyw yn ein gwaith a dangos bod ein gwaith craffu a'n deddfwriaeth yn berthnasol i bobl Cymru, a'n bod yn cynrychioli eu buddiannau yn ein gwaith.

Nid yw'r bwriad yn un newydd i mi nac i'r Comisiwn. Drwy gydol y Cynulliad hwn, mae annog ymgysylltiad democrataidd ehangach wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i'r Comisiwn. Byddwn yn parhau i chwilio am ffyrdd newydd ac arloesol o wneud hyn. Efallai y gallem edrych ar rai o'r syniadau a awgrymodd Bethan Jenkins yn gynharach.

Mae pleidleisio yn ddewis. Mae gennym ni—gwleidyddion a phleidiau gwleidyddol—rôl hanfodol i'w chwarae wrth ysbrydoli etholwyr Cymru i bleidleisio drwy berswadio pobl y gall ein gweledigaeth, ein syniadau a'n polisiau wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau. Mae'r ffordd y mae Aelodau yn ymgysylltu â'u cymunedau ac yn codi ymwybyddiaeth am waith y Cynulliad yn gwbl hanfodol.

I am fully committed to getting young people involved in the work of the Assembly and in the democratic process, preparing our next generation of citizens and voters. We see and hear too many stories of young people becoming disengaged from politics at a very early age. We must show young people that the work that we do as Assembly Members matters to them, now and in the future. That is true whether we are in our constituencies or working in committees, debating in the Chamber or out and about representing the people who elected us.

To ensure that our democracy thrives, we need to inspire young people and give them the opportunity to participate from an early age in shaping the country and the communities in which they want to live. The Commission recently consulted young people about ways to encourage and support them to get involved in what we do at the Assembly. We had over 3,000 responses—an enormous number. These responses demonstrated to me that there is a huge appetite from young people across Wales to have their say on the issues that matter to them.

In response to the consultation, the Commission has agreed a new vision. We want the Assembly to be seen as a world leader in youth engagement. Our approach to this has three key parts, the first of which is reaching out. Again, Bethan Jenkins referred to this. We will make sure that, wherever they are and whatever their background, young people in Wales can learn about the work that the Assembly is doing so that they can decide how relevant it is to their interests and way of life.

The second part is enabling debate. We will provide a variety of ways for young people to take part in our work, which should be fun, inspiring and specifically tailored to them. Finally, the third part is feedback, which is really vital. We need to explain, and we will explain to young people how their contributions are making a difference so that they and others are inspired to engage further.

The Commission is putting in place improvements to help achieve this vision, including new youth workers, strengthening our networks of youth groups, and putting young people at the heart of our engagement work, particularly young people from harder-to-reach groups. We have developed toolkits for schools and young people's organisations, and they are making the most of our online presence by using our youth website as a hub of information and discussion, as well as finding new ways to communicate through social media channels. Bethan Jenkins did mention some, but I am living in a parallel universe on the newer social media channels.

However, this work is underpinned by a new charter that forms a contract between us and the young people of Wales. The charter was recently signed by me and the leaders of all parties represented in the Assembly.

Rwyf wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau bod pobl ifanc yn cymryd rhan yng ngwaith y Cynulliad ac yn y broses ddemocrataidd, gan baratoi ein cenhedlaeth nesaf o ddinasyddion a phleidleiswyr. Rydym yn gweld ac yn clywed gormod o straeon ynglŷn â phobl ifanc yn cael eu dieithrio o wleidyddiaeth yn ifanc iawn. Mae'n rhaid i ni ddangos i bobl ifanc bod ein gwaith fel Aelodau Cynulliad o bwys iddyn nhw, nawr ac yn y dyfodol. Mae hynny'n wir os ydym yn ein hetholaethau neu'n gweithio mewn pwyllgorau, yn dadlau yn y Siambr neu'n mynd allan i gynrychioli'r bobl sydd wedi ein hethol.

Er mwyn sicrhau bod ein democratiaeth yn ffynnu, mae angen i ni ysbrydoli pobl ifanc a rhoi'r cyfle iddynt gymryd rhan o oedran ifanc mewn llunio'r wlad a'r cymunedau y maent yn dymuno byw ynddynt. Yn ddiweddar, ymgynghorodd y Comisiwn â phobl ifanc ynglŷn â sut i fynd ati i'w hannog a'u cefnogi i gymryd rhan yn yr hyn rydym yn ei wneud yn y Cynulliad. Cawsom dros 3,000 o ymatebion—cyfanswm enfawr. Roedd yr ymatebion hyn yn dangos i mi fod awydd mawr ymysg pobl ifanc ledled Cymru i ddweud eu dweud am y materion sy'n bwysig iddynt.

Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, mae'r Comisiwn wedi cytuno ar weledigaeth newydd. Rydym am i'r Cynulliad gael ei weld yn arweinydd byd wrth ymgysylltu â phobl ifanc. Mae gan ein dull gweithredu dair rhan allweddol, a'r cyntaf yw ymestyn allan. Unwaith eto, cyfeiriodd Bethan Jenkins at hyn. Byddwn yn sicrhau, ble bynnag y bont a beth bynnag eu cefndir, y gall pobl ifanc yng Nghymru ddysgu am y gwaith y mae'r Cynulliad yn ei wneud fel y gallant benderfynu pa mor berthnasol ydyw i'w diddordebau a'u ffordd o fyw.

Yr ail ran yw galluogi trafodaeth. Byddwn yn darparu amrywiaeth o ffyrdd i bobl ifanc gymryd rhan yn ein gwaith, a ddylai fod yn hwyl, yn gyffrous ac wedi'u teilwra'n benodol ar eu cyfer. Yn olaf, y drydedd ran yw adborth, sy'n wirioneddol hanfodol. Mae angen i ni egluro, a byddwn yn egluro i bobl ifanc sut mae eu cyfraniadau yn gwneud gwahaniaeth fel eu bod hwy ac eraill yn cael eu hysbrydoli i ymgysylltu ymhellach.

Mae'r Comisiwn yn rhoi gwelliannau ar waith i helpu i wireddu'r weledigaeth hon, gan gynnwys gweithwyr ieuenticid newydd, cryfhau ein rhwydweithiau o grwpiau ieuenticid, a sicrhau bod pobl ifanc yn ganolog i'n gwaith ymgysylltu, yn enwedig pobl ifanc o grwpiau anodd eu cyrraedd. Rydym wedi datblygu pecynnau cymorth ar gyfer ysgolion a sefydliadau pobl ifanc, ac maent yn gwneud y gorau o'n presenoldeb ar-lein drwy ddefnyddio ein gwefan ieuenticid fel canolbwynt gwybodaeth a thrafodaeth, yn ogystal â dod o hyd i ffyrdd newydd o gyfathrebu drwy sianeli'r cyfryngau cymdeithasol. Cyfeiriodd Bethan Jenkins at rai ohonynt, ond rwy'n byw mewn byd gwahanol cyn belled ag y mae'r sianeli cyfryngau cymdeithasol newydd yn y cwestiwn.

Fodd bynnag, mae siarter newydd sy'n gontract rhyngom ni a phobl ifanc Cymru yn sylfaen i'r gwaith hwn. Llofnodwyd y siarter yn ddiweddar gennyf i a chan arweinwyr yr holl bleidiau a gynrychiolir yn y Cynulliad.

Going forward, in the wake of the Scottish referendum, as part of our youth engagement work, we will be exploring with young people in Wales, through a national conversation, the question of whether the voting age should be lowered to 16. I believe that it is a myth that young people are not interested in politics. They are. We just need to make sure that we are listening and acting on the conversations that we have with them.

Another way in which we have reached out to the people of Wales is through my Women in Public Life campaign. Despite making up more than half of the population, there are fewer women than men in public life and their voices are often just not heard. The campaign aims to ensure that women are fairly represented in all areas at every level of public life in Wales. The Women in Public Life portal, which is becoming increasingly popular, provides information to women about how to get involved in public life and testimony from inspirational women who have already succeeded in public life.

I have launched a development scheme, which aims to create opportunities for women to develop the skills and confidence to take that first vital step into public life. In addition to the Women in Democracy caucus, which is looking at best practice in other Parliaments to attract more women into politics, we also have a series of lectures featuring inspirational women role models, which has been running in the Pierhead alongside this campaign.

The aim of this multistranded approach is to motivate and engage a large section of our electorate and I hope that it will increase participation in democracy. It is very clear to me that we must make the face of politics and public life more diverse and accessible to the people of Wales, so that they can relate to those who represent them. It is important that the Assembly here reflects what the population of Wales looks like.

We have made significant progress in our efforts to increase engagement in the business of the Assembly. The Assembly's committees are pioneering new ways of gathering evidence, engaging with stakeholders and presenting their work. All committees regularly contribute to the Assembly's presence on social networks, and their reports generate mainstream coverage on a regular basis. Through my meetings with committee Chairs, I have been able to secure their agreement that committees will build on the views of young people in all the work that they do.

The media has an essential role in ensuring that the work of the National Assembly and the Welsh Government is properly scrutinised and reported. UK media institutions struggle with devolution and do not always ensure the reporting of fundamental policy differences in public policy between Wales and England. For example, in some devolved fields, such as health and education, the media only refers to the English context; it never refers to the Welsh context. So, it is important that it properly reports to Welsh audiences. I have been calling this the democratic deficit and I have been campaigning for change.

Wrth symud ymlaen, yn sgil refferendwm yr Alban, fel rhan o'n gwaith ymgysylltu â phobl ifanc, byddwn yn archwilio gyda phobl ifanc yng Nghymru, drwy sgwrs genedlaethol, y cwestiwn a ddylai'r oedran pleidleisio gael ei ostwng i 16. Nid wyf yn credu bod sail i'r honiad nad oes gan bobl ifanc ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth. Mae ganddynt ddiddordeb. Mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn gwrandao ac yn gweithredu ar y sgwrsiau rhyngom ni a'r bobl ifanc.

Rydym wedi ymestyn allan i bobl Cymru drwy fy ymgyrch Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus hefyd. Er gwaetha'r ffaith fod dros hanner y boblogaeth yn fenywod, mae llai o fenywod na dynion mewn bywyd cyhoeddus ac nid yw eu lleisiau'n cael eu clywed o gwbl yn aml. Nod yr ymgyrch yn sicrhau bod menywod yn cael eu cynrychioli'n deg ym mhob maes ar bob lefel o fywyd cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r porth Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus, sy'n dod yn fwyfwy poblogaidd, yn rhoi gwybodaeth i fenywod am sut i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus ac yn cynnwys tystiolaeth gan fenywod sy'n ysbrydoli ac sydd eisoes wedi llwyddo mewn bywyd cyhoeddus.

Rwyf wedi lansio cynllun datblygu, sydd â'r nod o greu cyfleoedd i fenywod ddatblygu'r sgiliau a'r hyder i gymryd y cam hanfodol cyntaf tuag at fywyd cyhoeddus. Yn ogystal â chawcws Menywod mewn Democratiaeth, sy'n edrych ar arferion gorau mewn Seneddau eraill i ddenu mwy o fenywod at wleidyddiaeth, mae gennym gyfres o ddarlithoedd gan fenywod sy'n ysbrydoli drwy fod yn esiampl, sydd wedi'u cynnal yn y Pierhead ochr yn ochr â'r ymgyrch hon.

Nod y dull hwn sy'n cynnwys sawl elfen yw ysgogi ac ennyn diddordeb cyfran fawr o'n hetholwyr ac rwy'n gobeithio y bydd yn cynyddu cyfranogiad mewn democratiaeth. Mae'n amlwg iawn i mi fod yn rhaid i ni sicrhau bod wyneb gwleidyddiaeth a bywyd cyhoeddus yn fwy amrywiol ac yn hygyrch i bobl Cymru, fel y gallant uniaethu'r â rhai sy'n eu cynrychioli. Mae'n bwysig bod y Cynulliad yma yn adlewyrchu poblogaeth Cymru.

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ein hymdrechion i gynyddu ymgysylltiad ym musnes y Cynulliad. Mae pwyllgorau'r Cynulliad hwn yn defnyddio dulliau newydd arloesol o gasglu tystiolaeth, ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyflwyno eu gwaith. Mae pob pwyllgor yn cyfrannu'n rheolaidd at bresenoldeb y Cynulliad ar y rhwydweithiau cymdeithasol, ac mae eu hadroddiadau'n arwain at sylw prif ffrwd yn rheolaidd. Drwy fy nghyfarfodydd â Chadeiryddion pwyllgorau, rwyf wedi sicrhau eu cytundeb y bydd pwyllgorau'n datblygu barn pobl ifanc yn eu holl waith.

Mae gan y cyfryngau rôl hanfodol wrth sicrhau bod gwaith y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru yn destun craffu ac adrodd priodol. Mae sefydliadau'r cyfryngau yn y DU yn cael trafferth gyda datganoli ac nid ydynt bob amser yn adrodd ar wahaniaethau polisi sylfaenol mewn polisi cyhoeddus rhwng Cymru a Lloegr. Er enghraifft, mewn rhai meysydd datganoledig, megis iechyd ac addysg, mae'r cyfryngau'n cyfeirio at y cyd-destun Seisnig yn unig; nid ydynt byth yn cyfeirio at y cyd-destun Cymreig. Felly, mae'n bwysig eu bod yn cyflwyno adroddiadau perthnasol i gynulleidfaeodd yng Nghymru. Rwyf wedi bod yn cyfeirio at hyn fel y diffyg democrataidd ac rwyf wedi bod yn ymgyrchu o blaid newid.



The peripheral media coverage of Wales's place in the post-Scottish-referendum constitutional discussion clearly demonstrates that we have a long way to go. Until the UK media gets to grips with devolution and reports on our policy differences, it is going to be very difficult to engage the Welsh electorate. I will continue to seek opportunities to challenge this, so that, over time, hopefully, this democratic deficit will be redressed. In the meantime, to fill the gap that this leaves, digital online engagement is firmly at the centre of the Commission's communications strategy. This allows us to reach audiences directly, while at the same time providing digital content for other media channels, including local and community platforms. In this way we can reach out to as wide an audience as possible across Wales.

Although I believe that we have made significant progress in our efforts to engage more fully with the people of Wales and to find new voices to contribute to the work of the Assembly, there is obviously very much more to be done. As the organisation that represents the interests of Wales and its people and makes laws for Wales and holds the Welsh Government to account, it is imperative that we put the people of Wales at the centre of everything we do. We need to adapt to changes in the way that they want to communicate with us.

Our next election will be in 2016. That year will also be the tenth anniversary of the Senedd. This building is increasingly recognised as the heart of democracy in Wales. The anniversary will be an opportunity to remind people of why the Senedd matters.

I hope that we are on the brink of seeing more history made here in the Senedd, with positive repercussions right across Wales. I reaffirm my commitment today to continue to work to ensure that constitutional change goes hand in hand with an approach characterised by listening, reaching out and engaging the people of Wales in the Assembly's work. This should be a priority not only for me as Presiding Officer or for the Commission, but for all Assembly Members as part of their daily work. We must ensure that the voices of the people we represent are heard loud and clear in the Chamber, so that they are left in no doubt that the work we do here really matters to them. We must all play our part in making sure that, in May 2016, more people than ever in Wales decide to influence that work by choosing to exercise their democratic right to vote.

## **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. That brings today's proceedings to a close.

*Daeth y cyfarfod i ben am 17:49.*

Mae ymdriniaeth ymylol y cyfryngau o sefyllfa Cymru yn ystod y drafodaeth ar y cyfansoddiad yn dilyn refferendwm yr Alban yn dangos yn glir bod gennym ffordd bell i fynd. Hyd nes y bydd y cyfryngau yn y DU yn mynd i'r afael â datganoli ac yn adrodd ar ein gwahaniaethau polisi, mae'n mynd i fod yn anodd iawn ymgysylltu ag etholwyr Cymru. Byddaf yn parhau i chwilio am gyfleoedd i herio hyn, er mwyn sicrhau, dros amser, gobeithio, y bydd y diffyg democrataidd hwn yn cael ei unioni. Yn y cyfamser, i lenwi'r bwlch y mae hyn yn ei adael, mae ymgysylltu digidol ar-lein yn ganolog i strategaeth gyfathrebu'r Comisiwn. Mae hyn yn ein galluogi i gyrraedd cynulleidfaoedd yn uniongyrchol, ac ar yr un pryd ddarparu cynnwys digidol ar gyfer sianeli cyfryngau eraill, gan gynnwys platfformau lleol a chymunedol. Drwy wneud hyn, gallwn estyn allan i gynulleidfa mor eang â phosibl ledled Cymru.

Er fy mod yn credu ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ein hymdrechion i ymgysylltu'n llawnach â phobl Cymru a dod o hyd i leisiau newydd i gyfrannu at waith y Cynulliad, mae'n amlwg bod llawer mwy i'w wneud. Fel y sefydliad sy'n cynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, sy'n deddfu ar gyfer Cymru ac sy'n dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif, mae'n hanfodol ein bod yn rhoi pobl Cymru wrth wraidd popeth a wnawn. Mae angen i ni addasu i newidiadau o ran sut y maent am gyfathrebu â ni.

Bydd ein hetholiad nesaf yn 2016. Bydd y flwyddyn honno hefyd yn ddegfed pen-blwydd y Senedd. Mae'r adeilad hwn yn cael ei gydnabod fwyfwy fel calon democratiaeth yng Nghymru. Bydd y pen-blwydd yn gyfle i atgoffa pobl o pam y mae'r Senedd yn bwysig.

Rwy'n gobeithio ein bod ar fin gweld mwy o hanes yn cael ei greu yma yn y Senedd, gydag ôl-ffeithiau cadarnhaol ledled Cymru gyfan. Rwy'n ailddatgan fy ymrwymiad heddiw i barhau i weithio i sicrhau bod newid cyfansoddiadol yn mynd law yn llaw â dull sy'n cael ei nodweddu gan wrando, ymestyn allan a chynnwys pobl Cymru yng ngwaith y Cynulliad. Dylai hyn fod yn flaenoriaeth nid yn unig i mi fel Llywydd neu i'r Comisiwn, ond i holl Aelodau'r Cynulliad fel rhan o'u gwaith bob dydd. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod lleisiau'r bobl rydym yn eu cynrychioli yn cael eu dlywed yn uchel ac yn glir yn y Siambr, fel nad oes ganddynt unrhyw amheuaeth bod y gwaith rydym yn ei wneud yma yn bwysig iddynt. Mae'n rhaid i ni i gyd helpu i sicrhau, ym mis Mai 2016, bod mwy o bobl nag erioed o'r blaen yng Nghymru yn penderfynu dylanwadu ar y gwaith hwnnw drwy ddewis arfer eu hawl ddemocrataidd i bleidleisio.

Diolch. Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

*The meeting ended at 17:49*